

Dysgu Cymraeg i Fewnfudwyr: **Llunio Llwybr at Ddinasyddiaeth Gynhwysol Gymreig**

Traethawd a gyflwynir i fodloni'n rhannol ofynion gradd
Philosophiæ Doctor Prifysgol Caerdydd

2016

Gwennan Elin Higham

Crynodeb

Mewnfudo, dinasyddiaeth a dysgu iaith: mae'r ddoethuriaeth yn dod â'r tair thema hon ynghyd—themâu sydd yn esgor ar ddadleuon parhaus yn sgil tueddiadau mewnfudo cynyddol mewn cenedl-wladwriaethau democrataidd. Mae'r prosiect ymchwil amlddisgyblaethol yn gyntaf yn cymhwyso damcaniaethau cyfoes ar integreiddio, megis amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd, i achos Cymru ac yn benodol ei sefyllfa ddwyieithog neilltuol. Yn hyn o beth, mae'r ddoethuriaeth yn cymharu ac yn gwrthgyferbynnu modelau o gymhwyso amrywiaeth a dinasyddiaeth er mwyn sefydlu model ffafriol ar gyfer cyd-destun y Gymraeg. Defnyddir Québec fel astudiaeth arbrofol ar gyfer yr ymchwil, drwy ddarparu modelau methodolegol ond hefyd drwy astudio ymarfer da mewn integreiddio mewnfudwyr drwy'r rhaglen *francisation*. Yn ail, yn sgil gwaith ethnograffig yn Québec ac yna yng Nghymru, mae'r ymchwil yn mynd i'r afael â'r berthynas rhwng dysgu Cymraeg a datblygu cysyniad o 'ddinasyddiaeth' a chydlyniant cymunedol ar y lefel leol, sydd yn wahanol i'w ddiffiniad swyddogol gan Lywodraeth y DG. Yn drydydd, ar sail cyfweiliadau â swyddogion Llywodraethol, tiwtoriaid iaith a mewnfudwyr grwpiau ffocws ac arsylwadau cyfranogol mewn dosbarthiadau iaith, mae'r ddoethuriaeth yn gwneud casgliadau ynghylch y cyfleoedd a'r rhwystrau i ddatblygu prosiect dinasyddiaeth sydd yn cynnwys ac yn hyrwyddo dysgu Cymraeg i fewnfudwyr, ac o ganlyniad i holl ddinasyddion Cymru.

Immigration, citizenship and language learning: this PhD brings together these three topics—topics which raise enduring debate in light of increasing migration trends in democratic nation states. This multidisciplinary research project firstly applies current theories on integration such as multiculturalism and interculturalism to the case of Wales, namely its specific bilingual context. This thesis compares and contrasts models of citizenship and diversity accommodation in order to establish a favourable model for the Welsh context. Québec is used as an exploratory case of research, not only in supplying methodological models but also in investigating good practice in immigrant integration via francization classes. Secondly, by means of ethnographic fieldwork carried out first in Québec and then in Wales, the research enquires into the relationship between learning Welsh and establishing more localized conceptions of citizenship and community cohesion, distinct from its official definitions by the UK Government. Thirdly, based on interviews, focus groups and participant observation data with government officials,

language tutors and immigrants students, the thesis sets out conclusions regarding opportunities and challenges to developing a citizenship project which includes and facilitates the learning and teaching of the Welsh language to immigrants, and consequently to all citizens of Wales.

Immigration, citoyenneté, et apprentissage d'une langue: cette thèse rassemble les trois questions—des questions largement contestées qui résultant des tendances croissantes d'immigration dans les Etats-nations démocratiques. En premier lieu, ce projet de recherche multidisciplinaire applique des théories actuelles sur l'intégration comme le multiculturalisme et l'interculturalisme pour le cas du Pays de Galles, c'est-à-dire sa position bilingue particulière. Ainsi, cette thèse compare et contraste des modèles de la citoyenneté et l'accommodation de la diversité afin qu'elle établisse un modèle favorable pour le contexte gallois. Le Québec est employé comme étude exploratoire, non seulement en fournissant des cadres méthodologiques, mais aussi de bonne pratique en matière d'intégration des immigrants à travers le programme de francisation. En deuxième lieu, à travers d'un travail de terrain ethnographique au Québec suivi par le Pays de Galles, la recherche analyse la relation entre l'apprentissage du gallois et une conception locale de la citoyenneté et la cohésion sociale, qui est distincte de sa définition officielle par le gouvernement britannique. Finalement, tirées des entretiens, des groupes de discussions et des observations participatives parmi des officiers du gouvernement, des enseignants de langues, des étudiants immigrants, la thèse propose des conclusions en ce qui concerne les opportunités et les obstacles d'avancer un projet de citoyenneté qui comprend et qui facilite l'apprentissage du gallois aux immigrants, et par conséquent, à tous les citoyens du Pays de Galles.

Datganiad

Ni chafodd y gwaith hwn ei gyflwyno'n sylweddol ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall yn y brifysgol hon neu unrhyw brifysgol neu fan dysgu arall, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 1

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion gradd PhD.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 2

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ngwaith/ymchwiliad annibynnol fy hun, oni ddywedir fel arall.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan gyfeiriadau eglur. Fy syniadau i yw'r syniadau a fynegir.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 3

Rhoddaf fy nghaniatâd drwy hyn i'm traethawd, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar-lein yn ystorfa Mynediad Agored y Brifysgol ac ar gyfer benthycia rhwng llyfrgelloedd, ac i'r teitl a chrynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

Rhagair

Anodd yw olrhain dechreuadau'r ymchwil a'r bobl oll a gyfrannodd at ei ddatblygiad: taith bywyd sydd wedi llywio'r daith ymchwil hwn.

Yn sicr, roedd fy mhenodiad cyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd yn Weinyddwr ac yna yn Diwtor a Swyddog Ehangu Cyfranogiad Cymraeg i Oedolion wedi esgor ar fy llwybr ymchwil cyfredol. Diolchaf i Dr Rachel Heath-Davies a holl gydweithwyr Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg am eu hymrwymiad a'u hangerdd dros y Gymraeg (er gwaethaf toriadau a newidiadau i'r ddarpariaeth). Diolchaf hefyd i'r cysylltiadau allweddol a wnaed â Chyfarwyddwyr ESOL Caerdydd, Helen Adams a Catherine Walsh, a nifer fawr o diwtoriaid ESOL dros Gymru sydd wedi rhoi mewnwleidiad cwbl hanfodol i'r anghydraddoldebau ieithyddol sydd yng Nghymru a Phrydain heddiw. Yn sgil hyn, gwnaed cysylltiadau dylanwadol a phrosiect ESOL Nexus y Cyngor Prydeinig a diolchaf i Dot Powell am ei chymorth arbennig ac wrth gwrs i'r AHRC a ddyfarnodd ysgoloriaeth imi er mwyn gallu cwblhau'r ddoethuriaeth hon. Diolchaf hefyd i BAAL-CUP a COST am ddyfarnu cyllid i gynnal seminarau ymchwil yng Nghaeredin a Chaerdydd er mwyn datblygu ac ehangu gorwelion fy maes ymchwil.

Ni ragwelais mewn gwirionedd y byddai prosiect ar iaith leiafrifol yn agor drysau i gynifer o gyfleoedd academiaidd rhyngwladol. Diolchaf yn benodol am yr anrhydedd mawr o gael treulio cyfnod ymchwil cyfoethog ac anturus ym Montreal, Québec drwy ysgoloriaeth y *Conseil supérieur de la langue française*. Diolchaf i'r holl staff academiaidd a chefnogol y Ganolfan CEETUM, Prifysgol Montreal, yn benodol i Dr Patricia Lamarre, yr Athro Michel Pagé, Dr Michèle Vatz-Laaroussi, Robert Vézina, Catherine Levasseur, yr Athro Linda Cardinal ym Mhrifysgol Ottawa ac i'r holl gyfranogwyr ymchwil a'm ffrindiau yno. Yn ogystal â hyn, diolchaf i'r Athro. Bernie O' Rourke a holl gyfranogwyr rhwydwaith COST

New Speakers sydd wedi caniatáu imi gyhoeddi, cydweithio a chyflwyno fy ymchwil yn Sbaen, y Ffindir, yr Almaen a'r tu hwnt. Yn agosach at adre, rwyf hefyd yn ddiolchgar i Goleg Sabhal Mòr Ostaig ac ymchwilwyr ar Aeleg yr Alban sydd wedi cefnogi fy nhaith academaidd a'm taith ieithyddol gyda'r Aeleg—*Mòran Taing*.

Yn ôl yng Nghymru, hoffwn estyn diolch mawr o'r galon i'r Athro Sioned Davies a holl staff a myfyrwyr Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, sydd wedi estyn eu cefnogaeth ataf ac am gredu yn fy mhrosiect. Rwy'n ddiolchgar iawn am gymuned o fyfyrwyr ymchwil brwd, galluog a chynnes o'm cwmpas. Rhaid estyn diolchiadau penodol i'm cyfarwyddwyr ymchwil, yr Athro Diarmait Mac Giolla Chríost am reoli a thywys fy nhaith gysyniadol mor effeithlon ac am ei gymorth cyson ac i Dr Jeremy Evas am ei frwdfrydedd, ei barodrwydd i helpu a'i lygaid at fanylder. Hefyd, diolchaf i'r Athro Colin H. Williams sydd wedi bod yn ffigur dylanwadol ar hyd y blynyddoedd. Diolchaf hefyd i Dr Huw Williams am ei gymorth deallusol, Dr Leigh Oakes am ysgogi fy niddordeb yn Québec, ac i'r Athro Stephen May am gadarnhau fy newis i ysgrifennu'r traethawd yn y Gymraeg. Mae fy niolchgarwch hefyd yn ddyledus i Dr Simon Brooks, cyn-oruchwyliwr y PhD sydd yn parhau i fod yn gymorth, cynghorwr ac yn ysbrydolaeth hyd heddiw (ac yn y dyfodol, mae'n siŵr).

Down yn ôl felly at y dechreuadau, gan gynnwys dylanwad fy ngradd MA ym Mhrifysgol Queen Mary, Llundain, yn arbennig fy nhraethawd estynedig ar y ffodures Almaenig-Iddewig a ddaeth yn awdures Gymraeg—Kate Bosse-Griffiths. Yn hyn o beth, gwelais debygrwydd rhwng Kate a'm mam—mewnfudwraig o Ucheldiroedd yr Alban i Gymru a ddysgodd Cymraeg a ddaeth yn athrawes Ffrangeg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ei stori hi a'm magwraeth amlieithog fel wyres a merch gweinidogion capeli amlddiwylliannol Caerdydd sydd hefyd wrth y llyw. Diolchaf i'm Tad, Mam, Taid, Gu a'r teulu cyfan am eu cadernid a'u sêl, ac yn olaf ond nid yn lleiaf i'm Duw, y darparwr a'r llywiwr pennaf oll.

Rhestr o Dermau ac Acronymau

adlach amlddiwylliannedd	multicultural backlash
allgyrchol	centrifugal
alloffon	<i>allophone</i> (siaradwr iaith nad yw'n Saesneg neu Ffrangeg hy ieithoedd swyddogol)
amddiffynfeydd allanol	external restrictions
amlgenedlaetholdeb	multinationalism
amrywiaeth gyfunol	communal diversity
amrywiaeth is-ddiwylliannol	subcultural diversity
amrywiaeth safbwyntiol	perspectival diversity
anghyfreithloni	de-legitimize
angloffon	<i>anglophone</i> (siaradwr Saesneg)
arferion disgwrs	discourse practices
arwahanrwydd	separation
canolgyrchol	centripetal
cenedl-wladwriaeth	nation-state
CiO	Cymraeg i Oedolion
CSDM	<i>Comission scolaire de Montréal</i> (Cyngor Addysg Montreal)
CSLF	<i>Conseil supérieur de la langue française</i> (Bwrdd yr Iaith Ffrangeg yn Québec)
cydgyfeiriol	convergent
cydlyniant cymdeithasol	social cohesion
cydlyniant cymunedol	community cohesion (term swyddogol Llywodraeth y DG yn dilyn ymchwil Ted Cattle)
cydnabyddiaeth cyfartal	equal recognition (term a fathwyd gan Alan Patten)
cyfunolaidd	collectivist
cyfyngiadau mewnol	internal restrictions
cymathiad	assimilation
cymunedau arwahanol	segregated communities
cymunedoliaeth	communitarianism
cymwysïadau	accommodations (cysylltir â'r argyfwng integreiddio yn Québec o'r enw'r <i>crise d'accommodement</i>)
cymysgrywiaeth	hybridity
deu-ddiwyllianrwydd	bi-culturalism
DG	y Deyrnas Gyfunol
dinasyddiaeth gyffredin	common citizenship
dinasyddiaeth wahaniaethol	differentiated citizenship
dinayddiaeth fyd-eang	global citizenship
dull cyfranogol	participative approach

ESOL	English for Speakers of Other Languages
ethnoganolog	ethnocentric
francoffon	francophone (siaradwr Ffrangeg)
Gastarbeiter	ymwelwyr gwadd (term Almaeneg a fathwyd er mwyn disgrifio'r mewnfudwyr a ddaeth i'r Almaen yn y 60au a'r 70au)
grwpiau cynhenid	indigenous groups
gwaharddiad	marginalisation
gwleidyddiaeth hunaniaeth	identity politics
hawliau unigolyddol	individual rights
is-wladwriaeth	sub-state nation
is-wladwriaethol	sub-state nation (adj)
laïcité	cymdeithas seciwlar
<i>langue identitaire</i>	iaith hunaniaeth
<i>langue publique commune</i>	iaith gyffredin gyhoeddus
Leitkultur	diwylliant arweiniol
lluosogrwydd	pluralism
MAI	<i>modèle d'acculturation interactif</i> (Interactive Acculturation Model (IAM) yn Saesneg)
MICC	<i>Ministère d'immigration et des communautés culturelles</i>
MIDI	<i>Ministère de l'immigration, la diversité et la inclusion</i>
mosäig diwylliannol	cultural mosaic (term sydd yn labeli amlddiwylliannedd)
neilltuoldeb ethnig	ethnic particularity
ôl-amldiwylliannol	post-multicultural
ôl-genedlaetholdeb	post-nationalism
perthynolaeth ddiwylliannol	cultural relativism
rhyddfrydwyr diwylliannol	cultural liberals
rhyngddiwylliannedd	interculturalism
tawddlestr diwylliannol	cultural melting pot (term sydd yn diffinio cymathiad diwylliannol)
term mantell	umbrella term
<i>trajectoire langagière</i>	taith ieithyddol (model methodolegol a ddefnyddiwyd sydd yn hanu o Québec)
unigoliaeth	individualism; individuality
uwch-amrywiaeth	superdiversity
uwch-amrywiol	superdiverse
ymaddasu diwylliannol	acculturation
ymwahaniad	separation
ymwahanu	separation; separated
ymyleiddio	marginalisation

Cynnwys

Crynodeb.....	iii
Datganiad	v
Rhagair	vii
Rhestr o Dermau ac Acronymau.....	x
Cynnwys.....	xiii
Ffigurau.....	xvi
Cyflwyniad	1
Pennod 1: MOSÄIG, TAWDDLESTR AC IAITH	5
1.1. MOSÄIG DIWYLLIANNOL: DEALL EIN GWAHANIAETH?.....	6
1.1.1. Diwylliant ac iaith	6
1.1.2. Iaith, Diwylliant a'r Genedl—'Ein Staat, ein Volk, eine Sprache'	9
1.1.3. Ambarél Amlddiwylliannedd.....	13
1.1.4. Agenda Amlddiwylliannedd Rhyddfrydol	15
1.1.5. Dinasyddiaeth Amlddiwylliannol	16
1.1.6. Amlddiwylliannedd ar Waith: Canada.....	19
1.2. Y TAWDDLESTR DIWYLLIANNOL: DEALL EIN GILYDD?	22
1.2.1. Adlach Amlddiwylliannedd	23
1.2.2. Amlddiwylliannedd Prydeinig: Wyneb Dynol ar Hen Farbariaeth?.....	26
1.2.3. Tuag at Ryngddiwylliannedd Prydeinig	30
1.2.4. Rhyngddiwylliannedd Québec.....	35
1.3. IAITH LEIAFRIFOL: YR HAWL I OROESI	44
1.3.1. Iaith: Ethnig ynteu Sifig?	45
1.3.2. Iaith: Ymlyniad Offerynnol ynteu Integreiddiol?	51
1.3.3. Mewnfudo: Bygythiad ynteu Gyfoethogiad?.....	53
1.3.4. Casgliad: Tuag at Ddinasyddiaeth (Aml-Rhyng)Ddiwylliannol?	56
Pennod 2: ÔL-GENEDLAETHOLDEB, AMLGENEDLAETHOLDEB AC IAITH. 57	57
2.1. Y DINESYDD A DINASYDDIAETH.....	58
2.2. Y DINESYDD PRYDEINIG.....	65
2.2.1. Dinasyddiaeth Genedlaethol	65
2.2.2. Dinasyddiaeth Ôl-Genedlaethol.....	71
2.3. Y DINESYDD CYMREIG.....	74
2.3.1. Cydlyniant Cymdeithasol.....	74
2.3.2. Polisi iaith yng Nghymru	78
2.3.3. Cymharu Polisiau Integreiddio: San Steffan a Bae Caerdydd	83
2.3.4. Addysg Dinasyddiaeth	84
2.4. Y DINESYDD, DWYIEITHRWYDD A'R GYMUNED	87
2.4.1. Integreiddio Dysgwyr Cymraeg i'r Gymuned	91
2.4.2. Casgliad	94
Pennod 3: METHODOLEG	97
3.1. CEFNDIR	97
3.1.1. Dewis Québec.....	98
3.1.2. Model MAI	101
3.1.3. Trajectoire Langagière.....	103
3.2. DULLIAU YMCHWIL	105
3.2.1. Arsylwi Cyfranogol gydag Efen o Ymchwil Weithredu	105
3.2.2. Grwpiau Ffocws.....	110
3.2.3. Cyfweliadau Lled-strwythuredig.....	112

3.3. QUEBEC	113
3.3.1. Cyd-destun y Gwaith Maes yn Québec	113
3.3.2. Methodoleg y Gwaith Maes	114
3.3.3. Llunio a Chynnal y Gwaith Maes.....	115
3.3.4. Llywodraeth Québec.....	115
3.3.5. Tiwtoriaid Ffrangeg fel Ail Iaith	115
3.3.6. Myfyrwyr Ffrangeg fel Ail Iaith.....	116
3.3.7. Casgliadau'r Gwaith Maes yn Québec	116
3.4. CYMRU	117
3.4.1. Cyd-destun Gwaith Maes Cymru.....	117
3.4.2. Maes Cymraeg i Oedolion.....	117
3.4.3. Dewis y Grwpiau Ymchwil.....	118
3.4.4. Myfyrwyr ESOL ar Gyrsiau CiO	118
3.4.5. Myfyrwyr CiO.....	119
3.4.6. Myfyrwyr ESOL	119
3.4.7. Tiwtoriaid CiO	119
3.4.8. Tiwtoriaid ESOL	120
3.4.9. Swyddogion Llywodraethol.....	120
3.4.10. Casgliadau	120
Pennod 4: CANLYNIADAU QUÉBEC	122
4.1. CYFLWYNIAD	122
4.1.1. CYD-DESTUN	123
4.2. CYMHWYSO AMRYWIAETH: QUÉBEC	126
4.2.1. Pontio Cydlyniant Cymdeithasol â Rhyngddiwyllyannedd	126
4.3. YMAGWEDDAU GRŴP: QUÉBEC	134
4.3.1. Llywodraeth Québec.....	134
4.3.2. Tiwtoriaid <i>Francisation</i>	138
4.3.3. Myfyrwyr <i>Francisation</i>	144
4.3.4. O'r Dosbarth <i>Francisation</i> i'r Gymuned	146
4.4. CASGLIAD: ADEILADU AR RYNGDIWYLLIANNEDD QUÉBEC	154
Pennod 5: CANLYNIADAU CYMRU	157
5.1. CYMHWYSO AMRYWIAETH: CYMRU	157
5.1.1. O Amlddiwyllyannedd i Ryngddiwyllyannedd: Polisi Llywodraeth Cymru	157
5.1.2. Polisi a Darpariaeth Iaith i Oedolion yng Nghymru.....	166
5.1.3. Rhyngddiwyllyannedd Cynhwysfawr: Gwahaniaethu neu Uno Prosiectau Cymru a Québec?	171
5.2. YMAGWEDDAU GRŴP: CYMRU	175
5.2.1. Llywodraeth Cymru a Chynghorau Lleol	175
5.2.2. Canolfan ESOL	180
5.2.3. Canolfan Cymraeg i Oedolion	185
5.2.4. Mewnfudwyr	189
5.2.5. <i>Y modèle d'acculturation interactif</i> : Cydberthynas Ymagwedddau Cymru	196
5.3. Y DOSBARTH 'DINASYDDIAETH'	198
5.3.1. Ymatebion y Myfyrwyr i'r Dosbarth 'Dinasyddiaeth'	199
5.3.2. Ymatebion y Tiwtoriaid i'r Dosbarth 'Dinasyddiaeth'	202
5.3.3. Iaith Darged yn y Dosbarth 'Dinasyddiaeth'	206
5.3.4. O'r Dosbarth 'Dinasyddiaeth' i'r Gymuned.....	210
5.3.5. Y Gymuned Groeso	213
5.3.6. <i>Y trajectoire langagière</i> a'r Dosbarth 'Dinasyddiaeth'	218

5.4. CASGLIAD: RHWYSTRAU A CHYFLEOEDD DYSGU CYMRAEG I FEWNFUDWYR.....	223
5.4.1. Rhwystrau a Chyfleoedd Dewis Dull o Gymhwyso Amrywiaeth yng Nghymru 223	
5.4.2. Rhwystrau a Chyfleoedd Sefydlu Dosbarthiadau Dinasyddiaeth er mwyn Hwyluso Cydlyniant.....	228
Pennod 6: CASGLIADAU—DIFFINIO DINASYDDIAETH GYNHWYSOL GYMREIG	234
6.1. Tu Hwnt i Amlddiwylliannedd a Rhyngddiwylliannedd	234
6.2. Model Unigol ac Unigryw i Gymru?	236
6.3. Darparu Dosbarthiadau Dinasyddiaeth i Fewnfudwyr.....	240
6.4. Tu Hwnt i Gloriau'r Gwaith Ymchwil	245
LLYFRYDDIAETH.....	248
ATODIADAU	265
Atodiad 1: Tabl Cyfweliadau.....	265
Atodiad 2: Ffurflen Gwerthuso Dysgu.....	267

Ffigurau

Ffigur 1—Egwyddorion Rhyngddiwylliannedd	38
Ffigur 2—Cymhariaeth rhwng Sefyllfa Sosioieithyddol Québec a Chymru	99
Ffigur 3—modèle d'acculturation interactif (MAI)	102
Ffigur 4—trajectoire langagière	104
Ffigur 5—Themâu Ymchwil.....	108
Ffigur 6—Arsylwadau Cyfranogol ac Ymchwil Weithredu.....	109
Ffigur 7—Cwestiynau'r Grwpiau Ffocws.....	111
Ffigur 8—Cyfranogwyr y Grwpiau Ffocws.....	111
Ffigur 9—Cyfranogwyr Ymchwil	118
Ffigur 10—Model o Bolisi Cynhwysfawr Rhyngddiwylliannedd.....	174

Cyflwyniad

Mae mewnfudo ar gynnydd yn Ewrop, ym Mhrydain ac yng Nghymru. Ysgrifennwyd y traethawd hwn yn ystod cyfnod o drafod a dadlau ffyrnig ynghylch rheolau mewnfudo ar lefel y wladwriaeth Brydeinig a'r Undeb Ewropeaidd. Ar y naill law, gwelir diddordeb cynyddol mewn dulliau integreiddio ac amodau dinasyddiaeth Brydeinig ar gyfer newydd-ddyfodiaid, boed yn fudwr neu'n ffoadur. Ar y llaw arall, ceir sylw cynyddol i'r drafodaeth ynghylch mwy o bwerau datganoli i Gymru yn sgil refferendwm yr Alban yn 2014. Gyda'r ffactorau hyn yn y fantol, daw dinasyddiaeth is-wladwriaethol yn gynyddol bwysig i ddyfodol y gwledydd datganoledig. Yn y cyswllt hwn, geilw'r damcaniaethwr Wil Kymlicka am ail-ddiffinio natur dinasyddiaeth genedlaethol Brydeinig er mwyn iddo fod yn decach ac yn fwy effeithiol i'r is-wladwriaethau a'r mewnfuldwyr ynghyd (2011c).

Yn y Gymru ddatganoledig, datgela Cyfrifiad 2011 bod 27% o boblogaeth Cymru wedi eu geni y tu hwnt i Glawdd Offa (H. Jones 2015). Mae cwmp yn y nifer o siaradwyr Cymraeg o 21% yn ôl Cyfrifiad 2001 i 19% yn 2011 yn cyd-fynd â thwf mewnfudo i Gymru. Mewnfuldwyr mewnol, o Loegr, ydynt yn bennaf. Nid y rhain y sonnir amdanynt yn yr ymchwil hwn. Yn yr un modd ag y mae rhaid diffinio gwahaniaethau rhwng ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr economaidd, rhaid hefyd ddiffinio'r term 'mewnfuldwyr' yn y Gymraeg. Er y cysylltir mewnfudo yn yr iaith Gymraeg yn bennaf â siaradwyr Saesneg o Loegr, ymdrina'r ymchwil hwn â mewnfudo o'r tu allan i'r DG; y rheini nad ydynt â'r Saesneg fel mamiaith ac sydd yn ceisio creu bywydau newydd ym Mhrydain, ac yng Nghymru yn benodol.

Mae cyfradd mewnfudo o'r tu allan i'r DG wedi codi'n flynyddol o 481,000 yn 2001 i 617,000 yn 2015 (ONS 2016; Migration Observatory 2015). Adlewyrcha hyn duedd gynyddol mewn gwladwriaethau democrataidd eraill megis yr Almaen a Ffrainc.¹ Er bod cyfradd mewnfudo o'r tu allan i'r DG yn llai yng Nghymru o'i chymharu ag ardaloedd dinesig Lloegr, mae niferoedd mewnfudo o'r tu allan i'r DG wedi cynyddu yng Nghymru bob blwyddyn o 101,000 yn 2004 i 180,000 yn 2011 (Statiaith 2015). Mae'r cynnydd cyson hwn o'r tu allan a'r tu mewn i'r DG yn golygu bod goblygiadau amlwg ar hyfywedd y Gymraeg.

Fodd bynnag, er gwaethaf hanes hir mewnfudo yng Nghymru, nid yw mewnfudo a dysgu Cymraeg yn efelychu'r dadleuon am integreiddio ochr draw i'r ffin yn Lloegr, nac ochr draw i'r Sianel yn Ffrainc na'r Almaen. Yn wir, tra bo cenedlaetholdeb Seisnig ar gynydd, codir dadleuon ers datganoli yn 1999 am gynhwysedd cenedligrwydd Cymreig a'r Gymraeg yn sgil honiadau am y newid o genedlaetholdeb ethnig i genedlaetholdeb sifig (Brooks 2009a). Serch y galw ymysg rhai am ymddihatru oddi wrth yr iaith 'ethnig' er mwyn mabwysiadu hunaniaeth ddinesig 'gynhwysol', bwriad y traethawd hwn yw archwilio perthynas rhwng dysgu Cymraeg i fewnfudwyr a datblygu cysyniad o ddinasyddiaeth Gymreig gynhwysol ag iddi wedd wahanol i ddinasyddiaeth gyfreithiol Brydeinig.

Mae'r ymchwil felly yn cysylltu'r tair thema ganlynol: iaith, mewnfudo a dinasyddiaeth. Y mae i'r ymchwil ddau brif ganfyddiad. Gwna gyfraniad academiaidd priodol i ddarganfod

¹ Yn ôl ystadegau'r Undeb Ewropeaidd, yr Almaen sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn ei chyfradd mewnfudo gyda'r ffigyrau uchaf o fewnfudo rhyngwladol (692,000 yn 2013) ac sydd yn derbyn y cyfradd uchaf o geiswyr lloches yn Ewrop (cyfanswm o 150,233 yn Ionawr 2016 (BAMF 2016)). Nesaf at yr Almaen a'r DG, mae Ffrainc yn derbyn y niferoedd mwyaf o fewnfudwyr (322,00 o fewnfudwyr rhyngwladol yn 2013). Roedd 12 005,700 (15%) o boblogaeth yr Almaen yn fewnfudwyr yn 2015, 784,400 (12%) o boblogaeth Ffrainc yn fewnfudwyr yn 2015. Mae hyn yn cymharu â 800,300 (13%) o boblogaeth Prydain sydd yn fewnfudwyr yn 2015 (Eurostat 2016; Migrant Observatory UK 2015).

model o gymhwyso amrywiaeth i Gymru ar y lefel *facro* drwy ymgymryd â dadleuon damcaniaethol a pholisi ar gymhwyso amrywiaeth. Gwna hyn drwy gymharu amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd, â'u gwreiddiau yng Nghanada a Québec a'u datblygiadau ym Mhrydain a Chymru. Mae'r ail gyfraniad yn ymwneud â gwaith empeiraidd yr ymchwil sydd yn mynd o dan wyneb y dadleuon academiaidd drwy gynnal gwaith maes ethnograffig ym maes addysg iaith oedolion. Yn y cyswllt hwn, canolbwyntir ar yr heriau, y gwrthdrawiadau a'r cyfleoedd sydd i'r cysyniad o ddarpariaeth Gymraeg i fewnfudwyr yng Nghymru. Drwy archwilio polisi ym maes mewnfudo ar y lefel *meso* a *meicro*, mae'r ymchwil yn dod i gasgliadau ynghylch sut y gellir ail-ddehongli dinasyddiaeth sydd yn gynhwysol, yn greadigol a hefyd yn Gymreig.

Cymru a'r Gymraeg yn amlwg yw canolbwynt yr ymchwil ond edrychir hefyd tu hwnt i Gymru am gymariaethau, modelau ac enghreifftiau o ymarfer da sydd yn gweu'r tri llinyn at ei gilydd mewn modd cynhwysol. Canada, ac yn benodol, Québec, yw un o'r cyferbwyntiau pennaf hyn. Trafodir canlyniadau ffrwyth ymchwil pedwar mis ar y rhaglen *francisation* ac integreiddio mewnfudwyr yn Québec, diolch i ysgoloriaeth a ddyfarnwyd gan yr *Association internationale des études québécoises* a'r *Conseil supérieur de la langue française au Québec* yn 2013. Rhydd hyn gysail i ymchwil ethnograffig gynhwysfawr a wnaed yng Nghymru at ddibenion yr ymchwil hwn.

Mae'r driniaeth amlhaenog ar ddysgu Cymraeg i fewnfudwyr yn cwmpasu dulliau ymchwil amrywiol yn y Gwyddorau Cymdeithasol. Am y rheswm hwn, mae'r testun wedi cadw'n ffyddlon at eiriau'r cyfranogwyr. Golyga hyn gadw dyfyniadau yn yr ieithoedd gwreiddiol (Ffrangeg, Almaeneg neu Saesneg) â chyfieithiadau Cymraeg yng nghorff y testun. Cyflwynir y dyfyniadau academiaidd gwreiddiol a dyfyniadau gwreiddiol y cyfweliadau nad ydynt yn Gymraeg yn y troednodiadau. Ar adegau cadwyd dyfyniadau

hir yn gyflawn er mwyn cyfleu ystyr ehangach a chefnidir perthnasol. Ar adegau eraill, detholwyd brawddeg neu ddwy allan o gyfweiliadau hwy sydd yn portreadu ymagweddau neu ymatebion unigolion. Wrth osod dyfyniadau'r cyfranogwyr wrth galon y gwaith, boed yn fewnfudwr, tiwtor neu lywodraethwr, clywir lleisiau unigol y bobl a'r bwriad yw mai hyn sydd yn arwain y drafodaeth at y casgliadau a'r argymhellion ar ddiwedd yr ymchwil.

Pennod 1: MOSÄIG, TAWDDLESTR AC IAITH

Ers dechrau'r 21ain ganrif, clywir bod Ewrop yn ymwrthod ag amlddiwylliannedd (Vertovec a Wessendorf 2010). Er bod polisiau amlddiwylliannol wedi bod yn ymarfer blaenllaw mewn gwladwriaethau ledled y byd ers y 70au, tybia arweinyddion nifer o wladwriaethau democrataidd fod egwyddorion amlddiwylliannedd yn gyfrifol am achosi twf ymwahaniad cenedlaethol, hybu cymunedau ar wahân ynghyd ag eithafiaeth radical. Ceir enghreifftiau enwog megis Prif Weinidog Prydain, David Cameron, yn datgan 'multiculturalism has failed' (BBC 2011) a Changhellor yr Almaen, Angela Merkel, yn cyhoeddi 'Multikulti ist tot' (Spiegel 2010). Tueddai gwleidyddion i osgoi'r term 'amlddiwylliannedd' drwy ddewis termau mwy niwtral fel 'amrywiaeth' gyda phwyslais ar 'integreiddio' a 'chydlyniant'. Er gwaethaf hyn oll, dadleuai carfan o ddamcaniaethwyr blaenllaw mai camddeall a chamddechongli natur amlddiwylliannedd yw'r prif achos am yr adlach ac ni welir ymwithiad cyfan gwbl i bolisiau amlddiwylliannedd. Mewn cyd-destun datganoledig, ac o wynebu natur uwch-amrywiol y DG (Vertovec 2007), ystyriwn ddechongliad Prydeinig o'r genedl-wladwriaeth ac ymdrech wleidyddol Llywodraeth y DG i sefydlu hunaniaeth ac iaith gyffredin. Heddiw mae gwneuthurwyr polisi Prydeinig a rhyngwladol yn ffafrio 'rhyngddiwylliannedd', model, yn nhyb sawl, sydd yn cynnig trydedd ffordd rhwng ymwahaniad a chymhathiad. Gyda golwg pellach ar rôl y Gymraeg a dinasyddiaeth yng Nghymru, bydd yn fuddiol felly i fanylu ar enghraifft rhyngddiwylliannedd yn Québec a'i gymharu â'i ffurf gyffelyb, neu hwyrach gwrthgyferbyniol, ym Mhrydain.

Y mae i'r bennod hon dair prif ran. Bwriad yr adran gyntaf yw mynd i'r afael â ffenomen amlddiwylliannedd a'i berthnasedd fel system wleidyddol ar gyfer lleiafrifoedd

cedlaethol a lleiafrifoedd mewnfudol, gan hefyd ystyried enghraifft Canada. Eir ymlaen wedyn i drafod gwrthwynebiad i'r dull hwn ynghyd â dulliau eraill o gymhwyso amrywiaeth yn yr unfed ganrif ar hugain. Yn y drydedd ran, archwilir swyddogaeth iaith leiafrifol yn y drafodaeth gan bwysu a mesur y dull gorau o gynnal amrywiaeth ieithyddol. Ai'r model amlddiwylliannol ynteu rhyngddiwylliannol sydd fwyaf ffafriol er mwyn cynnal y Gymraeg? Ai golwg newydd ar gymathiad yw rhyngddiwylliannedd ynteu datblygiad ar amlddiwylliannedd? Er mwyn gosod y cyd-destun hwn, diffinir seiliau amlddiwylliannedd—pam a sut datblygodd y ffenomen hon yn brif ddull cymhwyso amrywiaeth heddiw.

1.1. MOSÄIG DIWYLLIANNOL: DEALL EIN GWAHANIAETH?

1.1.1. Diwylliant ac iaith

Multiculturalism is not about difference and identity per se but about those that are embedded in and sustained by culture; that is, a body of beliefs and practices in terms of which a group understand themselves and the world and organize their individual and collective lives (Parekh 2000, t. 2).

Cyn mynd i'r afael â maes amlochrog ac amlhaenog amlddiwylliannedd, rhaid delio â gwreiddiau'r ffenomen hon. Awgryma Bhikhu Parekh (2000) fod ystyriaeth o gysyniad 'diwylliant' yn bwysig er mwyn deall amlddiwylliannedd. Yn wir, gan fod diwylliant yn cwmpasu meysydd eang, nid yw'n hawdd ei ddiffinio ychwaith. Mae Parekh yn cynnig diffiniad ethnograffig eang o berson fel aelod o grŵp yn mynegi ei hun a dehongli'r byd gan gynnwys gwybodaeth, credoau, moesoldeb, celfyddydau, traddodiadau ac arferion. Yn ei ddiffiniad *sans phrase*, mae diwylliant yn cwmpasu'r holl fywyd dynol. Ar lefel sylfaenol, adlewyrchir hyn trwy iaith. Mae cymdeithas sydd yn siarad iaith gyffredin yn rhannu nodweddion diwylliannol ac felly ffordd benodol o ddehongli'r byd: 'The culture of a society is also embedded in its proverbs, maxims, rituals, symbols, collective memories,

jokes, body language, modes of non-linguistic communication, customs, traditions, institutions and manners of greeting' (Parekh 2000, t.143). Noder nad oes cymdeithas heb ddiwylliant na diwylliant heb gysylltiad â chymdeithas benodol. Serch hynny, mae gan y geiriau eu swyddogaethau gwahanol gan fod cymdeithas yn disgrifio grŵp o fodau dynol a strwythur eu perthynas tra bo diwylliant yn nodweddu cynnwys, egwyddorion ac arwyddocâd y berthynas hon (Parekh 2000 tt.142-158).

Yn yr un modd ag y ceir iaith gyffredin mewn cymdeithas, ceir hefyd ddiwylliant cyffredin sydd yn uno o dan ffactorau amrywiol, boed yn iaith, ethnigrwydd neu grefydd. Er gwaetha'r llinynnau ethnig a all fod ynghlwm wrth ddiwylliant, nid yw diwylliant yn gyfystyr ag ethnigrwydd ac nid yw'n cyfeirio at ddiwylliant cynhenid. Gall diwylliant ymddihatu oddi wrth ei wreiddiau ethnig trwy fudo, ffafriaeth at ddiwylliant arall, neu drwy orfodaeth. Ar y llaw arall, nid yw bodau dynol yn gallu trosgynnu diwylliant heb unrhyw sgil-ffaith arnynt. Dywed Parekh fod diwylliant yn gwreiddio, strwythuro ac yn gyfeirbwynt i'n bywydau er, yn wir, gellir ei feirniadu ac esgyn uwchlaw i raddau. Yn y byd ôl-fodern, dadleua theori cymysgrywiaeth fod person yn goresgyn 'gwreiddiau' ac yn bodoli mewn gwagle, ar y trothwy rhwng y diwylliannau. Felly, yn yr un modd ag y ceir hunaniaeth doredig, noda Parekh (2000) nad oes y fath beth â diwylliant unffurf gan fod nifer o haenau gwrthgyferbyniol iddo. Rhwng y diwylliant lleiafrifol a mwyafrifol, ceir, fel y disgrifia Raymond Williams, 'residual strands of thought' lle mae'r atgofion hanesyddol neu nodweddion gwrthgyferbyniol yn bodoli tu fewn i ddiwylliant dominyddol: 'those semi-articulated bodies of thought that arise out of the dissatisfaction with the dominant culture and are currently confined to a small group' (R. Williams 1980, t.10). Fodd bynnag, mae diwylliant i raddau helaeth yn pennu rheolau a threfn, yn dewis a dethol yr amodau, ac i raddau hefyd yn gofyn am gymathiad.

Law-yn-llaw â globaleiddio a mewnfudo, fe ddaw amrywiaeth ddiwylliannol yn realiti fwyfwy amlwg ar bob ochr o'r sbectrwm diwylliannol a chymdeithasol. Defnyddir y disgrifiad 'uwch-amrywiaeth' (Vertovec 2007) i gyfleu math o amrywiaeth nas gwelwyd erioed o'r blaen mewn hanes cymdeithas. Yn ei sgil, daw â nifer o heriau i gymdeithas. Cyfeiria Bullivant (1981) at y 'pluralist dilemma' i ddisgrifio heriau integreiddio cenedlaethol; ar y naill law, mae ymgais i hybu cydlyniant cymdeithasol, ac ar y llaw arall mae pwysau i gydnabod amrywiaeth diwylliannol, ieithyddol ac ethnig o fewn y genedl-wladwriaeth. Gellir ymhelaethu ar y ddeuoliaeth hon gyda pharau gwrthgyferbyniol, i bob golwg—'gwreiddiau' ac 'opsiynau', 'gwladwriaeth a 'chymuned', neu fel y dywed de Saussure (1967), 'parochialism' neu 'intercourse'. Yn ogystal â hyn, diffinia Schermorhon y grymoedd cymdeithasol a diwylliannol fel tueddiadau canolgyrchol ac allgyrchol (May 2012, t. 96). Yma, mae gwrthwynebiad rhwng grym sydd yn uno grwpiau a grym sydd yn gwahanu grwpiau. Yn yr ail garfan, gellir gosod amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol.

Os yn wir y bydd 90% o ieithoedd, a diwylliannau, o dan fygythiad o fewn y ganrif nesaf (Evas 1999), gwelir felly fod grym allgyrchol yn effeithio ar dueddiadau canolgyrchol. Yng ngeiriau un o brif ddamcaniaethwyr cymdeithaseg iaith y byd, mae cysylltiad iaith a diwylliant 'at any time during which that linkage is still intact, [is] best able to name the artifacts and to formulate or express the interests, values and world-views of that culture' (Fishman 1991, t. 20). Fel Fishman, noda nifer o ddamcaniaethwyr arwyddocâd iaith fel nodwedd sydd yn corffori'r meddwl: 'Nid yw iaith yn farnais nag yn nwydd: hi sydd yn cario a strwythuro'r meddwl. Mae ungnwd yn tlodi'r enaid fel y mae'n tlodi'r pridd'² (Evas 1999, t. 17 yn dyfynnu Cercle 1997, t.1). Os ystyrir bod rôl ganolog gan iaith mewn diwylliant, yna y mae colli iaith yn wir drasiedi i ddynol ryw. Fodd bynnag, nid yw iaith yn

² 'La langue n'est pas un vernis ou une marchandise: elle est ce qui porte et structure la pensée. La monoculture appauvrit les esprits comme elle appauvrit les sols.'

marw ohoni'i hun, cymuned o siaradwyr yr iaith sydd yn peidio â'i siarad mwyach. Disgrifir hyn gan rai yn 'hil-laddiad ieithyddol' (May 2012, t. 4).

O fewn ecoleg iaith a diwylliant, dywedir bod amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol yr un mor hanfodol i ddynoliaeth ag yw bioamrywiaeth i natur (Pinker 1994). Dadleua ecolegwyr iaith fod bygythiad ieithyddol y byd yn debyg i'r bygythiad sydd yn wynebu anifeiliaid a phlanhigion (Mühlhäusler 2000). Er gwaethaf cymorth delwedd byd natur ar yr olwg gyntaf, dywed nifer bod tranc iaith yn rhan o esblygiad cymdeithasol ac ieithyddol. Serch hynny, dywed May (2012), nad oes dim byd 'naturiol' am y statws a bri ynghlwm wrth iaith fwyafrifol na'r stigma ynghlwm ag iaith leiafrifol. Rhaid gosod rôl pŵer yn y fantol. Fel y dywed Noam Chomsky, 'Questions of language are basically questions of power' (May 2012, t. 4). Mae colled iaith a diwylliant yn ganlyniad i bŵer, cystadleuaeth, rhagfarn, anffafiaeth a darostyngiad. Nid yw dirywiad ieithyddol yn annibynnol ar ffactorau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ehangach.

1.1.2. Iaith, Diwylliant a'r Genedl—'Ein Staat, ein Volk, eine Sprache'

Nodir mai ffenomen fwy diweddar yw goruchafiaeth iaith a diwylliant cyffredin gyda datblygiad y genedl-wladwriaeth. Gwelir y drafodaeth ysgolheigaidd gyntaf ar 'ddiwylliant' yn datblygu yng nghyfnod yr Oleuedigaeth (Evas 1999). 'Idee der Moralität gehört noch zur Kultur'—dyma oedd syniad Immanuel Kant trwy ddatblygu cysyniad o ddiwylliant gyda'r gair *Bildung*—yn dynodi addysg, datblygiad a moesoldeb (Kant 1783). Daeth diwylliant i symboleiddio byd-olwg neu *Weltanschauung* penodol, yn meithrin y cysyniad o ddiwylliant cenedlaethol. O ganlyniad, daeth y syniad o oruchafiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol y wladwriaeth i'r amlwg.

Arweinia hyn at bardduo ieithoedd lleiafrifol. Fe'i seiliwyd ar burdeb diwylliannol a natur homogenaidd y wladwriaeth lle cyfatebir hunaniaeth wleidyddol â hunaniaeth genedlaethol. Yn sgil enghraifft y Chwyldro Ffrengig a sofraniaeth y genedl *une et indivisible*, byddai cytgordd y genedl-wladwriaeth yn trechu unrhyw hawl i ymlyniad ethnigrwydd di-wladwriaeth. Y Rhamantwyr Almaeneg—Johann Gottfried von Herder yn benodol—a ddatblygodd y syniad am iaith a diwylliant cenedlaethol: 'Oherwydd bod holl bobl yn Bobl, mae ganddi hefyd ei diwylliant cenedlaethol trwy ei hiaith'³ (Herder 1967). Datblygwyd y cyswllt cryf rhwng iaith a diwylliant er mwyn gwireddu ideoleg 'un wladwriaeth, un genedl, un iaith' gan israddio ieithoedd y lleiafrifoedd. Ceir enghreifftiau adnabyddus o bolisiau gwladwriaethol yn erbyn ieithoedd lleiafrifol a fabwysiedid mewn ymgais i sefydlu un iaith gyffredin e.e. ymdrech y gwleidydd Abbé Gregoire i ddifodi *patois* y bobl er mwyn creu *une peuple* yn Ffrainc; gwaharddiad y Gatalaneg a'r Fasgeg dan drefn wladwriaethol Franco yn Sbaen a gwaharddiad defnydd o'r Almaeneg dan ymgyrch 'Eidalegeiddio'r' De Tyrol gan Mussolini, ac yng Nghymru gwaharddwyd defnydd y Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus gyda'r enghraifft adnabyddus y *Welsh Not*.

Yn ogystal â gweithredu polisiau gwleidyddol pendant yn erbyn amrywiaeth ddiwylliannol, dros y ddwy ganrif ddiwethaf, lledaenwyd damcaniaeth athronwyr Rhyddfrydol ar ddinasyddiaeth gyfanfydol (neu fyd-eang). Yn ôl y safbwynt cyfanfydol, mae pawb yn meddu ar yr un hawliau a breintiau unigol. Ar sail hynny, mae syniadau Rhyddfrydol am amrywiaeth yn datgan bod daliadau unigolyddol yn golygu gwrthwynebu pob ymgais i ymestyn cydnabyddiaeth neu gefnogaeth ddiwylliannol arbennig i leiafrifoedd. Daw rhyddid, yn ôl Rhyddfrydwyr, trwy uniaethu'r â'r wladwriaeth fwyafrifol (Lewis 2009, tt. 13-28). Gwell i'r Basgwr fod yn Sbaenwr, y Llydäwr yn Ffrancwr a'r Cymro yn Brydeiniwr 'than to sulk on his own rocks, the half-savage relic of past times,

³ 'Denn jedes Volk ist Volk; es hat seine nationale Bildung wie seine Sprache.'

revolving in his own little mental orbit, without participation or interest in the general movement of the world' (Mill 2007, dyfynnwyd yn Kymlicka 1995, t. 53). Aeth ymdrech i gynnal hunaniaeth genedlaethol gyffredin law-yn-llaw â phardduo'r grwpiau cenedlaethol bychain. Er gwaethaf 'egwyddorion' rhyddfrydol yr Ymerodraeth Brydeinig, anwybyddant anghenion amrywiaeth diwylliannol y cenedloedd. Fel y dywed Charles Taylor 'the supposedly neutral set of difference-blind principles of the politics of equal dignity is in fact a reflection of one hegemonic culture [...] a particularism masquerading as the universal' (1992, tt. 43-44).

Gyda newidiadau i gymdeithas ar ôl yr ail Ryfel Byd, daeth rôl y genedl-wladwriaeth yn fater penagored. Ceisiai grŵp o athronwyr—y Rhyddfrydwyr diwylliannol—ail-ddehongli'r genedl-wladwriaeth er mwyn cynnwys lleiafrifoedd. Tra bo gwladwriaethau yn datgan polisiau yn arddel natur homogenaidd iaith a diwylliant y genedl-wladwriaeth, ffaith amlwg, fel y noda Will Kymlicka, yw bodolaeth amrywiaeth diwylliannol o fewn y genedl-wladwriaeth. Datblygodd y Rhyddfrydwyr diwylliannol theori yn ail-ddehongli rhyddfrydiaeth er mwyn ymateb i amrywiaeth ddiwylliannol yr oes fodern—yr hyn sydd yn gyfarwydd nawr fel theori amlddiwylliannedd. Fe'i datblygwyd ar y sail bod ymreolaeth unigol yn bwysig a bod ewyllys gan yr unigolyn i fyw yn ôl credoau'r 'diwylliant ymylol'. Dadleuai fod diwylliant yn hanfodol ar gyfer datblygiad dynol ar sail 1) yr hawl i gadw diwylliant 2) egwyddor cyfiawnder. O ganlyniad, dylai lleiafrifoedd a mwyafrifoedd fwynhau hawliau diwylliannol a gallu eu gweithredu yn effeithiol (Lewis 2009).

Yn sgil rhyfela ethnig parhaol, daeth yn ddyletswydd ar lywodraethau i ddelio â'r 'broblem leiafrifol'. Yr ymateb rhyngwladol cyntaf oedd ymdrin â'r 'broblem' hon dan faner 'hawliau dynol' gan fod pryder y byddai estyn cydnabyddiaeth ffurfiol i leiafrifoedd

yn porthi rhyfeloedd ethnig. *Raison d'état* yn fwy nag egwyddor foesol, felly, oedd yn rhwystro datblygiad a chynaliadwyedd y lleiafrifoedd ethnig. Serch hynny, yn sgil 'adfywiad ethnig' lleiafrifoedd cenedlaethol, ceir datblygiadau graddol o'r pumdegau ymlaen gyda chynnydd yn yr hawliau i bobloedd 'cynhenid' a mesurau penodol gan y Cenedloedd Unedig. Er gwaethaf y rhyfela ethnig yn y Dwyrain ac yn y Gorllewin, datblygwyd ymagwedd heddychlun at wleidyddiaeth ethnig dan faner rhyddid a chyfiawnder moesol. Diddorol felly yw gweld mai twf 'gwleidyddiaeth ethnig' a ysgogodd symudiad i gyfeiriad hawliau lleiafrifol. Yn Ewrop, datblygodd syniad ar sail hawliau lleiafrifoedd yng nghyd-destun ehangach eu lleiafrifoedd cenedlaethol. Yn wir, ymatebodd y prosiect ar hawliau lleiafrifol i 'adfywiad ethnig' y 60au gan gynnwys y grwpiau cenedlaethol fel y Québécois, Catalaniaid a'r Cymry. Fel hynny, cryfhawyd cais lleiafrifoedd yn sgil sefydlu Cyngor Ewrop—corff swyddogol i hyrwyddo hawliau lleiafrifoedd a democratiaeth yn Ewrop. Yn 1992, er enghraifft, cyhoeddwyd Siarter Ewrop ar gyfer Ieithoedd Lleiafrifol a Rhanbarthol Ewrop (Cyngor Ewrop 1992) a chonfensiwn dros amddiffyn cenedlaethau lleiafrifol ym 1995 (Cyngor Ewrop 1995). Cynyddodd polisïau ar amlddiwylliannedd a hawliau lleiafrifol ar raddfa flaenllaw yn Ewrop, a hynny nid yn unig fel prosiect yn amddiffyn 'diwylliant' a 'threftadaeth' ond wrth i'r polisïau dreiddio i sefydliadau craidd Ewrop ar faterion o ddiogelwch, datblygiad a hawliau dynol (Kymlicka 2007).

Dadleuwyd hyd yma bod yr adfywiad ethnig wedi'i ysbrydoli a'i feithrin yn bennaf gan ddemocratiaeth ryddfrydol. Bu'r datblygiad hwn yn rhan ehangach o dwf ffeministiaeth a hawliau pobl hoyw, yn ehangu ffiniau rhyddfrydiaeth a democratiaeth yn hytrach na'u bygwth. Yn ôl UNESCO, ni ellir rhannu hawliau diwylliannol oddi wrth hawliau dynol:

The defence of cultural diversity is an ethical imperative inseparable from respect for human dignity. It implies a commitment to human rights and fundamental freedoms, in particular the rights of belonging to minorities and those of

indigenous peoples. Cultural rights are an integral part of human rights, which are universal, indivisible and interdependent (UNESCO 2001).

Yma gwelir gwrthdroad llwyr oddi wrth y model homogenaidd a chyfanfydol *une et indivisible* a arddelwyd gan Ffrainc gyda model lluosogol a democrataidd yn cynrychioli lleiafrifoedd dan faner Ewropeaidd *l'Unité dans la Diversité*. Erbyn heddiw, mae amlddiwylliannedd wedi magu gwreiddiau yn y gwledydd Eingl-Sacsonaidd ac yn dylanwadu ar bolisiau a thrafodaethau cyhoeddus gwledydd, gan gynnwys Canada a Chymru. Fodd bynnag, awgryma arolwg o bolisiau amlddiwylliannol gan y *Migration Policy Institute* (Kymlicka 2011a) nad yw'r mwyafrif o wledydd democrataidd yn gweithredu polisiau amlddiwylliannedd i'r eithaf gan gynnwys Prydain. Serch hynny gwelir bod blagur amlddiwylliannedd wedi gwywo a gwrthwynebiad cynyddol ar sail honiadau ei bod yn meithrin ymwahaniad yn hytrach nag integreiddio (Vertovec a Wessendorf 2010). Dywed rhai ein bod yn byw mewn oes 'ôl-amldiwylliannol.' Ar ôl cyfres o ddigwyddiadau megis terfysgoedd hil Lloegr yn 2006 ac ymosodiadau 11 Medi 2001 yn yr Unol Daleithiau, tybia rhai arweinyddion gwledydd fod amlddiwylliannedd yn creu cymunedau arwahanol a gelyniaethus. Daethpwyd i gredu bod polisiau integreiddio wedi methu—yn Ffrainc, ystyriwyd yr angen i dynhau polisi *laïcité*, yn yr Almaen, beirniadwyd methiant y *Gastarbeiter* a chyflwynwyd syniadaeth *Leitkultur*. Ym Mhrydain, edrychwyd ar fersiwn mwy 'integreiddiol' o ddinasyddiaeth yn wyneb pryderon am eithafiaeth radical (Vertovec a Wessendorf 2010). Beth, felly, yw amlddiwylliannedd yn ei hanfod? A yw'n rhesymol dweud ei fod yn gysyniad sydd wedi dyddio?

1.1.3. Ambarél Amlddiwylliannedd

Yn ôl Kymlicka, mae amlddiwylliannedd yn derm mantell (umbrella term) ar gyfer polisiau gwahaniaethol ynghylch grwpiau lleiafrifol ac ethnoddiwylliannol amrywiol (2007, t.16). Noda Bhikhu Parekh yn ei lyfr *Rethinking Multiculturalism* (2000) fod

amlddiwylliannedd yn ei hanfod yn fater o amrywiaeth ddiwylliannol. Cynigia dair carfan wrth ddiffinio'r amrywiaeth. Ceir amrywiaeth is-ddiwylliannol lle ceir grwpiau sydd yn dilyn bywydau a ystyrir yn anghonfensiynol, megis pobl hoyw, artistiaid, ac nad oes diben iddynt gynhyrchu diwylliant gwahanol ond yn hytrach i gryfhau'r diwylliant presennol. Yn ail ceir amrywiaeth safbwyntiol lle ceir carfannau o bobl sydd yn feirniadol y tu hwnt i gymdeithas a dymunant herio a newid sylwedd y gymdeithas y deiliant ohoni e.e. ffeministiaid, amgylcheddwyr, pobl grefyddol. Yn olaf, ac o ddiddordeb pennaf i'r traethawd hwn, mae amrywiaeth gyfunol; yn y garfan hon ceir grwpiau hunanymwybodol â'u harferion a'u credoau eu hunain megis y Sipsiwn a'r Amish ond hefyd grwpiau tiriogaethol cynhenid megis y Basgwyr, Québécois a'r Cymry (2000, tt. 3-4). Ar y garfan olaf hon, y canolbwyntia'r ymchwil cyfredol.

Yn yr un modd, ceir categorïau amrywiol o amlddiwylliannedd. Crybwylla Vertovec a Wessendorf wyth diffiniad gwahanol ar gyfer y term (2010, t. 2). Diffinia David Miller raddfeydd amrywiol e.e. 'amlddiwylliannedd eithafol', 'amlddiwylliannedd cymedrol' neu amlddiwylliannedd 'cryf' a 'gwan' (Miller 2011) Sut, felly, y gellir diffinio ffenomen a ddisgrifir fel 'a highly contested and chameleon-like neologism whose colours change to suit the complexion of local conditions?' (Pearson 2001, dyfynnwyd gan Modood a Meer 2009, t. 474). Dywed Kymlicka (2007, t. 61) ei bod yn haws diffinio amlddiwylliannedd ar sail yr hyn mae'n ei wrthwynebu: 'All struggles for multiculturalism share in common a rejection of earlier models of the unitary, homogenous nation-state.'

Pwynt pwysig, yn ôl Kymlicka (2011a, t.3), yw dangos nad dathliad pur o amrywiaeth yw amlddiwylliannedd. Tueddiad nifer yw trin amlddiwylliannedd fel term empeiraidd. Gwelir hyn gyda model '3S' y Prydeiniwr Yasmin Alibhai-Brown. Bathwyd y term 3S—'saris, samosas a steeldrums'—gan ddynodi nodweddion grwpiau ethnig yn ôl gwisg,

cuisine a cherddoriaeth. Dadleua Kymlicka nad dathlu gwahaniaeth yn unig a wna amlddiwylliannedd ond mynd i'r afael â phroblemau economaidd, gwleidyddol a diwylliannol. Ychwanega fod *Disney*-eiddio amlddiwylliannedd yn anwybyddu'r gwir heriau sydd yn codi yng nghyd-destun amrywiaeth ethnig. Er gwaethaf nodweddion a thraddodiadau sydd yn nodweddu diwylliannau penodol, mae'n gamarweiniol i hybu cysyniad statig o'r grwpiau ethnig gan anwybyddu datblygiad a *mélange* diwylliannol, 'thereby reinforcing perceptions of minorities as eternally 'Other'' (Kymlicka 2011a, t. 5). Yn hytrach, polisi gwleidyddol yn ei hanfod yw amlddiwylliannedd sydd yn ymdrin â bodolaeth amrywiol er mwyn rhoi sylw a dyrchafiad i grwpiau ymylol o dan anfantais (2011a, tt. 1-25).

1.1.4. Agenda Amlddiwylliannedd Rhyddfrydol

Gwelir eisoes bod haenau amrywiol yn bodoli o dan yr ambarél amlddiwylliannedd. Fel hynny, cysylltir amlddiwylliannedd yn ehangach gyda thueddiadau eraill fel 'gwleidyddiaeth hunaniaeth' a 'chymunedoliaeth' sydd yn rhannu gwrthwynebiad i ryddfrydiaeth gyffredinol. Tra bo pwyslais 'gwleidyddiaeth hunaniaeth' ar gydnabyddiaeth ddiwylliannol â'r nod o feithrin hunaniaeth 'bur' neu 'ddilys', seilir cymunedoliaeth ar y gred bod unigolion yn cael eu ffurfioli gan y gymuned. Mae hyn yn wrthbwynt i'r unigoliaeth a achlesir gan Ryddfrydiaeth. Yn wahanol i'r tueddiadau hyn, nid yw amlddiwylliannedd rhyddfrydol yn ymwrthod yn gyfan gwbl â Rhyddfrydiaeth. Fel y soniwyd eisoes, ail-ddehongli rhyddfrydiaeth draddodiadol a wna'r damcaniaethwyr diwylliannol i gydweddu â gweledigaeth amlddiwylliannol yr oes fodern (Lewis 2009).

Mae amlddiwylliannedd rhyddfrydol yn mynd i'r afael â heriau dyfnach—nid symbolaeth a chydabyddiaeth yw ei nod ond hybu amrywiaeth ar yr amod bod hyn yn cyd-fynd â democratiaeth ryddfrydol. Creda'r Rhyddfrydwyr traddodiadol y dylai'r llywodraeth gadw

pellter rhag diwylliant ac felly atal unrhyw gefnogaeth a chydabyddiaeth ddiwylliannol i lleiafrifoedd trwy rannu dinasyddiaeth â hunaniaeth ag ethnigrwydd. Trwy ail-ddehongli rhyddfrydiaeth, byddai'r rhyddfrydwyr diwylliannol yn trin pobl fel aelodau o grŵp penodol yn hytrach na dinasyddion unigol a chyfartal. Drwy osod hawliau grŵp ar yr un lefel moesol â'r unigolyn, tanseilir pwyslais traddodiadol y Rhyddfrydwyr ar oruchafiaeth yr unigolyn (Lewis 2009, t. 18).

Will Kymlicka yw'r amlycaf o'r Rhyddfrydwyr diwylliannol sydd wedi datblygu theori ar hawliau lleiafrifoedd ochr yn ochr â hawliau dynol. Amlygodd Kymlicka yr ymadrodd *benign neglect* a fathwyd gan Nathan Glazer er mwyn disgrifio diffyg ymyrraeth y wladwriaeth mewn materion yn ymwneud â lleiafrifoedd (1995, t. 3). Creda Rhyddfrydwyr traddodiadol y byddai cydnabod hawliau tiriogaethol ac ieithyddol yn ffafrio rhai diwylliannau uwchben eraill. Camddeall rôl y wladwriaeth wna'r Rhyddfrydwyr traddodiadol felly. Nid mater o ddyrchafu diwylliant lleiafrifol mohono ond, fel y datgana Kymlicka: unioni annhegwch ac anghyfartaledd sydd wedi gwreiddio yn hanes diwylliant y lleiafrif:

Granting special representation rights, land claims or language rights to a minority need not, and often does not, put it in a position to dominate other groups. On the contrary [...] such rights can be seen as putting the various groups on a more equal footing, by reducing the extent to which the smaller group is vulnerable to the larger (Kymlicka 1995, tt. 36-37).

1.1.5. Dinasyddiaeth Amlldiwylliannol

Mae Kymlicka, yn ei lyfr arloesol *Multicultural Citizenship* (1995), yn gwahaniaethu rhwng tri phatrwm o amlldiwylliannedd ar gyfer grwpiau cynhenid, grwpiau is-wladwriaethol a grwpiau mewnfudol. Mae'r ymgais i wahaniaethu rhwng y grwpiau hyn yn hanfodol, yn ôl Kymlicka, gan fod hawliau'r grwpiau yn amrywio. Yn gyntaf, ceir hawliau ar gyfer y

grwpiau cynhenid trwy hawliau tiriogaethol, diwylliannol a hunanlywodraethol. Yn ail, cawn ffurf is-wladwriaethol o amlddiwylliannedd ar gyfer lleiafrifoedd cenedlaethol megis y Basgwyr a'r Catalaniaid yn Sbaen, y Cymry a'r Albanwyr ym Mhrydain, y Québécois yng Nghanada a'r De Tyroliaid yn yr Eidal. Mae eu hawliau yn cwmpasu hunanlywodraeth, statws ac ariannu iaith leiafrifol mewn addysg a bywyd cyhoeddus a chydabyddiaeth lywodraethol o 'amlgenedlaetholdeb'. Yn drydydd, ceir trefn wahanol ar gyfer grwpiau mewnfudol gan gynnwys cynrychiolaeth ethnig mewn addysg a bywyd cyhoeddus, cydnabyddiaeth lywodraethol i amddiwylliannedd, cyllid ar gyfer addysgu dwyieithog neu hyfforddiant yn eu mamiaith (1995, tt. 26-33). Y nod yw cydnabod ymlyniad ethnig yn y sffêr breifat er mwyn hybu integreiddio economaidd a diwylliannol yn y sffêr gyhoeddus. 'It is a *revision* of integration rather than a *rejection* of it' fel y dywed May (2012, t. 123). Integreiddio llwyddiannus felly yw'r cymhelliad i grwpiau mewnfudol nad oes ganddynt yr un hawliau dros hunanlywodraeth â'r lleiafrifoedd cenedlaethol a chynhenid.

Serch hynny, nodir o'r tri grŵp gwahanol, mai'r grwpiau mewnfudol sydd yn cael y derbyniad mwyaf cymysg gan y gwladwriaethau. Y rheswm am hyn yn bennaf yw bod angen ystyried bod y newydd-ddyfodiaid yn 'ddinasyddion' yn hytrach nag 'ymwelwyr' neu 'ddieithriaid' (Kymlicka 2007, t. 75). Gwelir hefyd nad yw'r grwpiau bob amser yn cydweddu â'i gilydd e.e. nid yw grwpiau ethnig o reidrwydd am gefnogi cais grwpiau cenedlaethol am fwy o bwerau hunanlywodraethol. Nid yw ychwaith yn golygu y bydd lleiafrifoedd is-wladwriaeth o blaid dinasyddiaeth amlddiwylliannol ar gyfer lleiafrifoedd ethnig. Ar ben hynny, nid yw llywodraeth o reidrwydd yn cydnabod cyfuniad o hawliau 'amlgenedlaethol' a 'aml-ethnig' yn ei pholisi cyhoeddus. Ar y naill law, mae Sweden yn gefnogol iawn dros amlddiwylliannedd grwpiau ethnig ond nid yw'n estyn yr un gefnogaeth at y grŵp Sami—pobl gynhenid fewnol Sweden. Ar y llaw arall, mae'r Swistir

yn fodel flaenllaw o gymhwyso lleiafrifoedd cenedlaethol gyda hawliau hunanlywodraethol er gwaetha'r ffaith bod y wlad yn nacáu hawliau i fewnfudwyr: 'Countries can be advancing along one track, while retreating along another' (Kymlicka 2007, t. 79). Yr her felly yw llunio polisiau sydd yn cydnabod y ddau, a'r hawliau sydd ynghlwm wrthynt, er mwyn datblygu dimensiynau mwy lluosog o fewn y genedl-wladwriaeth.

Nid yw'r ddadl sydd yn hollti hawliau unigolyddol a hawliau grŵp yn ddilys yn ôl Kymlicka. Mae dinasyddiaeth wahaniaethol yn golygu bod hawliau unigolyddol yn sail i hawliau grŵp: 'most such rights are not about the primacy of communities over individuals, rather, they are based on the idea that justice between groups requires that the members of different groups be accorded different rights' (1995, t. 47). Mae hawliau 'grŵp' e.e. hawl y Cymry neu'r québécois i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Ffrangeg mewn llys wedi'u seilio hefyd ar hawliau unigolyddol. Rhydd Kymlicka bwyslais ar hawliau gwahaniaethol grŵp o fewn fframwaith rhyddfrydiaeth ddemocrataidd. Gwneir hynny trwy wahaniaethu rhwng 'cyfyngiadau mewnol' ac 'amddiffynfeydd allanol'. Mae'r cyntaf yn berthnasol i grwpiau *intra*—cyfyngiad ar hawliau rhyddid unigolyn a'u haelodau ar sail cynnal undod grŵp, ond gall fod yn wrth-ryddfrydol. Mae'r ail yn cyfeirio at ymgais grwpiau *inter* i amddiffyn eu hunaniaeth trwy gyfyngu ar benderfyniadau'r gymdeithas ehangach. Ystyria Kymlicka y gellir cefnogi 'cyfyngiadau allanol' er mwyn hybu tegwch i'r grŵp dan anfantais, er bod rhaid cwestiynu 'cyfyngiadau mewnol' os ydynt yn cyfyngu ar ryddid unigol neu grŵp. Gesyd Kymlicka hawliau iaith fel ffurf ar 'gyfyngiad allanol' nad yw'n wrth-ryddfrydol nac ychwaith yn cyfyngu ar symudoledd economaidd a chymdeithasol ehangach (Kymlicka 1995, tt. 35-37; May 2012, tt. 124-125).

1.1.6. Amlddiwylliannedd ar Waith: Canada

Canada yw'r enghraifft enwocaf o'r mosäig diwylliannol ac fe'i cymherir yn bennaf â'i chymydog mawr Americanaidd—y tawddlestr diwylliannol. Honnir mai Canada yw'r wlad sydd yn modelu arferion gorau amlddiwylliannedd ac, er gwaethaf y troi min arno gan wleidyddion yn Ewrop, datgana Justin Trudeau, Prif Weinidog Canada bod amlddiwylliannedd yn parhau i ddal ei dir yng Ngogledd America (Liberal Party 2015).

Yn nhyb nifer, ffenomen unigryw yw llwyddiant amlddiwylliannedd yng Nghnada oherwydd hanes ac amodau'r wlad (Kymlicka 2011b; May 2012). 'We are immigrants' dywed Banting yn ei lyfr *Belonging? Shared Citizenship in Canada* (2007). Yng Nghnada, gwelir y nifer uchaf o fewnfudwyr yn dod yn ddinasyddion ac yn cael eu cynnwys yn wleidyddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Ni chânt yr un anawsterau â mewnfudwyr mewn gwledydd eraill wrth gael swydd ac mae Canadiaid yn llawer mwy tebygol o ystyried mewnfudo yn fuddiol i'w gwlad nag yw trigolion unrhyw wlad arall yn y byd (Kymlicka 2011b, t. 70). Yn wir, dywed Kymlicka fod llwyddiant amlddiwylliannedd yng Nghnada yn golygu bod rhai Canadiaid yn ystyried eu hunain yn arweinyddion goddefgarwch a rhyddfrydiaeth, a hynny sydd wedi cynnal seiliau amlddiwylliannedd yno (Kymlicka 2011b, t. 70).

Serch hynny, dadleua Kymlicka nad rhinweddau penodol y Caniadiad na chynllun gofalus oedd y tu ôl i ddatblygiad amlddiwylliannedd—'lwc' ydoedd yn nhyb Kymlicka a hynny yn sgil *la Révolution tranquille*—adfywiad lleiafrifol cenedlaethol Québec yn y chwedegau. O ganlyniad, gwelir mesurau newydd yn cynnwys defnydd y Ffrangeg gan ei gosod yn iaith swyddogol a thrwy bwysleisio deuoliaeth a deu-ddiwyllianrwydd y wladwriaeth trwy osod 'Prydain' a 'Ffrainc' fel y cenedloedd sefydliadol. Yn dilyn hyn, heriwyd y newidiadau hyn

gan y grwpiau ethnig a oedd wedi hen ymsefydlu yng Nghanaada, megis yr Eidalwyr, y Pwyliaid a'r Wcrainiaid. Ofna'r grwpiau hyn y byddai'u hawliau hwy yn cael eu diystyru a'u gosod ar yr ymylon yn sgil pwyslais 'deuliaeth' cenedlaethol (Kymlicka 2011b, tt. 7-12).

Mabwysiadwyd amlddiwylliannedd yn swyddogol ym 1971 a bathwyd slogan gwladwriaethol yn hyrwyddo 'amlddiwylliannedd dan fframwaith dwyieithog.' Gwelwyd felly mai 'bargen wleidyddol' ydoedd. Ar y naill law, cynhwyswyd cenedlaetholdeb Québec, ac ar y llaw arall, estynnwyd cydnabyddiaeth swyddogol ac ariannol i grwpiau ethnig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cadw eu hunaniaethau cynhenid. Gellir felly ddadlau nad athroniaeth geidwadol a chyfunolaidd a fabwysiadwyd er mwyn cynnal a chadw traddodiadau grwpiau ethnig. Yn ôl Kymlicka, ymateb oedd hwn i chwyldro ehangach ar hawliau dynol. Fel y nodir eisoes, datblygodd amlddiwylliannedd o ganlyniad i adfywiad ethnig, chwyldro hawliau dynol a rhyddfrydoliaeth cymdeithas y tu mewn i wladwriaethau, gan gynnwys hefyd adfywiad cenedlaethol Cymru ym Mhrydain. Atgyfnerthwyd hwn gan eiriau Pierre Trudeau, Prif Weinidog Canada yn ystod y chwedegau a'r saithdegau (a thad Prif Weinidog cyfredol Canada, Justin Trudeau): 'a policy of multiculturalism within a bilingual framework is basically the conscious support of individual freedom of choice' (Trudeau 1971, dyfynnwyd yn Kymlicka 2011b, t. 11).

Gwelir felly y symbylwyd y camau cyntaf a arweiniodd at amlddiwylliannedd yng Nghanaada gan ofidiau am gydlyniant cenedlaethol a hefyd effaith rhyddfrydoli cymdeithas. Fe'i datblygwyd ymhellach wrth ymateb i fewnlifiad cynyddol o bobl o wledydd y tu allan i Ewrop a thrwy ail-ddehongli ethnigrwydd i gynnwys lleiafrifoedd ethnig. Ehangwyd ffiniau amlddiwylliannedd er mwyn cynnwys nifer cynyddol o leiafrifoedd hil trwy bwysleisio gwrth-hiliaeth a model cynhwysol o ddinasyddiaeth ddemocrataidd. Er gwaethaf gofidiau'r grwpiau ethnig am bwyslais newydd ar 'hil' a

'gwrth-hiliaeth' a chan hynny, tanseilio eu rhyddid a hawliau ethno-ddiwylliannol, creda Kymlicka, fod polisiau amlddiwylliannedd wedi llwyddo i osod 'ethnigrwydd' a 'hil' ochr yn ochr â'i gilydd. I'r gwrthwyneb, creda Tariq Modood (2003) fod y wladwriaeth Brydeinig yn trin eu grwpiau ethnig ar sail llinynnau hil yn hytrach nag ethnigrwydd. O ganlyniad, collir cefnogaeth y grwpiau lleiafrifol trwy anwybyddu gwerthoedd a chyfraniad eu hunaniaethau a'u diwylliannau priodol (Kymlicka 2011b, tt. 13-19).

Mae amlddiwylliannedd yn hawl sylfaenol i ddinesydd Canadaidd. Y ffordd felly i leiafrif ethnig ddod yn Ganadiad yw trwy ddod yn Ganadiad Wcrainaidd neu'n Ganadiad Ffrengig: 'Multiculturalism was formulated as an attribute of Canadian citizenship; it was a new way of understanding Canadian citizenship, a new way of understanding one's Canadian-ness not an alternative of being (or becoming) a Canadian' (Kymlicka 2011b, t. 16). Fodd bynnag, nid yw sefyllfa Canada heb ei heriau. Disgrifir perthynas Canada ag amlddiwylliannedd gan Kymlicka fel 'arbrawf esblygol' sydd yn ymateb i'r ffactorau amrywiol tu fewn a thu allan i'r wladwriaeth. Yr her sydd gan Ganada heddiw, fel mewn gwledydd democrataidd eraill, yw sut mae cymhwyso gofynion crefyddol o fewn fframwaith rhyddfrydiaeth ddemocrataidd. Mae hwn yn brosiect parhaol a chymhleth ond yn hanfodol er mwyn cadw seiliau cadarn dinasyddiaeth gyffredin pan-Ganadaidd. Yn yr hinsawdd 'ôl-amlddiwylliannol' sydd ohoni, dadleua Kymlicka fod angen pwysleisio dinasyddiaeth amlddiwylliannol o'r newydd. Nid yw'r ffaith bod grwpiau ethnig yn glynu at eu hunaniaethau ethnig yn brawf o fethiant i gydlyniant cymdeithasol ac integreiddio cenedlaethol, barn a geir mewn nifer o wledydd democrataidd. Fel y nodir uchod, dengys fframwaith ethnig Canada y gellir dod yn ddinesydd Canadaidd trwy ddod yn ddinesydd Ganadiad Fietnamaidd, Ganadiad Eidalaid neu yn Ganadiad Ffrengig (Kymlicka 2011b, tt. 19-29).

Fodd bynnag, nid y mewnfudwyr na'r grwpiau ethnig sydd yn peri'r bygwth mwyaf i gyfansoddiad Canada heddiw. Er i amlddiwylliannedd Canada esblygu dan fygythiad o ymwahaniad Québec, y lleiafrif cenedlaethol hwn sydd yn parhau i danseilio harmoni cyfansoddiadol y mosäig pan-Ganadaidd. Rhwng Québec a Chanada, ceir cystadleuaeth i gymhathu mewnfudwyr naill ai i'r gymuned *québécois* neu i'r gymuned pan-Ganadaidd. Ni ddisgrifiant eu hunain yn Ganadaid Ffrengig nac ychwaith yn Ganadaid Québec-aid—*Québécois* ydynt. Ni fabwysiadwyd model amlddiwylliannol Canada yn Québec ond bu iddynt feithrin fersiwn unigryw o gymhwyso amrywiaeth sef rhyngddiwylliannedd 'iswladwriaethol'.

1.2. Y TAWDDLESTR DIWYLLIANNOL: DEALL EIN GILYDD?

A ydy'r mosäig amlddiwylliannol wedi'i falurio? Gyda globaleiddio a mudo ar ei gynnydd, daw cyfnod newydd i ailystyried ac ail-ddehongli strategaethau i gymhwyso amrywiaeth diwylliannol ac adeiladu integreiddio cenedlaethol yr oes fodern. 'Parallel societies' neu 'plural monoculturalism' (Vertovec a Wessendorf 2010)—dyma'r hyn a glywn wrth ddisgrifio effaith y ffenomen amlddiwylliannol. Yn gryno, y brif feirniadaeth o amlddiwylliannedd yw'r gorbwyslais ar hawliau i leiafrifoedd wrth esgeuluso hawliau mwyafrifol sydd yn meithrin arwahaniad yn hytrach nag integreiddio. A ydy'r gogwydd yn awr tuag at y model Americanaidd—y tawddlestr diwylliannol? Er gwaethaf y dadleuon sydd ynghlwm ag 'amlddiwylliannedd', i ba raddau yr ymwrthodir ag ef mewn gwirionedd?

Daw ffenomen rhyngddiwylliannedd yn fwyfwy blaenllaw ym mholisiau gwleidyddol a chymdeithasol Ewrop. Y brif nodwedd wahaniaethol yw'r pwyslais ar 'ddeialog' a 'chyfathrebu'. Gwyddys eisoes mai ffenomen *Québécois* o ran ei tharddiad ydyw. Sut felly mae ffenomen a ddatblygodd yng nghyd-destun lleiafrifol Québec ac mewn

gwrthwynebiad i oruchafiaeth Eingl-Ganadaidd yn addas yn y Brydain Eingl-Sacsonaidd? A yw cysyniadau newydd am ryngddiwylliannedd Prydeinig yn ymdebygu i amlddiwylliannedd Canada yn hytrach na rhyngddiwylliannedd Québec? Ar ochr arall y sbectrw, dadleua eraill, megis Brooks (2009a), fod amlddiwylliannedd Eingl-Sacsonaidd yn cuddio agenda i gymhathu lleiafrifoedd ethnig a chenedlaethol i'r genedl-wladwriaeth Brydeinig. Ydy datblygiad rhyngddiwylliannedd ym Mhrydain felly'n golygu agenda cymhathu agored? Ai tawddlestr ryngddiwylliannol yw'r canlyniad tebygol? Beth, felly, yw'r goblygiadau hyn i Gymru?

1.2.1. Adlach Amlddiwylliannedd

Yn gyntaf, troir at hinsawdd Ewropeaidd yn sgil gwrthwynebiad swyddogol i amlddiwylliannedd cyn troi at feirniadaeth academiaidd ar amlddiwylliannedd. Yn ail, edrychir ar ddatblygiadau rhyngddiwylliannedd ym Mhrydain cyn eu cymharu â fersiwn québécois o'r ffenomen hon:

Multiculturalism [...]—is it an ideology? a set of policies? a social reality?—that in the end it confuses more than it clarifies. We have therefore decided to avoid using this term and instead to concentrate on identifying policies and approaches that will enable European societies to combine diversity and freedom (Cyngor Ewrop 2011).

Mae gwrthwynebiad swyddogol i amlddiwylliannedd gan gorff mor ddylanwadol â Chyngor Ewrop yn bygwth ysgwyd seiliau amlddiwylliannedd fel dull sydd yn cymhwyso amrywiaeth ddiwylliannol y gymdeithas fodern. Nodwyd eisoes bod y term yn dabw ymysg gwleidyddion a bod y 'chameleon-like neologism' yn cael ei ddiffinio ar sawl lefel wrthgyferbyniol. Rhoddir cryn sylw i adlach amlddiwylliannedd mewn llyfr arwyddocaol gan Steve Vertovec a Susan Wessendorf o'r enw *The Multiculturalism Backlash* (2010). Yma cyflwynir dadleuon cynhwysfawr am y gwrthwynebiad i amlddiwylliannedd ar lefel theoretig a pholisi cyhoeddus ym Mhrydain ac Ewrop. Yn y llyfr hwn, crynhoir y prif wrthwynebiad i amlddiwylliannedd fel athrawiaeth neu greddo unffurf, statig. Rhoddir

sylw i feirniadaeth agored gwrthwynebwyd cyhoeddus ym Mhrydain megis David Cameron a feirniadodd effaith amlddiwylliannedd ym Mhrydain fel 'deliberate weakening of our collective identity' (The Economist 2007). Yn yr Almaen ceir lleisiau amlwg megis Dr. Stephan Lust yn *Abscheid von Multikulti* yn beirniadu'r 'Multi-Kulti-Romantik' am ei fod yn ffafrio hawliau lleiafrifoedd wrth ddallu gwleidyddion i beryglon ymwahaniad ethnig, ac yn cynnig lloches i fewnfudwyr (Vertovec a Wessendorf 2010, tt. 1-17).

Honna Vertovec fod y gogwydd oddi wrth amlddiwylliannedd at integreiddio sifig yn nodweddu'r hyn a elwir yn *seismic shift* (Vertovec a Wessendorf 2010). O ganlyniad, lluniwyd polisiau a rhaglenni newydd ledled Ewrop ar integreiddio mewnfudwyr gan gynnwys cyflwyniad i brofion iaith a dinasyddiaeth mewn gwladwriaethau megis Prydain, Ffrainc a'r Almaen. Yn yr Almaen, dadleuir y bydd pwyslais model integreiddio Almaenig *fordern und fördern*—cyfrannu a chefnogi—o hyn allan yn rhoi pwyslais trymach ar *fordern* trwy orfodi gwersi Almaeneg i fewnfudwyr. Hefyd, cyflwynwyd profion iaith yn Ffrainc gan wahardd trwydded breswyl i'r rhai nad ydynt yn rhugl mewn Ffrangeg trwy'r gyfraith mewnfudo newydd yn 2006 (Vertovec a Wessendorf 2010, tt. 1-17).

Er gwaethaf diflaniad y term amlddiwylliannedd o bolisiau cyhoeddus, cyfeiria adroddiadau, gwneuthurwyr polisi a gwleidyddion at eiriau gwleidyddol cywir megis 'amrywiaeth' ac 'integreiddio'. I ba raddau, felly, y gellir cadarnhau dadfeiliad amlddiwylliannedd? Yn ôl Vertovec a Wessendorf (2010, t. 21): 'although now under the rubric of 'integration', these statements and plans were basically the same as those under the rubric 'multiculturalism'.' Ymdebyga'r gwrthwynebiad i amlddiwylliannedd i'r *crise d'accommodement* yn Québec yn ystod blynyddoedd cynnar y 2000au. Deillia'r argyfwng yn sgil nifer o achosion a godwyd am 'gymwysiadau' neu 'breintiau' diwylliannol mewnfudwyr a lleiafrifoedd ethnig Québec. Achoswyd cynnwrf gan y cyhoedd wrth i'r

cyfryngau gydio mewn achosion megis dynion yn cael eu gwahardd o ddsbarthiadau mamau beichiog ar gais menywod Mwslemaidd yn ogystal â gorfodaeth honedig ar y sector bwyd i newid ryseitiau er mwyn cydymffurfio â safonau Iddewon Unionged. Comisiynwyd adroddiad gan y gwleidydd Charles Taylor a'r cymdeithasegwr Gérard Bouchard er mwyn ymchwilio i'r achosion hyn. Casglwyd mai *crise de perception* oedd wrth wraidd yr achosion yn hytrach nag anghysondebau dyfnach. Yn yr un modd awgryma Vertovec fod effeithiau amlddiwylliannedd ym Mhrydain ac Ewrop wedi'u gwyrddroi gan y cyfryngau. Yng ngeiriau David McGhee (2008a, t. 145): 'we have entered into a phase of reflexive multiculturalism in which the term 'multiculturalism' has been driven underground, while some of the strategies associated with multiculturalism continues to influence policy and practice at the 'local' level.'

Yng nghanol y llif yn erbyn amlddiwylliannedd fel polisi cyhoeddus, ceir dadleuon ffyrnig ymysg athronwyr yn erbyn amlddiwylliannedd yn ogystal ag o'i blaid. Nodwyd eisoes yr athronwyr amlycaf sydd o blaid amlddiwylliannedd megis Kymlicka o Ganada a Tariq Modood a Bhuike Parekh o Brydain. Yn yr un modd ag yr awgryma Vertovec a Wessendorf (2010) fod *crise de perception* wrth wraidd y gwrthwynebiad, dadleua'r garfan hon mai camddealltwriaeth o egwyddorion amlddiwylliannedd a diffyg gweithredu llawn o'r polisiâu sydd yn deillio ohonynt sydd wedi esgor yr argyfwng. Ar y llaw arall, ceir carfan ddylanwadol o athronwyr sydd yn ymwrthod ag egwyddorion amlddiwylliannedd ar sail y rhesymau a nodwyd uchod. Nodwyd eisoes rai enwau amlwg megis Yasmin Alibhai-Brown sydd yn beirniadu effaith 'ethnigeiddio' cymdeithas. Ymhellach yn ei llyfr *After Multiculturalism* (2000), beirniada Alibhai-Brown genedlaetholdeb yr Alban a Chymru gan ategu bod eu cenedlaetholdebau hwy yn fygythiad i hunaniaeth Prydain ac wedi'u cymell gan bropaganda gwrth-amlddiwylliannol.

Edrychir felly yn awr ar ddau athronydd dylanwadol sydd yn gwrthwynebu amlddiwylliannedd. Er bod y ddau yr un mor ffyrnig eu gwrthwynebiad, dangosir bod eu rhesymau yn deillio o gyfeiriadau cyferbyniol a bod ganddynt felly oblygiadau gwahanol i'r gymdeithas ym Mhrydain a Chymru.

1.2.2. Amlddiwylliannedd Prydeinig: Wyneb Dynol ar Hen Farbariaeth?

Mae safbwynt egalitariaidd yr athronydd Prydeinig, Brian Barry, yn gyfraniad dylanwadol i'r garfan o wrthwynebwyr i amlddiwylliannedd. Ystyria nifer ei ddadleuon fel y dadleuon mwyaf heriol yn erbyn credo amlddiwylliannedd a'i goblygiadau gwleidyddol yn y genedl-wladwriaeth fodern. Yn ei lyfr *Culture and Equality* (2001), daw i'r casgliad fod amlddiwylliannedd yn dinistrio ymdrechion byd-eang i sefydlu cydraddoldeb cymdeithasol. Un o'i brif ddadleuon yw bod yr ymdrech i sefydliadoli amrywiaeth diwylliannol trwy wleidyddiaeth amlddiwylliannedd yn ffafrio hunaniaeth ddiwylliannol ar draul egwyddorion cydraddoldeb a rhyddid ac yn caniatáu perthynolaeth ddiwylliannol. Yn ei dyb ef, mae tuedd amlddiwylliannedd i goleddu neilltuoldeb ethnig yn golygu bod mudiadau ethnig yn gallu hybu eu hagenda gwleidyddol eu hunain. Ystyria Barry iaith a diwylliant grwpiau lleiafrifol fel 'moethusrwydd' sydd i'w caniatáu yn unig ym myd preifat yr unigolion dan yr amod bod 'the right of exit' ar unrhyw adeg. Mae'n berthnasol hefyd i blant ac addysg. Fel hynny, mae Barry yn ystyried y 'right of exit' yn berthnasol i addysg gan honni bod addysg ddwyieithog yn ffafrio'r iaith lleiafrifol ar draul symudoledd economaidd a diwylliannol. Pwysleisid pwysigrwydd sefydlu hunaniaeth gyffredin a hynny gan gymell lleiafrifoedd i rannu'r un hunaniaeth genedlaethol bwrpasol: 'a common commitment to the welfare of the larger society made up of the majority and the minority (or minorities), and mutual trust in others to abide by that commitment

even when it entails sacrifices' (Barry 2001, t. 88). Mae addasu eich *habitus*⁴ ieithyddol yn bris angenrheidiol er mwyn llwyddo yn y byd modern (a hynny trwy'r Saesneg) a thrwy ffafrio *difference blind approach* yn hytrach na gwleidyddiaeth ranedig amlddiwylliannedd. O ganlyniad, mae'r pwysau felly ar lleiafrifoedd i aberthu eu hieithoedd a'u diwylliannau yn y peuoedd cyhoeddus er mwyn ymdoddi i'r fframwaith mwyafrifol: 'I think that it is an appropriate objective of public policy in a liberal democratic state [that] all immigrants—or at least their descendants—become assimilated to the national identity of the country in which they are settled' (Barry 2001, t. 72).

Tra bo Barry yn beirniadu goruchafiaeth a roddir i'r lleiafrifoedd gan agenda amlddiwylliannedd, mae Slavoj Žižek (1997) yn condemnio amlddiwylliannedd fel ffurf guddiedig o ymestyn imperialaeth y Wladwriaeth. Mae amlddiwylliannedd, yn ôl Žižek, yn rhan o ideoleg ehangach sydd yn nodweddu cyfalafiaeth y Gorllewin. Yn yr un modd ag y mae cyfalafiaeth gymdeithasol yn ffurf o drefedigaeth heb wladychu'r genedl-wladwriaeth, mae amlddiwylliannedd hefyd yn drefedigaeth yn yr oes globaleiddio, lle mae'r mwyafrif gwladwriaethol mwyafrifol yn dominyddu'r lleiafrif ethnig wrth gadw ei bellter oddi wrtho. Disgrifia Žižek y ffordd y mae amlddiwylliannedd yn gosod gwisg o oddefgarwch amdano trwy dderbyn y lleiafrif neu'r 'Arall' er gwaetha'r ffaith na dderbynnir nodweddion diwylliannol sydd yn gwneud yr 'Arall' yn wahanol. Cyfeiria Žižek at y 'decaffeinated Other' er mwyn dynodi 'derbyniaeth' y mwyafrif am yr 'Arall' ond heb y sylwedd sydd yn ei wneud yn arbennig—ei ethnigrwydd:

Liberal 'tolerance' condones the folklorist Other deprived of its substance—like the multitude of ethnic cuisines in a contemporary megalopolis—any real 'Other' is denounced for its 'fundamentalism'—the 'real Other' is by definition

⁴ *Habitus* yw term a fathwyd gan Pierre Bourdieu er mwyn dynodi ymddygiad a meddylfryd unigolyn sydd yn cael eu ffurfio ac sydd yn newid drwy densiynau a strwythurau rhwng yr unigolyn â'r gymdeithas.

'patriarchal', 'violent', never the Other of ethereal wisdom and charming customs (Žižek 1997).

Yn ôl Žižek, mae cynnal perthynas 'barchus' â'r lleiafrif yn ffordd o arddel goruchafiaeth y mwyafrif. Yn eu dwylo hwy y ceir pŵer i werthfawrogi a thanseilio diwylliannau. Gwelir felly sut y gall dau athronydd wrthwynebu ffenomen amlddiwylliannedd a dod i gasgliadau cyferbyniol yn ei gylch. Ar y naill law, defnyddia Barry enghraifft Cymru er mwyn gosod cyd-destun i'w wrthwynebiad. Fe ddatgana fod ffafriaeth y farchnad lafur at siaradwyr dwyieithog Cymraeg a Saesneg yn ffordd o gamwahaniaethu yn erbyn siaradwyr uniaith: 'unless knowledge of Welsh can be shown to be related to the effective discharge of duties of the job [...] it is clearly unfair discrimination' (Barry 2001, tt. 106-7). Ar y llaw arall, mae barn Žižek ar y berthynas rhwng Serbia a Slofenia yn cael ei gymharu â chyd-destun Prydain a Chymru gan Daniel G. Williams (2012):

[...] when I converse with members of the so-called Serb democratic opposition, they say they are in favour of a cosmopolitan democratic Serbia whose defining quality is citizenship and not national belonging. OK, I accept this. But this is where the problems begin, because if you speak with them a little bit longer, you discover a certain political vision that tries to disguise cultural particularity as democratic universalism. For example, if you ask them about Slovene autonomy, they will argue that Slovenia is a small self-enclosed nation and that they, by contrast, are in favour of an anti-nationalist democratic society which is not self-enclosed.

Dywed Žižek fod Serbia yn ymarfer cenedlaetholdeb ar ddwy lefel a olyga mai Serbia yn unig sydd â'r gallu i gynnal dinasyddiaeth ddemocratiaidd ac amlddiwylliannol. Y canlyniad i hyn, yn nhyb Žižek, yw math o 'resymeg ddeublyg' trwy ddynodi Serbia fel gwladwriaeth fodern, ddatblygol a democrataidd tra bo Slofenia yn draddodiadol, cyntefig ac ethnig. Caiff hyn ei gymharu â Phrydain a Chymru: 'The problem lies in the fact that while British is narrativised, evolving and dynamic, its contributory peoples are essentialised as static races' (D. G. Williams 2012). Ehanga D. G. Williams ar y ddadl drwy sôn am amlddiwylliannedd Saesneg a'r gred Brydeinig mai'r Saesneg yn unig yw'r unig

borth at genedligrwydd sifig-ddemocrataidd. Mae amlddiwylliannedd Eingl-Sacsonaidd felly yn ymdebygu i dawddlestr ac yn deillio o'r oes Fictoraidd gyda syniadau Matthew Arnold am ymgorfforiad o'r elfen 'Geltaidd' o fewn mwyafrif Seisnig diwylliedig. Atgyfnertha D. G. Williams y pwynt hwn drwy gyfeirio at ddathliadau seremoni agoriadol a chau'r Gemau Olympaidd 2012 a oedd yn arddangos Prydain fel tawddlestr aml-ethnig deinamig er yn portreadu Cymru fel cenedl ethnig draddodiadol heb unrhyw gyfeiriad at ddiwylliant amlddiwylliannol a modern Cymreig (D. G. Williams 2012).

Wrth gymharu'r gwrthwynebiad i amlddiwylliannedd, sylwn fod syniadau egalitaraidd Barry yn adlewyrchu'r un pryderon dros ymlyniadau ethnig a'r un credoau dros oruchafiaeth gyfanfydol a'r hen safiad rhyddfrydol. Fel y Rhyddfrydwyr traddodiadol, honna Barry ei fod yn fwy buddiol yn economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol i grwpiau ethnig ymdoddi i'r mwyafrif cymdeithasol. I'r gwrthwyneb, mae Žižek yn beirniadu elfen gudd gymhathol yn yr 'ethnig' sydd ynghlwm wrth amlddiwylliannedd Rhyddfrydol gan ei ddisgrifio fel barbariaeth at leiafrifoedd gydag wyneb dynol. Gwelir felly bod ei syniadau am anghyfiawnder a goruchafiaeth fwyafrifol yn tynnu ar yr un gwreiddiau â syniadau Kymlicka am *benign neglect*. Yn wir, yn y ddau achos, dangosir nad yw'r 'sifig' yn ddiduedd, ond yn hyrwyddo ei agenda ei hun, sef diwylliant hegemoniaidd. Yng ngeiriau Charles Taylor: 'a particularism masquerading as the universal' (1992 t. 44).

Yn yr un modd ag y mae dadleuon diderfyn dros ddefnydd y term 'cenedlaetholdeb', dadleua Žižek y dylid symud y tu hwnt i amlddiwylliannedd. Esbonia sut mae trafodaethau'r Almaen am wrthwynebiad i amlddiwylliannedd wedi mynd law-yn-llaw â'r syniad o *Leitkultur*, hynny yw, diwylliant arweiniol:

The conflict about multiculturalism already is a conflict about Leitkultur: it is not a conflict between cultures, but a conflict between different visions of how different cultures can and should co-exist, about the rules and practices these cultures have to share if they are to co-exist [...] the only way out of this

debilitating deadlock is for Europe to resuscitate its legacy of radical and universal emancipation. The task is to move beyond mere tolerance of others to a positive emancipatory *Leitkultur*, which can only sustain authentic co-existence and immixing of different cultures, and to engage in the forthcoming battle for *Leitkultur* (Žižek 2011).

Mae'r gosodiad uchod yn codi mwy o gwestiynau nag y mae'n eu hateb; beth yw amodau *Leitkultur*? Mae'r gosodiad yn awgrymu y byddai symud tu hwnt i fosäig amlddiwylliannedd yn golygu brwydro dros y diwylliannau arweiniol mewn cymdeithas. Pa ddiwylliannau arweiniol sydd dan sylw felly? Wrth ystyried y syniad am ddiwylliant arweiniol neu *Leitkultur*, edrychir ar ffenomen rhyngddiwylliannedd sydd yn cael ei harddel fel datblygiad addas i amlddiwylliannedd drwy roi blaenoriaeth i ddiwylliant cyffredin. I ba raddau y gellir ei chymharu â'r egwyddorion y tu ôl i *Leitkultur* neu dawddlestr diwylliannol?

1.2.3. Tuag at Rhyngddiwylliannedd Prydeinig

Interculturalism can begin to eclipse the narrative of multiculturalism, which is still generally conceptualised as being about the relationships between the majority and minority populations within nation-states and revolving around singular and binary concepts of racialised difference (Cantle 2012, t. 142).

Mewn llyfr *Interculturalism; the new era of cohesion, diversity and globalisation* (2012), amlinella Ted Cantle syniadau am rhyngddiwylliannedd fel system genedlaethol o gymhwyso amrywiaeth diwylliannol yn yr 21ain ganrif. Bu Cantle yn gyfrifol am lunio'r 'Cantle Report' yn sgil terfysgoedd yng Ngogledd Lloegr 2001 yn ogystal â datblygu cysyniadau am 'gydlyniant cymdeithasol'. Fel y gwelir o'r dyfyniad uchod, ymddengys fod rhyngddiwylliannedd yn wrthwynebiad i amlddiwylliannedd. Beirniada Cantle dueddiad amlddiwylliannedd i ganolbwyntio ar 'hil'. Y caethiwed hwn, yn ei dyb ef, yw cyfyngiad amlddiwylliannedd a hyrwyddir gan Modood a Meer, gan eu bod yn diffinio amlddiwylliannedd yn nhermau hil o fewn ffiniau cenedlaethol. Pwyslais amlddiwylliannedd yn ôl Cantle yw elfennau 'cadw a gwarchod' treftadaeth ddiwylliannol

tra bo rhyngddiwyllyannedd yn hwyluso 'creu', 'atgynhyrchu' a 'datblygu' diwylliant (Sze a Powell 2004). Serch hynny, fe gytuna fod egwyddorion sylfaenol amlddiwylllyannedd ar hawliau grŵpiau yn sylfaen gadarn ar gyfer datblygu syniadaeth rhyngddiwyllyannedd. Ymhellach, fe ddisgrifia sut yr adeiledir rhyngddiwyllyannedd ar lwyddiant egwyddorion a pholisïau cydlyniant cymdeithasol. Fel hynny, yr ymgais gyda phrosiect rhyngddiwyllyannedd yw ehangu gorwelion cydlyniant cymdeithasol sydd hyd yma wedi'u gweithredu ar lefel polisïau lleol (Cantle 2012).

Gydag ymdrech Cantle i sefydlu strategaethau clir ar gyfer rhyngddiwyllyannedd ym Mhrydain, gellir synnu felly ei fod yn beirniadu ffurf wreiddiol rhyngddiwyllyannedd yn Québec. Yn ei dyb ef, cynllun cymhathol ydyw wedi'i ysgogi gan gymwysiadau penodol, yn bennaf oll, y cymhwysiad i ddysgu Ffrangeg. Mae fersiwn Gérard Bouchard o rhyngddiwyllyannedd a drafodir yn Adran 1.2.4 yn gyfyng oherwydd y duedd i lynu at bwysigrwydd yr elfen orfodol o ddysgu Ffrangeg. Er bod y cymwysiadau yn cysuro'r gymdeithas yn Québec, nid yw'n ystyried natur newidiol diwylliant yn oes globaleiddio. Meddai: 'Trying to 'buck the market' of cultural change by holding on to a fixed conception of culture is a futile exercise' (2012, t. 155). Yn yr ystyr hwn, awgryma Cantle fod rôl ganolog y Ffrangeg yn y gymdeithas yn arwydd o ddiwylliant sydd yn amharod i dderbyn newidiadau'r oes globaleiddio. Galwa am ystyriaeth fwy dialectig o globaleiddio a'r angen am gyd-dealltwriaeth rhwng diwyllianau yn hytrach na bod diwylliant yn diffinio hunaniaeth bersonol yn erbyn hunaniaethau eraill:

[...] the very nature of culture, and therefore of difference, has to be seen as dynamic and constantly renegotiated, depends upon a mind shift in conceptualising these issues. The focus of culture has become a pretext for creating a strong sense of personal being with which then to negotiate against other identities, rather than to acknowledge that personal identities can only be understood in relation to, and with, those of others (Cantle 2012, t. 173).

Serch hynny, honna Modood a Meer (Political Insight 2012) fod egwyddorion Parekh ar ddiwylliant yn debyg i egwyddorion deialog rhyngddiwylliannol a hynny drwy ddangos pwysigrwydd cyfathrebu â diwylliannau er mwyn pwyso a mesur cryfderau a gwendidau un diwylliant dros y llall. Daw safbwynt Cattle yn fwy amlwg wrth esbonio effaith globaleiddio ar y gymdeithas fodern. Er iddo gymeradwyo ysbryd rhyddfrydol ar ôl yr Ail Ryfel Byd, esbonia fod hyn wedi troi i gyfeiriad cenedlaetholgar gyda hunaniaeth gwleidyddiaeth yn sgil twf globaleiddio: 'Globalisation might have been expected to bring nations together by building upon these aspirations and giving effect to them but, rather, it seems our 'distinctions' have become more manifest and salient' (2012, t. 4). Pwysleisia'r angen am baratoi ar gyfer hunaniaethau hollgynhwysol ac amrywiol. Fel hyn, nodia mai'r oes globaleiddio sydd wedi paratoi'r tir ar gyfer cosmopolitanaeth. Dadleua Cattle fod hunaniaeth gosmopolitanaidd yn galluogi cysyniadau mwy cynhwysol o hunaniaeth a'r genedl-wladwriaeth. Er iddo ddal na ddylid rhwystro parhad diwylliannol, cwestiyna Cattle rôl y wladwriaeth i hyrwyddo'r dreftadaeth gan nodi y byddai'n fwy buddiol buddsoddi mewn datblygiadau sydd yn trosgynnu ffiniau cenedlaethol, ethnig a chrefyddol gan symud at 'ddinasyddiaeth fyd-eang'. Yn yr un modd, cymeradwya Cattle waith Cyngor Ewrop yn ogystal â'r Cyngor Prydeinig sydd yn mabwysiadau'r un meddylfryd rhyngddiwylliannol; mae prosiectau'r Cyngor Prydeinig gan gynnwys Cyngor Prydeinig Cymru yn gweithio ar drywydd gosmopolitanaidd gyda phrosiectau 'dinasyddion byd-eang' a phrosiect OPENCities sydd yn sefydlu cyd-ddealltwriaeth rhyngddiwylliannol rhwng dinasoedd Ewrop gan gynnwys Caerdydd (Cattle 2012, t. 155).

Yn y cyswllt hwn, mae damcaniaethwyr blaenllaw cosmopolitanaeth yn dadlau bod angen nodweddion diwylliannol o ryw fath er nid yw hynny'n golygu bod angen fframwaith diwylliannol arbennig. Fel y dywed Jeremy Waldron (1995 t. 108, May 2012, t. 113):

[...] though we drape ourselves in the distinctive costumes of our ethnic heritage and immerse ourselves in an environment designed to minimise our sense of relation with the outside world, no honest account of our being will be complete without an account of our dependence on larger social and political structures that goes far beyond the particular community with which we pretend to identify.

Er y pwyslais ar gyfnewidioldeb a chymysgwriaeth gan y damcaniaethwyr cosmopolitaidd, nid yw eu safiad parthed yr 'ethnig' a'r 'lleiafrif' yn wahanol iawn i safbwynt y Rhyddfrydwyr traddodiadol. Anwybydda'r damcaniaethwyr cosmopolitanaidd bod modd uniaethu ar lefel rhyngwladol, byd-eang yn ogystal â lefel lleol, cenedlaethol a chymunedol. Nid ymddengys fod Cattle yn mynd i'r eithaf â'r un garfan â Waldron drwy ymwrthod ag ethnigrwydd ac ieithoedd lleiafrifol fel y Gymraeg. Dywed Cattle ar ddiwedd ei lyfr: 'A common language does not require the elimination of minority languages and there is no reason why their continuation should not be encouraged and fostered as part of a broader programme to celebrate and promote diversity' (2012, t. 202). Er i hyn ymddangos fel pe bai o blaid diwylliannau ac ieithoedd lleiafrifol, awgryma gosodiad o'r fath na chred fod rôl iaith lleiafrifol fel y Gymraeg yn gallu llenwi'r un swyddogaeth ag iaith fawr. Felly, er iddo gefnogi iaith ar lefel preifat, ymddengys na fyddai'n ymestyn yr un gefnogaeth at yr iaith ar lefel gyhoeddus, fel ffaith a gyfoethogai economi a chymdeithas ddemocrataidd.

Yn ôl Kymlicka, perygl rhyngddiwylliannedd yw'r pwyslais ar y lefel rhyngwladol ar draul y lefel lleol. Er bod elfennau atyniadol am bropaganda dinasyddiaeth rhyngddiwylliannol, dadleua yn ei ysgrif 'Multicultural States and Intercultural Citizens' (2003) fod pŵer dinasyddion at wledydd a diwylliannau mwyafrifol a dylanwadol tu allan i'w ffiniau cenedlaethol yn fwy atyniadol na sefydlu deialog rhyngddiwylliannol â'r iaith a diwylliant lleol. Fe noda esiampl yr Almaen sydd yn enwog am bwysleisio addysg Saesneg a rhaglenni cyfnewid gyda gwledydd Eingl-Sacsonaidd er gwaethaf y ffaith mai'r iaith a

diwylliant Twrcaidd yw'r lleiafrif mwyaf o fewn yr Almaen. Yn ôl Kymlicka, nid yw triniaeth iwtopaidd o 'ddeall ein gilydd' ynghyd â chysyniad o 'ddinasyddiaeth fyd-eang' o fawr bwys. Y pwyslais ar 'ddeall ein gwahaniaeth' ac felly'r model amlddiwylliannol, yn ei dyb ef, sydd yn esgor ar barch a goddefgarwch at eraill. Y casgliad felly yw na all rhyngddiwylliannedd ragori ar safbwynt deallusol amlddiwylliannedd (Kymlicka 2003).

Nodir bod Cyngor Ewrop gydag achos y 'Papur gwyn' ac 'UNESCO' wedi labelu rhyngddiwylliannedd fel dilyniant rhesymol i amlddiwylliannedd. Dywed Kymlicka nad oes sail academaidd i ddweud bod amlddiwylliannedd yn gyfrifol am ymwahaniad cymdeithasol a dadleua fod hyn yn fyth gwleidyddol. Noda ei bryder bod y drafodaeth yn erbyn amlddiwylliannedd yn cuddio gwrthwynebiad cudd at amrywiaeth. Gyda chefnogaeth i amrywiaeth yn edwino ar lefel rhyngwladol yn yr 21 Ganrif, amlddiwylliannedd, yn ei dyb ef, yw'r bwlch dihangol. Cred felly mai gobeithion ofer ydy'r rhai sydd yn meddwl y bydd rhyngddiwylliannedd yn rhoi terfyn ar ymgyrchwyr gwrth-fewnlifiad. Er i Kymlicka gydnabod bod angen newid cyfeiriad er mwyn ailgydio yn ymrwymiad Ewrop at amrywiaeth, y perygl trwy hyrwyddo rhyngddiwylliannedd, dan faner gwrth-amlddiwylliannol, yw normaleiddio barn gwrth-amrywiaeth a chefnogaeth i bolisiau cymhathol (Kymlicka 2003).

Tebyg iawn yw ymateb Meer a Modood (2009a, 2009b, 2012) i'r drafodaeth am ryngddiwylliannedd. Cwestiynant pam fod 'cyfathrebu' a 'deialog' yn cael eu harddel fel gwerthoedd unigryw i ryngddiwylliannedd pan fo amlddiwyllianwyr eisoes yn rhoi canolbwynt i ddeialog yn eu trafodaethau ar wedi gosod yn segur tu fewn i werthoedd amlddiwylliannol. Diddorol felly yw gweld bod Meer a Modood yn cymharu rhyngddiwylliannedd Québec yn gadarnhaol gydag amlddiwylliannedd. Dywed fod cysyniad unigryw Québec o ryngddiwylliannedd wedi'i lunio'n strategol ar gyfer

cenedlaetholdeb is-wladwriaethol ac mewn gwrthgyferbyniad ag amlddiwylliannedd Eingl-Sacsonaidd y Canada ffederal. Tra bo amlddiwylliannedd Canada yn ffafrio safle mwy unigolyddol i ddiwylliant, mae rhyngddiwylliannedd yn Québec yn pwysleisio'r 'gwagle cyhoeddus' a 'phwrpas cyffredin' lle anogir yr unigolyn i gyfathrebu, cyfrannu a dadlau ynglŷn â'i hunaniaeth. Yn y cyswllt hwn, rhoddir sylw i ryngddiwylliannedd Québec gan ystyried i ba raddau y mae fersiwn is-wladwriaethol o ryngddiwylliannedd yn wahanol i fersiwn wladwriaethol Brydeinig ac i ba raddau bod modd ystyried model o'r fath ar gyfer Cymru.

1.2.4. Rhyngddiwylliannedd Québec

Edrychir felly yn bennaf ar waith Gérard Bouchard, ysgolhaig a hanesydd sydd yn bennaf adnabyddus am hyrwyddo a datblygu model rhyngddiwylliannol Québec. Mae ei llyfr diweddar, *l'Interculturalisme d'un point de vue québécois* (2012), yn cyflwyno ei weledigaeth am ryngddiwylliannedd fel model penodol o gymhwyso amrywiaeth ethnoddiwylliannol. Er i bolisiau rhyngddiwylliannedd gael eu gweithredu yn Québec ers y 60au, ac er bod llenyddiaeth helaeth yn ei drafod, nodi Bouchard bod angen pwysleisio arwyddocâd a phwysigrwydd rhyngddiwylliannedd o'r newydd a'i gyferbynnu yn benodol ag amlddiwylliannedd Canadaidd. Dichon bod cefnogaeth gyhoeddus i ryngddiwylliannedd, fel amlddiwylliannedd, hefyd yn sigledig gan godi ansicrwydd am lwyddiant dulliau integreiddio yn Québec.

Cyflwyniadau Bouchard Québec fel 'eithriad' Ffrengig y tu mewn i'r fwyafrif ffederal Canada a chyfandir Eingl-Sacsonaidd Gogledd America. Gyda thwf yr oes globaleiddio, y daw heriau newydd i Québec y bydd rhaid eu goresgyn os ydyw am barhau fel eithriad *francophonie* Gogledd America. Dywed Bouchard fod angen ar Québec ei holl nerth fel cenedl yn y dyfodol pe bai'n dymuno cynnal yr egwyddorion Ffrengig. Y gallu i integreiddio'r cymunedau gwahanol sydd o'r pwysigrwydd pennaf i Québec gan ei

ddisgrifio fel 'blaenoriaeth bennaf os yw hi [Québec] am barhau'⁵ (2012, t. 24). Atega hyn drwy ddweud bod ymwybyddiaeth hanesyddol gref gan y Québécois a elwir yn *mémoire sous tension*⁶ yn sgil dwy ganrif o oruchafiaeth Brydeinig. Cyfeddyf fod symudiad ehangach o ryddfrenio eto i'w gyflawni gan nodi bod y frwydr dros yr iaith yn gysylltiedig â thynghed y genedl. Yn wir, datblygodd rhyngddiwylliannedd mewn modd amddiffynnol, fel amlddiwylliannedd, yn sgil y *revolution tranquille* a'r angen i gymhwyso amrywiaeth ethnoddiwylliannol y 60au a'r 70au. O'r adeg hon, galwyd y 'Canadiaid-Ffrengig' yn Québec yn 'Québécois'. Nodwyd eisoes bod rhyngddiwylliannedd hefyd wedi datblygu mewn gwrthgyferbyniad ag amlddiwylliannedd Canadaidd gan fod Québec yn ystyried amlddiwylliannedd fel creadigaeth ar gyfer Canada Eingl-Sacsonaidd. Sefydlwyd amlddiwylliannedd ar ddwy genedl yn rhannu'r un hawliau gan negyddu hawliau penodol i'r grŵp mwyafrifol a thrwy osod pob grŵp ethnig ar yr un lefel. Nid oedd hyn felly yn rhoi sylw penodol i gwestiynau megis y Ffrangeg yn Québec. Mae rhyngddiwylliannedd Québec felly yn ddatblygiad sydd yn ymdrechu i wrthsefyll amlddiwylliannedd Canada gan geisio ymateb i anghenion penodol sefyllfa lleiafrifol ac eithriadol Québec (Bouchard 2012, tt. 19-44).

I ba raddau y mae rhyngddiwylliannedd yn wahanol i amlddiwylliannedd? I ba raddau mae'n ymateb i oes globaleiddio a mewnfudo cynyddol yn ogystal ag ymdrech i gynnal hawliau'r lleiafrif cenedlaethol Ffrengig?

Mae rhyngddiwylliannedd fel model lluosogol yn seiliedig ar ymchwil cydbwysol ac yn llywio ffordd rhwng cymhathu ac ymwahaniad. Yn hyn o beth, mae'n gosod pwyslais ar integreiddio, cydadwaith, trwy hyrwyddo diwylliant cyffredin sydd hefyd yn parchu hawliau yn ogystal ag amrywiaeth.⁷ (Bouchard 2012, t. 50).

⁵ 'une grande priorité s'il veut éviter de s'affaiblir'

⁶ Atgofion am densiynau gwleidyddol a chymdeithasol rhwng Québec a Chanada Eingl-Sacsonaidd yn is-ymwybod y bobl.

⁷ 'L'interculturalisme comme pluraliste integrateur, est un modele axé sur la recherche d'équilibrés qui entend tracer une voie entre l'assimilation et la segmentation et qui, dans ce but, met l'accent sur l'integration, les interactions et la promotion d'une culture commune dans le respects des droits et de la diversité.'

Mae diffiniad Bouchard yn datgelu bod rhyngddiwylliannedd yn gweithio o fewn cydestun lluosogrwydd. Fel y dywed uchod, rhoddir pwyslais ar 'integreiddio' drwy geisio'i lywio rhwng llwybrau'r modelau o gymhathu ac ymwahanu. Trwy wneud hynny, blaenoriaethir diwylliant 'cyffredin', yn wahanol i ddiwylliant 'cydgyfeiriol' er yn aros o fewn hawliau'r unigolyn. Ar sail y berthynas mwyafrif-lleiafrif, dywed Bouchard fod rhyngddiwylliannedd yn ceisio uno'r sifig a'r diwylliannol, yr unigolyn a'r gymuned i gyd o dan ysbryd rhyddfrydol. Gan hynny, mae rhyngddiwylliannedd yn cefnogi ac yn parchu ieithoedd cynhenid eu mewnfudwyr ynghyd ag annog addysg yn eu hieithoedd. Pwysleisia fod integreiddio yn fwy tebygol gydag addysg a chynhaliaeth yr ieithoedd hyn. Serch hynny, mae pwyslais ar Ffrangeg fel yr iaith swyddogol ynghyd â'i rôl yn datblygu hunaniaeth gyffredin—*un sentiment d'appartenance*. Mae'n berthnasol felly i bob 'dinesydd' Québec, mewnfudwr neu beidio, gyfrannu at y *cause du français* er mwyn datblygu *francophonie* Gogledd America: 'Mae'n gyfreithiol ac yn angenrheidiol bod [mewnfudwyr] yn ymwybodol o bwysigrwydd y Ffrangeg a bod y mwyafrif sydd yn siarad Ffrangeg, mewn ffyrdd amrywiol, yn anfon negeseuon clir o blaid 'ffrangegeiddio'⁸ (Bouchard 2012, t. 57). Er gwaethaf pwysigrwydd ymlyniad at y Ffrangeg, noda Bouchard fod angen gosod ffiniau ar yr hyn a ddisgwylir gan mewnfudwyr gan fod llesteirio rhyddid yn chwalu gobeithion dros integreiddio dilys i'r gymuned *francophone*: 'Serch cyfreithlondeb ac angenrheidrwydd y llwybr hwn, dylid ei fframio'n bendant gan fod modd iddo lesteirio rhyddid a pheri i rai mewnfudwyr beidio â meithrin ymrwymiad dilys at *francophonie* Québec.'⁹ (Bouchard 2012, t. 57).

⁸ 'Il est légitime et nécessaire qu'ils [immigrants] soient sensibilisés à l'importance du français et que la majorité francophone, de diverses façons, envoie des messages clairs en faveur de la francisation.'

⁹ 'Cette voie, certes légitime et nécessaire, doit être strictement encadrée parce qu'elle pourrait conduire à restreindre des libertés et à compromettre, chez certains, les chances d'une véritable adhésion à la francophonie Québécoise.'

Crynhoir isod brif egwyddorion rhyngddiwyllyannedd Alain G. Gagnon a Rafaelle Iacovino gan Triandafyllidou, A. *et al.* (2013):

FFIGUR 1—EGWYDDORION RHYNGDDIWYLLIANNEDD

1. There should be a public space and identity that is not merely about individual constitutional or legal rights.
 2. This public space is an important identity for those who share it and so qualifies and counter-balances other identities valued by citizens.
 3. This public space is created and shared through participation, interaction, debate and common endeavour.
 4. This public space is not culture-less but nor is it merely the 'majority culture'. Everyone can participate in its synthesis and evolution, and—while it has an inescapable historical character—it is always being remade and ought to be remade to include new groups.
 5. Québec, and not merely federal Canada, is such a public space and so an object to which immigrants need to have identification with and integrate into, and should seek to maintain Québec as a nation and not just a federal province. (The same point may apply in other multi-national states, but there are different degrees and variations of 'multi-nationalism'). (t. 33)
-

Er gwaethaf amodau cynhwysfawr rhyngddiwyllyannedd Québec, cyfyng yw gallu Québec i weithredu polisiau yng nghyd-destun y Ganada ffederal. Mae deddfwriaeth ffederal Canada yn oruwch i eiddo Québec ac mae'n ddigon posib i fewnfudwyr ymsefydlu a byw trwy'r Saesneg yn ôl y ddeddfwriaeth ffederal. Noda Bouchard fod Québec yn berchen ar *marge de manœuvre* o fewn Canada ffederal er mai cul ydyw. Er gwaethaf hyn oll, mae polisiau integreiddio ac ieithyddol Québec yn brawf cadarn ei bod yn bosibl i leiafrif ddatblygu fersiwn unigryw a gwahanol ar gyfer rheoli amrywiaeth o fewn y wladwriaeth fwyafrifol. Bu datblygiadau pendant yn sgil adfywiad gwleidyddol a datblygiad rhyngddiwyllyannedd. Mae'r nodweddion amlycaf yn cynnwys y canlynol; siart hawliau, *loi 101*—y gyfraith ieithyddol sydd yn gosod Ffrangeg fel prif iaith y dalaith, polisiau integreiddio, detholiad mewnfudwyr yn ogystal â datblygiadau diweddaraf ar

fesurau yn erbyn anffafriaeth. Yn bwysicaf oll, dywed Bouchard fod rhyngddiwylliannedd yn ceisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng ei hanes a'i ddyfodol a thrwy weithio o fewn ffiniau egwyddorion cyfanfydol ac unigolyddol—gan ddod i delerau gyda *pluralist dilemma* Bullivant (Bouchard 2012, tt. 45-95).

Enghraifft felly o ymchwil 'cydbwysol' ar waith ydy'r model a ddatblygwyd yn Québec o'r enw MAI (*le modèle d'acculturation interactif*) neu *Interactive Acculturation Model* (IAM) gan yr Athro Richard Bourhis. Seiliwyd model methodolegol ar gyfer mesur llwyddiant integreiddio Québec drwy arddel natur 'dwy-ffordd' integreiddio. Ystyriwyd felly, ei bod yn angenrheidiol mesur y cydadwaith rhwng y gymuned groeso a'r mewnfudwyr er mwyn sicrhau llwyddiant polisiau integreiddio. Yn yr ystyr hon, mesurir gwerthoedd a dymuniadau'r gymuned fewnfydol i gadw eu hymlyniadau diwylliannol yn erbyn y graddau y mae'r gymuned groeso yn fodlon gwneud cymwysiadau i'r mewnfudwyr. Y nod felly yw sefydlu model deinamig sydd yn ymateb i ogwyddau datblygol y gymuned groeso a mewnfudol mewn cyd-destun amlddiwylliannol. O fewn ystod y gogwyddau gwahanol (cymhathu, integreiddio, ymwahaniad, gwaharddiad ac unigoliaeth) awgrymwyd bod perthynas y gymuned groeso â'r gymuned fewnfydol yn Québec yn tueddu at ogwydd 'integreiddio' (Bourhis 1997, 2008). Yn yr ystyr hon, fel y dywed Bouchard (2012, t. 65), caiff 'integreiddio' ei ddiffinio'n wahanol yng Ngogledd America o'i gymharu ag Ewrop. Nid yw integreiddio gyfystyr â chymathiad fel ei ystyr yn Ffrainc. Nodir felly ei bod yn fwy gwerthfawr cyfeirio at derminoleg megis *integrationnisme*. Ystyrir y model MAI yn fanylach yn y bennod nesaf fel sail fethodolegol i waith empeiraidd a gyflwynir yn nes ymlaen yn y traethawd hwn.

Tra bo ffenomenau amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd wedi'u datblygu mewn gwrthgyferbyniad â'i gilydd, noda Bouchard (2012, t. 97) fod problemau gwahaniaethu rhwng y ddau oherwydd bod amlddiwylliannedd wedi cymryd ffurf rhyngddiwylliannedd

ar hyd y blynyddoedd. Yn wir, honna Gweinidog Canada dros Ddinasyddiaeth, Mewnfudo ac Amlddiwylliannedd fod angen i Ganada adeiladu pontydd yn hytrach na silos o hyn allan. Sonia Kymlicka yn yr un modd am ddatblygiad 'arbrwf esblygol' Canada ag amlddiwylliannedd. Tra bo Kymlicka o'r gred bod rhyngddiwylliannedd yn ddull i'w weithredu ar lefel feicrogymdeithasol, mae Bouchard—er iddo gydnabod llwyddiant rhannol amlddiwylliannedd yn fframwaith Eingl-Sacsonaidd Canada—yn bleidiol i allu rhyngddiwylliannedd weithio fel dull o gymhwyso amrywiaeth ar lefel macrogymdeithasol. Er gwaethaf beirniadaeth Cattle ar gyfyngder perthynas y mwyafrif a'r lleiafrif yn Québec sydd yn esgeuluso dimensiynau ehangach amrywiaeth, arddela Bouchard bwysigrwydd y *rapport majorité-minorité* fel man cychwyn er mwyn sefydlu egwyddorion integreiddio. Yn ei eiriau ef nid yw'n bosibl siarad am leiafrifoedd heb gydnabyddiaeth ohonynt gan y mwyafrif. Dadleua cefnogwyr rhyngddiwylliannedd Québec mai maen tramgwydd amlddiwylliannedd Canada yw diffyg cydnabyddiaeth i amlgenedlaetholdeb y wladwriaeth Ganadaidd gan labelu'r Québécois fel Canadiaid-Ffrengig, fel pob grŵp ethnig arall yng Nghanada. Er bod Kymlicka yn gwahaniaethu rhwng grŵp is-genedlaethol a grwpiau mewnfudol ac ethnig, nid oes anogaeth iddynt ymlynu wrth ddiwylliant cenedlaethol neu ddiwylliant cyffredin fel a geir yn achos rhyngddiwylliannedd. Nid mater o agosáu at fodel gweriniaethol Ffrainc â'i oruchafiaeth *a priori* i'r mwyafrif yw natur diwylliant cenedlaethol Québec. Cydnabyddir y perthynas *majorité-minorité* er mwyn diogelu hawliau dinasyddiaeth ar y ddwy ochr. Wrth ymbellhau oddi wrth y *clivage Eux-Nous* fel y'i disgrifir gan Bouchard (2012, t. 43), mae rhyngddiwylliannedd yn symud tu hwnt i'r ddeuoliaeth 'mwyafrif-lleiafrif' gan greu gwagle deinamig lluosogol ar gyfer y gymuned groeso a'r cymunedau mewnfudol ac ethnig ynghyd.

Creda Charles Taylor (2012, tt. 413-438) nad egwyddorion sydd yn gwahaniaethu rhwng amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd ond 'stori' gwahaniaethol Québec a Chanada sydd yn ei gwneud yn angenrheidiol bod Québec yn dilyn trywydd gwahanol ar gyfer cymhwyso amrywiaeth. Dywed Taylor fod brwydr Québec i gynnal y Ffrangeg dros y 200 mlynedd ddiwethaf yn golygu nad oes cwestiwn y byddant yn fodlon diystyru'r iaith. Wrth ystyried bod mewnfudwyr i Québec cyn y 60au yn integreiddio i'r gymuned angloffon (ac felly'r gymuned ban-Ganadaidd) yn ogystal â gostyngiad yng nghyfradd genedigaethau, bu ymdrechion mawr i wrthdroi'r tueddiadau hyn. Felly, amddiffynna Taylor y model rhyngddiwylliannol nid yn unig fel ffenomen unigryw ar gyfer eithriad Québec ond fel model y gellid ei gymhwyso ar gyfer gwledydd eraill Ewrop:

The intercultural story is not simply made for Québec. It also suits better the situation of many European countries. The features which make it applicable to Québec also often apply in Europe. There: (1) many countries have a long-standing historic identity which is still shared by the great majority of their citizens; (2) this identity frequently centres around a language which is not spoken elsewhere, and is under pressure from larger, 'globalized' languages; and (3) the same kind of not-fully-structured fears for the future of its culture and way of life may arise there as I noted in Québec (2012, t. 420).

Gwelwyd eisoes bod rhyngddiwylliannedd yn ennill tir ym Mhrydain yn sgil gwaith Cattle a gwaith y Cyngor Prydeinig yn ogystal â sefydliadau Ewrop megis Cyngor Ewrop ac UNESCO. Er gwaethaf hyn oll, gwelwyd nad yw rhyngddiwylliannedd Ewropeaidd wedi datblygu ar hyd yr un trywydd â rhyngddiwylliannedd Québec, a hyn gan ei bod wedi'i ffurfioli ar gyfer cenedlaetholdeb is-wladwriaethol. Diddorol felly yw gweld, ar y naill law, prif amddiffynwyr amlddiwylliannedd Prydain megis Modood a Meer yn cymharu rhyngddiwylliannedd Québec yn gadarnhaol gydag egwyddorion amlddiwylliannedd:

These interculturalists make a moral and policy case for the recognition of relatively distinct sub-state nationalisms. As such, they are less concerned with the diversity of the location that migrants and ethnic minorities are from, or the 'superdiversity' that this is alleged to cultivate therein. Its emphasis on multi-nationalism does distinguish it from post-immigration multiculturalism (and post-immigration interculturalism), but not multiculturalism per se (2012, t. 32).

Gwahaniaethant rhwng trafodaeth wleidyddol ar ryngddiwyllyannedd yn Québec a thrafodaeth anwleidyddol a meicrogymdeithasol Ewrop ar rynddiwyllianedd, 'offering civil society-based local encounters and conviviality in everyday life' (Political Insight 2012, t. 32). Ar y llaw arall, gwelir prif ledaenwyr rhyngddiwyllyannedd ym Mhrydain yn beirniadu rhyngddiwyllyannedd Québec ac yn cymharu egwyddorion Prydeinig ar ryngddiwyllyannedd gydag amlddiwyllianedd yng Nghanada. Dywed Cante: 'Ironically, the concept of multiculturalism advanced by the Canadian government, and so soundly rejected by the Bouchard-Taylor Report, may be somewhat nearer to more generally accepted ideas about interculturalism' (Cante 2012, t. 155). Er gwaethaf yr ymdrech i gysoni amlddiwyllianedd Canada â rhyngddiwyllyannedd Québec yn y gosodiad hwn, nid yw egwyddorion rhyngddiwyllyannedd Prydain nag Ewrop hyd yma yn rhagori ar ddadleuon damcaniaethol amlddiwyllianedd gan ddamcaniaethwyr megis Kymlicka. Er bod Cante o blaid mabwysiadu rhyngddiwyllyannedd ar lefel facrogymdeithasol fel y prif ddull o gymhwyso amrywiaeth, mae ei ganolbwynt ar integreiddio ôl-fewnfudol a diffyg ystyriaeth o ymwybyddiaeth genedlaethol yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru yn gwanhau ei ddadl. Yn ôl Modood a Meer (2012 Political Insight), ni ddylid pegynnu'r ddwy ffenomen: 'Interculturalism, and other concepts such as cohesion and indeed integration, need to be allied to multiculturalism rather than presented as an alternative.' (t. 33)

Disgwylir y bydd 19% o boblogaeth Québec yn fewnfudwyr erbyn 2031. Yn Montreal tybir y byddai'r ganran yn uwch—mae 30% o boblogaeth y ddinas yn fewnfudwyr (Corbeil a Houle 2013). Datgelodd ffigyrau Cyfrifiad Canada 2011 fod cynnydd sylweddol yn y nifer sydd yn siarad mamiaith heblaw am Ffrangeg a Saesneg yn Québec ac yn arbennig yn Montreal. Ysbardunwyd trafodaeth newydd ar dynged y Ffrangeg yn Québec yn ogystal ag ansicrwydd yn wyneb globaleiddio:

Caiff Québec ei gwahodd i ail-strwythuro dyfodol y Ffrangeg er mwyn sicrhau ei goroesiad a'i datblygiad yng nghyd-destun globaleiddio. Mae'n hanfodol felly bod integreiddiad ieithyddol mewnfudwyr yn cael ei hystyried mewn cyd-destun o gynwysoldeb trwy ei gysylltu â dwyieithrwydd ac amlieithrwydd gydag ymrwymiad cadarn o blaid y Ffrangeg fel unig iaith swyddogol Québec¹⁰ (Bouchard 2012, t. 237).

Mae ymdrech Québec i gynnal integreiddio ieithyddol eu mewnfudwyr felly yn hollbwysig ar gyfer dyfodol y Ffrangeg yng Ngogledd America. Ar sail ymgais Québec i ddiogelu lleiafrifoedd eraill o fewn ei thir, noda Bouchard fod angen cynnal ymagwedd gadarnhaol at ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd y gymdeithas. Pwysleisia, serch hynny, nad yw'n golygu newid mesurau ieithyddol i gydnabod dwyieithrwydd, neu amlieithrwydd swyddogol y gymdeithas *Québécoise* fel a geir ym mholisïau ieithyddol ffederal Canada—mae'r ymrwymiad at gynnal ieithoedd ethnig eraill Québec ar sail yr egwyddor ei bod yn cyd-fynd ag ymrwymiad cadarn Québec o blaid Ffrangeg fel *langue publique commune* y genedl (Oakes 2004).

¹⁰ 'Le Québec est maintenant invité à reprogrammer l'avenir du français pour en assurer la survie et le développement dans un horizon mondialisé. Il faut que l'intégration linguistique des immigrants soit pensée également dans cette perspective qui doit allier une ouverture au bilinguisme et au plurilinguisme avec un engagement très ferme en faveur du français comme seule langue officielle du Québec.'

1.3. IAITH LEIAFRIFOL: YR HAWL I OROESI

Wrth ystyried dulliau amrywiol o gymhwyso amrywiaeth ethnoddiwylliannol, gwelir bod cyswllt iaith o fewn y drafodaeth yn un hanfodol, tanbaid a dadleuol iawn. Cofiw'n ddatganiad Ernest Renan ar safle iaith a'r genedl: 'Gall iaith ein gwahodd ni i uno ond nid yw'n cymell i wneud'¹¹ (Renan 1997). Ystyriwyd y gogwyddau gwahanol sydd ynghlwm wrth amlddiwylliannedd o fewn Ewrop, Prydain a Chanada a chasglwyd mai dehongliadau gwahanol ac weithiau gwrthgyferbyniol sydd yn rhannol gyfrifol am ymatebion negyddol i amlddiwylliannedd. Er gwaethaf twf cenedlaetholdeb is-wladwriaethol a phwerau datganoli ym Mhrydain ac Ewrop, gellir categoreiddio amlddiwylliannedd Ewrop fel dull sydd wedi'i ddatblygu'n bennaf i ymdrin â mewnfudwyr ôl-drefedigaethol (Modood a Meer 2009). Er i leiafrifoedd ethnig Ewrop dderbyn cydnabyddiaeth gynyddol ar hyd y degawdau diwethaf, gwelir nad yw trafodaeth academaidd eisoes wedi adlewyrchu cyfraniad yr is-wladwriaethau a'u diwylliannau at amlddiwylliannedd. Nid yw'r byd academaidd yn Ewrop na pholisiau Ewropeaidd (Papur Gwyn y Cyngor Ewrop, 2008) wedi ystyried cyfraniad ieithoedd lleiafrifol i brosiect ar gymhwyso amrywiaeth. Caiff y diffyg cydnabyddiaeth hwn ei amlygu ym mhrosiectau eangfrydol y Cyngor Prydeinig sydd yn hyrwyddo fersiwn gyfanfydol o ryngddiwylliannedd, er enghraifft prosiect 'OPENCities' (2012) a 'Culture at Work' (2013) y Cyngor Prydeinig.

I'r gwrthwyneb, yng Nghanada, ceir dull cynhwysfawr dan y teitl 'amlddiwylliannedd' sydd yn rhoi sylw cydradd i grwpiau cynhenid, is-wladwriaethol a mewnfudol. Er i amlddiwylliannedd ffurfioli'n wreiddiol wrth ymateb i ofynion dwyieithrwydd a deuoliaeth Canada, fe'i datblygwyd ymhellach i ddiwallu anghenion lleiafrifoedd ethnig a chynhenid y ffederaliaeth. Trafodwyd eisoes mai Kymlicka yw'r amlycaf o'r deallusion a

¹¹ 'La langue invite à se réunir: elle n'y force pas.'

wnaeth gyfraniad mawr at gategoreiddio a gwahaniaethu rhwng hawliau'r grwpiau hyn. Mae hawliau ieithyddol hefyd yn sylfaen cadarn i raglen Canada er mwyn llunio mosäig amlddiwylliannol y wladwriaeth.

Ymhellach, cawn fodel cynhwysfawr arall gyda rhyngddiwylliannedd Québec sydd hefyd yn cydnabod hawliau grwpiau cynhenid a lleiafrifol ond, yn wahanol i amlddiwylliannedd, yn cefnogi diwylliant cyffredin trwy iaith a diwylliant y mwyafrif 'lleiafrifol' *Québécois*. Gan ystyried natur leiafrifol Ffrangeg o fewn Gogledd America, rhoddir blaenoriaeth i'r Ffrangeg fel cyfeirbwynt i ddiwylliant ac integreiddio poblogaeth Québec. Goblygiadau hyn yw bod Ffrangeg yn cael ei gweld fel lles ac adnodd cymdeithasol a chyhoeddus. Mae beirniadaeth lem gan sylwebyddion rhyngwladol ynglŷn â natur orfodol y Ffrangeg yn Québec. Serch hynny, mae modelau megis y modèle d'acculturation interactif (MAI) wedi ceisio arddangos bod ideolegau Llywodraeth Québec yn lluosogol eu natur a bod hyn yn cyflyru ymagweddu *integreiddio neu unigoliaeth* ymhlith mewnfudwyr yn hytrach na *chymathu* ac *ymwahaniad* (Bourhis *et al.* 2008). Nid tawddlestr na mosäig yw'r model hwn felly ond yn hytrach dull sydd yn llywio rhwng amlddiwylliannedd Canada a gweriniaetholdeb Ffrainc gan annog 'gwagle cyhoeddus' ac iaith gyffredin fel y llinyn sydd yn gweu cymdeithas at ei gilydd.

1.3.1. Iaith: Ethnig ynteu Sifig?

Eto i gyd, mae newidiadau i gymdeithas yr oes globaleiddio yn codi amheuan am ddilysrwydd ethnigrwydd mewn diwylliant modern, sifig a chosmopolitanaid. Mae tensiwn yn bodoli rhwng trafodaeth academiaidd ar ethnigrwydd sydd ar y naill law yn wrth-fodern neu ar y llaw arall yn greadigaeth fodern. Ar un ochr y sbectrwm, ystyriwyd safbwynt y Rhyddfrydwyr traddodiadol sydd yn gwadu cyfraniad ymlyniad ethnig i gyfraniad economaidd a chymdeithasol ehangach. Yn hyn o beth ystyriwyd y farn bod

cymdeithas ryddfrydol yn gwneud cymwynas â'r lleiafrifoedd wrth annog iddynt warafun eu hieithoedd cynhenid. Yn yr un modd, cymharwyd safbwyntiau rhai modernwyr sydd yn gwadu ethnigrwydd mewn ymgyrch i sefydlu dinasyddiaeth gyfanfydol. Mae Brian Barry yn enghraifft amlwg o feddylfryd y modernwyr sydd yn ystyried hawliau ieithoedd lleiafrifol yn groes i gyfiawnder gan ddatgan hefyd ei bod yn llesteirio cyfle unigolion i lwyddo yn y byd modern:

Linguists and anthropologists may well have professional regrets if as a result a certain language ceases to be spoken or a certain cultural trait disappears. But preferences of these kinds are surely not an adequate basis on which to force people to perpetuate the language or cultural traits against their own judgment as to where the advantage lies' (Barry 2001, t. 75).

Ar ochr arall y sbectrwm, mae trafodaethau cyfoes ynghylch cymysgrywiaeth a chosmopolitaniaeth yn diystyru 'gwreiddiau sefydlog' ac felly yn gwanhau'r ddadl dros hyrwyddo iaith leiafrifol fel lles cymdeithasol. Enghraifft amlwg o hyn yng Nghymru yw dadleuon Charlotte Williams. Yn "'Can we live together?": Wales and the Multicultural Question' (2005), honna fod Cymru wedi esgeuluso amrywiaeth ethno-ddiwylliannol er mwyn canolbwyntio ar ddiffinio iaith yn ei hunaniaeth. Yn ei thyb hi, mae hyn yn eithrio eraill rhag uniaethu â Chymru erbyn heddiw: 'this produces the 'not-identities' of Wales as inevitably the lack of language skills is felt to compromise some people's claim to Welshness' (C. Williams 2005, t. 223). O ganlyniad, honna Charlotte Williams fod lleiafrifoedd ethnig yn ystyried Cymreictod yn ethnoganolog: 'Along with many others, the majority of ethnic minority individuals would find any definition of Welshness based on language somewhat exclusive' (t. 223).

Gwrthwyneba C. Williams categorïau Kymlicka ar hawliau gwahanol grwpiau ethnig. Honna fod hollti hawliau gan roi mwy o hawliau i un grŵp na'r llall (megis hawliau tiriogaethol i'r Gymraeg) yn gallu arwain at ymwahaniad. Yn wir, dadleua fod hyn yn elfen nodweddiadol o Gymru sef bod y genedl wedi ei hollti yn ieithyddol ac yn

ddiwylliannol, a'r ochr Gymraeg, yn ei thyb hi, sydd yn cynhyrchu monoddiwylliannedd: 'Wales is in fact not a bi-lingual society but a bi-cultural society in which one side of the 'bi' strive increasingly towards mono-culturalism whilst the other is barely acknowledging the challenge of a broader multiculturalism' (t. 224).

Fel hynny, cred C. Williams bod gwleidyddiaeth y Gymraeg yn gwneud sefyllfa Cymru yn broblematic gan geisio cysoni 'the Celtic essence' a'r amrywiaeth cynyddol ar dir Cymreig: 'Squaring the oxymoron [...] in the Welsh context is apparently relying much more on assimilation and universalism than more open models of integration' (C. Williams 2008, t. 515). Er nad yw C. Williams yn ymhelaethu ar ba fodel integreiddio a all fod yn gymwys i Gymru, credai mai rôl ymylol, ddewisol sydd gan y Gymraeg i hunaniaeth a dinasyddiaeth genedlaethol Gymreig. Yn ei barn hi, ni ddylid felly ddisgwyl neu orfodi lleiafrifoedd ethnig a mewnfudwyr i Gymru i ddysgu Cymraeg ar sail y ffaith nad yw'n adlewyrchu nifer o ffyrdd y gellir bod yn Gymreig a hefyd gan ei fod yn ffordd o gymathiad i mewn i genedlaetholdeb ethnig. Ymddengys, serch hynny, mai fersiwn o genedlaetholdeb ethnig ieithyddol y Rhamantwyr Almaeneg sydd dan sylw gan C. Williams.

Creda May (2012) nad yw dadleuon y damcaniaethwyr ôl-drefedigaethol, megis Stuart Hall, Homi Bhabha a Charlotte Williams yn ystyried pwysigrwydd parhaol cadernid cymunedau cenedlaethol a'u hieithoedd cynhenid priodol. Yn wir, yn ôl A. Smith (1991) mae gan ethnigrwydd natur ddeublyg: 'the central paradox of ethnicity: the coexistence of flux and durability, of an ever-changing individual and cultural expression within distinct social and cultural parameters' (t. 38). Gwelir bod hyn hefyd yn cyd-fynd ag ystyriaeth Bourdieu o *habitus* (1982) sydd yn dilysu ethnigrwydd fel nodwedd

gymdeithasol gadarn sydd â'i wreiddiau yn y gorffennol ond hefyd yn datblygu yn y gymdeithas fodern, gan osgoi hollti'r sifig a'r ethnig.

A yw'n bosib felly dad-ethnigeiddio'r iaith wrth ei gosod yn y gofod sifig? A oes perygl yn sgil hyn? Yn yr un modd, dadleua Bouchard dros hanfod ethnig y Ffrangeg yn Québec gan ddweud 'the prospect of a zero ethnicity is simply not realistic' (1999, t. 31). Creda Pagé (2006, t. 47) na ellir dad-ethnigeiddio iaith mewn cenedl sifig gan fod y *langue publique commune* hefyd yn *langue identitaire*, y ddau felly yn perthyn i'w gilydd. Yn yr un modd ceisia Taylor cysoni'r elfen ethnig trwy fframwaith sifig:

This part of the 'ethnic' dimension of our hybrid democracy (which is also highly civic in nature) is that we must ask new immigrants to assume our history as their own, as it is the formative matrix of the society that they are to take part in. And this is an ethnic history, largely the history of the majority French-Canadian ethnic group, but also that of Aboriginal nations, and more recently, of the 'English'. (Taylor 2001, t. 24)

Mae Michel Seymour (1995) yn dadlau bod Québec wedi symud y tu hwnt i'r gwrthgyferbyniad ethnig a sifig. Nid yw Québec yn genedl ethnig, ddiwylliannol na sifig yn ei dyb ef. Cynigia fodel o Québec fel y genedl sosiowleidyddol (*nation sociopolitique*) er na fyddai'n bodoli heb iaith, diwylliant a hanes y mwyafrif ffrancoffon (t. 158). Hefyd, ffurfiwyd cysyniad o'r *polyfrancophonie* gan Nicholas van Schendel gan bwysleisio haenau amrywiol y realiti Ffrangeg yn Québec sydd yn ei gwneud yn bosib i fewnfudwyr trwy eu hintegreiddio i'r gymdeithas Ffrangeg ail-ddiffinio a newid defnydd iaith a chreu ystyr newydd sydd yn gweddu i ddiwylliant a'r *mode de vie* yng Ngogledd America (Cardinal 2011, t. 11).

Yn wahanol felly i syniad Herder am y *Volkgeist* sydd yn uno pobl o'r un dras a gwaed, mae iaith, fel yn enghraifft Québec, yn meddu ar nodweddion sifig gan bwysu ar

luosogrwydd yn ogystal ag arddel ymlyniad integreiddiol. Gellir crynhoi safle nodweddiadol dinesig yr iaith mewn datganiad gan Lywodraeth Québec:

The official and common language of Québec is passed on to everyone living in the territory of Québec, whatever his or her origin. In this way, French becomes the privileged means of access to the civic heritage (values, rights, obligations, institutions, etc.) common to all Québécois and on which their citizenship is founded. The French language offers a site for the exploration and development of the particular values of the whole of Québec society. It is also the site of a collective will to live together, the common public space where everyone can meet (Gouvernement du Québec 2001).

Mae enghraifft Québec yn datgelu realiti iaith ethnig sydd yn rhan ganolog o fywyd sifig cenedl. I ba raddau mae hyn yn ffenomen unigryw? A oes peryglon i leiafrifoedd ethnig osod eu hiaith yn y gofod sifig? Mae'r drafodaeth ar y rhaniad ethnig a sifig hefyd yn bodoli ar dir Cymreig. Er bod y Gymraeg yn cael ei hystyried gan nifer yn iaith 'ethnig' a chan hynny yn 'ethnoganolog', dadleua Brooks fod iaith yn sifig ei hanfod:

Hyblygrwydd eithriadol iaith yw bod modd iddi fod yn ethnig a dinesig ar yr un pryd. Mae'n ethnig am iddi ymgorffori 'ysbryd' oesol y gymuned Gymraeg ei hiaith. Mae'n ddinesig am ei bod yn agored i'r sawl nad ydynt yn hano o Gymru ond sydd yn dymuno ei dysgu [...] pe dymuna, mae modd felly i fewnfudwr ddewis bod yn Gymro neu'n Gymraes yn yr ystyr ethnig yn ogystal â dinesig, gall ei fod yn meddu ar 'y Peth' ethnig, y Gymraeg (2009b, t. 158).

Er nad yw'n eglur sut y gall mewnfudwr 'ddewis' ethnigrwydd Cymreig, y ddadl yw nad yw cenedlaetholdeb sifig o reidrwydd yn ddymunol gan ei bod yn bygwth ethnigrwydd. Yn ei dyb ef, gall cenedlaetholdeb sifig filwrio yn erbyn y Cymry Cymraeg a'r iaith Gymraeg gan nodi bod gwerthoedd sifig yn aml yn fath o ragfarn wrth-leiafrifol wedi'i sefydliadoli (2009b, t. 143) neu drais symbolaidd yng ngeiriau Bourdieu (1982). Yn ôl Bourdieu mae'r dinesig yn meithrin â'i *habitus* penodol (sydd yn seiliedig ar ethnigrwydd y mwyafrif). Mae'n galluogi cyfalaf cymdeithasol a symbolaidd tra'i fod yn gallu gwarafun cyfalaf y lleiafrif ac felly gorfodi cymathiad i'r dinesig. Er y gall cenedlaetholdeb sifig drin y Gymraeg fel iaith anhygyrch, credir bod y Saesneg yn dianc rhag culni ethnig.

Ymddengys bod cyfyngiadau ar ddianc rhag ethnigrwydd yn ogystal â chofleidio ethnigrwydd. Yn hyn o beth, mae dinasyddiaeth unigolyddol absoliwt yn bygwth dinistrio dinasyddiaeth ddiwylliannol. Yr angen yng nghyd-destun Cymru, yn ôl Brooks, yw meddwl am yr 'ethnig mewn ffordd newydd [...] y ffordd amlwg yw sicrhau cydraddoldeb ar gyfer unigolion o gefndir anghymreig o fewn y Gymru Gymraeg yw breinio'r Gymraeg fel arwyddnod hunaniaeth Gymreig' (2009b, t. 158).

O ystyried hyn, dychwelwn at syniadaeth Kymlicka am *societal culture* lle y dadleuir bod hawliau grŵp ar yr un gwastad moesol â hawliau unigolion—yr unigolion yn cael eu ffurfioli gan y gymuned. Dadleua Lewis (2009) ei bod yn hawl moesol derbyniol i grŵp adfer a hyrwyddo ei iaith leiafrifol fel y Gymraeg. Yn hyn o beth, gall cefnogaeth i fwy o hawliau a statws i'r Gymraeg gael ei chefnogi. Gyda mwyafrif Ffrangeg Québec, dadleuir y gellid cyfiawnhau mesurau dros y Ffrangeg gan fod y rhain yn cael eu chefnogi gan ewyllys y grŵp Ffrengig yn Québec. Nodir bod Cymru mewn sefyllfa wahanol o ran niferoedd a chanran sydd yn siarad Cymraeg. Ystyria Kymlicka bod hawliau'r grŵp ethnig Cymraeg yn berthnasol yn unig os ydynt yn siaradwyr mamiaith. Felly, pe byddai siaradwyr mamiaith ac ail-iaith Cymraeg am ymgyrchu dros hawliau ychwanegol i'r iaith, ni fyddai cais siaradwyr ail iaith Gymraeg yn cael ei ystyried.

Fodd bynnag, gwelir tuedd gynyddol tuag at gysyniadau ôl-strwythurol sydd yn edrych ar natur ddatblygol a thrawsnewidiol iaith a diwylliant (Bourdieu 1982, Wright 2000, Bloomaert *et al.* 2012) ac sydd yn symud i ffwrdd o gatedoreiddio grwpiau fel nodweddion sefydlog. A yw'n codi amheuon felly ar allu amlddiwylliannedd i hyrwyddo prosiect adfer iaith leiafrifol? A oes mwy o fanteision gan ryngddiwylliannedd is-wladwriaethol trwy hyrwyddo diwylliant cyffredin? Gwyddom fod realiti ieithyddol y Ffrangeg yn Québec yn dra gwahanol i Gymru fel y mwyafrif o leiafrifoedd ieithyddol

eraill yn Ewrop. Serch hynny, ar lefel ddamcaniaethol, ymddengys fod rhyngddiwylliannedd Québecaidd â'i bwyslais ar iaith 'leiafrifol' genedlaethol mewn fframwaith lluosogol trwy gydbwyso hawliau unigolyn a grŵp yn ddull posibl ar reoli amrywiaeth yng Nghymru.

1.3.2. Iaith: Ymlyniad Offerynnol ynteu Integreiddiol?

Gan edrych eto ar ymchwil a wnaed yn Québec, dadleua Bouchard fod yr adroddiad a luniwyd ar sail comisiwn Bouchard-Taylor yn dangos bod goddefgarwch at luosogrwydd yn nodweddiadol o'r dull rhyngddiwylliannol ac yn fwy amlwg nag ymchwil ar gydlyniant cymdeithasol yng Nghanada. Serch hynny, fe'i gwrthwynebir gan ddamcaniaethwyr Canadaidd megis Keith Banting (2008). Yn ei ysgrif ar 'The Model of our Mind: Conceptions of Social Integration and Immigrant Integration' dynoda wahaniaeth rhwng dull 'diwylliannol' sydd yn Québec a dull integreiddio 'cyfranogol' Canada, neu i'w eirio'n symlach 'pwy ydym ni?' neu 'sut ydym am fyw gyda'n gilydd?' (2008, t. 1). Er iddo ddadlau bod y dulliau gwahanol yn trin yr un cwestiynau o gyfeiriadau cyferbyniol, ychwanega Banting fod gan fodel ffederal Canada fwy o rym atyniadol ar gyfer gwladwriaethau amlgenedlaethol megis Prydain. Dywed fod yr ymlyniad diwylliannol 'gwan' sydd gan ddiwylliant Canada yn fanteisiol i'r cymunedau hanesyddol yn ein hoes lluosogol am ei fod yn haws i newydd-ddyfodiaid ymgartrefu heb orfod uniaethu â diwylliant penodol. Mae Banting felly o'r farn bod cymell diwylliant ar sail hawliau, er ar ei golled ar ymlyniadau integreiddiol i'r diwylliant, yn sicrhau cydlyniant cymdeithasol (2008, tt. 9-10).

Yn hyn o beth, mae arolwg gan Soroka *et al.* (2011) yn dadlau bod y gystadleuaeth rhwng iaith wladwriaethol ac iaith leiafrifol, fel a geir yn Québec, yn rhwystro integreiddio cymdeithasol. Er gwaethaf cyfyngiadau arolwg o'r fath, honnant fod eu hymchwil yn datgelu bod cwmp mwy nodweddiadol yn ymlyniadau integreiddio mewnfudwyr yr ail genhedlaeth at Québec o gymharu â Chanada (Soroka *et al.* 2011, t. 170 yn cyfeirio at

arolwg yn 2002). I'r gwrthwyneb, mae ymchwil gan Helly a Van Schendel (2001) yn dangos nad oedd yr unigolion yn ystyried eu bod wedi dieithrio o Québec na gwladwriaeth Canada a nodwyd bod cyswllt penodol rhwng dysgu Ffrangeg a meithrin ymdeimlad at Québec: 'there is in fact a strong correlation between knowing French and developing a strong sense of belonging through the appropriation of French-Québecer traits, or through a spirit of conformity to the rules perceived as those of the linguistic majority' (Oakes & Warren, t. 143, yn dyfynnu Helly a van Schendel 2001, t. 310). Mae ymchwil gan Labelle a Salée (2001) yn dod i gasgliad mwy amwys dros lwyddiant y Ffrangeg i integreiddio mewnfudwyr gan ddatgelu ymlyniadau rhanedig y mewnfudwyr at y Ffrangeg a'r Saesneg. Mae'r Saesneg yn cynrychioli 'a pivotal language in public and private communication in Québec, and a powerful instrument of socialization for immigrants, even those of French-speaking origin' (Labelle a Salée 2001).

Yn hyn o beth, diddorol yw ystyried model methodolegol arall sydd yn hanu o Québec o'r enw'r *trajectoire langagière*. Fe'i dyfeisiwyd ar gyfer ymchwil ar y lefel *meso* a *micro* drwy arsylwi a chofnodi ymatebion ac ymagweddau mewnfudwyr at ddysgu ail iaith ar hyd amser. Yn ôl canlyniadau ymchwil Ralatianna (2015), dangosir bod cymhellion integreiddiol ac offerynnol mewnfudwyr yn dysgu Ffrangeg fel ail iaith ynghlwm wrth ei gilydd a'u bod yn trawsnewid a datblygu dros amser. Noda ymhellach fod taith ieithyddol y mewnfudwr yn broses wahanol i oedolyn brodorol a bod y *trajectoire* yn cynnig fframwaith deongliadol er mwyn gwneud synnwyr o'r datblygiadau sydd ar waith. Mae'r model felly yn mynd i'r afael â dehongli'r prosesau sydd yn cymell a hefyd yn rhwystro datblygiadau ieithyddol a chymdeithasol y mewnfudwyr wrth iddo neu iddi ymaddasu ac ail-ddehongli realiti ac iaith neu ieithoedd newydd. Ymdrinnir yn helaethach â hyn yn Adran 3.1.3.

1.3.3. Mewnfudo: Bygythiad ynteu Cyfoethogiad?

Ystyriwyd eisoes fod adlach at amlddiwylliannedd ar lawer cyfrif yn adlewyrchu ymagweddau negyddol y farn gyhoeddus tuag at fewnlifiad. Gwelir bod twf mewnfudo yn cynhyrchu trafodaeth danbaid ymysg llywodraethau ynghylch bygythiad at ddiwylliant a'r ieithoedd mwyafrifol. Honna David Goodhart (2014) y dylid ailystyried rheolau mewnfudo gan fod mewnfudwyr yn cymryd swyddi'r Prydeinwyr yn ogystal ag effeithio ar undod a hunaniaeth y wladwriaeth Brydeinig. Mae mewnfudo yn realiti fyw yn yr Almaen sydd yn derbyn y niferoedd uchaf o fewnfudwyr yn Ewrop, gan gynnwys cynnydd sylweddol yn y nifer o geisiadau am loches ers 2015.¹²

Onid yw mewnfudo yn fwy o fygythiad i leiafrif cenedlaethol? Er bod cyfradd mewnfudo yn uwch yng ngweddill y DG na Chymru, gwelwyd bod twf cynyddol mewnfudo i Gymru yn cael effeithiau gweladwy ar hyfywedd y cymunedau Cymraeg eu hiaith (Jones 2011). Yn wir, gellir dadlau bod bygythiad mewnfudo i leiafrif ar lefel uwch nag i'r mwyafrif gwladwriaethol. Mae rheoli mewnfudo felly'n ffactor hollbwysig ar gyfer dyfodol lleiafrifoedd cenedlaethol sydd yn derbyn nifer o fewnfudwyr i'w cymdeithas. Disgrifia De Varennes fewnlifiad i leiafrifoedd ieithyddol fel bygythiad triphlyg. Yn gyntaf, gofynnir i fewnfudwyr ddysgu prif iaith y wladwriaeth; yn ail, breintir hawl at ddinasyddiaeth neu hawl dros ymgartrefu trwy'r iaith fwyafrifol; ac yn drydydd po fwyaf yw canran y mewnfudwyr, y lleiaf yw canran y siaradwyr lleiafrifol. Yn gryno, mae'r iaith fwyafrifol yn amsugno'r mewnfudwyr i'w gymuned fwyafrifol oni bai bod rhai amodau yn eu lle (De Varennes 2012).

¹²Mae nifer y ceisiadau am loches a dderbyniwyd gan yr Almaen wedi codi o 173,072 yn 2014 i 441,899 yn 2015 (Bu 176,465 o geisiadau am loches llwyddiannus rhwng Ionawr a Mawrth 2016 yn unig (BAMF 2016).

Yn Québec, gwelir bod amodau penodol eisoes ar waith gan gynnwys y canlynol; hawliau rhannol dros ddethol mewnfudwyr a ffafriaeth at siaradwyr *francophones*, polisïau sydd yn gosod priod iaith y Ffrangeg yn Québec a'r gallu felly i weithio trwy'r Ffrangeg. Ar y naill law, datgela Cyfrifiad 2011 yng Nghanada (Oakes a Warren 2008, t. 135) fod cynnydd yn y defnydd o'r Ffrangeg ymysg mewnfudwyr. Ar y llaw arall mae atyniad y Saesneg yn cryfhau gyda 53.3% ohonynt yn defnyddio Saesneg yn y cartref yn erbyn 49.7% sydd yn defnyddio Ffrangeg (Corbeil a Houle 2013). Oherwydd y pŵer atyniadol cynyddol sydd i'r Saesneg a phŵer cymharol wan y Ffrangeg, mae mewnfudo cynyddol i Québec yn gosod her i ddyfodol y Ffrangeg fel priod iaith:

The specific linguistic situation of Québec sends an ambiguous message to immigrants. This is particular to the metropolitan area, where French is the official language and where it is generally used, but where English is also widely used language, even to the point—which is totally in keeping with the accepted sociopolitical consensus—that Québécois can be born, be educated, work and live completely in English. In such a situation, it seems reasonable to believe that this ambiguity delays, or even prevents the very possibility for immigrants to develop a feeling of belonging and of basic allegiance to the political community of Québec, which, in return, weakens the mobilisation to the cause of French in Québec (Georgeault 2006, t. 314).

Mae cystadleuaeth rhwng y ddwy gymuned ieithyddol yn her i ddyfodol y Ffrangeg, yn benodol wrth hyrwyddo'r iaith fel sail integreiddio i'r gymuned Québécois. Dywed Cardinal fod rhaglenni *francisation* yn tueddu at ddefnydd ymarferol yr iaith yn hytrach nag ymlyniad integreiddiol a dinasyddiaeth. Yn ei barn hi, nid yw integreiddio mewnfudwyr drwy'r Ffrangeg yn fater gorffenedig yn Québec—nid oes sylw mawr i swyddogaeth cyfranogwyr eraill ym mhrosiect integreiddio mewnfudwyr heblaw am y mewnfudwyr eu hun. Creda y bydd cynlluniau mwy cynhwysfawr ar sut i ddatblygu ymlyniad mewnfudwyr at yr iaith yn ganolog i ddatblygiad Ffrangeg yn Québec (Cardinal 2012, t. 17).

Cyfeiria De Varennes (2012) at enghraifft nodweddiadol arall o lwyddiant i integreiddio mewnfudwyr trwy iaith leiafrifol ar dir Ewropeaidd, a hynny yn Ne Tyrol, trwy hybu system addysg uniaith Almaeneg ochr yn ochr â system addysg Eidaleg a Ladin. Er gwaethaf pŵer atyniadol yr Eidaleg, darganfuwyd bod nifer cynyddol o fewnfudwyr yn dewis anfon eu plant i ysgolion uniaith Almaeneg. Gyda hynny, sefydlwyd chwe chanolfan iaith ar leoliadau'r ysgolion er mwyn hybu integreiddio trwy gynnig gwersi ieithyddol i'r plant a rhieni o deuluoedd mewnfudol. Er gwaethaf diffyg llenyddiaeth am y ffenomen newydd hon, dywed Whisthaler (2012, t. 12) bod cymhelliant y mewnfudwyr yn cael eu gyrru gan resymau economaidd a chymdeithasol. Gyda 60% yn siarad Almaeneg yn ardal Bolzano a'r farchnad waith yn hwyluso'r gallu i weithio trwy gyfrwng yr Almaeneg, mae mewnfudwyr yn ystyried dysgu Almaeneg a'i thafodiaith De Tyrolaidd yn ymdrech hanfodol er mwyn integreiddio yn Ne Tyrol. Eto i gyd, nodir nad yw sefyllfa'r Almaeneg yn Ne Tyrol yn ynysig, gan ei fod yn rhannu ffin â gwledydd Almaeneg eu hiaith. Noda Whisthaler (2012, t. 14) fod presenoldeb mewnfudwyr yn y system addysg ranedig yn codi cwestiynau am oddefgarwch a chynwysoldeb y gymdeithas. Cwestiyna'r graddau y gellid cyflwyno addysg ddwyieithog a rhyngddiwylliannol yn yr ysgolion. Serch hynny, yr her sydd gan system addysg De Tyrol yn y dyfodol fydd cymhwyso parhad ieithyddol yr Almaeneg ynghyd â chefnogi ieithoedd cenedlaethol a mewnfudol eraill yn yr Eidal.

Pa gasgliadau y gellir eu tynnu o'r enghreifftiau hyn? Yn gyntaf, gwelir swyddogaeth flaenllaw addysg yn y broses integreiddio er y cydnebydd Edwards (2014, t. 264), nad hwn yw'r unig lwybr at integreiddio mewnfudwyr: awgrymir bod rôl actorion eraill megis y gymuned, y tiwtoriaid, y rhieni a'r gweithle yn allweddol er mwyn atgyfnerthu'r broses o integreiddio mewnfudwyr ynghyd â'u cymell i ddysgu'r iaith. Yn drydydd, awgrymir pwysigrwydd polisiau iaith er mwyn galluogi mynediad a defnydd iaith er y cwestiynir y

gallu sydd gan bolisiau cyfredol i gyflyru a mesur ymlyniad integreiddiol mewnfudwr at iaith (Pagé 2011). Er gwaethaf sefyllfa amlieithog Québec a De Tyrol, nodir bod ffyniant yr iaith yn nodweddiadol o ganlyniad i'r pwyslais gwleidyddol ar flaenoriaethu un iaith gyffredin ynghyd â phrosiect datblygu dinasyddiaeth fewnol. Er yn egwyddor amlwg i raddau, awgrymir hefyd nad yw polisiau dwyieithog o reidrwydd o blaid datblygiad iaith leiafrifol.

1.3.4. Casgliad: Tuag at Ddinasyddiaeth (Aml-Ryng)Ddiwylliannol?

Québec's intercultural citizenship clearly belongs to the realms of realpolitik in that is anchored in the nation—the notion of community which is still relevant to the most people in Québec [...] this is not to the same as to say that the idea of a Québec citizenship is necessarily linked to the question of sovereignty, and a distinction can still be maintained between citizenship on the one hand and nationality on the other (Labelle a Rocher 2001, t. 74).

Fel yr awgryma'r gosodiad uchod, mae dinasyddiaeth yn ffordd o osgoi tensiynau sydd ynghlwm wrth genedlaetholdeb drwy dynnu ar elfennau o gynwysoldeb ac integreiddio i gymuned. Mae'r prosiect o greu dinasyddiaeth answyddogol yn Québec yn mynd i'r afael â hwyluso cydlyniant cymdeithasol ac ieithyddol ynghyd â sefydlu cymdeithas ddemocrataidd. Yr her felly o safbwynt y Gymraeg yn benodol, a archwilir yn y bennod nesaf, yw gosod iaith o fewn cyd-destun dinasyddiaeth, a hynny o fewn y genedlwadwriaeth Brydeinig. Os ydym am ail-ddiffinio dinasyddiaeth wladwriaethol ar drywydd mwy cynhwysol, lluosogol ac amlieithog, mae'r drafodaeth hyd yma wedi dangos bod yn rhaid cofio llinynnau ethnig iaith a diwylliant. Wrth edrych ar ddinasyddiaeth ym Mhrydain a Chymru, ystyrir ym Mhennod 2 i ba raddau y gall cysyniad dinasyddiaeth amlddiwylliannol Kymlicka neu ddinasyddiaeth ryngddiwylliannol Bouchard gael eu cymhwyso i sefyllfa leiafrifol Cymru a'r Gymraeg.

Pennod 2: ÔL-GENEDLAETHOLDEB, AMLGenedLAETHOLDEB AC IAITH

Y

n sgil honiadau am ddiffyg integreiddio yn y DG ar droad 2016 (BBC 2016), a hynny gyda chynnydd ym mhwerau datganoli a mewnfudo cynyddol ar draws Ewrop, daw'r galw am ail-ddiffinio natur dinasyddiaeth genedlaethol (Kymlicka 2011c). Cynigia'r damcaniaethwr, Wil Kymlicka, ddau brif gysyniad; y model 'ôl-genedlaethol' a gefnoga Llywodraeth San Steffan, sef cymhathu mewnfudwyr i'r diwylliant mwyafrifol 'Prydeinig' a'r model amlgenedlaethol a hyrwyddir i raddau helaeth yng Nghymru sydd yn integreiddio mewnfudwyr i'r diwylliant Cymraeg. Yng nghyd-destun Cymru golyga hyn un ai dod yn Brydeinig *heb* ddod yn Gymreig neu ddod yn Brydeinig *wrth* ddod yn Gymreig. Drwy ffafrio'r model amlgenedlaethol, honna Kymlicka mai'r ateb i'r is-wladwriaeth yw ymarfer ffurfiau mwy amlddiwylliannol o ddinasyddiaeth ac i'r mewnfudwyr ymarfer ffurfiau mwy amlgenedlaethol o ddinasyddiaeth. O ystyried sylw'r cyhoedd ar y trafodaethau ynghylch refferendwm yr Alban yn 2014 ac argyfwng ffoaduriaid, daw dinasyddiaeth felly'n gynyddol bwysig i ddyfodol y gwledydd datganoledig.

Bydd y bennod hon yn mynd i'r afael â diffinio dinasyddiaeth ar lefel ddamcaniaethol yn sgil twf hawliau lleiafrifol ac amlddiwylliannedd. Yn unol â dadl Kymlicka o blaid yr angen i ail-ddiffinio dinasyddiaeth Brydeinig mewn fframwaith aml-ethnig ac amlgenedlaethol, dadl y bennod yw bod y Gymraeg hefyd â'i lle mewn trafodaethau ar ddinasyddiaeth. Yn sgil llymhau graddol ar ddinasyddiaeth gyfreithiol y DG gan gynnwys rheolau newydd ers Hydref 2013 (Swyddfa Gartref 2015; Stevenson 2015), trafodir yr hyn sydd wrth galon bod yn ddinesydd Prydeinig. Cyfeirir at ddogfennau polisi integreiddio a chydlyniant cymdeithasol Llywodraeth San Steffan. Gyda sylw cynyddol Llywodraeth Cymru ar strategaethau integreiddio a chynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid (Llywodraeth Cymru 2013), ymdrinnir â'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn 'ddinesydd Cymreig'. Cyfeirir at bolisiau

Llywodraeth Cymru ar integreiddio, cydlyniant cymdeithasol a'r Gymraeg. Y prif gwestiwn sydd yn codi yw i ba raddau y mae gwrthdrawiadau rhwng polisïau'r Gymraeg a pholisïau integreiddio mewnfudwyr ar lefel Cymreig a/neu Brydeinig?

Eir ati wedyn i ystyried y Gymraeg yn y gymuned. Rhoddir sylw i'r drafodaeth ar gynhwysedd y Gymraeg mewn cymdeithas fwyfwy aml-ethnig yng Nghymru ynghyd â dyfodol cymunedau Cymraeg a chymunedau mewnfudo yn sgil Cyfrifiad 2011. Amlinellir nod y gwaith maes i fesur ymagweddau'r cymunedau Cymraeg a Saesneg eu hiaith tuag at fewnfudwyr trwy fframwaith methodolegol MAI (Bourhis 1997). Edrychir ymhellach ar waith canolfannau dysgu Cymraeg i Oedolion a'r hyn maent yn ei wneud er mwyn integreiddio dysgwyr i'r gymuned. Ystyrir yr heriau a wynebir wrth integreiddio mewnfudwyr trwy iaith leiafrifol a'r graddau y mae cymhathu ieithyddol mewn cyddestun iaith leiafrifol yn rhesymol bosibl.

2.1. Y DINESYDD A DINASYDDIAETH

'Citizen' and 'Citizenship' are powerful words. They speak of respect, of rights, of dignity [...] we find no pejorative uses. It is a weighty, monumental, humanist word (Fraser a Gordon 1994, t. 90).

Yn y bennod gyntaf, aethpwyd i'r afael â datblygiad hawliau lleiafrifol ac amlddiwylliannedd drwy honni bod hawliau ar gyfer grwpiau gwahanol, boed yn grwpiau ieithyddol, diwylliannol neu grefyddol, yn ffordd o sicrhau tegwch mewn cymdeithas Ryddfrydol ddemocrataidd. Er gwaethaf adlach amlddiwylliannedd, awgrymwyd ym Mhennod 1 bod gwladwriaethau yn parhau i lunio a gweithredu polisïau lled amlddiwylliannol. Serch dadleuon cryf ac argyhoeddedig o blaid hawliau lleiafrifol mewn cymdeithas ôl-fodern, nodir bod gwrthwynebiad i hawliau lleiafrifol (gan gynnwys amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd) yn cymryd gwedd newydd (gweler Adran 1.2.1). Er bod nifer yn cydnabod yr angen i gynnig darpariaeth ar gyfer anghenion

lleiafrifoedd, honna damcaniaethwyr ar ddinasyddiaeth bod nifer yn gwrthwynebu polisiau penodol sydd yn caniatáu hawliau ychwanegol i grwpiau ethno-ddiwyllynnol (Kymlicka and Norman 2000). Yn ail, cred rhai yw bod egwyddorion dinasyddiaeth ac amlddiwyllynnedd yn groes i'w gilydd (McGhee 2009). Ystyriant fod cynnydd mewn hawliau lleiafrifol yn bygwth seiliau dinasyddiaeth a democratiaeth deg (Kymlicka a Norman 2000 t. 5). Mae David Blunkett, Cyn-ysgrifennydd Cartref llywodraeth Lafur, yn enghraifft adnabyddus o wleidydd ym Mhrydain sydd yn mynnu bod agenda dinasyddiaeth ac agenda amlddiwyllynnedd yn hollol wrthgyferbyniol (McGhee 2009, t. 48).

Yn yr ystyr hwn, gwelir bod defnydd negyddol o ddinasyddiaeth yn groes i'r hyn y mae dyfyniad agoriadol yr is-bennod yn ei awgrymu. Serch hynny, bu diddordeb cynyddol mewn dinasyddiaeth ers y 21fed ganrif. Dywed Kymlicka a Norman (2000) fod hyn yn gysylltiedig â thwf yn llais y lleiafrifoedd. Dilynwyd hyn gan y galw am ystyriaeth fwy lluosogol o ddinasyddiaeth Ryddfrydol yn hytrach na'r disgwyliad bod grwpiau ethnig a lleiafrifol yn cael eu cymhathu gan ddiwylliant cenedlaethol. Gorfodwyd felly i ddamcaniaethwyr fanylu ar yr hyn sydd yn seilio'r berthynas *rhwng* dinasyddion. Pryderai rhai damcaniaethwyr fod twf amlddiwyllynnedd yn llesteirio gallu unigolion i weithredu fel dinasyddion a bod amlddiwyllynnedd yn atal yr unigolyn rhag ymarfer dinasyddiaeth gyfartal (Barry 2001; Ward 1991). Barn Ward (1991) yw bod polisiau sydd yn ffafrio ymlyniadau ethnig yn niweidiol ac yn gweithio 'like a corrosive on metal, eating away at the ties of connectedness that bind us together as a nation' (t. 598). Dylai dinasyddiaeth felly fod yn rym sy'n trosgynnu gwahaniaethau ethnig, rhanbarthol, crefyddol ac ieithyddol gwladwriaeth er lles pob un o'i dinasyddion (Kristeva 1993, t. 7). Mae'r meddylfryd hwn yn ymdebygu i'r meddylfryd Rhyddfrydol traddodiadol lle yr oedd dinasyddiaeth egalitariaidd cyfystyr â goruchafiaeth wleidyddol.

Serch hynny, gellir ymwrthod â'r honiadau hyn. Beirniadwyd y cysyniad o ddinasyddiaeth egalitariaidd neu 'difference-blind citizenship' fel ffordd o amddiffyn y grŵp goruchafol wrth iddo gyfiawnhau ei ymdrechion i bardduo lleiafrifoedd (Young 1993; Kymlicka 2000, t. 10). O ganlyniad i'r cyswllt hanesyddol rhwng dinasyddiaeth a goruchafiaeth, mae nifer o amddiffynwyr hawliau lleiafrifol wedi dibrisio'r gwerth sydd i'r cysyniad hwn er mwyn cryfhau eu hachosion o blaid hawliau lleiafrifoedd (Kymlicka 2000, t. 10). Tra bo dinasyddiaeth draddodiadol yn golygu 'cymhathu', dadleua nifer o ddamcaniaethwyr bod rhaid ystyried dinasyddiaeth 'wahaniaethol' (Young 1993). Golyga hynny ganiatáu hawliau neu gyfleoedd ychwanegol i grwpiau a dinasyddion penodol. Mae dinasyddiaeth 'wahaniaethol' yn bodoli ymhob democratiaeth yn y Gorllewin ac mae ymchwil ar hawliau lleiafrifol yn datgelu gwedd amlhaenog dinasyddiaeth. Yng ngeiriau Parekh (2000), dinasyddiaeth 'is much more differentiated and is a far less homogenous concept than has been presupposed by political theorists' (t. 702). Yn wir, yn unol â dadl y bennod ddiwethaf, honna damcaniaethwyr Rhyddfrydol mai nacâd hawliau lleiafrifol sydd yn bygwth seiliau dinasyddiaeth gyffredin a chydraddoldeb. Yn ôl Kymlicka mae pwysau felly ar ail-ddiffinio dinasyddiaeth Brydeinig:

So an Englishman would recognize not only that Britain now contains larger numbers of citizens of Asian, African, and Caribbean descent (in addition to the Scots, Welsh, Northern Irish, Manx); but also that this requires rethinking what it means to be British [...] he may have to distinguish more clearly than he had before between an ethnic English identity and a civic British identity, and to recognize that 'Britishness' must be defined in a way that is accessible to both the new immigrants and the historically settled peoples who share the British Isles (Kymlicka 2000, t. 30).

Cwestiyna Kymlicka seiliau natur dinasyddiaeth gyffredin heb gynnwys hawliau lleiafrifol. Dinasyddiaeth 'wahaniaethol' yw sail dinasyddiaeth 'gyffredin' yn ei dyb ef. Yn y cyswllt hwn, dadleua Kymlicka bod angen mynd i'r afael ag integreiddio amlddiwylliannol yn hytrach na chymathu. Er i'r ddau geisio integreiddio gwahanol grwpiau ethnig i mewn i

sefydliadau cymdeithasol a gwleidyddol cyffredin, y gwahaniaeth yw nad yw integreiddio amlddiwylliannol yn gofyn i'r unigolyn nacáu ei ddiwylliant cynhenid (Kymlicka 2000).

Mae damcaniaeth dinasyddiaeth felly wedi datblygu ar drywydd mwy cynhwysol na hawliau cyfreithiol yn unig. Yn ôl Kymlicka, rhaid ystyried hunaniaeth dinasyddiaeth, gweithgarwch a chydlyniant y dinesydd yn ogystal â'i statws cyfreithiol:

1. Statws cyfreithiol y dinesydd
2. Hunaniaeth y dinesydd
3. Gweithgarwch neu rinwedd sifig y dinesydd.
4. Cydlyniant y dinesydd

(Kymlicka 2000)

Mae datblygiadau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol yn dangos nad yw democratiaeth iach a chadarn yn ddibynnol ar sefydliadau'r gymdeithas yn unig ond hefyd ar yr ymagweddau a rhinweddau *rhwng* dinasyddion y gymdeithas. Er gwaethaf damcaniaethau ar ddinasyddiaeth, tasg y Llywodraeth yw gweithredu polisiâu sydd yn hybu dinasyddiaeth 'weithredol' yn hytrach na dinasyddiaeth 'oddefol'. Tasg arall gan lywodraethau yw sicrhau bod eu dinasyddion yn uniaethu â'r gymuned wleidyddol. Y cwestiwn felly yw'r canlynol; beth yw hunaniaeth dinasyddiaeth a sut y mae'n effeithio ar hunaniaethau eraill y dinasyddion? Sut mae Llywodraeth yn sicrhau bod dinasyddion yn uniaethu â dinasyddion eraill yn hytrach na meithrin dihidrwydd a chasineb at eraill? Noda Modood nad yw'r cwestiynau ynghylch dinasyddiaeth yn delio yn unig â'r berthynas unionsyth rhwng y wladwriaeth a'r dinesydd ond hefyd y berthynas lorweddol o un dinesydd i'r llall (Modood a Meer 2009b). Y cydadwaith rhwng y wladwriaeth a dinasyddion a'u hymateb i amrywiaeth ethnoddiwylliannol cynyddol sydd wrth galon y bennod.

Yn y cyswllt hwn, cyfeirir at fodel methodolegol MAI gan yr Athro Richard Bourhis sydd yn monitro ymagweddau cymunedau gwahanol at fewnfudo ac sydd hefyd yn ystyried

proses integreiddio 'dwy ffordd'. Honna Bourhis *et al.* (2008) fod y cysyniad o 'ymaddasu diwylliannol'—*acculturation*—wedi datblygu er mwyn ystyried ymagweddau, gwerthoedd ac ymddygiadau sydd yn cyd-adweithio *rhwng* y diwylliannau. Mae fframwaith y model MAI (*le modèle d'acculturation interactif*) neu'r IAM (interactive acculturation model) yn ystyried y berthynas rhwng pedair prif elfen:

1. Polisiau'r wladwriaeth ar integreiddio a mewnfudo
2. Ymagweddau ymaddasu'r mewnfudwyr
3. Ymagwedd ymaddasu'r gymuned groeso
4. Y cydadwaith rhwng y grwpiau hyn

Ar gyfer mesur ymagweddau'r cymunedau croeso, cynigia Bourhis chwe gogwydd posibl:

1. Unigoliaeth—*Individualisme*
2. Integreiddio—*Integrationnisme*
3. Integreiddio-Drawsnewidiol—*Integrationnisme-Transformation*
4. Cymhathu—*Assimilationnisme*
5. Ymwahanu—*Segregationnisme*
6. Gwaharddiad—*Exclusionnisme*

Ar gyfer ymagweddau'r mewnfudwyr, cynigia bum gogwydd posibl:

1. Unigoliaeth—*Individualisme*
2. Integreiddio—*Integrationnisme*
3. Cymhathu—*Assimilationnisme*
4. Ymwahanu—*Segregationnisme*
5. Ymyleiddio—*Marginalisation*

Mae'r MAI yn awgrymu y gall 'ymagweddau ymaddasu' y gymuned groeso fod yn groes neu yn gydnaws ag ymagweddau'r mewnfudwyr (Bourhis *et al.* 2008). Gweler Ffigur 3.

Mae'r MAI felly hefyd yn mesur perthynas ymagweddau cymunedau a mewnfudwyr â pholisiau gwladwriaethau ar integreiddio. Cynigia Bourhis bedwar 'ideoleg' er mwyn mesur dulliau'r wladwriaeth:

ideoleg luosogol—*pluraliste*
sifig—*civique*
gymathiadol—*assimilatrice*
ethnigaidd—*ethniste*

Er mor bwysig y berthynas rhwng cymunedau croeso a'r gymuned fewnfudol, honna Bourhis fod polisiau gwladwriaethol ac is-wladwriaethol yn medru dylanwadu a ffurfio

ymagweddau cymunedau (Bourhis *et al.* 2007). Yng Nghanada, ceir esiampl o *ideoleg luosogol* (Bourhis *et al.* 2008) neu *amlddiwylliannol* (Modood a Meer 2009b) yn sgil mesurau amlddiwylliannol y 70au (gweler Adran 1.1.6). Ym Mhrydain, ceir *ideoleg sifig* (Bourhis *et al.* 2008) er bod tueddiadau diweddar at *ideoleg luosogol* (Modood a Meer 2009b). Yn wahanol i *ideoleg luosogol*, mae *ideoleg sifig* yn cydnabod amrywiaeth ethnoddiwylliannol ond yn ymarfer polisiau integreiddio di-ymyrraeth (Bourhis *et al.* 2008). Yn draddodiadol, mae America wedi mabwysiadu *ideoleg cymathiadol* wrth ofyn i fewnfudwyr ymdoddi i'r 'dawddlestr wladwriaethol' mewn bywyd cyhoeddus er gwaethaf cadw'u hunaniaeth ethnig mewn bywyd preifat. Erbyn heddiw, symudwyd yn agosach at *ideoleg sifig*. Fersiwn arall o'r *ideoleg cymathiadol* yw fersiwn gweriniaethol Ffrainc. Yn olaf, mae'r Almaen yn esiampl draddodiadol o *ideoleg ethnigaidd* lle mae dinasyddiaeth wedi'i seilio ar hil neu *juis sanguine* (Modood a Meer 2009b). Mae'r model MAI felly yn ceisio ymateb i ymagweddau anghytbwys ar integreiddio sydd yn ystyried y broses integreiddio fel dyletswydd ar fewnfudwyr yn unig (Extra *et al.* 2009).

Er gwaethaf adlach amlddiwylliannedd, atega Modood a Meer nad yw'r symudiad tuag at 'gydlyniant cenedlaethol' ym Mhrydain o reidrwydd yn profi gwrthwynebiad amlddiwylliannedd (2009b). Yn hytrach mae'n dangos proses ddatblygol y Wladwriaeth Brydeinig sydd yn ceisio 'ail-feddwl y stori genedlaethol' (Modood a Meer 2009b, t.13; Parekh 2000). Awgryma fod hyn yn droad penodol ym Mhrydain er mwyn sicrhau cynwysoldeb lleiafrifoedd ethnig ym Mhrydain. Edrychir ar hyn mewn mwy o fanylder yn Adran 2.2.

Yn yr Almaen mae dadleuon y blynyddoedd diwethaf—*Multikulti oder deutsche Leitkultur?* (Tagesschau 2008)—wedi rhoi llwyfan i'r syniad o *Leitkultur* sydd yn ymwrthod ag amlddiwylliannedd er mwyn ffafrio cydlyniant cenedlaethol neu *Gemeinwesen* (Modood a

Meer 2009b, t. 21). Ymhellach, mae Prydain, Ffrainc a'r Almaen erbyn hyn wedi cyflwyno profion iaith gorfodol i fewnfudwyr allu cymhwyso'n ddinasyddion cyflawn a chyfreithiol. Serch hynny, ceir ymchwil cynyddol sydd yn cwestiynu'r graddau y mae amodau integreiddio llymach megis profion iaith yn adlewyrchu gwir anghenion dinasyddion newydd mewn cymdeithasau amlddiwylliannol (Extra *et al.* 2009). Yn ychwanegol i'r drafodaeth, cyfeiria Modood at fodel unigryw Québec. Serch y tebygrwydd rhwng amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd, disgrifia'r nodweddion gwahanol ynghlwm wrth fodel 'dinasyddiaeth Québec'—dinasyddiaeth 'rhyngddiwylliannol'—sydd yn cynnwys rôl diwylliant ac iaith is-wladwriaethol yn y broses integreiddio mewnfudwyr

Yn hyn o beth, mae'n addas gwahaniaethu ffurfiau o 'ddinasyddiaeth is-wladwriaethol' (neu amlgenedlaethol) answyddogol gyda dinasyddiaeth wladwriaethol fel a geir ym Mhrydain, Ffrainc, yr Almaen a Chanada. Yn *Federalism, Citizenship and Québec; debating Multinationalism*, mae Gagnon a Iacovino yn (2007) ymwrthod â'r honiad bod Canada yn ffederaliaeth amlgenedlaethol neu'n wladwriaeth amlddiwylliannol (t. 17). Er gwaethaf polisïau amlddiwylliannol Canada, mae model dinasyddiaeth Ganadaidd, yn eu tyb hwy, yn nacáu amlgenedlaetholdeb. Mae Québec yn hyrwyddo'r syniad o gymuned wleidyddol gwbl wahanol ar gyfer eu mewnfudwyr. Dywedant nad yw ymateb traddodiadol i ddinasyddiaeth yn cydweddu â gwladwriaeth amlgenedlaethol, sydd â diwyllianau ymylol gwreiddiedig. Nid yw damcaniaethau Kymlicka felly yn mynd yn ddigon pell i Gagnon ac Iacovino (2007) gan nad yw'n cydnabod rôl y diwylliant cenedlaethol. Dibynna Québec ar yr hyn a elwir yn *contrat moral*—cytundeb rhwng y cymunedau croeso a'r cymunedau mewnfudol gyda'r nod o ymbweru holl ddinasyddion Québec a hwyluso eu cyfraniad i ddiwylliant cyhoeddus cyffredin (gweler Adran 1.2.4). Mae model dinasyddiaeth sydd yn nacáu diwylliant cyffredin ac yn glynu at ôl-genedlaetholdeb, fel a geir yng Nghanada, yn amhosib felly yn Québec (Gagnon a Iacovino 2007, t. 18).

Os yw'n wir bod y genedl-wladwriaeth yn ymarfer ffurfiau ôl-genedlaethol o ddinasyddiaeth, ceir gwrthdrawiadau amlwg mewn gwladwriaeth fel Prydain sydd â sawl is-grŵp cenedlaethol iddi. Ar y naill law, hyrwydda'r wladwriaeth Brydeinig y syniad o ddod yn Brydeinig heb ddod yn Gymreig er, ar y llaw arall, hyrwydda is-wladwriaeth Cymru, ar lefel rethregol, ffurfiau mwy amlgenedlaethol o ddinasyddiaeth wrth annog mewnfudwyr i ddod yn Brydeinig wrth ddod yn Gymreig neu hwyrach dod yn Gymreig heb ddod yn Brydeinig. Nodwyd bod damcaniaethwyr Québec (Gagnon a Iocavino 2007, Bouchard 2012, Seymour 1995) yn anghytuno â damcaniaethau Kymlicka oherwydd eu diffyg blaenoriaeth ar ddiwylliant cenedlaethol yr is-wladwriaeth. Er bod modd dadlau bod rhwystrau i ddamcaniaeth Kymlicka ar ddinasyddiaeth amlddiwylliannol, cydnebydd fod ei syniadau, yn arbennig ynghlwm wrth dinasyddiaeth wahaniaethol yn cynnig seiliau i drafodaeth ar ddinasyddiaeth gynhwysol Gymreig.

Beth yw ystyr dinasyddiaeth genedlaethol mewn gwladwriaethau amlgenedlaethol a sut mae'r pwyslais newydd ar ddinasyddiaeth gyfreithiol yn ymateb i ddadleuon hanesyddol ar amlgenedlaetholdeb? Gyda golwg ar Gymru, is-wladwriaeth o fewn y wladwriaeth Brydeinig, mae'n bwysig felly mesur, cymharu a dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng polisiau integreiddio a mewnfudo'r ddwy lywodraeth. I ba raddau maent mewn gwirionedd yn ymarfer ffurfiau gwahanol o ddinasyddiaeth?

2.2. Y DINESYDD PRYDEINIG

2.2.1. Dinasyddiaeth Genedlaethol

This increased diversity in the UK requires a new focus on civic integration. That is the main thrust behind our new plans for English language classes, citizenship education and confirmation ceremonies for new applicants for naturalisation. This is not an argument for assimilation. It is an argument for integration with diversity: neither a monoculture, nor segregation and endless difference (Blunkett 2003, t.15).

Y Cyn-Ysgrifennydd Cartref, David Blunkett, a oedd yn ganolog i'r pwyslais newydd ar ddinasyddiaeth yn y DG a hynny trwy ehangu sbectrwm dinasyddiaeth i gynnwys hunaniaeth ac amrywiaeth ynghyd ag ymdeimlad cenedlaethol Prydeinig. Yn ddiweddarach, mae agenda *Community Cohesion* gan yr Athro Ted Cattle (2001, 2012) wedi hyrwyddo'r syniad o ddinasyddiaeth gyffredin—*common citizenship*. Symbylwyd nifer o ddatblygiadau gan bapur Gwyn *Secure Borders, Safe Haven* y Llywodraeth Lafur yn 2003 mewn ymgais i godi statws dinasyddiaeth swyddogol ym Mhrydain (Swyddfa Gartref 2002). Datgana'r Papur Gwyn fod Prydain yn genedl aml-ethnig gan honni bod diwylliant Prydain wedi'i seilio ar amrywiaeth diwylliannol yn hytrach na chymhathu monoddiwylliannol (t. 29). Gwelir felly gydnabyddiaeth o egwyddorion amlddiwylliannol y gymdeithas, er nad ydynt o reidrwydd yn werthoedd amlgenedlaethol. Ymateb y Papur Gwyn oedd apelio at ddinasyddiaeth gyffredin:

Common citizenship is not about cultural uniformity, nor is it born out of some narrow and out-dated view of what it means to be 'British'. The Government welcomes the richness of the cultural diversity which immigrants have brought to the UK—our society is multi-cultural, and is shaped by its diverse peoples. We want British citizenship positively to embrace the diversity of background, culture and faiths that is one of the hallmarks of Britain in the 21st Century. (2002 t. 29)

Ymddengys bod trawsnewid wedi digwydd, nid yn unig o ran ystyr a phwyslais newydd dinasyddiaeth, ond hefyd o ran yr hyn a olygir wrth fod yn Brydeinig. Ymddengys felly bod y farn heddiw yn golygu ymwrthod â Phrydeindod trefedigaethol sydd yn amsugno diwyllianau i mewn i oruwch-ddiwylliant Seisnig (Swyddfa Gartref 2002, t.29). Ymhellach, mae'r adroddiadau yn cydnabod bodolaeth y pobloedd gwahanol sydd yn trigo ym Mhrydain ac yn eu hyrwyddo fel nodweddion o amrywiaeth diwylliannol Prydain fodern. Ar y naill law felly, mae'n ymddangos bod Llywodraeth Prydain yn gweithredu dinasyddiaeth sydd yn lluosogol yn ei hanfod. Ar y llaw arall, mae'r argymhellion yn pwysleisio gwerthoedd cyffredin ar draws Prydain ynghyd â magu ymdeimlad o Brydeindod (Swyddfa Gartref 2002).

Fel y mae'r dyfyniad isod yn ei ddangos, mae sgiliau iaith yn fedr hollbwysig wrth baratoi unigolion at ddinasyddiaeth gyfreithlon:

We need to develop a sense of civic identity and shared values, and knowledge of the English language (or Welsh language or Scottish Gaelic, which are provided for in the British Nationality Act 1981), can undoubtedly support this objective (Swyddfa Gartref 2002, t. 32).

Serch cydnabod amlieithrwydd ym Mhrydain, mae'r papur yn amlinellu pwysigrwydd datblygu ESOL—*English for Speakers of Other Languages*—yng nghyd-destun rhaglen dinasyddiaeth. Fel y noda'r adroddiad: 'the ability to speak *our* common language, to enable them to engage as active citizens in economic, social and political life' (Swyddfa Gartref 2002 t. 30). Dim ond wrth gyfeirio at ymgeiswyr dinasyddiaeth sydd eisoes â meistrolaeth dda ar ieithoedd 'eraill' Prydain, y clywir sôn unwaith eto am ieithoedd cynhenid Prydain:

[...] in the case of those who already have a good command of English, Welsh or Scottish Gaelic, suitable materials will be available to provide information about British society and the rights and responsibilities of becoming a British citizen (Swyddfa Gartref 2002, t. 33).

Noder felly bod y *Nationality, Immigration and Asylum Act* (Swyddfa Gartref 2002) yn gosod y Gymraeg fel yr Aeleg yn ieithoedd 'swyddogol' ar gyfer dinasyddiaeth ynghyd â gwybodaeth ddigonol am fywyd yn y DU. Honna'r Papur Gwyn fod deunyddiau ar gael yn y Gymraeg neu'r Aeleg er mwyn cefnogi cais dinasyddiaeth unigolyn trwy'r Gymraeg. Serch hynny, ymddengys bod rhaid i rywun sydd am wneud cais yn y Gymraeg fod yn rhugl eisoes gan nad oes unrhyw fframwaith i ddarparu adnoddau dysgu Cymraeg na Gaeleg i ymgeiswyr dinasyddiaeth.

Yn sgil y Papur Gwyn a'r *Nationality, Immigration and Asylum Act* (Swyddfa Gartref 2002), sefydlwyd grŵp cynghorol *Life in the UK* gan Lywodraeth Llafur Tony Blair. Prif nod y grŵp yw cynghori'r Gweinidog Gartref ar y dulliau a strategaethau er mwyn gweithredu

prawf dinasyddiaeth *Life in the UK*. Ar wahân i adolygu rhai ffeithiau yn y prawf ers ei sefydliad yn 2005, nid oes archwiliad wedi bod i effeithlonrwydd y prawf o safbwynt y mewnfudwyr. Daw galw cynyddol am ail-lunio'r prawf fel ei bod yn hwyluso yn hytrach na rhwystro integreiddiad mewnfudwyr (T. Brooks 2012).

Yn ychwanegol at brawf *Life in the UK*, cyflwynwyd mesurau newydd ers Hydref 2013 i reolau dinasyddiaeth a mewnfudo, dan lywodraeth glymblaid David Cameron, drwy ddatgan yr angen am fodloni sgiliau Saesneg neu B1 neu'n uwch drwy gorff noddedig gan yr Weinyddiaeth Wladol. Golyga hyn nad yw gofynion ESOL (lefel 3 neu'n uwch) bellach yn bodloni amodau dinasyddiaeth gyfreithlon (Swyddfa Gartref 2015).

Er bod y *Nationality, Immigration and Asylum Act* (Swyddfa Gartref 2002) yn parhau i gyfeirio at ddilysrwydd y Gymraeg a'r Aeleg ar gyfer cais Dinasyddiaeth, nid yw'r cyfarwyddiadau newydd ers Hydref 2013 yn cyfeirio o gwbl at iaith arall heblaw'r Saesneg. Mae'n amlwg bod tynhau ar brofion Dinasyddiaeth yn cyd-fynd â mesurau llymach ar fewnfudo ym Mhrydain. Mae datganiadau David Cameron ar fewnfudo a draddodwyd mewn araith yn 2013 yn cyfleu'r cyswllt neilltuol rhwng dysgu Saesneg ac integreiddio:

Mass immigration has led to discomfort and disjointedness in neighbourhoods because some migrants have been unwilling to integrate or learn English. (Bryers *et al.* 2013. t. 18)

Eto, mewn araith yn Ysgol Gynradd Ninestiles ym Mirmingham yn 2015, pwysleisia David Cameron arwyddocâd datblygu medrau mewn Saesneg er mwyn uno Prydain fel cenedl:

At the moment we have parts of our country where opportunities remain limited; where language remains a real barrier [...] so we need specific action here. So I can announce today I have charged Louise Casey to carry out a review of how to boost opportunity and integration in these communities and bring Britain together as one nation. She will look at issues like how we can ensure people learn English [...] (UK Government 2015)

Mewn adroddiad 'Becoming a British Citizen: a learning journey' (Kiwani 2007) a gomisiynwyd gan bwyllgor *Life in the UK*, nodir pwysigrwydd y daith addysgol i ddinasyddiaeth. Mae addysg ar gyfer dinasyddiaeth yn rhan annatod o'r polisiâu integreiddio. Ystyrir felly mai Saesneg yw iaith cymunedau croeso'r DG a bod angen felly fuddsoddiad cynyddol i adnoddau dysgu Saesneg ym Mhrydain. Nodir yn adroddiad y grŵp Cynghorol *Life in the UK* (Kiwani 2007) bod cyfleoedd i ddysgu ac ymarfer iaith y gymuned groeso yn ganolog i integreiddio proffesiynol a chymdeithasol:

[...] it also recognises the importance of being able to communicate verbally in the language of the receiving society in order to avoid exclusion, which also plays an important role in facilitating and promoting participation in social, economic and civic domains (Kiwani 2007, t. 12).

Dengys y dyfyniad nad oes ystyriaeth o unrhyw fath am gyfleoedd addysg ar gyfer Dinasyddiaeth yng nghymunedau eraill Prydain, lle nad yw'r Saesneg yn iaith fwyafrifol neu pan fo iaith genedlaethol arall fel y Gymraeg yn iaith y gymuned yn ogystal â'r Saesneg. Un o brif argymhellion y grŵp yw hyrwyddo addysg ar gyfer dinasyddiaeth ar y lefel 'rhanbarthol' a 'lleol' ar yr amod bod ymgais i fagu teimlad o berthyn ar lefel genedlaethol neu wladwriaethol wrth ystyried symudoledd mewnfudwyr i'r DG:

Citizenship learning should also be contextualised locally and regionally, as well as nationally in ESOL and citizenship classes, but for the citizenship 'test', it is appropriate that the emphasis be on the national level, rather than the local level, given the mobility of applicants across the UK which would make the inclusion of such material impractical (t. 10).

Arweiniodd Adolygiad Crick (1998) at gategoreiddio is-themâu eraill megis 'hunaniaeth ac amrywiaeth: cyd-fyw yn y DG' er mwyn mynd i'r afael â deall natur amlgenedlaethol y DG. Er hyn, nid yw'r polisiâu yn manylu ar wahaniaethau cenedlaethol y DG ac nid yw'n manylu ar sut y mae mewnfudo yn effeithio ar Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn ffyrdd gwahanol. Er bod polisiâu yn datgan bod derbyn diwylliannau cynhenid y mewnfudwyr yn beth gwerthfawr, gwelir pwyslais ar undod cenedlaethol Prydeinig y DG. Fel hynny, mae'r argymhellion a pholisiâu yn arddangos gwedd sifig cymathiadol y DG:

While these models emphasize that the British people are diverse and multicultural, and that these differences need to be publicly acknowledged, they nonetheless presuppose that rights of self-determination rest with the British people as a singular whole, not with any ethnic groups inside the state (Kymlicka 2011c, t. 287).

Gwelir enghraifft arall o bwyslais cymathiadol sifig y Llywodraeth ar 'ymrwymo i Brydain' mewn adolygiad gan yr Arglwydd Goldsmith '*Citizenship: Our Common Bond*' (Goldsmith 2007). Mae'r teitl ei hun yn ddadleuol o fewn fframwaith amlgenedl Prydain ynghyd â'r cyfeiriadau llethol at 'shared sense of belonging in the UK' (t. 9). Yng nghyswllt dinasyddiaeth, mae'r adolygiad hefyd yn argymhell gŵyl genedlaethol er mwyn rhoi llwyfan i'n *naratif cenedlaethol*. Yn ôl yr adroddiad mae 'ymrwymiad i Brydain' ac 'ymdeimlad o'n dinasyddiaeth gyffredin' yn gryf ac yn gadarn:

I do not assume that there is a crisis about our sense of shared citizenship. Levels of pride and belonging in the UK are high. However, we are experiencing changes in our society which may have an impact on the bond that we feel we share as citizens. I propose a range of measures that may help to promote a shared sense of belonging and may encourage citizens to participate more in society (Goldsmith 2007, t. 7).

Yn ôl y gosodiad, nid oes argyfwng o ran perthynas dinasyddion â natur y DG ac mae balchder a theimladau o berthyn i'r DG yn uchel. Yr hyn sy'n bygwth undod y DG, yn ôl Arglwydd Goldsmith, yw sgil effeithiau mewnfudo a'r oes globaleiddio yn hytrach na 'amlgenedlaetholdeb' Prydain (Goldsmith 2007, t. 7). Yr ateb felly yn yr adroddiad yw annog ymlyniad cyffredin rhwng dinasyddion. Gwelir felly nad oes cyfeiriad at gyfansoddiad amlgenedl y DG na sôn ychwaith bod hyn yn ffactor i'w ystyried wrth hyrwyddo dinasyddiaeth gyffredin. Serch hynny, datgela ymchwil gan *CoDE—Centre on Dynamics of Ethnicity*—ar Gyfrifiad 2011 nad oes ond 14% o drigolion ym Mhrydain yn uniaethu â Phrydeindod tra bo hunaniaeth Gymreig, Albanaidd, Seisnig ar gynnydd (CoDE 2013). Y mewnfudwyr—y dinasyddion newydd Prydeinig—ar y llaw arall (38% ohonynt yn ôl cyfrifiad 2011), sydd yn fwy tebygol o ddatgan teimladau cryf dros Brydeindod. Yn wir, ymddengys felly mai pobloedd cynhenid Prydain sydd yn peri'r bygythiad mwyaf i undod Prydain. Gellir cymhwyso geiriau Soraka *et al.* (2007) am

Ganada a Québec ar gyfer Prydain a Chymru: 'So far, at least, the country seems to be successfully facing the challenges of postmodernity. The bigger challenges stem from its premodern phase' (t. 26).

Wrth i ymdeimlad cenedlaethol y DG gynyddu, nodir bod mewnfudwyr hefyd yn ymateb i ddatgymaliad y DG. Nid ydynt, fel y cred rhai yn 'neutral bystanders in the ongoing praxis of 'negotiating nationalisms'' (Kymlicka 2011c t. 290). Yn 2003, pleidleisiodd hanner y boblogaeth Bacistanaidd yn yr Alban dros y blaid SNP sydd yn dymuno ymwahanu oddi wrth y DG. Dywed Kymlicka (2011c) fod hyn yn arwydd o fethiant agenda dinasyddiaeth y DG a llwyddiant natur dinasyddiaeth amlgenedlaethol. Tybir, fodd bynnag, fod y blaid SNP yn hyrwyddo annibynniaeth genedlaethol i'r Alban yn hytrach nag amlgeneldaetholdeb. Nid yw teimladau cymysg ac ymrwymadau cystadleuol yn profi methiant dinasyddiaeth, ond yn hytrach mae'n arwydd o'r angen i ail-ddiffinio dinasyddiaeth. Ond i ba raddau y gellir sôn am gydlyniant cymdeithasol os yw ystadegau yn dangos bod dinasyddion yn ymbellhau oddi wrth y syniad o hunaniaeth Brydeinig?

2.2.2. Dinasyddiaeth Ôl-Genedlaethol

Daw model dinasyddiaeth ôl-genedlaethol yn fwyfwy adnabyddus fel opsiwn posib sydd yn goresgyn ymlyniadau Prydeinig ynghyd ag ymlyniadau i grwpiau is-wladwriaethol Prydain, megis y Saeson, Cymry, Albanwyr a'r Gwyddelod. Dywed Tonkiss (2013), drwy ddyfynnu Soysal (1994) am hunaniaeth genedlaethol ei fod "'no longer a significant construction' in the appropriation of rights and privileges" (t. 159). Fel hynny, caiff mewnfudwyr eu hannog i ddod yn Brydeinig heb orfod delio â gwrthdrawiadau hanesyddol y grwpiau cenedlaethol. Mae Canada i raddau helaeth yn hyrwyddo'r model hwn gan ddangos ffyrdd newydd o ddod yn ddinasyddion Canada sydd yn trosgynnu'r ddeuliaeth Ffrangeg-Saesneg sydd wedi diffinio hanes Canada. Gall dinesydd felly feithrin hunaniaeth ôl-genedlaethol yn hytrach na delio â'r 'ddau sgorpion yn y botel', fel

y'i disgrifiwyd gan yr Arglwydd Durham (Arnopoulos a Clift 1984). Ond a yw dinasyddiaeth ôl-genedlaethol yn cyfateb i agenda hunaniaeth Brydeinig sydd yn pwysleisio goruchafiaeth y wladwriaeth Brydeinig?

Dywed Kymlicka (2011c) fod tri rhwystr mawr i'r cysyniad ôl-genedlaethol. Yn gyntaf, mae'n amhosib integreiddio mewnfudwyr mewn ffyrdd sydd yn niwtral o safbwynt prosiectau hanesyddol cenedlaethol. Mewn is-wladwriaethau sydd ag ieithoedd cenedlaethol, rhaid i fewnfudwyr wneud penderfyniad rhwng anfon eu plant i ysgolion Saesneg neu Gymraeg eu cyfrwng yng Nghymru (heblaw am ysgolion cynradd yng Ngwynedd) ac rhwng Castileg a'r Fasgeg yng Ngwlad y Basg¹³. Does dim y fath beth ag integreiddio i gymdeithas niwtral felly. Mewn gwirionedd, mae'r model ôl-genedlaethol yn annog mewnfudwyr i integreiddio i'r gymdeithas oruchafol. Mae'r label Brydeinig felly yn rhoi cysur i'r grwpiau mwyafrifol eu bod wedi symud oddi wrth genedlaetholdeb 'ethnig' tra bo y lleiafrifoedd is-wladwriaethol yn glynu at hunaniaethau cenedlaethol cyntefig ac ynysig. Y gwir yw bod yr hunaniaethau 'ôl-genedlaethol' yn cuddio cenedlaetholdeb sifig cymathiadol:

Encouraging immigrants to become 'British', 'Spanish' or 'Canadian' too often is simply socializing immigrants to participate in this power play by which dominant group identities and interests are disguised as postnational civic identities (Kymlicka 2011c, t. 293).

Yr ail rwystr, yn ôl Kymlicka, yw bod annog ymlyniad gwladwriaethol yn unig yn hepgor diffinio ethnigrwydd y grwpiau cenedlaethol ac yn eu hatal hwy rhag datblygu cenedligrwydd mwy cynhwysol:

Devolution to accommodate Welsh or Scottish nationalism may be oppressive to immigrants unless there is pressure to redefine Welshness or Scottishness to be ethnically inclusive. But this required accepting that the route to citizenship for immigrants is not just through Britishness, but also potentially through

¹³ Mae'r mwyafrif o fewnfudwyr sydd heb Gastileg neu'r Fasgeg fel mamiaith yng Ngwlad y Basg yn mynychu ysgolion cyfrwng Castileg. Serch hynny, yn 2015-16, dywed erthygl yn *El Diario Vasco* fod 43% allan o 2681 disbygl o dramor yng Ngwlad y Basg yn mynychu ysgolion cyfrwng Basgeg (diariovasco.com 2015).

Scottishness or Welshness, and hence that these nationalisms must be reformed to become more inclusive (Kymlicka 2011c, t. 293).

Er hynny, mae cefnogaeth gynyddol y Pacistaniaid i'r SNP yn yr Alban a chefnogaeth Cyngor Mwslemiaid Cymru i bwerau datganoli cynyddol yng Nghymru yn brawf bod y cenedlaetholdebau hyn eisoes yn datblygu ar hyd trywydd cynhwysol. Mae'r syniad o 'nested identities' gan David Miller a'r broses o 'negodi cenedlaetholdebau' gan Kymlicka yn arfer cyffredin yn y DG felly. Yn wir, dywed Kymlicka pe byddai mewnfudwyr yn dod yn ddinasyddion trwy'r grŵp cenedlaethol is-wladwriaethol, yna byddai hyn yn sicrhau cysyniadau mwy cynhwysol ac amlddiwylliannol o genedlaetholdeb is-wladwriaethol. Tra bo hunaniaeth Seisnig â chysylltiadau cryf gydag Islamoffobia (Hussein a Miller 2006), honnwyd bod amldiwylliannedd a chenedlaetholdeb yr Alban yn cyd-fynd â'i gilydd ac felly yn dangos olion dinasyddiaeth is-wladwriaethol sydd yn gynhwysol ac yn aml-ethnig ei natur: 'multiculturalism and substate nationalism have not merely coexisted but actually interacted positively within Scotland' (t. 199).

Yn drydydd, datgana Kymlicka fel Gagnon a Iocavino (2012), nad yw'r model ôl-genedlaethol yn ymarferol i'r lleiafrifoedd cenedlaethol is-wladwriaethol. Mae'r is-wladwriaeth gan amlaf yn ymwybodol bod hyrwyddo integreiddio i Brydain yn golygu integreiddio i'r grŵp goruchafol ac nid i'r is-wladwriaeth. Yn wir, mae cynaliadwyedd eu prosiectau cenedlaethol hwy yn dibynnu yn fwyfwy ar fewnfudwyr yn dewis uniaethu gyda'r genedl is-wladwriaethol. Yn sgil beirniadaeth ar genedlaetholdeb ethnig, mae cymhelliant cryf gan yr is-wladwriaeth i recriwtio mewnfudwyr i'w phrosiect cenedlaethol er mwyn gwrthbrofi cenedlaetholdeb cul ynghyd ac adeiladu consensws mewnol. Serch hynny, cofiwn fod mwyafrif helaeth o leiafrifoedd ethnig Québec wedi pleidleisio yn erbyn annibyniaeth Québec yn 1995—prawf felly o fethiant Québec i integreiddio mewnfudwyr yn llwyddiannus i *un fersiwn* o'r is-wladwriaeth.

Problem sydd gan y mwyafrif o is-wladwriaethau yw nad oes ganddynt sefydliadau sydd yn gyfrifol dros ddatblygu eu hagenda dinasyddiaeth eu hunain. Y genedl-wladwriaeth sydd yn cymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu agenda dinasyddiaeth gyfreithiol ar gyfer mewnfudwyr. Edrychir felly ar bolisiau integreiddio a chydlyniant cymdeithasol a sut y mae hyn yn cyd-fynd neu yn gwrthdaro â pholisiau'r Gymraeg gan Lywodraeth Cymru.

2.3. Y DINESYDD CYMREIG

2.3.1. Cydlyniant Cymdeithasol

Wales is an inclusive, multicultural and multi-faith country and we welcome the diversity of migrants, refugees and asylum seekers living in Wales and recognise that whilst they all share a common experience, they are far from homogenous [...] We have already undertaken a significant amount of work to ensure Wales is an inclusive nation. Wales has a language of its own, that we are rightly proud of. The Welsh Language is spoken throughout Wales, and you will find television and radio programmes, publications and signs in both Welsh and English. We would certainly encourage you to learn Welsh, as well as English.
(Llywodraeth Cymru 2010b, t. 4)

Daw'r dyfyniad hwn ar ddechrau pecyn gwybodaeth o'r enw 'Understanding Wales' wedi ei dargedu at newydd-ddyfodiaid sydd yn ymgartrefu yng Nghymru. Yn ôl adroddiad 'Cymru'n Cyd-dynnu—Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru':

Ei nod yw sicrhau bod pobl sydd yn dod i fyw a gweithio yng Nghymru yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau a'u bod hefyd yn cael gwybodaeth ynghylch lle i gael gafael ar gyngor a chymorth os bydd unrhyw broblemau'n codi, er mwyn eu helpu i ymgartrefu yn eu cymunedau newydd (Llywodraeth Cymru 2009a, t. 20).

Yn yr un ffordd â Llywodraeth y DG, gwelir bod Llywodraeth Cymru yn diffinio Cymru fel gwlad amlddiwylliannol a chynhwysol o ran ymagwedd tuag at fewnfudwyr a lleiafrifoedd ethnig. Cydnebydd Llywodraeth Cymru yn rhagair y pecyn croeso fod amrywiaeth yn elfen sydd yn cyfoethogi Cymru ac yn nodwedd hanfodol o fywyd yng Nghymru. Yn hyn o beth, diffinnir Cymru fel cenedl. Y Gymraeg a roddir fel esiampl o arwahanrwydd a neilltuolrwydd Cymru gan ei chyflwyno fel iaith fyw â rôl bwysig mewn

bywyd cyhoeddus. Mae'n annog mewnfudwyr felly i dderbyn nodweddion unigryw Cymru, a hynny, trwy ddysgu'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

Er gwaetha'r ffaith nad oes pwerau gan Lywodraeth Cymru dros ddinasyddiaeth gyfreithiol o gymharu â phwerau rhannol Llywodraeth Québec dros fewnfudo, mae pwerau Llywodraeth Cymru dros addysg a chydlyniant cymunedol yn golygu bod modd cynllunio strategaethau er mwyn medru dylanwadu ar y broses o integreiddio mewnfudwyr yng Nghymru. Fel y dywed Andrews a Mycock (2007, t. 35) mae pŵer datganoledig o ran addysg yn golygu bod cenhedloedd y DG yn aml yn hyrwyddo negeseuon gwrthgyferbyniol. Yn hyn o beth, mesurir i ba raddau y mae'r Llywodraeth yn hyrwyddo model o ddinasyddiaeth 'amlygenedlaethol' neu ddinasyddiaeth 'answyddogol' Gymreig ac i ba raddau y gellir gweithredu hyn o fewn fframwaith dinasyddiaeth gyfreithiol y DG.

Mae polisiâu Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r syniad o 'gydlyniant cymunedol'. Rhoddir pwyslais ar 'gydnabod bod cynnwys ac integreiddio ffoaduriaid yn brosesau dwyffordd a'i bod yn bwysig bod y gymuned sydd yn eu derbyn yn cymryd rhan yn y broses o gyflawni'r nod hwnnw, yn ogystal â chymunedau ffoaduriaid' (Llywodraeth Cymru 2013, t. 7). Yn y cyswllt hwn, noda'r adroddiad nad yw strategaeth y Llywodraeth yn hyrwyddo cymhathu ieithyddol ond yn hyrwyddo 'cydlyniant' yn ei lle:

Mae cymhathu yn awgrymu rhoi'r gorau i wahaniaethau a hynodrwydd diwylliannol o blaid unffurfedd. Mae cynhwysiant, mewn cyferbyniad, yn awgrymu cydberthynas gilyddol lle mae'r ddwy ochr yn parchu ei gilydd a lle mae unigolion o wahanol gefndiroedd sydd wedi cael profiadau gwahanol mewn bywyd yn gallu gwneud cyfraniadau arbennig i gymdeithas (Llywodraeth Cymru 2013, t. 7)

Wrth osod pwysigrwydd ar barchu cefndiroedd y mewnfudwyr, ymddengys bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu polisiâu amlddiwylliannol sydd hefyd yn gofyn am gyfrifoldeb y mewnfudwyr i gyfrannu at y gymdeithas yng Nghymru. Yn wir, er bod

ffoaduriaid yn gwneud dewis unigol o ran y graddau y maent am integreiddio i gymdeithas Cymru, dywed ymhellach eu bod 'yn cael eu hintegreiddio pan fydd ffoaduriaid unigol yn dod yn aelodau llawn o gymdeithas' (Llywodraeth Cymru, t. 15)—a hynny, ar lefel gymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Diddorol felly yw archwilio sut y mae Llywodraeth Cymru yn diffinio cyfrifoldebau'r gymuned groeso a'r gymuned fewnfuldol er mwyn dod yn ddinesydd cyflawn.

Nodir bod polisiau cydlyniant cymunedol Llywodraeth Cymru wedi eu ffurfio drwy ddyllanwad helyntion sifil 2001 yng Ngogledd Lloegr. Cyfeirir at bolisiau Prydeinig a'r egwyddorion sydd yn seiliedig ar 'ddyfodol a rennir'. Hefyd ceir pwyslais ar gyfleu beth sydd yn rhwymo cymunedau ynghyd yn hytrach na beth sydd yn eu gwahanu. Ymhellach, cyfeiria'r polisiau at fodel newydd sydd yn esbonio 'ymdeimlad o ddinasyddiaeth ar lefel genedlaethol a lleol, a'r rhwymedigaethau sydd yn cyd-fynd â bod yn aelod o gymuned, i unigolion neu grwpiau' (Llywodraeth Cymru 2009a, t. 35). Yn yr ystyr hwn, gwelir llawer yn debyg i syniadau Prydeinig am gydlyniant cymunedol a dinasyddiaeth Brydeinig. Serch hynny, fe'u haddesir rywfaint ar gyfer Cymru. Nodir bod ffactorau gwahanol yn perthyn i Gymru o gymharu â'r cyd-destun Prydeinig ac y byddai polisiau ar gydlyniant cymunedol yn adlewyrchu hyn megis 'yr heriau sydd yn wynebu cymunedau gwledig o ran ymfudo ac ymrwymiad i gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg' (t. 8). Er sôn am 'iaith a rennir' fel a geir ym mhollisiau Prydeinig, cyfeiria adroddiadau at 'ddimensiwn ychwanegol gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cyd-fodoli' (t. 5).

Serch hynny, nodir ymhellach mai'r Saesneg sydd yn 'ganolog bwysig i helpu newydd-ddyfodiad i ymgartrefu ac integreiddio yn eu cymunedau newydd' (Llywodraeth Cymru 2013, t. 30). Tra bo pwyslais yr adroddiad hwn ar ddatblygu darpariaeth ESOL, sonnir hefyd am ddiogelu a chefnogi cymunedau Cymraeg fel rhan bwysig o gynnal cydlyniant

lleol. I raddau gellir tybio bod Llywodraeth Cymru, fel Llywodraeth Prydain, yn ystyried Saesneg fel iaith dan amod cydlyniant cymunedol a chenedlaethol Cymreig tra bo y Gymraeg â rôl fwy ymylol o ran cydlyniant gan gynnwys y cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Nodir y dyfyniad isod yng nghyd-destun dysgu Saesneg trwy ddarpariaeth ESOL:

It is important that you learn the local language once you've arrived in the UK, it will help you feel part of your new community, to make friends and to access any important information and services you may need (Llywodraeth Cymru 2015, t. 53).

Eto, ceir cyfeiriadau amwys o ran yr iaith sydd dan sylw isod. Ai'r Gymraeg sydd yn agor drysau at arwyddion diwylliannol a hanesyddol Cymraeg ynteu'r Saesneg?:

Mae sgiliau iaith da yn darparu sylfeini cadarn i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru allu gwireddu eu potensial. Yn ogystal â bod yn fodd i unigolion mewn cymuned gyfathrebu â'i gilydd a dysgu am ei gilydd, mae gan iaith arwyddion diwylliannol a hanesyddol bwysig a all hwyluso cynhwysiant (Llywodraeth Cymru 2013, t. 19).

Noder ymrwymadau Llywodraeth Cymru:

- 1) gefnogi dysgwyr ESOL trwy'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol
- 2) annog newydd-ddyfodiad i ddysgu Cymraeg ac integreiddio i gymunedau Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2009a, t. 40).

Serch hynny, mae'r gwahaniaeth rhwng ymrwymadau ar bapur a darpariaeth yn nodweddiadol. Er gwaetha'r galw am ehangu a gwella ESOL yng Nghymru, mae'r Llywodraeth yn darparu strategaeth a darpariaeth gynhwysfawr a buddsoddiad ariannol ar gyfer darpariaeth Saesneg. Er bod cynllun cyflawni gweithredol (2014-16) ar gydlyniant cymunedol yn cydnabod y newidiadau cymdeithasol i Gymru yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2011, nid oes un cyfeiriad at ffigyrau ac effeithiau ieithyddol ar y gymdeithas nac ychwaith gyswllt rhwng cwmp yn y niferoedd sydd yn siarad Cymraeg, twf mewn cyfradd mewnfudo a sicrhau dyfodol y cymunedau Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2014a).

2.3.2. Polisi Iaith yng Nghymru

Yn 2014 cyflwynwyd polisi ESOL penodol i Gymru gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r polisi ESOL cyntaf sydd yn neilltuol i Gymru ac sydd yn dynodi pwysigrwydd yr iaith Saesneg i Gymru. Yn y rhagair i'r polisi, dywed Is-Weinidog Ken Skates:

Mae methu â chyfathrebu yn Saesneg yn ei gwneud hi'n anodd i unigolion fod yn aelodau llawn o'n cymdeithas a'n heconomi. Ni allwn adael i'r rheini sy'n mudo i Gymru i beidio â bod yn rhan werthfawr o'n cymdeithas. Rydym am i bawb sy'n byw yng Nghymru deimlo'n rhan o'r gymdeithas. Felly rhaid i ni sicrhau bod addysg cyfrwng Saesneg ar gael i hybu cynhwysiant cymdeithasol ar gyfer y rheini nad ydynt yn siarad Saesneg ac mewn sefyllfa fregus ac i sicrhau bod gweithwyr mudol yn gallu cyfrannu'n gynhyrchiol at economi Cymru. (Llywodraeth Cymru 2014b, t. 2)

Yn unol â'r ewyllys hwn, mae'r strategaeth yn diffinio'n eglur mai mynediad at y Saesneg yw'r allwedd i gydlyniant cymdeithasol a chynhwysiant yng Nghymru:

Mae cysylltiadau pendant rhwng anfantais â Saesneg ac allgáu cymdeithasol ac amddifadedd. Canfu astudiaeth yn ddiweddar i dlodi ac ethnigrwydd yng Nghymru fod sgiliau Saesneg yn dylanwadu ar fynediad at wasanaethau, hyder pobl, eu gallu i helpu eu plant i lwyddo yn yr ysgol a'u rhwydweithiau cymdeithasol (Llywodraeth Cymru 2014b, t. 4).

Cyflwynir y Gymraeg yn y ddogfen polisi drwy esbonio bod dysgu iaith ychwanegol i'r Saesneg yn 'anodd' ac yn 'ddieithr'. Ar y naill law, anogant elfen o integreiddio'r Gymraeg i ESOL er mwyn i ddysgu Saesneg yng Nghymru fod yn fwy hwylus:

Gall dysgu ESOL yng Nghymru fod yn fwy o her i ddysgwyr. Gall adnabod a deall enwau lleoedd ac arwyddion Gymraeg fod yn anodd, yn enwedig pan fo Saesneg yn 'ddieithr' hefyd. Mae angen i ddarparwyr fod yn ymwybodol o hyn a helpu dysgwyr i ddeall y gwahaniaeth. Mae bod yn gymdeithas ddwyieithog yn darparu cyfoeth a all wneud dysgu Saesneg yn fwy diddorol fyth, ac anogir darparwyr i integreiddio'r iaith Gymraeg yn eu dosbarthiadau ESOL lle bo modd (Llywodraeth Cymru 2014b, t. 7).

Ar y llaw arall, er gwaethaf yr 'anogaeth' i ddysgu'r Gymraeg, nid oes gwybodaeth bellach ar sut y gall tiwtoriaid integreiddio'r Gymraeg. Yn wir, heblaw am y sylwadau hyn, nid oes unrhyw wybodaeth bellach, strategaeth na darpariaeth benodol ar gyfer dysgu Gymraeg i fewnfudwyr yng Nghymru. Rhaid cwestiynu felly beth yn union yw amcanion Llywodraeth Cymru er mwyn annog pobl i ddysgu Gymraeg yn y gymuned. Dyma gwestiwn yr eir i'r afael ag ef fel rhan o'r gwaith maes.

Cyfeiria'r adroddiadau dan sylw at ddosbarthiadau Cymraeg ar gyfer oedolion, yn arbennig pan fydd ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn symud i ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Eir ati ar ôl hynny i esbonio strategaeth fanwl a darpariaeth rad ac am ddim ar gyfer dosbarthiadau Saesneg. Er gwaethaf pwysau cynyddol i wneud toriadau mewn addysg oedolion, caiff ESOL ei gyllido'n sylweddol gan Lywodraeth Cymru: 'Byddwn yn dal i ddarparu arian cyhoeddus i gefnogi darparu dosbarthiadau ESOL i bawb hyd at lefel ymarferoldeb' (Llywodraeth Cymru 2014b, t. 4).

Mae'r adroddiad yn nodi argymhellion ar gyfer datblygu darpariaeth Saesneg gan gynnwys cydweithrediad â Gyrfa Cymru. Er gwaethaf cyfeiriadau at natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg i Gymru, prin yw'r polisiau yn trafod darpariaeth Gymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Ar y cyfan, holltir ymdrechion i warchod y Gymraeg yn y cymunedau Cymraeg gyda darpariaeth i gefnogi mwyfwy o fewnfudwyr i ymuno â chyrtsiau ESOL. Tra bo darpariaeth Saesneg yn flaenoriaeth ar sail 'supply and need', yn ôl un adroddiad, mae'r Gymraeg yn cael ei chysylltu â threftadaeth a hunaniaeth Gymreig (Llywodraeth Cymru 2010a). Er yn ddymunol i ddysgu Cymraeg er mwyn cryfhau profiad integreiddio'r fewnfudwyr, opsiwn dewisol o ran y fewnfudwyr ydyw. Awgrymir hefyd fod dysgu Cymraeg yn benderfyniad yr unigolyn yn dilyn ennill meistrolaeth ar y Saesneg (Llywodraeth Cymru 2014b).

Yn y cyswllt hwn, mae'n ddiddorol talu sylw i un adroddiad ESOL yng Nghymru gan y grŵp LLUK a oedd yn gyfrifol am addysg gydol oes y DG. Yn wahanol i adroddiadau'r Llywodraeth mae'r ddogfen hon yn nodi argymhellion penodol o ran integreiddio elfennau o'r iaith a diwylliant Cymreig i strategaeth ESOL. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr argymhellion canlynol ar gyfer tiwtoriaid Saesneg:

Mae athrawon ESOL yn:

- gwerthfawrogi iaith/ieithoedd cyntaf/eraill dysgwyr fel offeryn ar gyfer dysgu ac fel rhan bwysig o hunaniaeth dysgwyr
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu dealltwriaeth o le Cymraeg llafar ac ysgrifenedig mewn cyd-destunau dilys a pherthnasol
- defnyddio ymagweddau sy'n helpu dysgwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth sy'n datblygu am iaith i'w galluogi i ymglyfarwyddo a defnyddio iaith Gymraeg sylfaenol lle bo hynny'n briodol
- defnyddio ymagweddau sy'n helpu dysgwyr i gyfranogi mewn amgylcheddau Cymraeg/Saesneg dwyieithog.

Elfen B1.1

Mae athrawon ESOL yn:

Cynnal amgylchedd dysgu lle mae ieithoedd cyntaf/eraill dysgwyr yn cael eu gwerthfawrogi a'r cyd-destun Cymraeg/Saesneg yn cael ei gydnabod

Elfen C1.1 ESOL

Y mae'r athrawon ESOL yn gwybod ac yn deall:

- y gall yr amgylchedd ieithyddol i ddysgwyr yng Nghymru fod mewn cyd-destun Cymraeg neu Gymraeg/Saesneg.

Element C1.3 ESOL

Y mae'r athrawon ESOL yn gwybod ac yn deall:

- y berthynas rhwng Cymraeg a Saesneg a mentrau gwleidyddol i sicrhau a datblygu safle'r Gymraeg yn y gymdeithas.

Elfen F1.1 ESOL

Mae athrawon ESOL yn:

- adnabod a chyfeirio dysgwyr at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg
-

(LLUK 2007, tt. 21-22)

Er bod LLUK eisoes wedi'i datgymalu, mae'r argymhellion yn dangos bod sylw i'r Gymraeg a'i rôl er mwyn hwyluso integreiddio myfyrwyr ESOL. Ar y llaw arall, nodir nad yw polisi cyfredol Llywodraeth Cymru ar ddarpariaeth ESOL yn cydnabod unrhyw rôl

benodol i'r iaith Gymraeg yn ei argymhellion. Dim ond un cyfeiriad a geir yn adroddiad y Llywodraeth ar ESOL sydd yn sôn am ddefnydd 'creadigol' o ddinasyddiaeth mewn un dosbarth ESOL: 'A creative example of the use of citizenship material included a class of refugees being taught the Welsh National Anthem, in Welsh, prior to the Six Nations rugby tournament' (LLUK, t. 43).

Ceir hefyd fewnwelediad i ddarpariaeth ESOL trwy adroddiadau Estyn ar ganolfannau addysg i oedolion. Nodir mewn arolwg Estyn diweddar ar ddarpariaeth ESOL yng Nghaerdydd '[nad] oes digon o ddysgwyr ar draws y bartneriaeth yn datblygu dealltwriaeth o Gymru, y Gymraeg a diwylliant Cymru' (Estyn 2013, t. 7). Ategir: '[...] yn y rhan fwyaf o wersi a arsylwyd, ychydig iawn o enghreifftiau a welwyd o diwtoriaid yn ymgorffori'r cyd-destun Cymreig yn eu cwrs neu eu cynlluniau sesiwn' (t. 8). Serch hynny, mewn adroddiad Estyn ar arolwg darpariaeth ESOL yng Ngwynedd ac Ynys Môn, nodwyd y canlynol am y myfyrwyr:

Mae dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn dda mewn dosbarthiadau [ESOL] lle mae'r tiwtor yn siarad Cymraeg. Mewn dosbarthiadau lle mae cymysgedd ieithyddol, mae dysgwyr yn aml yn defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu'n anffurfiol ond nid ydynt bob amser yn ehangu eu dealltwriaeth trwy ddysgu a defnyddio terminoleg Gymraeg y pwnc (Estyn 2010, t. 3).

Yn yr un modd, mae'r adroddiad yn gadarnhaol o ran darpariaeth Cymraeg y tiwtoriaid:

O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth well o anghenion ystod eang o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae mwyafrif y tiwtoriaid [ESOL] yn siarad Cymraeg yn rhugl ac, mewn llawer o achosion, maent yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn effeithiol iawn i gefnogi dysgwyr (Estyn 2010, t. 30).

Mae'r gwahaniaeth rhwng darpariaeth y Gymraeg yng Nghaerdydd a Gwynedd yn sylweddol ac yn adlewyrchu, yn ôl yr adroddiad, y canran o siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau perthynol. Er gwaethaf polisiâu cenedlaethol addysg Saesneg yng Nghymru, ymddengys bod rhywfaint o ofyniad i diwtoriaid gynnwys 'elfen Gymreig' neu 'elfen o'r Gymraeg' yn eu gwersi iaith ac mae'r graddau y mae hyn yn cael ei wneud yn adlewyrchu sefyllfa ieithyddol y cymunedau.

Yn yr ystyr hwn, edrychir ar bolisiau'r Gymraeg gan Lywodraeth Cymru. Yn ei phrif bolisi ar y Gymraeg, 'Iaith Pawb', cyfleir dymuniadau'r Llywodraeth i ddatblygu'r iaith y tu allan i gymunedau siaradwyr brodorol, a chan roi cyfleoedd i bawb ddewis dysgu a byw trwy eu hiaith ddewisol:

Rydym eisiau edrych y tu hwnt i nifer y bobl a all siarad Cymraeg yn unig. Rydym am i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog, sef gwlad lle gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg a lle mae presenoldeb y ddwy iaith yn ffynhonnell amlwg a hyglyw o falchder a chryfder i bob un ohonom (Llywodraeth Cymru 2003, t. 11).

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio datblygu darpariaeth deg ar lefel genedlaethol gan nodi bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gryf i gefnogi a hybu'r iaith Gymraeg. Credwn fod y Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth ein cenedl a byddwn yn parhau i wneud y cyfan sydd o fewn ein gallu i hybu ei lles (Llywodraeth Cymru 2003 t. 23).

Cydnabyddir bygythiadau ymfudo i'r Gymraeg yn ogystal â phŵer y Saesneg yn erbyn y Gymraeg.

Yn ogystal, mae prosesau ymfudo yn parhau i newid cymeriad ieithyddol cymunedau Cymraeg eu hiaith mewn sawl rhan o Gymru. Mae hanes wedi profi y gall y defnydd o'r iaith o fewn cymuned leihau'n eithriadol o gyflym, ac mae lleihad o'r fath i'w weld mewn sawl rhan o Gymru heddiw (Llywodraeth Cymru 2003, t. 2).

Credwn fod angen camau cadarnhaol pellach o blaid y Gymraeg a bod cyfiawnhad dros eu cymryd; nid oes angen cymaint o gefnogaeth sefydliadol ar y Saesneg fel yr iaith gryfaf a'r iaith fwyafrifol (Llywodraeth Cymru 2003, t. 9).

Awgryma'r adroddiad felly fod angen cynyddu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, yn arbennig ar gyfer mewnfudwyr er mwyn iddynt gyfrannu at gymdeithas Gymraeg.

Hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cymdeithasol a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a bydd yn ceisio annog newydd-ddyfodiaid i ddysgu'r iaith a chymryd rhan yn y gymuned Gymraeg leol (Llywodraeth Cymru 2003, t. 35).

Nid yw strategaeth ddiweddaraf y Gymraeg, 'Iaith Fyw: Iaith Byw', yn gwneud datganiadau mor hyderus o blaid annog mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg er yn cydnabod bod mewnfudo o'r tu mewn a'r tu allan i Brydain yn ogystal ag allfudo yn effeithio'n

benodol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith (Llywodraeth Cymru 2012). Mae'r strategaeth yn fwy pwylllog drwy ddatgan nodau penodol er mwyn adfywio'r Gymraeg (megis cynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle a throsglwyddo'r Gymraeg yn y teulu) ond wrth osgoi datganiadau ar adeiladu cymdeithas ddwyieithog. Gyda chwymp mewn niferoedd sydd yn siarad y Gymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011, rhydd bwysau ar y Llywodraeth i gyflawni nodau'r strategaeth newydd (Williams 2013, tt. 142-146).

Gwelwyd bod strategaethau ESOL a'r Gymraeg yn cael eu trin ar wahân. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn strategaeth 'Iaith Byw: Iaith Fyw' tuag at ymgorffori'r Gymraeg mewn dosbarthiadau ESOL. Ym mholisi ESOL i Gymru (Llywodraeth Cymru 2014b), cyfeirir yn amwys at y Gymraeg ond nid yw'n amlwg sut y gall tiwtoriaid ESOL integreiddio'r elfen Gymreig neu sut y gellir eu cymell i'w wneud. Yn hyn o beth, bydd Pennod 5 yn ymdrin â'r graddau y mae'r strategaethau gwahanol yn adlewyrchu ideolegau gwladwriaethol a gwahaniaethol am y Gymraeg a'r Saesneg ymhlith Swyddogion Llywodraeth Cymru, Chynghorau Lleol a thiwtoriaid ESOL a Cymraeg i Oedolion. Y cwestiwn sy'n codi yw: i ba raddau y mae polisiau yn galluogi mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg fel trigolion eraill Cymru?

2.3.3. Cymharu Polisiau Integreiddio: San Steffan a Bae Caerdydd

Ar ôl astudio polisiau integreiddio mewnfudwyr o ddwy ochr y sbectrwm, y naill ar lefel Prydeinig a'r llall ar lefel Cymreig, gellir cymharu a chyferbynnu eu polisiau ar ddinasyddiaeth. Er gwaethaf y ffaith bod polisiau Llywodraeth Cymru ar gydlyniant cymunedol yn hyrwyddo'r Gymraeg fel arwydd o arwahanrwydd Cymru o fewn Prydain, nid oes llawer o wahaniaethau yn argymhellion y ddwy lywodraeth a'u strategaethau ar ddarpariaeth ieithyddol i fewnfudwyr. Mae'r ddwy Lywodraeth yn cytuno ei bod yn hanfodol dysgu Saesneg er mwyn integreiddiad 'sifig' ym Mhrydain. Fodd bynnag, mae polisiau Llywodraeth San Steffan hefyd yn ategu pŵer integreiddiol y Saesneg er mwyn

ymgymhwyso'n ddinasyddion. Datgana mai'r 'iaith a rennir'—*shared language*—sydd yn ein rhwymo ni fel dinasyddion Prydeinig. Er gwaethaf cyfeiriadau at iaith a rennir ym mholisiau Llywodraeth Cymru, nid yw'r Saesneg yn annatod i'w pholisiau ar ddeall hunaniaeth a threftadaeth. Yn wir, ceir awgrym bod y Gymraeg yn fwy perthnasol fel cyfrwng i dreftadaeth a hunaniaeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2009b). Y gwrthdrawiad felly yw darpariaeth y ddwy iaith mewn cyd-destun Cymreig. Mae'r Llywodraeth Brydeinig yn hyrwyddo pwysigrwydd y Saesneg i Brydain ac yn darparu dosbarthiadau Saesneg i fewnfudwyr ledled Prydain. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y ddwy iaith, Cymraeg a Saesneg, i Gymru ond darperir dosbarthiadau Saesneg yn unig ar gyfer mewnfudwyr. Er bod adroddiadau Estyn yn datgan bod elfennau o'r diwylliant Cymreig a'r Gymraeg yn cael eu hanwybyddu yng Nghaerdydd, mae elfennau o'r diwylliant a'r Gymraeg yn benodol yn cael eu hymgorffori i raddau yn nosbarthiadau ESOL ym Mangor ac Ynys Môn. Mae'n bosibl dweud bod elfennau o ddinasyddiaeth 'amlgenedlaethol' ar waith yn yr ystafell ddosbarth Saesneg ac yn cael eu hannog gan gyrrff addysg Cymreig megis Estyn—er gwaethaf diffyg strategaeth ar gyfer darpariaeth Gymraeg o gymharu â strategaeth Saesneg i fewnfudwyr. Fel y dywed yr Athro Colin Williams am bolisi'r Gymraeg yng nghyd-destun darpariaeth Cymraeg fel ail iaith yn benodol:

[...] while Iaith Pawb contains fine rhetoric which legitimises policy, it is also replete with ill-defined mechanisms and says next to nothing on monitoring the effect of policies (Williams 2006 t. 276).

Yn yr un modd ag y mae polisiau Llywodraeth Cymru yn gwneud datganiadau heriol o blaid y Gymraeg heb gynnwys mecanweithiau i fonitro effeithlonrwydd eu polisiau, mae'r Llywodraeth hefyd yn datgan ymrwymadau i integreiddio mewnfudwyr heb gynnwys strategaethau ar sut i gynnal na monitro'r ddarpariaeth.

2.3.4. Addysg Dinasyddiaeth

Nid yw natur dinasyddiaeth genedlaethol yn eglur yn y Gymru sydd ohoni a honna Brentnall *et al.* (2009) a Smith (2015) fod hyn yn achosi gwrthdaro mewn syniadau addysgol ar ddinasyddiaeth genedlaethol a lleol yn syniadau diweddar am ddinasyddiaeth fyd-eang. Yma, gwelir tensiwn amlwg rhwng cymunedoliaeth a chosmopolitaniaeth (Brentnall *et al.* 2009). Mae'r Cwricwlwm Cymreig, yn ei dyb ef, yn canolbwyntio ar ddinasyddiaeth ddiwylliannol er bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn y cysyniad o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae strategaethau Llywodraeth Cymru ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDF) yn enghraifft felly o bwyslais ar ddinasyddiaeth gosmopolitanaidd yn oes globaleiddio (Llywodraeth Cymru 2008) sydd yn cael ei hymgorffori i strategaethau addysg oedolion yn y gymuned.

Er bod Smith (2015) yn beirniadu ideoleg dinasyddiaeth ddiwylliannol ac ethnig Cymreig a hyrwyddir gan y Cwricwlwm Cymreig, honna Kymlicka (2001) fod angen i graidd addysg dinasyddiaeth fod yn genedlaethol ei natur er mwyn datblygu i fod yn gosmopolitaidd:

Globalisation is undoubtedly producing a new civil society, but it had not yet produced anything we can recognise as transnational democratic citizenship. [...] many of our most important moral principles should be cosmopolitan in scope—e.g. principles of human rights, democracy, and environmental protection—and we should seek to promote these ideals internationally. But our democratic citizenship is, and will remain for the foreseeable future, national in scope (t. 326).

Yn ôl Kymlicka (2001), mae addysg ar gyfer dinasyddiaeth felly yn gam pwysig i'r wladwriaeth gan gynnwys ar y naill law ymgais i hyrwyddo hunaniaeth genedlaethol drwy hanes ac iaith gyffredin ac ar y llall ymgais i hyrwyddo math o hunaniaeth drosgynnol sydd yn uno nifer o grwpiau cenedlaethol o fewn un wladwriaeth. Yn ôl Kymlicka, mae anwybyddu gwirioneddau hanesyddol y wladwriaeth amlgenedlaethol yn debygol o niweidio yn hytrach na hwyluso undod. Geilw felly am ystyriaeth fwy rhesymegol ar hanes gan honni bod hyn yn cynhyrchu ymlyniad cryfach at hanes a diwylliant cenedl yn ffordd o gynnal cydlyniant mewn gwladwriaeth luosogol.

Cydnebydd Kiwan (2011) yn ei hysgrif 'National' Citizenship in the UK' bod bwlch rhwng polisiau integreiddio ac addysg dinasyddiaeth yn y DG. Cefnoga'r ffaith bod dinasyddiaeth yn medru llywio'r ffordd rhwng yr hyn a eilw'n 'llanast' y wladwriaeth amlgenedlaethol. Serch hynny, dywed ei bod yn hollbwysig i'r newydd-ddyfodiaid ddeall y cyd-destun cymdeithasol gan y bydd yn dylanwadu ar gymhellant yr unigolion i gyfrannu a chyfranogi mewn cymdeithas. Ymhellach, dywed Haste fod angen i addysg ar gyfer dinasyddiaeth mewn cyfnod o uwch-amrywiaeth ystyried swyddogaeth allweddol hunaniaethau cenedlaethol yn hytrach na 'pathologising nationalism' (2004 t. 416). Fel hyn, derbynia Kiwan bwyslais ar 'Gymreictod' mewn addysg dinasyddiaeth yng Nghymru:

Similarly in Wales citizenship education emphasises 'Welshness' coupled with a global outlook where the civic and cultural distinctiveness of Wales—in terms of its newly devolved political institutions as well its historical cultural specificity—are emphasised (Kiwan 2011, t. 276).

Serch hynny, er gwaethaf sylwadau Kiwan o blaid polisiau dinasyddiaeth amlgenedlaethol, prydera am esgeulustod amrywiaeth ac amlddiwylliannedd yng nghwricwlwm yr is-wladwriaethau: 'Examination of citizenship education curricula in schools in Scotland and Wales show relatively little engagement with issues of diversity, immigration and multiculturalism' (Kiwan 2011, t. 277). Yn yr un modd, mae David Miller yn rhybuddio bod pwysau am addysg ar ddinasyddiaeth amlgenedlaethol yn fwy tebygol o ddatblygu yn addysg genedlaethol gyda thueddiadau mwy ethnig na sifig. Dywed bod hunaniaeth Brydeinig yn ymgorffori mwy o elfennau sifig a bod yr elfennau hyn yn ei gwneud yn atyniadol. Yr hyn sydd yn ddymunol yn ei dyb ef yw'r syniad o *nested identities* sydd yn annog mewnfudwyr i fabwysiadu *split-level identities* (Miller 2011, t. 303). Cred Kiwan ei bod yn gamarweiniol ystyried bod modelau o ddinasyddiaeth Gymreig ac Albanaidd yn fwy cynhwysol gan eu bod yn ymarfer dinasyddiaeth genedlaethol heb fod o reidrwydd yn ddinasyddiaeth amlddiwylliannol.

Ymddengys felly bod Llywodraeth San Steffan yn hyrwyddo model o ddinasyddiaeth sydd yn annog mewnfudwyr i ddod yn Brydeinig *heb* ddod yn Gymreig. Gwelwyd hefyd fod ansicrwydd mawr y tu mewn a'r tu allan i Gymru ynghylch unrhyw fodelau eraill sydd yn annog mewnfudwyr i ddod yn Brydeinig *wrth* ddod yn Gymreig, neu'r cysyniad o ddod yn Gymreig *heb* ddod yn Brydeinig. Yr awgrym felly yw bod pwyslais ar y Gymraeg a Chymreictod yn mynd ar draul pwyslais ar amrywiaeth ac amlddiwylliannedd. Dyma'r pryder a drafoda Selleck yn ei doethuriaeth (2014) wrth honni, drwy ddyfynu Baker, bod dwyieithrwydd yn medru cynhyrchu 'less integration, less cohesiveness, more antagonism and more conflict in society' (Baker 2006, t. 376).

2.4. Y DINESYDD, DWYIEITHRWYDD A'R GYMUNED

Er gwaethaf honiadau sydd yn portreadu'r Gymraeg fel rhwystr rhag datblygu Cymru amlddiwylliannol ac yn rhwystr i integreiddiad cymdeithasol, un o ddadleuon y traethawd yw bod y Gymraeg nid yn unig yn nodwedd o amlddiwylliannedd yng Nghymru ond y gall y Gymraeg hefyd hwyluso integreiddiad cymdeithasol mewnfudwyr i Gymru. Honna Brooks (2006) fod y dadleuon yn erbyn hyrwyddo'r Gymraeg mewn cymdeithas fodern yn bodoli yn unig ar sail darllen tystiolaeth trwy un lens. Mae'n anwybyddu'r dystiolaeth sydd yn arddangos bod y Gymraeg yn medru bodoli o fewn amlddiwylliannedd a dinasyddiaeth sifig. Mae cyhuddiadau yn erbyn cenedlaetholwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg yn sgil helyntion megis achos Seimon Glyn²⁴ (Brooks 2009b) a chyhuddiadau yn y wasg Saesneg yng Nghymru wedi rhoi taw ar ymgyrchwyr iaith rhag iddynt gael eu tynnu i mewn i ddadl ar genedlaetholdeb hiliol. Er i'r Llywodraeth Lafur ar ddechrau blynyddoedd 2000 gyflwyno disgwyliadau i fewnfudwyr i Brydain ddysgu Saesneg,

²⁴ Bu helynt yn sgil sylwadau Seimon Glyn ar sianel radio BBC Wales (Ionawr 2001) wrth iddo ddatgan bod angen cyfyngu ar y nifer o fewnfudwyr o Loegr a oedd yn symud i'r bröydd Cymraeg a gofyn iddynt ddysgu'r Gymraeg.

dadleua Brooks fod y farn gyhoeddus yn ei ystyried yn hiliol bod cymunedau Cymraeg yn disgwyl i fewnfudwyr o Loegr ddysgu eu priod iaith:

Concepts of inclusion and inclusivity have often been developed in England, and then adopted in Wales with little idea as to how this might play out for the minority language community. Downplaying language as an equal opportunities issue reflects a UK model of inclusiveness. In Wales this ignores the power inequalities between the English and Welsh languages, while simultaneously opening the door to the possibility that the minority language might be identified as a barrier to the social inclusion of certain marginalized groups (Brooks 2009a, t. 22)

Yn ôl Brooks, mae cyhuddiadau o'r fath yn baradocsaidd: 'Blunkett is proposing far stronger measures [than we have in mind] to tie language in with citizenship [...] I think we have a greater moral right to do that than he has because no one could begin to claim that the English language is in danger' (Brooks 2009a, t. 14). Serch hynny, gwelir bod sylw cynyddol i ddysgu Saesneg gan y Llywodraeth sydd yn awgrymu ymdeimlad bod y Saesneg mewn perygl oherwydd mewnlifiad cynyddol o'r tu allan i'r DG. Yn ôl May (2000, t. 123), mae'r driniaeth wahanol ar gyfer cymunedau lleiafrifol yn deillio o ymgais i bardduo ieithoedd lleiafrifol gan y wladwriaeth:

[...] the unwillingness to learn Welsh must be predicated on the longstanding derogation and vitiation of minority languages [...] it also helps to explain why so much of the oppositional discourse to bilingual policy continues to assume that any process of linguistic accommodation should remain the sole responsibility of minority languages speakers (May 2000, t. 123).

Er y disgwylir i fewnfudwyr i Brydain, gan gynnwys Cymru, ddysgu Saesneg ar sail 'supply and need' (Llywodraeth Cymru 2010a), nid oes yr un cymhelliad na darpariaeth ar gael i fewnfudwyr i Gymru i ddysgu Cymraeg. Gwelir nad yw hygredd y ddadl dros annog mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg er mwyn byw mewn cymunedau Cymreig wedi'i datblygu o fewn y ddadl gyhoeddus. Yn ôl Mann, mae newidiadau i natur dinasyddiaeth wrth iddi symud o ganolbwynt San Steffan yn rhoi hygredd i'r Gymraeg ddatblygu o fewn fframwaith dinasyddiaeth sifig:

In light of this de-centring of citizenship from the nation state, some forms of accommodation may be increasingly expected from majority language speakers. Thus, any argument around a requirement to learn Welsh should be seen as part

of an increasing turn towards sub-state, localized and regionalized forms of civic identity in which linguistic accommodation is conceived as a more mutual and reciprocal process, and as a means by which people express a civic identification with their place of residence. (Mann 2007, t. 212)

Gwelir yn achos Québec y trawsnewid o Ganadiad Ffrengig i'r Québécois fel grŵp cenedlaethol. Er bod ymagweddau'r grŵp mwyafrifol Saesneg yn parhau i fod yn gryf yng Nghymru, mae posibiliadau newydd ar gyfer cymuned ieithyddol Gymraeg: 'the process of the dis-integration of the dominant group [...] leaves a space for occupation by a diversity of new possibilities for society' (Mac Giolla Chríost 2003 t. 21). Atega:

One can suggest that it is in the context of the contemporary relocation of civic and ethnic values in relation to the political institutions of innovative politics characterized by a diffusion of sovereignty that new spaces are being opened up for language and identity (Mac Giolla Chríost 2003, t. 89).

A oes gwagleoedd newydd yn cael eu creu ar y lefelau *meicro* a *meso* sydd yn galluogi mewnfudwyr o dramor i ddysgu Cymraeg, integreiddio i'r cymunedau Cymraeg a chyfrannu at lunio dinasyddiaeth Gymreig gynhwysol ac aml-ethnig?

Mae'r syniad o'r Gymraeg fel iaith 'leiafrifol' hefyd yn broblematig gydag ymrwymadau'r Llywodraeth at ddwyieithrwydd (Mann 2007, t. 25). Noda ymchwil Mann fod cyfrifoldeb yr unigolyn yn nodwedd amlwg sydd yn cymell unigolion i ddysgu Cymraeg. Ceir ymwybyddiaeth gynyddol y gellir bod yn Gymro neu yn Gymraes heb yr iaith ac nid yw'r ffaith nad yw rhywun yn dysgu'r iaith yn meddwl nad ydynt yn cyfrannu i'r gymdeithas. Yn wir, gellir dadlau mai un ffordd bosibl o uniaethu â Chymru yw trwy ddysgu'r iaith gan fod ffyrdd amrywiol o ymrwymo i le penodol. Yn ôl Mann, mae'r pwyslais ar sefyllfa a phrofiadau personol amrywiol yr unigolyn yn gwanhau'r ddadl dros gyfrifoldeb sifig i ddysgu Cymraeg.

One can then identify this emphasis upon one's own particular situation and experiences of a 'Welsh-speaking community' as a discourse against the civic requirement to learn Welsh' (Mann 2007, t. 218).

Serch hynny, dadleuir bod y Gymraeg yn rhan annatod o'r hunaniaeth Gymreig ac yn iaith gymunedol ar draws Cymru ac mae peidio â darparu cyfleoedd i fewnfudwyr ddysgu Cymraeg yn rhwystro unigolion rhag cyfrannu i fywyd sifig Gymreig ynghyd â llesteirio integreiddio a chynwysoldeb llawn i fywyd Cymreig. Yn Québec, er gwaethaf y ffaith bod y Ffrangeg yn iaith fwyafrifol yno, amddiffynnir hawliau'r gymuned Ffrangeg i hyrwyddo'r Ffrangeg i fewnfudwyr trwy'r syniad o gyfranogaeth:

The duty to learn French is intimately connected to the duty to contribute and to participate in society, which is connected, on this account, to fundamental democratic principles. Learning French is, among other things, a necessary means to participation in society so that if one can defend the duty to participate, and I think one can, one can defend the duty to learn French (Carens t. 128).

Effaith hyn yw caniatáu i'r Ffrangeg ddatblygu ar drywydd aml-ethnig a chynhwysol sydd yn cyd-fynd ag egwyddorion amlddiwylliannol a dinasyddiaeth sifig-democrataidd: 'In integrating immigrants, Québec is transforming not only their identity but its own as well' (Carens t. 133). Fel hynny, mae sail dros ddatblygu dadl hefyd sydd yn annog mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg er mwyn integreiddio i'r gymuned Gymraeg.

Yn yr un ffordd ag y mae Québec yn hyrwyddo Ffrangeg fel arwyddnod o berthyn i'r genedl—*un sentiment d'appartenance*—cwestiynir y graddau y gellir hyrwyddo'r Gymraeg i fewnfudwyr fel nodwedd ganolog o berthyn i Gymru. Gellir mwynhau breintiau dinasyddiaeth gyfreithiol Brydeinig ac eto cael eich dieithrio o gymdeithas Gymreig heb siarad ei hiaith. Onid yw'n well ymbellhau oddi wrth drafodaeth ynghlwm wrth berthyn a hunaniaeth a thrafod y Gymraeg yn nhermau datblygu medr offerynnol yn ogystal ag elfen integreiddiol er budd cydlyniant cymunedol? Yn y cyswllt hwn y mae'n ddefnyddiol ystyried cymhelliant a llwyddiant cyfredol integreiddio dysgwyr Cymraeg i gymunedau amrywiol yng Nghymru gan ystyried y rhwystrau a'r posibiladau ar gyfer strategaethau dysgu Cymraeg i fewnfudwyr ar lefel genedlaethol a rhanbarthol ledled Cymru. Cyfeiriwn felly yn ôl at fodel methodolegol a ddatblygwyd yn Québec o'r enw'r *trajectoire langagière*

sydd, yn wahanol i'r model MAI, yn mesur integreiddio fel proses ymaddasu ar lefel yr unigolyn yn y gymuned ac ar hyd amser. Y ffocws felly yw trawsnewid a pherchenogi'r iaith y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Bydd y model hwn felly yn gymorth er mwyn asesu ymatebion mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg ar y lefel *meso*.

2.4.1. Integreiddio Dysgwyr Cymraeg i'r Gymuned

Mae sawl gwaith ymchwil wedi dangos bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dysgu am resymau cymhathu â'r gymdeithas Gymraeg, sef am gymryd rhan lawn yn y gymdeithas yng Nghymru neu am ddefnyddio'r Gymraeg yn y teulu (Gruffudd a Morris 2011, t. 4).

Mae'r dyfyniad yn rhoi sylw i bwnc sydd wrth galon maes ymchwil Cymraeg i Oedolion, sef pontio'r bwlch rhwng troi dysgwyr Cymraeg mewn dosbarth strwythuredig i siaradwyr Cymraeg yn y gymdeithas. Gwelir mai integreiddio a chyfrannu i gymdeithas Gymreig yw'r prif resymau y mae dysgwyr yn ymrestru ar gyrsiau Cymraeg heddiw. Yn eironig felly yr union resymau hyn dros ddysgu Cymraeg sydd hefyd yn peri her a'r rhwystr mwyaf i ddysgwyr Cymraeg ddod yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn ynghlwm wrth heriau i ddod o hyd i gyfleoedd i ymarfer a hefyd hyder dysgwyr i ymarfer yr iaith (Newcombe 2007).

Ceir nifer o esboniadau posibl dros y broblem hon gan gynnwys rhesymau pedagogaidd yn ogystal â rhwystrau cymdeithasol ehangach. Mabwysiadodd maes Cymraeg i Oedolion y dull dysgu Ulpan, dull a ddaw o Israel ar gyfer cymhathu newydd-ddyfodiaid mor gyflym â phosibl i gymdeithas Israel. Mae'r dull gwreiddiol yn canolbwyntio ar ddysgu'r iaith lafar er mwyn i'r dinasyddion newydd integreiddio'n llwyddiannus i'r wlad newydd yn gymdeithasol, economaidd ac yn ddiwylliannol. Mae'r dull eisoes wedi ei fabwysiadu yn yr Alban er mwyn adfywio'r Aeleg yn ogystal â'r Sami yn Norwy. Serch hynny, coda Crowe (1988) ac Evas (1999) amheuan ynghlych llwyddiant y dull Ulpan yn Israel i greu siaradwyr. Yn yr un modd, beirniada rhai yng Nghymru fersiwn Gymraeg o'r

Wlpan gan honni fod angen cynnwys amrywiaeth mwy eang o ddulliau dysgu Cymraeg i Oedolion (Mac Giolla Chríost *et al.* 2012).

Dywed Crowe fod Ulpan a'r Wlpan yn gweithredu mewn sefyllfaoedd gwahanol gan fod yr Ulpan yn mynd i'r afael â chymathu mewnfudwyr o wledydd eraill i Israel tra bo y Gymraeg yn rhan o strategaeth i adfer y Gymraeg. Yn ôl Crowe, mae natur y ddau yn wahanol oherwydd bod un yn ymwneud â chynnal sefyllfa ieithyddol a'r llall yn ceisio datblygu'r sefyllfa ieithyddol lle nad oes bob tro resymau ymarferol dros ddysgu'r iaith: 'I lawer o ddysgwyr y Gymraeg, nid boddi yn y Gymraeg yw'r broblem ond chwilio am bwllyn ohoni i drochi'u traed ynddo' (Crowe, 1988, t. 88).

Dywed ymchwil Mac Giolla Chríost *et al.* (2012) nad yw cyrsiau cyfredol yn paratoi dysgwyr at y naid i'r gymdeithas a galwant felly am gwrs newydd cenedlaethol sydd yn rhoi sylw pellach i bontio'r dosbarth gyda'r gymdeithas. Mae Newcombe (2007) yn canolbwyntio'n neilltuol ar annog dysgwyr i symud y tu hwnt i'r dosbarth ac i'r gymuned. Dywed bod tuedd i ddysgwyr mewn ardaloedd mwy Seisnigaidd gadw tu fewn i ffiniau'r dosbarth yn hytrach na chwilio am fywyd Cymreig y tu allan. Ymddengys felly mai hyder sydd yn effeithio ar bontio dysgwyr i siaradwyr sydd yn gysylltiedig â diffyg neu brinder cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned:

[...] byddai'n ymddangos fod faint y mae rhan fwyaf yr oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg ymaith o'r ystafell ddosbarth yn gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf yn aros o fewn yr amgylchedd dysgu, gan ddim ond siarad gyda chyd-ddysgwyr a mynd i ddigwyddiadau dysgwyr. Yn bennaf, nodwyd fod hyn oherwydd diffyg hyder a chyfle [...] (R. Jones 2005, t. 55).

Gyda golwg ar y natur ieithyddol a chymunedol wahanol sydd yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi gwario 1.5 miliwn er mwyn sefydlu canolfannau Cymraeg mewn ardaloedd mwy Seisnigaidd o Gymru. Y bwriad yw creu peuoedd atyniadol i'r iaith a'r diwylliant Cymreig. Gall hefyd olygu creu cyfleoedd newydd ar gyfer newydd-ddyfodiaid a'r posibilrwydd o greu pont ar gyfer integreiddio dysgwyr trwy weu darpariaeth iaith a

phau newydd o ddiwylliant Cymraeg yn ninasoedd Cymru. Seiliwyd y syniad hwn ar ganolfan iaith Tŷ Tawe yn Abertawe yn ogystal â chanolfannau iaith *Habe* yng Ngwlad y Basg a'r rhaglen *Voluntariat pera la llengua* yng Nghatalwnia:

Mewn ardaloedd traddodiadol Gymraeg mae lle i ofni bod newydd-ddyfodiaid yn gallu trawsnewid natur ieithyddol. Fel y mae rhai gwledydd yn darparu hyfforddiant iaith i newydd-ddyfodiaid, ac yn sicrhau bod hyn yn ddisgwyliad gan newydd-ddyfodiaid, dylai disgwyliad tebyg a darpariaeth ddigonol fod yng Nghymru i ddiogelu natur ieithyddol ardaloedd Cymraeg (Gruffudd a Morris 2011, t. 4).

Yng Nghatalonia a Gwlad y Basg, gwelir hefyd gynnydd yn y nifer sydd yn dymuno dysgu'r ieithoedd lleiafrifol cenedlaethol ynghyd â chynnydd mewn poblogaeth mewnfudo. Yn wir, mae mewnfudo wedi gwrthdroi'r drafodaeth ynghylch dyfodol y Gatalaneg. Er i bolisiau dysgu Catalaneg ganolbwyntio yn wreiddiol ar gaffael iaith fel rhan o hunaniaeth a diwylliant Catalaneg, datblygwyd y drafodaeth i ganolbwyntio ar bwysigrwydd dysgu Catalaneg er budd cydlyniant cymdeithasol. Dangosir adroddiad megis y *Pla per a la llengua i la cohesió social* (cynllun ar gyfer iaith a chydlyniant cymdeithasol) y gwrthdroad nodweddiadol; (1) rhoddir blaenoriaeth i integreiddio cyn dysgu iaith oherwydd bod integreiddio yn hwyluso dysgu iaith yn hytrach na phwyslais ar ddysgu iaith er mwyn integreiddio; 2) nid yw dysgu Catalaneg yn ceisio gwarchod hunaniaeth Gatalanaidd yn bennaf ond yn hytrach yn ceisio hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol mewn cymdeithasau amlieithog (Pujolar 2010, tt. 233-4).

Gellir awgrymu y byddai cyswllt diamwys rhwng dysgu Cymraeg fel ail iaith a chydlyniant cymdeithasol yn ddatblygiad posibl ym mholisiau Llywodraeth Cymru. Gallai hyn ganiatáu i bolisiau'r Gymraeg ddatblygu mewn cyd-destun o gyfiawnder cymdeithasol a deialog ryngddiwylliannol yn hytrach na chael eu trin fel categori ar wahân gyda'r pwyslais ar warchod cymunedau Cymraeg. Fel y rhybuddiodd Morris (2003), byddai methiant i weithredu 'ac integreiddio'r siaradwyr newydd hynny'n ei gwneud hi'n fwyfwy anodd gweithredu cynlluniau a pholisiau iaith ystyrllon yng Nghymru' (2003, t. 215).

Mae hyn yn arwain at gwestiwn pwysig a ystyrir yng ngweddill y traethawd sef i ba raddau mae polisiâu ar iaith a chydlyniant cymunedol ar y lefel *macro* yn effeithio ar gymhelliant a rhesymau dros ddysgu'r Gymraeg? I ba raddau y mae'r model MAI yn gallu mesur hyn? Neu, ai ymdrechion o ran y gymuned groeso a chanolfannau CiO ar y lefel *meso* a *meicro* sydd yn dylanwadu ar integreiddio ieithyddol? I ba raddau y mae'r *trajectoire langagière* yn gallu mesur hyn? Yn ôl Pujolar (2010) mae'r dicotomi rhwng integreiddio 'symbolaidd' ac 'ymarferol' yn gysylltiedig â dadleuon ehangach ynglŷn â dinasyddiaeth 'ethnig' a 'sifig'. Tra bo disgwyl i fewnfudwyr gymhathu yn symbolaidd ac yn ddiwylliannol trwy'r Gatalaneg, dangosodd ei ymchwil fod siaradwyr Sbaeneg a Chatalaneg, er iddynt fod yn genedlaetholwyr Catalanaidd, yn disgwyl integreiddio cymdeithasol ac ymarferol i ddigwydd trwy'r Sbaeneg. Mae'r rhaniad hwn, yn ôl Pujolar, yn adlewyrchu ymagwedd ehangach y llywodraeth yng Nghatalonia a'i dinasyddion mai iaith aelodau 'mewnol' ydy'r Gatalaneg tra bo Sbaeneg yn fwy addas am resymau ymarferol. Nid yw polisiâu iaith er hynny yn gwahaniaethu rhwng mathau o integreiddio ac yn ei sgil '[...] skip the difficult question of what type of linguistic competence is pursued in what specific socioeconomic implications are involved' (Pujolar 2010, t. 236). Yn ôl Pujolar, nid calon y mater yw pa iaith sydd yn gweddu i integreiddio ond sut i gynhyrchu ac adnabod dwyieithrwydd cytbwys. Bydd y penodau nesaf yn mynd i'r afael â'r graddau y mae ideolegau goruchafol y Llywodraeth yn efelychu ideolegau Llywodraeth Cymru ac ymagweddau dinasyddion Cymru.

2.4.2. Casgliad

Yn y bennod hon, trafodwyd hanes dinasyddiaeth yn ogystal â damcaniaethau gwahanol sydd ynghlwm wrth y cysyniad hwn. Awgrymwyd, yn unol â Parekh (2000), Young (1993) a Kymlicka (2000; 2011), mai dinasyddiaeth wahaniaethol—sydd yn cydnabod hawliau

ychwanegol i grŵpiau is-wladwriaethol a grŵpiau mewnfudol—yw sail dinasyddiaeth deg. Ystyriwyd sut y caiff dinasyddiaeth ei gweithredu mewn gwladwriaethau democrataidd megis Prydain a Chanada. Nodwyd bod dinasyddiaeth Canada yn 'amlddiwylliannol' neu yn 'wahaniaethol' mewn egwyddor. Serch hynny, ymwrthodwyd damcaniaethwyr Québec, megis Gagnon a Iocavino (2008), Bouchard (2012) a Seymour (1995), â dinasyddiaeth amlddiwylliannol ynghyd â dinasyddiaeth ôl-genedlaethol am nad yw'n blaenoriaethu diwylliant cenedlaethol fel y gwelir ym mhollisiau rhyngddiwylliannol Québec. Ym Mhrydain, er bod polisïau dinasyddiaeth yn cydnabod gwedd amlddiwylliannol y Wladwriaeth, dadleuwyd bod dinasyddiaeth Brydeinig agosaf at ideoleg 'sifig' gan fod pwyslais ar ddinasyddiaeth gyffredin a theimlad o berthyn trwy iaith—*shared language*, a hynny'n benodol trwy'r Saesneg.

Gwrthwyneba Kymlicka seiliau dinasyddiaeth Prydain drwy honni bod angen ail-ddehongli agenda dinasyddiaeth er mwyn cynnwys y lleiafrifoedd cenedlaethol yn ogystal â'u mewnfudwyr. Er bod Kymlicka yn galw am ail-ddiffinio agenda dinasyddiaeth Prydain, awgrymir bod fersiwn is-wladwriaethol o 'ddinasyddiaeth' rhyngddiwylliannol Québec yn agosach at ddiddordebau Cymru a'r Gymraeg. Yn hyn o beth, caiff diwylliant cenedlaethol Québec ei gydnabod a hynny'n benodol trwy ei hiaith. Er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru i hyrwyddo dwyieithrwydd a diwylliant cenedlaethol Cymru o fewn Prydain fawr, gwelwyd nad yw darpariaeth ieithyddol i fewnfudwyr yn gwahaniaethu fawr dim rhwng Cymru a Lloegr.

Ymhlith dadleuon ysgolheigion yn erbyn gallu iaith leiafrifol fel y Gymraeg i weithredu fel iaith aml-ethnig a chynhwysol (Barry 2001), cred Mac Giolla Chríost (2012), Mann (2007) a May (2012) fod datganoli cynyddol yn agor posibiliadau newydd i'r iaith. Ystyriwyd bod trafodaeth ar lunio dinasyddiaeth Gymreig sydd yn cynnwys y Gymraeg yn rhan bwysig o

ddatblygu diwylliant cynhwysol yng Nghymru. Er gwaethaf rhwystrau wrth integreiddio newydd-ddyfodiaid i gymdeithas Gymraeg leiafrifol, awgrymwyd bod cydlyniant cymdeithasol yn medru cryfhau'r achos dros ddysgu'r Gymraeg i fewnfudwyr ac ystyriwyd y posibilrwydd o gyflwyno'r Gymraeg fel medr ymarferol er budd cyfranogaeth ehangach (Sen 1999). Yn hyn o beth, mae cydlyniant cymdeithasol yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn medrau unigolion ac yn ceisio ehangu mynediad unigolion drwy gynnig adnoddau a chyfleusterau ychwanegol. Yn sgil hynny, gall ail-ddosbarthu adnoddau ei gwneud yn bosibl i fewnfudwyr gyfrannu, datblygu a thrawsnewid ffiniau ethnodiwylliannol iaith. Yn y bennod nesaf, felly, cyflwynir amcanion y gwaith methodolegol yn Québec a Chymru, gan gynnwys y dulliau, y cyfranogwyr a sut yr aethpwyd ati i wneud y gwaith maes.

Pennod 3: **METHODOLEG**

3.1. CEFNDIR

A

r sail y drafodaeth ddamcaniaethol ym Mhennod 1 ar amlddiwylliannedd ac iaith a Phennod 2 ar ddinasyddiaeth ac iaith, lluniwyd cyfres o gwestiynau ymchwil;

Cwestiynau Ymchwil

1. Wrth ystyried swyddogaeth iaith mewn modelau ar reoli amrywiaeth, i ba raddau y mae'n bosibl teilwra'r model amlddiwylliannol neu ryngddiwylliannol i sefyllfa Cymru a'r Gymraeg?
2. I ba raddau y mae model MAI (modèle d'acculturation interactif) a'r *trajectoire langagière* yn addas ar gyfer mesur ymagweddau ac ymatebion mewnfudwyr tuag at ddysgu Cymraeg?
3. I ba raddau y mae dysgu Cymraeg i fewnfudwyr yn hwyluso cydlyniant cymdeithasol?
4. I ba raddau y byddai addasiadau ar bolisiau iaith a chydlyniant cymdeithasol yn cryfhau dinasyddiaeth gynhwysol yng Nghymru?

Cyn dewis a dethol y dulliau ar gyfer y gwaith maes, nodir ffactorau allweddol er mwyn sicrhau gwaith maes ystyrllon yn ogystal â data a chanlyniadau sydd yn briodol i'r cwestiynau ymchwil. Ystyriwyd bod angen:

- i) cynyddu dealltwriaeth o sefyllfa is-wladwriaethol arall lle mae mewnfudwyr yn dysgu'r iaith genedlaethol 'arall'.
- ii) ymchwilio i ymagweddau iaith ac integreiddio ar y lefel *facro, meso* a *meicro*.

- iii) archwilio ymatebion mewnfudwyr i ddysgu'r Gymraeg.
- iv) portreadu sefyllfa ieithyddol amrywiol Cymru.

Er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau hyn, penderfynwyd ar y canlynol:

- i) ymchwilio i sefyllfa dysgu'r Ffrangeg i fewnfudwyr yn Québec yng nghanolfannau dysgu Ffrangeg i Oedolion ym Montréal.
- ii) cymhwyso model MAI i'r cyd-destun dysgu Cymraeg fel ail iaith i oedolion yng Nghymru.
- iii) defnyddio'r *trajectoire langagière* er mwyn asesu ymatebion mewnfudwyr i ddysgu'r Gymraeg.
- iv) cynnal gwaith maes yng Ngwynedd a Chaerdydd (yn dilyn ymchwil yn Québec).

3.1.1. Dewis Québec

Penderfynwyd bod natur gymdeithasegol yr ymchwil yn golygu y byddai angen mynd y tu hwnt i astudiaeth o ddogfennau a data eilaidd yn unig. Roedd yn bwysig llunio gwaith maes yn y Gwyddorau Cymdeithasol trwy ddefnyddio dulliau uniongyrchol fel y sonnir amdanynt yn Adran 3.2. Ymhellach, yn sgil ysgoloriaeth a gynigwyd gan yr *Association internationale des études québécoises* a'r *Conseil supérieur de la langue française* yn Québec, cafwyd y cyfle i wneud ymchwil ar fewnfudwyr yn dysgu'r Ffrangeg fel ail iaith mewn canolfannau *francisation* ym Montréal. Gweler Pennod 4 am fwy o wybodaeth. Rhoddodd hyn arweiniad i'r gwaith maes yng Nghymru (gweler Pennod 5:).

Mae nifer o brosiectau sosioieithyddol eisoes wedi cymharu sefyllfa ieithyddol y Gymraeg ag ieithoedd di-wladwriaeth eraill e.e. y Ffrangeg yn Québec, y Fasgeg yng Ngwlad y Basg, y Gatalaneg yng Nghatalwnia. Ceir enghreifftiau adnabyddus megis yr ymchwil a wnaed gan Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

gan yr Athro Colin Williams, yr Athro Mac Giolla Chríost ac eraill (Mac Giolla Chríost *et al.* 2016; C.H. Williams 2013). Er gwaethaf gwahaniaethau amlwg rhwng is-wladwriaethau democrataidd, nid oes amheuaeth nad yw ymchwil academaidd wedi cyfoethogi ein dealltwriaeth o'r heriau a'r posibiladau sydd o adfer, cynllunio a rheoleiddio iaith leiafrifol. Mae ymateb y lleiafrifoedd cenedlaethol i'r oes globaleiddio a'r heriau sydd i gynnal eu hieithoedd felly yn fater o bwys i'r ymchwil. Mae Québec, i raddau helaeth, yn sefyllfa ar wahân i'r is-wladwriaethau eraill. Er bod y Ffrangeg yn Québec yn iaith leiafrifol oddi mewn i Ganada ac yng Ngogledd America, iaith fwyafrifol ydyw yn Québec. Yn ogystal â hyn, mae gan siaradwyr y Ffrangeg fwy o hawliau ieithyddol na siaradwyr y Gymraeg yng Nghymru neu ieithoedd eraill megis y Fasgeg yng Ngwlad y Basg a'r Gatalaneg yng Nghatalwnia. Gwelir cymariaethau rhwng Québec a Chymru yn Ffigur 2.

FFIGUR 2—CYMHARIAETH RHWNG SEFYLLFA SOSIOIEITHYDDOL QUÉBEC A CHYMRU

THEMÂU	QUÉBEC	CYMRU
Modelau ar Gymhwyso Amrywiaeth	Amlddiwylliannedd Canada vs Rhyngddiwylliannedd Québec	Amlddiwylliannedd Prydeinig vs. Amlddiwylliannedd Cymru
Pwerau dros Fewnfudo	Pwerau rhannol dros fewnfudo	Dim pŵer dros fewnfudo (pŵer llawn gan y DU)
Llywodraethiant	Gouvernement du Québec a Llywodraeth Ffederal Canada	Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG
Demograffeg iaith	Ffrangeg yw iaith fwyafrifol Québec 79.7% o siaradwyr Ffrangeg yn Québec (StatCan 2015), 48.5% â Ffrangeg fel mamiaith ar ynys Montreal (Corbeil a Houle 2014)—Lleiafrif ieithyddol o fewn Canada a Gogledd America	Saesneg yw iaith fwyafrifol Cymru 19% ar draws Cymru (cwmp o 1.8% ers 2001) 11% Caerdydd, 65.4% yng Ngwynedd (Comisiynydd y Gymraeg 2012)—Lleiafrif ieithyddol o fewn Cymru a'r DG.
Cymunedau Croeso	Cystadleuaeth ieithyddol rhwng y cymunedau Saesneg a Ffrangeg eu hiaith sydd yn croesawu newydd-ddyfodiaid	Cystadleuaeth ieithyddol rhwng y cymunedau Saesneg a Chymraeg eu hiaith sydd yn croesawu newydd-ddyfodiaid.
Deddfau iaith	Mesurau iaith e.e. <i>Loi 101</i> yn 1977—Ffrangeg: unig iaith swyddogol Québec	Mesurau iaith e.e. Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Llywodraeth Cymru 2011)—ieithoedd swyddogol: Saesneg a Chymraeg (statws swyddogol i'r Gymraeg yn unig)
Darpariaeth Addysg	Cyrsiau Ffrangeg wedi'u hariannu	Cyrsiau ESOL wedi'u hariannu

laith i Oedolion	gan <i>Immigration Québec</i> hyd at bum mlynedd ar ôl eu dyfodiad—cyrsiau wedi’u hariannu gan <i>Emploi Québec</i> . Mewnfudwyr o’r tu allan i Ganada yn dysgu Ffrangeg ar gyrsiau <i>francisation</i> (a Saesneg)	gan Lywodraeth y DG a Llywodraeth Cymru—Ffioedd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrsiau Cymraeg i Oedolion (ffioedd i bawb heblaw am 50% o ostyngiad i fudd-daliadwyr) Mewnfudwyr o’r tu allan i’r DG yn dysgu Saesneg am ddim trwy ESOL
Darpariaeth Addysg Statudol	Ysgolion cyfrwng Ffrangeg a Saesneg—gorfodaeth ar blant mewnfudwyr i fynychu ysgolion cyfrwng Ffrangeg yn dilyn <i>Loi 101</i> (heblaw am fewnfudwyr angloffon y tu mewn i Ganada)	Ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg—dewis gan fewnfudwyr rhwng y ddwy system.
Polisiau Integreiddio	Strategaeth ar gydlyniant cymdeithasol e.e. <i>Le français, langue de la cohésion sociale</i> (Conseil supérieur de la langue française 2008)	Strategaeth ar gydlyniant cymdeithasol (fe’i gelwir yn gydlyniant cymunedol) e.e. Cymru’n Cyd-Dynnu. Strategaeth Cydlyniant Cymunedol, Llywodraeth Cymru, 2008)

Er gwaethaf gwahaniaethau rhwng Québec a Chymru, dadleuir mai sefyllfa wahaniaethol y ddwy sydd yn peri i’r ymchwil fod yn ystyrllon drwy bwysu a mesur y nodweddion y gellir neu na ellir eu haddasu a’u trosglwyddo i gyd-destun y Gymraeg yng Nghymru. Ymhellach, dewiswyd cynnal ymchwil ar Québec ar sail y ffaith bod ymchwil cyfoethog ar integreiddio mewnfudwyr yno yn barod sydd yn berthnasol i’r gwaith ymchwil arfaethedig ar y Gymraeg yng Nghymru. Roedd Québec o ddiddordeb arbennig gan fod ganddi raglen gynhwysfawr i ddysgu Ffrangeg i fewnfudwyr (*programme de francisation*) drwy *Immigration Québec* a’r *Commission Scolaire de Montreal* (CSDM). Yn ogystal â hyn, ceir cyswllt damcaniaethol amlwg â Québec yn sgil damcaniaethau’r ymchwil ar amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd sydd wedi’u holrhain i gyd-destun Canada a Québec. Ymhellach, defnyddir hefyd fodelau methodolegol (*modele d’acculturation interactif a’r trajectoire langagière*) sydd yn hanu o Québec a drafodir nesaf yn Adran 3.1.2 ac Adran 3.1.3.


3.1.2. Model MAI

Wrth ymchwilio i bolisiau integreiddio is-wladwriaethau democrataidd, daethpwyd o hyd i fframwaith methodolegol o'r enw MAI (*modele d'acculturation interactif*). Wrth fynd ati i lunio'r gwaith maes, un o'r amcanion oedd cynllunio gwaith maes a oedd yn cydweddu â'r fframwaith hwn. Nodwyd ym Mhennod 2 bod y model hwn wedi'i seilio'n wreiddiol ar dulliau meintiol e.e. holiaduron (Bourhis *et al.* 2008). Ar y naill law, mae data meintiol yn galluogi canlyniadau clir a phendant ond ar y llaw arall, gall data meintiol beri golwg statig ar y canlyniadau (Bryman 2012, t. 179). Dywed Blumer (1965, t. 685) fod data meintiol yn hepgor elfennau sylfaenol megis y broses o ddehongli a diffinio newidiadau sydd yn dylanwadu ar bobl. Yn sgil y gwaith maes yn Québec, penderfynwyd y byddai canlyniadau meintiol yn unig yn cyfyngu ar brosiect sydd yn ymdrin ag ymagweddau at ddysgu iaith dros amser. Er bod dulliau meintiol model MAI yn addas ar gyfer ymchwilio ymagweddau statig, nid yw mor addas ar gyfer arsylwi newidiadau mewn ymagweddau o ganlyniad i ddysgu iaith newydd. Daethpwyd i'r casgliad ar ôl trafodaethau gyda'r Athro Michel Pagé y byddai'n well mabwysiadu dulliau ansoddol ar gyfer gwaith maes sydd yn ymdrin â'r maes dysgu iaith. Penderfynwyd felly ar ddefnyddio fframwaith model MAI er mwyn categorio'r grwpiau gwahanol megis y Llywodraeth, y gymuned groeso a'r mewnfudwyr. Yn hyn o beth, byddai modd ymchwilio i berthnasedd y model wrth ddefnyddio dulliau ansoddol a'r graddau y mae fframwaith a chategoriau'r model hwn yn ddefnyddiol ac yn ddilys wrth fesur ymagweddau tiwtoriaid a mewnfudwyr tuag at gyrsiau Cymraeg i fewnfudwyr. Drwy ddefnyddio data ansoddol yn unig, galluogir ymchwil mwy arbrofol sydd yn ystyried y datblygiadau a'r dylanwadau gwahanol sydd yn effeithio ar unigolion.

Serch hynny, ystyriwyd gwerth y model MAI er mwyn nodweddu'r gydberthynas rhwng y grwpiau ymchwil dan sylw. Esboniwyd eisoes bod y model MAI yn mesur natur dwy-ffordd y broses integreiddio. Yn hyn o beth, mesurir gogwyddau integreiddio o ben y gymdeithas i lawr ac yn arbennig y cydadwaith rhwng ymagweddau mewnfudwyr, y gymdeithas groeso a pholisïau gwladwriaethol. Penderfynwyd felly y byddai'n ddefnyddiol addasu'r model MAI er mwyn mesur data ansoddol ar ymatebion mewnfudwyr at ddysgu Cymraeg ac ymagweddau tiwtoriaid a pholisïau at fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg.

Atgynhychir isod y fframwaith MAI (Bourhis 2015) sydd yn darlunio'r prosesau a'r cysylltiadau rhwng ymagweddau integreiddio. Mae'r strwythur hwn yn portreadu natur amlhaenog integreiddio ac yn awgrymu bod y berthynas rhwng y Llywodraeth, y gymuned groeso a'r mewnfudwyr yn medru bod yn gytûn (*harmonieuses*), yn broblematig neu'n wrthdrawiadol (*conflictuelles*). Y canlyniad hwn sydd o ddiddordeb pennaf i'r ymchwil cyfredol er mwyn dod o hyd i ganfyddiadau a fyddai'n adlewyrchu consensws neu anghytgord rhwng polisïau Llywodraeth Cymru ac ymagweddau'r cymunedau Cymraeg a Saesneg eu hiaith a'r mewnfudwyr.

FFIGUR 3—MODÈLE D'ACCULTURATION INTERACTIF (MAI)




3.1.3. Trajectoire Langagière

Yn sgil gwaith maes yn Québec, daethpwyd o hyd i fodel methodolegol arall o'r enw *trajectoire langagière*. Dull ansoddol ydyw sydd yn mesur y newidiadau a datblygiadau integreiddiol trwy ddysgu ail iaith. Mae'r fframwaith hwn wedi'i seilio ar y *biographie langagière* gan Gyngor Ewrop (2011). Addaswyd ef ymhellach gan yr Athro Michèle Vatz Larroussi a Michela Claudie Ralalâtiana o Brifysgol Sherbrooke, Québec, ar gyfer mewnfudwyr ar gyrsiau *francisation* yn Québec (Alen and Manço 2012). Mae'r fframwaith hwn yn awgrymu bod y broses o ddysgu ail iaith gan oedolion yn '[...] broses o drawsnewid, ail-ddehongli cysyniadau a dealltwriaeth o'i realiti a'i swyddogaeth yn y byd' (Moldoveanu 2007, t. 120).¹⁵ Fel hyn, honna Ralalâtiana *et al.* (2012) fod y *trajectoire* yn caniatáu inni ddeall cymhelliant yr unigolyn, ei berthynas neu ei pherthynas â'r iaith, ymagweddau at bobl eraill yn ogystal â deall natur drawsnewidiol ac ail-adeiladol sydd i ddysgu iaith—yr hyn a elwir yn 'adluniad hunaniaeth' neu *(re)construction identitaire* (t. 23). Yn hyn o beth, mae'n debyg i'r syniad o'r enw *mudes* a ddatblygwyd ym maes

¹⁵ '[...] processus de transformation, de redéfinition de ses conceptions et de sa compréhension de la réalité ainsi que de son propre rôle dans le monde.'

sosioeithyddol y Gatalaneg (Pujolar a Puigdevall 2015). Mae'r *trajectoire langagière* a'r *muda* neu *mudes* yn ystyried cefndir y mewnfudwyr a'r ffactorau cymdeithasol sydd yn dylanwadu ar 'daith iaith' y mewnfudwr. Nid yw'n ystyried dysgu iaith fel proses statig neu haniaethol ond fel proses lle mae unigolyn yn creu *persona* cymdeithasol (Pujolar a Puigdevall 2015). Mae'r *mudes* yn ffocysu ar *triggers* penodol sydd yn achosi newidiadau mewn ideoleg a defnydd iaith tra bo y *trajectoire* yn canolbwyntio ar ddatblygiad y daith addysgol a chymdeithasol neu'r hyn a elwir y *socialisation langagière*. Mae model fel hwn felly'n herio dicotomi traddodiadol rhwng cymhelliant integreiddiol ac offerynnol er mwyn esgor ar ddehongliadau newydd ôl-strwythurol yn y maes sosioeithyddol (O'Rourke & Pujolar 2015). Gwelir isod fframwaith y *trajectoire langagière* fel y'i diffinnir gan Vatz-Larroussi a Ralalâtiana (2012).

FFIGUR 4—TRAJECTOIRE LANGAGIÈRE



Er bod y *trajectoire langagière* yn ystyried ffactorau sydd yn dylanwadu ar y mewnfudwyr (e.e. dylanwadau polisiau gwladwriaethol a rôl y tiwtoriaid), nid yw'n bosib defnyddio'r *trajectoire* er mwyn asesu ymagweddau tiwtoriaid a'r Llywodraeth tuag at fewnfudwyr yn

dysgu Cymraeg fel y model MAI. Penderfynwyd felly y byddai'n fuddiol gwneud defnydd o'r ddau fframwaith methodolegol (MAI a'r *trajectoire langagière*) er budd yr ymchwil. Byddai fframwaith methodolegol MAI yn gwireddu amcan ii) sef mesur ymagweddau integreiddio ar lefel *macro* a byddai'r *trajectoire langagière* yn gwireddu amcan iii) sef mesur ymatebion mewnfudwyr i ddysgu iaith a'r ffactorau personol a chymdeithasol sydd yn hwyluso neu rwystro taith iaith y mewnfudwr.

3.2. DULLIAU YMCHWIL

Gan fod natur yr ymchwil yn croesi meysydd ymchwil amrywiol megis addysg oedolion, polisi iaith ac astudiaethau ethnig, archwiliwyd dulliau ymchwil ym maes y Gwyddorau Cymdeithasol. Noda Bryman (2012) y byddai triongli data yn cynyddu dilysrwydd y canlyniadau sydd yn esgor ar ddata craff a chynhwysfawr. Yn dilyn natur ansoddol y dulliau ymchwil a fabwysiadwyd yn Québec, dewiswyd dulliau ansoddol hefyd ar gyfer casglu data yng Nghymru. Defnyddiwyd cysylltiadau proffesiynol ym maes dysgu Cymraeg i Oedolion ynghyd â chysylltiadau ESOL, a phenderfynwyd y byddai'n bosibl cynnal gwaith maes llwyddiannus drwy gynnal cyfres o arsylwadau cyfranogol mewn dosbarthiadau iaith i oedolion. Ar ben hynny, cafwyd cyfle i arwain y dosbarthiadau iaith i fewnfudwyr a'u cynnwys fel elfen o ymchwil weithredu (action research) a oedd yn ychwanegol at yr arsylwi cyfranogol.

3.2.1. Arsylwi Cyfranogol gydag Elfen o Ymchwil Weithredu

Mae arsylwi cyfranogol yn ddull ethnograffig o gasglu data ac yn ddibynol ar yr ymchwilydd yn cymryd rhan uniongyrchol yn yr ymchwil er mwyn casglu'r data angenrheidiol (Byrman 2012, t. 432). Fel hyn, roedd yn bwysig ystyried moeseg ymchwil drwy sicrhau caniatâd swyddogol i arweinyddion y cyrsiau a'r myfyrwyr am eu cyfranogaeth. Fel hyn, roedd y cyfranogwyr yn ymwybodol o'm swyddogaeth fel tiwtor iaith yn ogystal ag ymchwilydd. Yn wahanol i ddulliau eraill, mae arsylwi cyfranogol yn

ffordd o fesur ymddygiad unigolion yn eu cynefinoedd ac yn cymharu'r hyn y maent yn ei ddweud ar lafar mewn cyfweliad neu mewn grŵp ffocws.

Yn yr achos hwn, defnyddir yr ystafelloedd dosbarth ESOL a CiO a'r canolfannau *francisation* fel meysydd ethnograffig—fe'u disgrifir fel y lefel *meso*. Roedd y tiwtoriaid a'r myfyrwyr yn ymwybodol o'm rôl fel ymchwilydd a thema'r astudiaeth ymchwil. Ym mhob un o'r arsylwadau, bŵm yn cyfrannu yn y dosbarth ac roedd hyn yn amrywio o sbardun syml am y Gymraeg yn y dosbarthiadau ESOL hyd at arwain dosbarth Cymraeg o fewnfudwyr am ddwy awr gyfan. Yn yr achos hwn, diffinnir yr agwedd hon ar yr ymchwil fel ymchwil weithredu. Nodir mai 'cyfeiriad' penodol i'r arsylwadau cyfranogol oedd hyn yn hytrach na dull methodolegol. Nid bwriad ymchwil weithredu yw ymchwilio 'eraill' ond ymchwilio 'gydag eraill', yn galluogi felly imi roi'r cwestiynau ymchwil ar waith.

Action research is a participatory process concerned with developing practical knowing in the pursuit of worthwhile human purposes. It seeks to bring together action and reflection, theory and practice, in participation with others, in the pursuit of practical solutions to issues of pressing concern to people, and more generally the flourishing of individual persons and their communities (Reason a Bradbury 2013, t. 4).

Bu rhaid pwysu a mesur manteision ac anfanteision arwain gwaith maes o'r math hwn wrth ystyried yr anghenraid i gynhyrchu data o'r safon uchaf. Yn hytrach nag ystyried y testun ymchwil yn nhermau gwrthrychedd neu oddrychedd, mae ymchwil weithredu yn canolbwyntio ar ymholi ac arbrofi gydag eraill sydd yn seiliedig ar brofiadau yn y gymdeithas yn hytrach na safbwyntiau trwy lens yr ymchwilydd yn unig. Yn hyn o beth, dywed Reason a Bradbury (2013) fod ymchwil weithredu yn seiliedig ar gyfranogwyr. Mae'r dull felly yn symud i ffwrdd o ddulliau traddodiadol ac yn ystyried bod dealltwriaeth well o'r byd o ganlyniad i adeiladu cysylltiadau yn hytrach na haeru safbwyntiau ynysig. Roeddwn felly yn seilio'r ymchwil weithredu ar drafodaeth agored ymysg y cyfranogwyr, tiwtoriaid a myfyrwyr ynghyd. I raddau helaeth felly, cafodd cynnwys y sesiynau ei benderfynu o ganlyniad i drafodaeth gyda'r myfyrwyr. Y myfyrwyr er enghraifft oedd yn

gyrru'r syniad i gynnwys mwy o eitemau diwylliannol fel rhan o'r cwrs . Gyda datblygiad y deunydd diwylliannol i'r cwrs, enwyd y cwrs yn 'ddosbarth dinasyddiaeth'. Ymhelaethir ar hyn yn Adran 5.3. Caniatawyd imi drafod ymateb myfyrwyr i wersi Cymraeg o gymharu â'r dosbarthiadau ESOL a dod i gasgliadau ymarferol ar ddysgu Cymraeg i fewnfudwyr o dramor. Y bwriad oedd casglu canlyniadau ymarferol yn ogystal â chanlyniadau damcaniaethol. Gweler amcanion y cyfnodau dysgu:

- Darganfod ymateb y myfyrwyr i wersi Cymraeg
- Darganfod ymagweddau myfyrwyr a staff at y Gymraeg a'r graddau y mae ymagweddau yn newid yn sgil y gwersi
- Darganfod sut, pryd ac â phwy y maent yn defnyddio'r Gymraeg
- Darganfod sut y maent yn ymateb i'r deunydd dysgu (o gymharu â deunydd cyrsiau ESOL)
- Asesu sut mae dulliau dysgu Cymraeg yn effeithio ar allu a diddordeb y myfyrwyr

Serch hynny, fel tiwtor iaith, roeddwn yn meddu ar hunaniaeth benodol. Bûm yn ymwybodol o'm rôl ganolog yn y broses dysgu iaith a'm dylanwad ar ymatebion y myfyrwyr i'r gwersi iaith. Symbylydd a gweithredydd oeddwn felly yn hytrach nag arsylwr o bell. Yn hyn o beth, bûm yn gyfrifol am gyflwyno a dewis deunydd dysgu addas iddynt yn cynnwys y themâu isod. Y bwriad oedd arbrofi â dulliau addysgu 'trochi' drwy ddefnyddio Cymraeg fel unig gyfrwng y dosbarth. Amcan arall oedd cynnwys dimensiwn diwylliannol gydag elfennau 'integreiddio' i Gymru a thrwy 'r Gymraeg. Dyma oedd nodau'r cwrs:

- Cyflwyniad i'r Gymraeg a chyd-destun hanes a bywyd Cymru.
- Cyfarchion a brawddegau craidd yn y Gymraeg
- Adeiladu gallu i gynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg
- Dysgu am ddiwylliant Cymraeg cyfoes
- Trefnu gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg.

Er mwyn cyfiawnhau fy rôl yn y dysgu, trafodwyd cynlluniau'r gwersi gyda thiwtoriadaid Cymraeg i Oedolion ac ESOL. Dilynwyd cynllun gwerthuso strwythuredig lle nodwyd

sylwadau ar sail y themâu ymchwil. Roedd hyn yn golygu llenwi ffurflen werthuso ar ddiwedd pob arsylwad cyfranogol ac ymchwil weithredu a gwneud nodiadau adfyfyriol rai oriau ar ôl pob dosbarth. Fel hyn, caniatwyd imi bellhau oddi wrth y sefyllfa yn ddaearyddol ac yn emosiynol. Cofnodwyd hefyd sgysiau unigol cyn ac ar ôl y gwersi.

Lluniwyd hefyd restr o themâu ymchwil a ddefnyddiwyd er mwyn rhoi cyfeiriad i'r arsylwadau cyfranogol ac ymchwil weithredu;

FFIGUR 5—THEMÂU YMCHWIL

Themâu Ymchwil
AMLDDIWYLLIANNEDD
RHYNGDDIWYLLIANNEDD
AMLIEITHRWYDD
GWERTH ECONOMAIDD
GWERTH CYMDEITHASOL
YMDEIMLAD O BERTHYN
DINASYDDIAETH
PERCHNOGAETH
CYDLYNIANT CYMUNEDOL

Cynhwysir ffurflenni adfyfyriol yr arsylwadau cyfranogol a'r ymchwil weithredu yn Atodiad 2: Ffurflen Gwerthuso Dysgu.

Cynhaliwyd y cyfnodau o ymchwil weithredu o Fawrth 2014 hyd at Orffennaf 2014 gyda grwpiau ESOL yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn ogystal â grŵp ESOL i'r teulu yn Ysgol Gynradd Severn Road yn Nhreganna. Cynhaliwyd yr arsylwadau cyfranogol mewn dosbarthiadau ESOL ychwanegol yng Nghanolfan Tŷ'r Brodyr, Caerdydd yn ogystal â Chanolfan Coleg Menai, Bangor. Gwnaethpwyd 13 arsylwad i gyd, 7 ohonynt yn gyfnodau o ymchwil weithredu ac arsylwi cyfranogol a 6 ohonynt yn arsylwadau cyfranogol.

FFIGUR 6—ARSYLWADAU CYFRANOGOL AC YMCHWIL WEITHREDU

Dyddiad	Lleoliad	Math
25.3.14	Cwrs i Fewnfudwyr, Coleg Caerdydd a'r Fro	Ymchwil weithredu
25.3.14	ESOL families learning together, Ysgol Gynradd Severn Road	Arsylwi Cyfranogol
26.3.14	ESOL families learning together, Ysgol Gynradd Severn Road	Arsylwi Cyfranogol
2.4.14	ESOL families learning together, Ysgol Gynradd Severn Road	Arsylwi Cyfranogol
2.4.14	ESOL, Canolfan Tŷ'r Brodyr	Arsylwi Cyfranogol
28.4.14	Coleg Caerdydd a'r Fro	Ymchwil weithredu
8.5.14	Coleg Menai, ESOL Bangor	Arsylwi Cyfranogol
13.5.14	Cwrs i Fewnfudwyr, CiO y Gogledd	Arsylwi Cyfranogol
14.5.14	Cwrs i Fewnfudwyr, CiO Caerdydd	Ymchwil Weithredu
21.5.14	Cwrs i Fewnfudwyr, CiO Caerdydd	Ymchwil Weithredu
3.6.14	Cwrs i Fewnfudwyr, CiO Caerdydd	Ymchwil Weithredu
10.6.14	Cwrs i Fewnfudwyr, Coleg Caerdydd a'r Fro	Ymchwil Weithredu

7.7.14	Cwrs i Fewnfudwyr, CiO Caerdydd	Ymchwil Weithredu
--------	------------------------------------	-------------------

Yn sgil yr arsylwadau cyfranogol ac ymchwil weithredu, aethpwyd ati i gynnal grwpiau ffocws gyda thiwtoriaid ESOL a CiO yn ogystal â chyfweliadau lled-strwythuredig â myfyrwyr a thiwtoriaid ESOL a CiO. Ystyriwyd ei bod yn synhwyrol cyfweld â chyfranogwyr yr arsylwadau dosbarth a'r ymchwil weithredu yn ogystal â dewis tiwtoriaid iaith a oedd eisoes wedi bod yn rhan o'r 'dosbarth dinasyddiaeth'. Roedd hyn yn bwysig imi bwyso a mesur ymagweddau ac ymddygiad yn y gwahanol gyd-destunau. Roedd y dull hwn yn fuddiol wrth fesur ymarferion y tiwtoriaid yn yr ystafell ddosbarth yn erbyn eu sylwadau yn y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws.


3.2.2. Grwpiau Ffocws

Disgrifia Kamberelis & Dimitriadis (2005) grwpiau ffocws fel 'collective conversations'. Mewn geiriau eraill, sgysiau anffurfiol a thorfol ydynt. Prif bwrpas grŵp ffocws yw disgrifio a deall syniadau a dehongliadau grŵp o bobl wedi'u dethol er mwyn ennyn dealltwriaeth am bwnc penodol. Mae grwpiau ffocws yn caniatáu'r cyfranogwyr i weithredu yn hytrach na'r ymchwilydd *per se* (Reason & Bradbury 2013, t. 4). Mae grwpiau ffocws felly yn ddull defnyddiol er mwyn archwilio safbwyntiau grŵp. Yn hyn o beth, dewiswyd tiwtoriaid iaith fel y cyfranogwyr. Mae tiwtoriaid iaith yn sefyll yng nghanol y broses dysgu iaith ac felly maent mewn safle i fynegi barn ar brofiadau myfyrwyr yn ogystal â phrofiadau ehangach sydd yn gysylltiedig â chwricwlwm, y gymuned a pholisïau iaith.

Dilynwyd argymhellion Krueger (1988; 2002) wrth lunio grŵp ffocws megis dethol y grwpiau o bobl â diddordebau tebyg, defnydd o gwestiynau penagored, recordiadau o ansawdd a chofnodi nodiadau ychwanegol. Cynhaliwyd dau grŵp ffocws gyda thiwtoriaid

ESOL a CiO, un yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion, Caerdydd a'r llall yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion y Gogledd, ym Mangor. Lluniwyd cyfres o 7 cwestiwn cymharol eang ar gyfer y ddau grŵp yn unol â'r themâu ymchwil. Gwelir y cwestiynau a gyflwynwyd i grŵp ffocws Bangor ar ffurf sleidiau PowerPoint yn Ffigur 7:

FFIGUR 7—CWESTIYNAU'R GRWPIAU FFOCWS



Bu rhai anawsterau wrth lunio'r grwpiau ffocws gan gynnwys darganfod amser a lleoliad cyfleus i bawb. Hefyd, bu rhaid i unigolion dynnu allan o'r grŵp ffocws yng Nghaerdydd heb lawer iawn o rybudd. Roedd hyn wedi effeithio ar gydbwysedd y tiwtoriaid ESOL a CiO yn y grŵp. Am y rheswm hwn, trefnwyd grŵp ffocws yng Nghaerdydd gyda chytbwysedd da o diwtoriaid ESOL a CiO. Gweler Ffigur 8 am wybodaeth ynghylch yr unigolion a fynychodd y grwpiau ffocws.

FFIGUR 8—CYFRANOGWYR Y GRWPIAU FFOCWS

Grŵp Ffocws Caerdydd	Grŵp Ffocws Bangor
Tiwtor (CiO)	Swyddog (CiO)
Tiwtor (CiO)	Swyddog (CiO)
Tiwtor (ESOL)	Tiwtor (CiO)

Tiwtor (ESOL)	Tiwtor (ESOL)
Tiwtor (ESOL)	Tiwtor (ESOL)

Er gwaethaf natur unigryw'r grwpiau ffocws, mae grwpiau ffocws yn gallu arwain at ddisgwyliadau neu safbwyntiau swyddogol ar ran y grŵp. Gwelwyd pwysigrwydd mesur hyn yn erbyn cyfweiliadau unigol felly.

3.2.3. Cyfweiliadau Lled-strwythuredig

Mae'n bosibl cynnal cyfweiliadau sydd yn amrywio o fod yn ffurfiol iawn i gyfweiliadau di-strwythur (Bryman 2012). Defnyddiwyd dull o gyfweiliadau lled-strwythuredig: roedd hyn yn golygu llunio cwestiynau clir o flaen llaw ac yn caniatáu rhyddid i newid cyfeiriad y cwestiynau lle bo angen. Pwysleisiwyd cyfeiriad 'bywgraffiadol' y cyfweiliadau, yn arbennig gyda'r mewnfudwyr. Y rheswm dros hyn oedd er mwyn i'r cyfranogwyr adfyfrio ar eu cefndiroedd gwreiddiol, yn arbennig eu profiadau o ran ymfudo i Gymru. Ar y cyd â'r tiwtoriaid, ymglyfarwyddwyd â chefnidiroedd y tiwtoriaid er mwyn annog iddynt fesur eu hymagweddau hwy yng nghyd-destun eu profiadau. Fel hyn, cyfweiliadau oedd dull mwyaf cynhwysfawr y gwaith maes. Cynhaliwyd 40 cyfweiliad a nodwyd manylion yr unigolion, y categori y maent yn ei gynrychioli ynghyd â fframwaith y cwestiynau yn Atodiad 1: Tabl Cyfweiliadau.

Er gwaethaf hyblygrwydd y dull hwn, lluniwyd cwestiynau cyfeiriol ond heb fod yn rhy benodol nag yn uniongyrchol ar sail y fethodoleg ansoddol. Y nod oedd caniatáu i'r unigolion ehangu ar eu sylwadau. Hefyd, gwelwyd bod anawsterau cyfweld ag ambell unigolyn o fewn y grwpiau o fyfyrwyr oherwydd safonau amrywiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn arbennig yr unigolion a gymerodd ran yn yr ymchwil weithredu. Ar rai adegau, roedd yn bosibl imi gyfweld mewn iaith arall (Ffrangeg ac Almaeneg) ond mewn amgylchiadau eraill, bu'n rhaid gofalu gyda geiriad y cwestiynau drwy ddefnyddio iaith syml ac eglur er mwyn sicrhau bod y cyfranogwyr yn deall. Teimlwyd bod diffyg rhuglder

rhai o'r myfyrwyr wedi llesteirio llwyddiant y cyfweiliadau hyn. Gydag ôl-ddoethineb, argymhellir dethol yr unigolion yn fwy gofalus o ran eu gallu ieithyddol neu ganiatáu i'r cyfranogwyr ddefnyddio eu mamiaith drwy sicrhau cyfieithiad o'r cyfweiliad. Serch yr anawsterau hyn, roedd ewylllys yr unigolion hyn i ddysgu Cymraeg heb ruglder yn y Saesneg yn gyfraniad gwerthfawr i'r ymchwil. Trawsysgrifwyd pob cyfweiliad gan ddefnyddio meddalwedd *Transcribe Wreally*.

3.3. QUEBEC

3.3.1. Cyd-destun y Gwaith Maes yn Québec

Tra bo 194 mil o fewnfudwyr ar gyfartaledd wedi ymsefydlu yn Québec ers 2001, noda Corbeil a Houle (2013) fod 75% ohonynt heb Ffrangeg na Saesneg fel mamiaith a thri chwarter ohonynt yn byw ar ynys Montréal (t. 9). Mae'r cystadlu ieithyddol rhwng Ffrangeg a Saesneg ac ieithoedd eraill yn realiti dyddiol felly. Mae'r naill gymuned groeso, Saesneg a Ffrangeg, yn cystadlu am integreiddio mewnfudwyr i'w cymuned ieithyddol hwy (Bourhis *et al.* 2012). Serch hynny, yn y 60au, roedd y mwyafrif o fewnfudwyr yn dysgu Saesneg ac yn anfon eu plant i ysgolion Saesneg. Deddf 101 a gyflwynodd y Ffrangeg fel unig iaith swyddogol Québec a arweiniodd at wyrddroi'r sefyllfa. Datgelodd canlyniadau Cyfrifiad diwethaf Canada yn 2011 fod 48.5% o boblogaeth ynys Montréal â Ffrangeg fel mamiaith, 18% â Saesneg fel mamiaith a 34.5% â mamiaith arall nad yw'n iaith swyddogol (Corbeil a Houle 2013). Trafodir sefyllfa ieithyddol bresennol Québec ymhellach yn Adran 4.2.

Hyrwyddir y Ffrangeg heddiw fel *langue commune* Québec—iaith gyffredin Québec. Datgana polisiâu Llywodraeth Québec bwysigrwydd hanfodol yr iaith yn y broses integreiddio i'r dalaith. Gwelwyd yn y penodau blaenorol fod rhyngddiwylliannedd yn rhoi blaenoriaeth i'r Ffrangeg er budd cytgordd a chyfiawnder cymdeithasol. Ar lefel polisi

Québec, mae Llywodraeth Québec a sefydliadau ieithyddol megis y *Conseil supérieur de la langue française* yn blaenoriaethu cydlyniant cymdeithasol a safle'r Ffrangeg ynddo.

3.3.2. Methodoleg y Gwaith Maes

Y bwriad oedd ymchwilio arfer da yn Québec ym maes dysgu Ffrangeg fel ail iaith i fewnfudwyr a'r graddau y mae hyn yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a dinasyddiaeth ryngddiwylliannol.

Er mwyn gwneud hyn, cynlluniwyd gwneud gwaith maes yn y canolfannau iaith yn Montréal o dan awdurdod y CDSM trwy gynnal arsylwadau dosbarth, cyfweiliadau a holiaduron. Yn dilyn ymgynghoriad ymchwilwyr y prifysgolion yn Québec, penderfynwyd cyfyngu rhywfaint ar y cynlluniau gwreiddiol. Ymhellach, yn unol â rhesymau a roddwyd yn 3.1.2 (megis cyfyngiadau data meintiol ar gyfer pwrpasau'r ymchwil), penderfynwyd addasu'r model MAI drwy ddefnyddio dulliau ansoddol a chanolbwyntio ar gynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig yn y canolfannau iaith. Trwy'r profiad yn Québec darganfuwyd mwy am y *trajectoire langagière* a gwelwyd posibilrwydd defnyddio cryfderau'r ddau fframwaith methodolegol wrth gynllunio'r gwaith maes yng Nghymru.

Noda Bourhis *et al.* (2012) fod ei ymchwil yn dangos rôl *facro* a *meicro* ar y broses o integreiddio mewnfudwyr yn Québec, gan gynnwys penderfyniadau a pholisïau'r Llywodraeth wladwriaethol ac is-wladwriaethol, ymagweddau'r cymunedau croeso Saesneg a Ffrangeg eu hiaith yn ogystal â'r mewnfudwyr. Yn hyn o beth, penderfynwyd cyfweld ag unigolion yn y carfannau canlynol: swyddogion y Llywodraeth sydd yn gyfrifol am Ffrangeg a pholisi ar fewnlifiad a chydlyniant cymdeithasol, tiwtoriaid iaith yn y canolfannau CDSM yn Montréal yn ogystal â myfyrwyr a oedd wedi cwblhau'r rhaglen *francisation* yn y canolfannau hyn.

3.3.3. Llunio a Chynnal y Gwaith Maes

Rhwng Hydref a Rhagfyr 2014, cyfwelwyd â 15 unigolyn drwy gyfrwng y Ffrangeg, am gyfnod o 30 munud hyd at 1 awr.

3.3.4. Llywodraeth Québec

Mae'r tabl isod yn dangos manylion y Swyddogion Llywodraethol yn Québec y cyfwelwyd â hwy.

Swyddog <i>Francisation</i> , <i>Ministère de l'immigration, la diversité et la inclusion</i> (MIDI) ¹⁶
Swyddog Ymchwil, <i>Ministère de l'immigration, la diversité et la inclusion</i> (MIDI)
Swyddog Ymchwil, <i>Ministère de l'immigration, la diversité et la inclusion</i> (MIDI)
Cyfarwyddwr y <i>Conseil supérieur de la langue française au Québec</i> (CSLF)
Ymchwilydd i'r <i>Conseil supérieur de la langue française au Québec</i> (CSLF)
CWESTIYNAU
A yw mewnfudo yn rhwystr neu yn fantais i gynnal yr iaith Ffrangeg yn Québec?
A yw'r rhaglen <i>francisation</i> yn cael ei dylanwadu gan bolisiau'r Llywodraeth ar gydlyniant cymdeithasol a dinasyddiaeth Québec?
P'un o'r dywediadau sydd yn adlewyrchu safbwynt y Llywodraeth orau; ' <i>franciser mieux, intégrer mieux</i> ' neu ' <i>intégrer mieux, franciser mieux</i> '?
I ba raddau y mae polisiau iaith Llywodraeth Québec yn medru cyfrannu at ymdeimlad o berthyn trwy'r Ffrangeg?

3.3.5. Tiwtoriaid Ffrangeg fel Ail Iaith

Mae'r tabl isod yn dangos manylion y tiwtoriaid Ffrangeg yn Québec (Comission scolaire de Montréal (CSDM)) y cyfwelwyd â hwy.

Tiwtor <i>francisation</i> , Centre Pauline Julien aux Cotes-des-Neiges
Tiwtor <i>francisation</i> x 3, Centre William-Hingston au Parc-Extension
Tiwtor <i>francisation</i> , Centre Yves-Thériault à Villeray
Tiwtor <i>francisation</i> , Centre Gédéon-Ouimet

¹⁶ Noder mai enw'r Weinyddiaeth ar adeg y gwaith maes yn 2013 oedd MICC (Ministère de l'Immigration et des Communautés Culturelles). Newidwyd yr enw yn dilyn esgor Plaid Ryddfrydol Québec i bŵer yn Ebrill 2014 dan y Gweinidog Cyntaf Phillipe Couillard.

Tiwtor *francisation*, Centre Lartigue, Les Faubourgs.

CWESTIYNAU

Beth yw rôl y tiwtor a'r ganolfan iaith er mwyn hwyluso mewnfudwyr i integreiddio'n gymdeithasol?

Ydy Ffrangeg yn hanfodol ar gyfer integreiddio'n gymdeithasol?

Beth yw cymelliannau mewnfudwyr i ddysgu Ffrangeg? Ydy'r rhain yn datblygu dros amser?

Pa rôl sydd gan y gymuned groeso i ddatblygu ymlyniad wrth y Ffrangeg?

Ydy'n bosibl i fewnfudwyr ddysgu'r iaith heb integreiddio i'r diwylliant Québécois?

3.3.6. Myfyrwyr Ffrangeg fel Ail Iaith

Mae'r tabl isod yn dangos manylion y myfyrwyr Ffrangeg yn Québec y cyfwelwyd â hwy.

Myfyriwr *francisation*—Portiwgal

Myfyriwr *francisation*—Colombia

Myfyriwr *francisation*—Colombia

Myfyriwr *francisation*—Iran

Myfyriwr *francisation*—Brasil

Myfyriwr *francisation*—y Wcráin

CWESTIYNAU

Sut rydych chi'n disgrifio eich perthynas â'r Ffrangeg yn Québec?

Ydych chi'n defnyddio'r Ffrangeg yn y gwaith ?

Ydy'r Ffrangeg yn eich helpu chi yn eich bywyd cymdeithasol?

Sut gwnaeth y cyrsiau *francisation* eich helpu chi i gael mynediad i'r diwylliant Ffrengig?

Ydych chi'n gallu uniaethu â'r geiriau 'un sentiment d'appartenance à la langue française' (ymlyniad integreiddiol i'r Ffrangeg) a 'se sentir chez soi' (teimlo'n gartrefol yn yr iaith)?

A ydy'r 'sentiment d'appartenance' yn ganlyniad i ddysgu Ffrangeg?

3.3.7. Casgliadau'r Gwaith Maes yn Québec

Cadarnhaodd y gwaith maes yn Québec bod gwahaniaethau sylfaenol rhwng sefyllfa ieithyddol a gwleidyddol Québec a Chymru. Serch hynny, roedd y gwahaniaethau rhwng y ddwy sefyllfa yn gyfle i asesu'r ffactorau y gellid eu cymharu neu eu trosglwyddo i gyd-destun Cymru. Roedd ymchwil penodol ar y canolfannau CDSM o fudd i'r ymchwil ac mae

elfennau pwysig o'r hyn a ddysgwyd yn ystod y cyfnod yn Québec yn ymddangos yn nadansoddiad y canlyniadau ym Mhennod 4.

3.4. CYMRU

3.4.1. Cyd-destun Gwaith Maes Cymru

Dangosodd canlyniadau'r Cyfrifiad yn 2011 fod mewnlifiad yn effeithio fwyfwy ar dirwedd ieithyddol Cymru. Nodir ar gychwyn y drafodaeth bod y mewnlifiad uchaf i Gymru yn digwydd o weddill y DG a'r nifer fwyafrifol ohonynt yn Saeson. Gwelir tueddiad arall yn codi sef mewnlifiad o'r tu allan i'r DG i Gymru, cynnydd o 78% rhwng 2004 a 2011 (Jones 2015). Er bod y canrannau yn gymharol isel ar raddfa genedlaethol yng Nghymru (6%— Migration Observatory 2015), rhagdybir y bydd y tueddiad yn parhau ac yn cyflymu yn y dyfodol (Jones 2011). Ystyriwyd felly ymchwilio i ddwy ardal wahanol yng Nghymru er mwyn cynnig darlun cynrychiadol o'r Gymraeg yng Nghymru, ardal Caerdydd gyda 11% o siaradwyr Cymraeg a Gwynedd gyda 65% o siaradwyr Cymraeg (Ffigyrau Cyfrifiad 2011). Gwelir mewnlifiad cynyddol yng Nghaerdydd dros y degawdau diwethaf (cynnydd o 99% o 2001 i 2011 (45,967 sef 13% o boblogaeth y brifddinas yn fewnfudwyr o'r tu allan i Brydain (Migrant Observatory 2015)). Yng Ngwynedd, ceir cyfradd uwch o fewnfudo mewnol (o'r tu mewn i'r DG) ond hefyd gynnydd yn y cyfradd mewnfudo allanol (o'r tu allan i'r DG). Canolbwyntiwyd felly yn benodol ar y Canolfannau Cymraeg i Oedolion yng Nghaerdydd a Bangor.

3.4.2. Maes Cymraeg i Oedolion


Dewiswyd y canolfannau dysgu Cymraeg i Oedolion fel prif faes ymchwil. Er nad oes darpariaeth swyddogol ar gyfer mewnfudwyr yn dysgu Cymraeg, fel a geir yn Québec, nodwyd bod Canolfan CiO Caerdydd a Bro Morgannwg wedi peilota dosbarthiadau penodol ar gyfer mewnfudwyr, a hynny yn dilyn gwaith blaenorol i'r Ganolfan CiO

Caerdydd yn datblygu ysgoloriaeth dysgu Cymraeg i fewnfudwyr (Higham 2012). Roedd yr ysgoloriaeth wreiddiol yn cynnig gwersi am ddim i fyfyrwyr o'r tu allan i'r DG am flwyddyn. Oherwydd anawsterau cydlynu amser a lleoliad addas i'r unigolion, bu'n rhaid targedu dosbarthiadau o fewnfudwyr a oedd wedi ymrestru ar gyrsiau ESOL er mwyn hyrwyddo'r ysgoloriaeth. Wrth reswm felly, penderfynwyd y byddai'n fanteisiol defnyddio'r cysylltiadau hyn ar gyfer astudiaeth achos i'r ymchwil—i raddau yn efelychu'r hyn sydd ar waith Québec â'r dosbarthiadau *francisation*.

3.4.3. Dewis y Grwpiau Ymchwil

Yn yr astudiaeth achos yn Québec, dewiswyd y cyfranogwyr canlynol: mewnfudwyr lefel uwch a oedd wedi cwblhau'r rhaglen *francisation*, tiwtoriaid *francisation* yn y canolfannau CSDM a Swyddogion *Gouvernement de Québec* yn y meysydd iaith (CSLF) a mewnfudo (MIDI). Dewiswyd grwpiau tebyg ar gyfer y gwaith maes yng Nghymru ond gyda rhywfaint o addasu er mwyn cynnwys myfyrwyr a thiwtoriaid ESOL a CiO.

FFIGUR 9—CYFRANOGWYR YMCHWIL



3.4.4. Myfyrwyr ESOL ar Gyrsiau CiO

Yn dilyn y datblygiadau yng nghyd-destun ysgoloriaeth Cymraeg i fyfyrwyr ESOL—gweler Adran 3.4.2—penderfynwyd y byddai'n fuddiol astudio eu hymatebion at ddysgu Cymraeg fel rhan o'r gwaith maes. Oherwydd natur unigryw'r dosbarthiadau hyn a'm cysylltiadau â maes CiO, dilynais gynnydd y dosbarth fel myfyrwyr nad oeddent yn

meddu ar Saesneg fel mamiaith, yn dilyn fframwaith y *trajectoire langagière* (gweler Adran 3.1.3). Yn ogystal â hyn, gwelwyd cyfle ychwanegol i archwilio dylanwadau'r gymdeithas fwyafrifol Saesneg ar y myfyrwyr, megis y rhaglen ESOL, y prawf dinasyddiaeth Brydeinig a'r tiwtoriaid ESOL, a hyn i gyd mewn perthynas â'r model methodolegol.

3.4.5. Myfyrwyr CiO

Penderfynwyd ymchwilio i gategori arall, sef mewnfudwyr o'r tu allan i'r DG sydd yn astudio ar gyrsiau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion. Penderfynwyd cynnwys y grŵp hwn i'r ymchwil a chan sicrhau ystod amrywiol yn lefelau Cymraeg y mewnfudwyr—yn amrywio o lefel dechreuwr i lefelau hyfedredd. Yn yr un modd, gwelwyd ei bod yn addas cynnwys y grwpiau hyn o fewn fframwaith y model MAI ynghyd â mesur ymagweddau'r gymuned groeso Gymraeg a Saesneg ei hiaith. Detholwyd yr unigolion hyn yn ofalus mewn cydweithrediad â swyddogion data'r Canolfannau CiO Caerdydd a'r Gogledd ynghyd â'r moeseg ymchwil. Fel hyn, sicrhawyd amrywiaeth a chydbwysedd mewn lefelau Cymraeg a chefnidiroedd ethnig y myfyrwyr.

3.4.6. Myfyrwyr ESOL

Defnyddiwyd hefyd gysylltiadau proffesiynol gyda'r maes ESOL. Penderfynwyd felly gynnwys myfyrwyr ESOL nad oedd wedi dechrau dysgu Cymraeg er mwyn mesur ymagweddau myfyrwyr ESOL at y Gymraeg heb unrhyw gyswllt ffurfiol â'r iaith yn ogystal â mesur eu sylwadau yn erbyn ymagweddau'r tiwtoriaid ESOL. Detholwyd myfyrwyr ESOL yng Nghanolfan ESOL Caerdydd yn dilyn cyngor Cyfarwyddwyr ESOL yng Nghaerdydd.

3.4.7. Tiwtoriaid a Swyddogion ym Maes CiO

Penderfynwyd y byddai'n fuddiol ymchwilio i ymagweddau'r tiwtoriaid a swyddogion ym Maes CiO ar fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg ar sail y ffaith eu bod yn chwarae rhan

dyngedfennol yn nhaith iaith y mewnfudwyr. Ymhellach, mae'r tiwtoriaid yn chwarae rôl hollbwysig yn y broses integreiddio a phontio myfyrwyr gyda'r gymuned. Yn hyn o beth, maent hefyd yn cynrychioli'r gymuned groeso ac felly gellir mesur eu hymagweddau o fewn y fframwaith MAI. Roedd diddordeb pellach gennyf i archwilio cynnwys y cwricwlwm CiO a sut mae hyn yn hwyluso neu yn rhwystro taith ieithyddol y myfyriwr.

3.4.8. Tiwtoriaid a Swyddogion ym Maes ESOL

Yn yr ystyr hwn felly, penderfynwyd efelychu'r un egwyddorion â thiwtoriaid a swyddogion ym maes ESOL gan eu bod hefyd yn chwarae rôl bwysig yn natblygiad ieithyddol a chymdeithasol y myfyrwyr ESOL a hefyd i raddau'r myfyrwyr ESOL a oedd yn mynychu'r cyrsiau Cymraeg. Mae'r grŵp hwn bellach yn cynrychioli'r gymuned groeso Saesneg a gellir felly fesur a chymharu eu hymagweddau integreiddio tuag at fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg, yn unol â'r model MAI.

3.4.9. Swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau Lleol

Yn olaf, dewiswyd swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau Lleol a oedd yn gysylltiedig â maes polisi y Gymraeg, ESOL a chydlyniant cymdeithasol. Er bod adroddiadau a pholisïau wedi eu cyhoeddi yn y meysydd hyn sydd yn cynrychioli safbwyntiau'r Llywodraeth, penderfynwyd ymchwilio i ymagweddau penodol y swyddogion at fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg er mwyn deall yr hyn na ddywedir yn y polisïau.

3.4.10. Casgliadau

Cynhaliwyd cyfanswm o 40 cyfweiliad. Ceir yn Atodiad 1 fanylion pob categori gan gynnwys swyddogaethau'r unigolion a'r cwestiynau a ofynnwyd. Gofynnwyd yr un cwestiynau i bob unigolyn o fewn pob categori yng Nghaerdydd ac yng Ngwynedd. Serch hynny, roedd hyblygrwydd i amrywio'r cwestiynau yn ôl yr angen yn sgil cyd-destun ieithyddol gwahanol Gogledd a De Cymru a phrofiadau amrywiol yr unigolion. Wrth

ddefnyddio'r un sampl o bobl yn yr arsylwadau cyfranogol (ac ymchwil weithredu), grwpiau ffocws a chyfweiliadau, bu modd triogli'r data yn effeithiol yn y dadansoddiad.

Gwnaethpwyd defnydd helaeth o feddalwedd NVivo er mwyn dadansoddi'r data a gasglwyd yn Québec a Chymru. O ganlyniad i hyfforddiant proffesiynol ar y feddalwedd hon, penderfynwyd ei fod yn ffordd effeithiol o godio data ansoddol mewn sawl iaith a thrwy sawl ffynhonnell amrywiol. Trosglwyddwyd holl ddata o'r cyfweiliadau, arsylwadau a grwpiau ffocws i'r feddalwedd. Defnyddiwyd y themâu ymchwil (Ffigur 5) fel seiliau er mwyn categorio data drwy ymestyn, cywasgu ac adrefnu'r themâu drwy gydol y broses ddadansoddi a dehongli. Codiwyd data fesul grwpiau yn ogystal â themâu er mwyn adnabod patrymau ar draws ac oddi mewn i gategorïau gwahanol. Roedd defnydd o'r feddalwedd hon wedi hwyluso'r broses o adnabod a chategorio themâu cyffredin yn y data o Québec a Chymru. Yn y bennod nesaf, trafodir canfyddiadau'r gwaith maes cychwynnol yn Québec a ddefnyddir fel sail i ganfyddiadau y gwaith maes yng Nghymru ym Mhennod 5.

Pennod 4: CANLYNIADAU QUÉBEC

4.1. CYFLWYNIAD

Soniwyd eisoes bod Canada yn berthnasol i'r ymchwil fel gwlad sydd yn ymfalchïo yn ei hanes o fewnfudo a lle ganwyd y cysyniad o amlddiwylliannedd. Ymhellach, rhoddwyd sylw yn y penodau blaenorol i Québec, is-wladwriaeth oddi mewn i Ganada, sydd yn diffinio ei hun mewn gwrthgyferbyniad â pholisïau amlddiwylliannol Canada, yn arbennig â'i phwyslais ar flaenoriaethu'r Ffrangeg. Ym Pennod 1: cyfeiriwyd at fersiwn Québec o ryngddiwylliannedd yn ôl Gerard Bouchard (2012). Trafodwyd hefyd sut y mae'r cysyniad hwn wedi'i drawsnewid a'i ddehongli yn ddiweddar ym Mhrydain, mewn cyd-destun gwladwriaethol (Cantle 2012). Yn hyn o beth, gwelwyd cyfle i ymchwilio ymhellach i fodelau ar reoli amrywiaeth yng Nghanada. Yn ystod cyfnod ymchwil yn Québec yn 2013, cafwyd cyfle i archwilio pa elfennau o'r model rhyngddiwylliannol a fyddai'n addas ar gyfer cyd-destun ieithyddol ac aml-ethnig Cymru. Bydd y bennod hon yn cyfeirio at ddata a gasglwyd yn Québec yn ystod Medi a Rhagfyr 2013 gan gynnwys gwybodaeth o ddogfennau polisi a astudiwyd ar gymhwyso amrywiaeth yn Québec yn ogystal â data ethnograffig trwy gyfweiliadau. Yn ail, trafodir ymagweddau Llywodraeth Québec, tiwtoriaid Ffrangeg yn ogystal ag ymagweddau'r mewnfudwyr tuag at integreiddio ar sail cyfweiliadau lled-strwythuredig. Yn drydydd, trafodir y broses o integreiddio cymdeithasol myfyrwyr *francisation* o'r dosbarth iaith i'r gymuned ym Montréal ar sail cyfweiliadau lled-strwythuredig â'r mewnfudwyr a'r tiwtoriaid *francisation*.

Cyfeirir at ddogfennau a digwyddiadau ieithyddol sydd yn allweddol i'r drafodaeth ar gydlyniant cymdeithasol a dinasyddiaeth o safbwynt mewnfudwyr yn dysgu Ffrangeg yn Québec. Un o'r prif amcanion yw amlinellu'r graddau y gall prosiect integreiddio mewnfudwyr ar lefel is-wladwriaethol fel Québec gyfoethogi'r drafodaeth ar gymhwyso

amrywiaeth yng Nghymru o safbwynt damcaniaeth a pholisi. Nodir bod deunydd y bennod hon wedi bwydo ar adroddiad yn Ffrangeg a gyflwynwyd i'r *Conseil supérieur de la langue française* (Higham 2015) yn sgil y cyfnod ymchwil yno.

4.1.1. CYD-DESTUN

Roedd y cyfnod ymchwil yn nhalaith Québec yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sefyllfa ieithyddol Québec, gan gynnwys datblygiadau polisiau a mewnfudo i'r dalaith. Bu hyn yn bwysig er mwyn trafod rôl polisi fel hwylusydd integreiddio. Wrth ddadansoddi'r data, bu hefyd yn bwysig ystyried y graddau y gall polisi drawsnewid sefyllfa ieithyddol is-wladwriaeth yn ogystal ag ystyried cyfyngiadau polisi ar ymddygiad ieithyddol. Yn hyn o beth, bydd y modelau methodolegol a ddefnyddir yn yr ymchwil, sef y model MAI a'r *trajectoire langagière*, o fudd wrth arsylwi'r tueddiadau yn Québec yn ogystal â Chymru.

Gwyddom eisoes bod Siarter y Ffrangeg a elwir *Loi 101* yn fesur pwerus sydd yn parhau i ddylanwadu'n gryf ar dirwedd ieithyddol Québec. Symbylwyd y mesur hwn yn dilyn newidiadau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd ar draws Québec fel rhan o'r symudiad a elwir yn *revolution tranquille*. Ymhlith y datblygiadau hyn bu adfywiad ieithyddol ledled Québec. Roedd hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth bod y Ffrangeg dan fygythiad yn sgil y ffaith bod mewnfudwyr i'r dalaith yn cael eu hatynnu gan y Saesneg fel *lingua franca* ac iaith 'pŵer' byd busnes. Yn wir, yn y 1960au ymddangosai fel y byddai Montréal yn troi yn ddinas amlddiwylliannol Saesneg ei hiaith (Levine 1991):

Sylweddolodd siaradwyr y Ffrangeg yn raddol eu bod mewn sefyllfa o ddiglossia, hynny yw cydfodolaeth dwy iaith, neu, hyd yn oed sefyllfa iaith leiafrifol, gydag un ohonynt, Saesneg, yn yr achos hwn, ag iddi elfen o fri a oedd yn ei gwneud yn fwy atyniadol, yn arbennig i fewnfudwyr²⁷ (CSLF, 2012 t. 9).

²⁷ 'les francophones se rendaient peu à peu compte qu'ils étaient dans une situation de diglossie, c'est-à-dire de coexistence de deux langues, ou, même minoritaire, l'une des langues, l'anglais en l'occurrence, était affectée d'un facteur prestige qui la rendait plus attrayante, notamment pour les immigrants.'

Nid oedd Siarter y Ffrangeg (*Loi 101*) yn 1977 yn anelu'n unigswydd at integreiddio mewnfudwyr. Wrth osod Ffrangeg fel unig iaith swyddogol ar lefel y dalaith, roedd yn mynd i'r afael â ffrangegeiddio cymdeithas Québec yn ei chyfanrwydd. Fel hynny, breiniwyd y Ffrangeg yn *langue normale et habituelle du travail*—iaith gyffredin ac arferol yn y gwaith (Pagé a Lamarre 2010). Wrth reswm, daeth y broses o 'ffrangegeiddio' mewnfudwyr yn y gweithle yn flaenoriaeth amlwg i'r Llywodraeth. Fel y dywed Georgeault (2006), un o'r cymhellion y tu ôl i'r *Commission Larose* ar ddyfodol y Ffrangeg yn Québec oedd 'yr ymwybyddiaeth bod y *néo-Québécois* yn creu gwrthdaro sylweddol ynghylch diogelwch y Ffrangeg yng Ngogledd America'¹⁸ (t. 291). Cyflwynodd y Siartr hon addysg Ffrangeg orfodol i blant mewnfudwyr alloffon yn ogystal â sicrhau hawliau addysg i'r lleiafrif ieithyddol Saesneg. Fel dywed adroddiad y *Conseil supérieur de la langue française*, nid ystyriwyd bod cyfiawnder yn golygu'r un ateb i bob sefyllfa. Wrth hynny, golyga hyn na roddwyd hawliau cydradd i bob grŵp ieithyddol. Yn ysbryd rhyngddiwylliannol Québec, cydnabuwyd hawliau ieithyddol a diwylliannol pob grŵp ond rhoddir blaenoriaeth i'r grwpiau ieithyddol swyddogol, sef y Ffrangeg fel yr iaith fwyafrifol a'r Saesneg fel y brif iaith leiafrifol:

Nid ystyriwn fod cyfiawnder yn golygu cynnig yr un ateb ar gyfer pob sefyllfa, ond i ddarganfod atebion gwahanol ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol er mwyn dod i drefn yn y pen draw sydd yn creu neu sicrhau'r hawl i bob dinesydd gael canlyniad cydradd¹⁹ (CSLF 2012, t. 10).

Newid pwysig arall a effeithiodd ar faes integreiddio mewnfudwyr oedd cytundebau Québec gyda Llywodraeth ffederal Canada a ganiataodd bŵer rhannol i Lywodraeth talaith Québec ddethol ei mewnfudwyr (Page a Lamarre 2010). Yn hyn o beth, amcan Llywodraeth Québec oedd dethol mewnfudwyr a oedd eisoes yn siarad Ffrangeg yn

¹⁸ 'la prise de conscience que les néo-Québécois constituent un enjeu majeur pour la sauvegarde du français en Amérique du Nord'.

¹⁹ 'On considère que la justice n'est pas d'apporter la même solution à toutes les situations, mais de trouver des solutions différentes à des situations différentes afin qu'au bout du compte les dispositions qui créent ou garantissent des droits aux citoyens aient un effet équivalent pour les uns et pour les autres.'

ogystal â chyflwyno mesurau penodol ar gyfer ffrangegeiddio mewnfudwyr eraill. Trwy'r cytundeb ar fewnfudo, diffiniwyd y Ffrangeg fel iaith sifig, nad oedd felly'n perthyn yn unig i'r grŵp ethnig Ffrangeg (Pagé a Lamarre 2010). Yn ôl Cyfrifiad Canada 2011, Montréal erbyn heddiw yw'r ddinas gyda'r canran uchaf o siaradwyr dwyieithog—Saesneg a Ffrangeg (Corbel a Houle 2013).

Mae'r rhaglen *francisation* erbyn heddiw yn un gynhwysfawr sydd yn targedu mewnfudwyr yn bennaf oll o'r tu allan i Québec. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu ar-lein i unigolion cyn iddynt fewnfudo i'r dalaith yn ogystal ag ar ôl mewnfudo i Québec (Gouvernement du Québec 2011). Noder nad oes gorfodaeth i oedolion fynychu cyrsiau Ffrangeg yn achos addysg cyfrwng Ffrangeg i blant mewnfudwyr alloffon. Mae Llywodraeth Québec serch hynny yn darparu cyrsiau Ffrangeg am ddim i fewnfudwyr am hyd at bum mlynedd wedi iddynt gyrraedd. Mewn sawl achos maent hefyd yn cynnig grantiau astudio iddynt drwy *Immigration Québec* neu drwy *Emploi Québec* (ceir mwy o wybodaeth yn Ffigur 2). Gellir dewis ystod o opsiynau dysgu, gan gynnwys rhaglen lawn amser neu ran amser gyda'r MIDI (*Ministère de l'immigration, la diversité et la inclusion*)—y Weinyddiaeth ar gyfer mewnfudo, amrywiaeth a chynhwysiant yn Québec²⁰ a hefyd gyda'r CSDM—Comisiwn Addysg Montreal. Ers 2006, mae cyrsiau ar-lein yn rhad ac am ddim ar gael gan y MIDI i fewnfudwyr cyn eu dyfodiad. Mae'r mewnfudwyr sydd yn gwneud ymdrechion i ddysgu'r iaith cyn mewnfudo yn ennill pwyntiau ychwanegol a fydd yn gwella'u cyfleoedd o gael eu dethol gan *Immigration Québec*. Gall mewnfudwyr hawlio hyd at 1,400 o oriau dysgu Ffrangeg, 990 ohonynt yn oriau llawn amser (Gouvernement du Québec 2012). Yn hyn o beth, edrychir yn awr ar sut y mae dysgu Ffrangeg yn cael ei gynnwys mewn cysyniadau o gydlyniant cymdeithasol a rhyngddiwyllyannedd.

4.2. CYMHWYSO AMRYWIAETH: QUÉBEC

4.2.1. Pontio Cydlyniant Cymdeithasol â Rhyngddiwylliannedd

Ym Mhennod 1 a Phennod 2, cymharwyd safbwyntiau Canada ffederal â'r is-wladwriaeth Québec ar amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd. Nodwyd eisoes bod rhyngddiwylliannedd yn ôl Bouchard (2012) yn gwahaniaethu oddi wrth amlddiwylliannedd drwy gydnabod diwylliant gwleidyddol Québec ar y naill law a hawliau ethnoddiwylliannol mewnfudwyr ar y llall. Mae'r pwyslais ar gynnal a chadw cydbwysedd rhwng llwybrau cymhathu ac ymwahanu. Caiff y Ffrangeg ei chynnig felly fel cyfrwng sydd yn medru hybu cyfranogaeth lawn i fewnfudwyr.

Er gwaethaf trafodaeth ddamcaniaethol yn Québec ar ryngddiwylliannedd, nodir nad yw dogfennau polisi iaith y *Conseil supérieur de la langue française* na'r *Office québécois de la langue française* yn defnyddio'r derminoleg ryngddiwylliannol yn benodol. Yn wir, nid yw Llywodraeth Québec wedi diffinio'r model rhyngddiwylliannol yn ei pholisïau. Yn ôl cyfweiliad â Michel Pagé, Athro anrhydeddus Adran Seicoleg, Prifysgol Montréal, sydd wedi cyfrannu'n helaeth at ddogfennau polisïau iaith Québec, mae cysyniad o 'gydlyniant cymdeithasol' (y dylanwadwyd arno gan Kearnes a Forest 2000) yn cael ei ffafrio er mwyn trafod cysyniadau rhyngddiwylliannol. Dyweda Pagé fod rhyngddiwylliannedd yn portreadu ongl neu *horizon* ar gydlyniant cymdeithasol. Er bod tipyn o gydadwaith rhwng y cysyniadau hyn, cred Pagé fod rhyngddiwylliannedd yn gweddu i drafodaethau ar amrywiaeth anthropoleg yn bennaf tra bo cydlyniant cymdeithasol yn mynd ymhellach, gan gynnwys dimensiynau o gyfranogi ac ymdeimlad o berthyn:

Mae rhyngddiwylliannedd yn cael ei leoli oddi mewn i gydlyniant cymdeithasol oherwydd ei fod yn hyrwyddo, mae'n hyrwyddo, ond mae problem ganddo, does dim digon o orwelion. Gorwel yw rhyngddiwylliannedd mewn cysyniad ehangach. Mae rhyngddiwylliannedd yn ffordd dda o hyrwyddo mynediad at adnoddau mewn addysg. [...] Mae ef [rhyngddiwylliannedd] dan gysgod dinasyddiaeth—os wyt ti'n cyflwyno dimensiynau i ddinasyddiaeth mewn rhyngddiwylliannedd, dyna yw cydlyniant cymunedol—ond fe allwn fynd ymhellach. Ni all cydlyniant cymdeithasol fod yn hyfyw a gweithredol ond mewn


cyd-destun o ryngddiwyllyannaeth. Dyna fe²¹ Yr Athro Michel Pagé, 2013, CEETUM.

Dadleua Pagé fod cydlyniant cymdeithasol wedi ei selio ar gyfiawnder cymdeithasol a'i fod yn rhoi cyfeiriad mwy penodol i drafodaethau ar ddinasyddiaeth, gan gynnwys integreiddio mewnfudwyr yn ieithyddol. Mae'r cysyniad o gydlyniant cymdeithasol yn Québec, fel rhyngddiwyllyannedd, yn ystyried y rôl flaenllaw sydd gan iaith er mwyn hwyluso integreiddio. Yn hyn o beth, awgrymwyd bod fframwaith cydlyniant cymdeithasol yn fwy addas ar gyfer seilio polisiau iaith. Er mwyn cefnogi ei syniadau, mae fframwaith Pagé yn cysylltu integreiddio ieithyddol â chydlyniant cymdeithasol fesul tri cham:

- 1) **mynediad cyfartal at adnoddau**—cydraddoldeb mynediad i addysg a swyddi ar gyfer pob dinesydd
- 2) **rhyngweithio cymdeithasol**—cyfleoedd i ddatblygu rhwydwaith o gyfeillion yn y gweithle a'r gymuned
- 3) **perthyn i gymuned**—rhannu gwerthoedd cytûn a'r dymuniad i gyfranogi i'r gymuned. Gall olygu perthyn i fudiad yn y gweithle neu fudiad gwirfoddol.

²¹ 'L'interculturalisme va là-dedans [la cohésion sociale] parce que ça promeut, ça reconnaît avec le défaut, ça, tu n'as pas assez d'horizons. L'horizon de l'interculturalisme est une place dans un grand concept—c'est un horizon. L'interculturel est une bonne facilitation de l'accès aux ressources en éducation. [...] C'est sous l'abri de citoyenneté, si tu introduis des dimensions de citoyenneté là-dedans dans l'interculturel, là, ça serait la cohésion sociale—on peut aller plus loin. Cohésion sociale, n'est vivable ni réalisable que dans un contexte de l'interculturalité bien comprise. C'est ça.'

FFIGUR 9—MODEL O GYDLYNIANT CYMDEITHASOL QUEBEC



Yr hyn sydd yn bwysig yn ei dyb ef yw bod yr elfennau hyn yn hwyluso ymwneud â'r byd ffrancoffon ac yn sicrhau *préférence* i'r Ffrangeg: 'i'r unigolion hyn, mae ffafrio'r Ffrangeg fel iaith gyffredin yn seiliedig ar ddewis o gymhelliant' (2005, t. 229)²². Y syniad yw bod integreiddio ieithyddol a chydlyniant cymdeithasol yn perthyn i'w gilydd trwy berthynas ddwy-ffordd gan eu bod yn cydweithio â'i gilydd. Honna Pagé fod y prosesau dwy-ffordd yn cael eu symbylu yn gyntaf gan gymhelliannau offerynnol mewnfudwyr (trwy gyfleoedd a mynediad at addysg a gwaith). Datblygir hyn yn gymhelliannau integreiddiol ar hyd amser megis ymdeimlad o berthyn i gymuned. Nodir nad yw'r dimensiwn ymdeimlad o berthyn, sef trydydd cam cydlyniant cymdeithasol (*appartenance au milieu*), yn ddatblygiad angenrheidiol ond yn hytrach yn elfen ddewisol sydd yn debygol o ddatblygu ar hyd taith ieithyddol yr unigolyn. Fe ddangosir braslun o'r model yn Ffigur 9 (Page 2011). Trafodir y model hwn ymhellach yn Adran 5.1 wrth gymharu cydlyniant cymdeithasol Québec â chysyniadau Llywodraeth Cymru ar gydlyniant cymunedol yn y bennod nesaf.

Er bod syniadau rhyngddiwylliannol a chydlyniant cymdeithasol wedi edwino yn y 70au yn dilyn *loi 101*, dywed cyn-gyfarwyddwr y CSLF (*Conseil supérieur de la langue française*) sydd yn Gyfarwyddwr presennol yr l'OQLF (*Office québécois de langue française*) fod

²² 'la préférence pour le français comme langue commune constitue pour tous ceux-là un choix motivé'.

syniadau'r Llywodraeth ar 'gydlyniant cymdeithasol' wedi bwrw gwreiddiau cadarn o'r goau ymlaen, a hynny oherwydd yr angen i integreiddio mewnfudwyr:

Roedd [cydlyniant cymdeithasol] yna'n barod yn y saithdegau, ond doedden ni ddim wedi'i enwi bryd hynny. Yn y goau, dechreuon ni ddefnyddio'r dywediad mewn dogfennau a materion ieithyddol. Yn y blynyddoedd 2000 cynyddodd ei bwysigrwydd. Fel hyn, gwelwyd trawsnewid mewn amcanion polisi iaith. Fel hyn, sylweddolon ni nad y Québécois Ffrengig oedd angen y polisiâu iaith er mwyn gallu datblygu mewn cymdeithas, ond y mewnfudwyr.²³ **Cyfarwyddwr CSLF**

Dywed y MIDI (*Ministère d'immigration, la diversité et l'inclusion*) fod cydlyniant cymdeithasol yn flaenoriaeth iddynt hefyd wrth ystyried integreiddio mewnfudwyr drwy'r Ffrangeg:

Hynny yw, mae cydlyniant cymdeithasol yn flaenoriaeth i'r MICC [MIDI]. Dydyn ni ddim yn dweud wrth fewnfudwr 'dysgwch Ffrangeg er mwyn cynyddu cydlyniant cymdeithasol'. Mae'n flaenoriaeth i'r Weinyddiaeth sydd yn ymdrin â materion yn ymwneud â'r mewnfudwr. Mae'r Ffrangeg yn adnodd integreiddio ac yn hwyluso bywyd pob dydd, hyd yn oed â'u plant er mwyn siarad ag athrawon, dilyn a dod i nabod eu llwybrau [addysgol]. Mae'r Ffrangeg yn dod yn iaith bywyd pob dydd. Am y rheswm hwn, mae'r Ffrangeg yn fater sydd ynghlwm wrth gydlyniant cymdeithasol.²⁴ **Swyddog MIDI (MICC yn flaenorol)**

Yn nhyb y CSLF mae diffiniad Québec o gydlyniant cymdeithasol wedi'i seilio ar ddarparu mynediad cyfartal i unigolion. Rhoddir pwyslais ar greu mynediad i'r adnoddau ieithyddol yn ogystal â chynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb ac osgoi anffafiaeth ieithyddol i fewnfudwyr a thrigolion eraill:

Felly, pe byddem yn dweud wrth fewnfudwr 'rhaid ichi ddysgu Ffrangeg'—os nad yw polisi iaith yn caniatáu iddynt wneud defnydd o'u hymdrechion i ddysgu Ffrangeg—hynny yw y foment maen nhw'n dechrau yn y farchnad lafur—os ydym yn gofyn am allu Saesneg yn unig, byddan nhw wedyn yn dweud, 'duwcs, roedd

²³ 'Elle [la cohésion sociale] était déjà là dans les années soixante-dix, mais déjà, on ne le nommait pas. Dans les années quatre-vingt-neuf, on a commencé à utiliser cette expression-là dans les dossiers ou les questions de langues. C'est surtout dans les années 2000 que ça a pris de l'importance. Là, ça montre une transformation des objectifs donnés à la politique linguistique. On s'est rendu compte que là, ce n'était pas seulement les québécois francophones qui avaient besoin d'une politique linguistique pour pouvoir s'épanouir dans leur propre société, mais les immigrants.'

²⁴ 'C'est-à-dire que pour le MICC la cohésion sociale est une préoccupation. On ne dit pas à l'immigrant 'apprends le français et, voilà, améliorez la cohésion sociale!'. C'est une préoccupation autant du ministre qui est adressée à l'immigrant. Le français est un outil d'intégration et une facilitation de vie de tous les jours même avec ses propres enfants pour parler avec les professeurs, suivre et connaître le parcours. Le français pour lui devient un langage de tous les jours. Pour le MICC, le français est un outil de la cohésion sociale.'

ein hymdrechion i ddysgu Ffrangeg yn ddiwerth'. Fel hynny mae'n cynhyrchu anffafiaeth strwythuredig neu anstrwythuredig.²⁵ **Cyfarwyddwr CSLF**

Yn y cyswllt hwn, cynigia Cyfarwyddwr y CSLF enghraifft o sefyllfa bosibl pe na bai'r system addysg Québec yn caniatáu i'r gymuned Saesneg dderbyn addysg cyfrwng Ffrangeg i oedolion:

Os nad yw'r system addysg ddim yn caniatáu i'r siaradwr Saesneg feithrin crap da ar y Ffrangeg, mae o dan anfantais fawr, cymaint felly fel y gall arwain iddo adael Québec. Byddant yn symud i Doronto gan eu bod nhw'n sylweddoli bod eu Ffrangeg yn anghymwys, nad yw'n bosibl gweithio yn Ffrangeg yn Québec. Mae hynny'n anffodus iawn ar gyfer y gymuned Saesneg ei hiaith. Mae cannoedd o filoedd o bobl wedi gadael Québec am bob math o resymau gwleidyddol, economaidd, ond hefyd achos roedden nhw'n teimlo pwysau i ddefnyddio Ffrangeg ond nid yn ei meistrolï yn ddigonol. Pan wyt yn 30 neu 40 oed, rwyf ti'n meddwl, wel, mae'n rhy hwyr, gwell gen i fynd i Doronto. Nawr, dyn ni'n cyrraedd at y cysyniad o gydlyniant cymdeithasol yn ôl yr hyn dyn ni'n ei ddiffinio.²⁶ **Cyfarwyddwr CSLF**

Mae'r cysyniad hwn wedi datblygu felly yng nghyd-destun datblygiadau cymdeithasol Québec a'r angen i wneud y Ffrangeg mor hygyrch â phosibl er mwyn cynnwys unigolion nad ydynt eisoes yn siarad yr iaith: hynny yw trwy gynnig cyfleoedd dysgu yn ogystal â chyfleoedd iddynt ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.²⁷

²⁵ 'Donc, les immigrants, à qui l'on dit que 'vous devez apprendre le français'—s'il n'y a pas de place dans la politique linguistique qui rend utile leur apprentissage du français, c'est-à-dire qu'une fois qui sont arrivées au marché du travail, si on leur exige que la connaissance de l'anglais, ils vont se dire, mais, mon Dieu, mes efforts pour apprendre le français ont été inutiles. Là, ça crée des problèmes de discrimination qui sont structurels ou non.'

²⁶ 'Un anglophone à qui le système de l'éducation ne permet pas d'acquérir une bonne maîtrise du français, il est très pénalisé, tellement, qui va être peut être conduit à quitter le Québec. Ils vont aller déménager à Toronto parce qu'ils se rendent compte que son français est tellement insuffisant qu'il ne peut pas travailler en français au Québec. Ça, c'est très dommageable pour la communauté anglophone. Il y a eu des centaines de milliers de personnes qui sont parties de Québec pour toutes sortes de raisons, bon, politiques, économiques, mais aussi parce qu'ils sentaient une pression pour utiliser le français, mais ne la maîtrisaient pas suffisamment. Quand tu as 30 ans ou 40 ans, tu penses, bon, c'est trop tard, je préfère aller à Toronto. Là, c'est là qu'arrive toute l'importance du concept de la cohésion sociale selon la manière dont on le définit.'

²⁷ Yn y 1990au, cafodd y ddarpariaeth Ffrangeg i fewnfudwyr (a gynigwyd gan y canolfannau (COFI—Centres d'orientation et de formation des immigrants) ei diddymu er mwyn ehangu'r ddarpariaeth mewn canolfannau a cholegau amrywiol yn Québec. Y nod yw cynnig ystod eang o gyrsiâu ar gyfer anghenion gwahanol y mewnfudwyr yn ogystal â phontio addysg â'r maes llafur.

Cymhara Cyfarwyddwr y CSLF y sefyllfa yn ngweddill Canada drwy honni fod Saesneg hefyd yn rhan annatod o gydlyniant cymdeithasol yno. Y gwahaniaeth yw nad oes angen iddynt freinio eu lle yn y Ganada ffederal fel y gwnaed yn Québec:

Mae'n wahanol yn y Ganada Saesneg, mae'n wahanol iawn gan nad yw'r cwestiwn ieithyddol yn codi llawer. Os ydych yn byw yn Winnipeg neu Doronto, dyw'r cwestiwn ieithyddol ddim yn codi. Mae'n rhan o'r tirwedd. Ffaith gymdeithasol ydyw y mae pawb yn cytuno arni—yn Saesneg y mae bywyd yno. Saesneg yw'r iaith gyffredin a does neb [...] does dim angen meddwl amdano. Mae'n naturiol, mae'n rhan o drefn naturiol bywyd. Mae'r iaith yn cyfrannu llawer at gydlyniant cymdeithasol, ond dydyn nhw ddim yn sylweddoli hynny. Does dim angen iddynt wneud polisi yn ei gylch. Mae eisoes bolisiau estynedig yng Nghanada ar ieithoedd swyddogol sydd yn weithredol ar diriogaethau penodol. Yr hyn sydd yn berthnasol i Ottawa i New Brunswick a.y.b nid yw'n berthnasol i Vancouver neu Calgary. Felly, dyn ni eisiau bod y Ffrangeg, nid yn unig yn cael ei hadfer, ond ei bod hi'n datblygu.²⁸ **Cyfarwyddwr CSLF**

Yn hyn o beth, darlunia'r Cyfarwyddwr CSLF agenda deublyg sydd i gydlyniant cymdeithasol yn Québec—cynyddu'r defnydd o Ffrangeg ar y naill lawr yn ogystal â hwyluso cydlyniant ar y llaw arall. Yn y cyswllt hwn, awgryma Cyfarwyddwr y CSLF fod cysyniad tebyg o gydlyniant cymdeithasol yn medru bod o ddefnydd i is-wladwriaeth arall gydag iaith genedlaethol, fel Cymru:

Felly, os ydy pawb yn cael mynediad at addysg Ffrangeg, addysg dda Ffrangeg, ac os ydy pawb yn sgil hynny yn datblygu gallu yn y Ffrangeg ac yn gallu ennill bywoliaeth yn Québec, yna, dyn ni wedi cynyddu cydlyniant cymdeithasol a dyn ni hefyd wedi sicrhau dyfodol da i'r Ffrangeg. Dau nod sydd yn bwydo ei gilydd ydyw mewn gwirionedd. Gallaf weld y byddai hyn wir yn rhywbeth da i Gymru hefyd.²⁹ **Cyfarwyddwr CSLF**

²⁸ 'C'est différent au Canada anglais, c'est très différent parce que la question linguistique ne se pose pas beaucoup. Quand on vit à Winnipeg ou à Toronto, la question linguistique ne se pose pas. Ça fait partie du paysage. C'est une donnée sociale sur lequel tout le monde s'entend—c'est en anglais. L'anglais est la langue universelle que personne—ils n'ont même pas besoin d'y penser. C'est naturel, ça fait partie de l'ordre naturel des choses. Une fois que ça c'est là. La langue contribue fortement à la cohésion sociale, mais ils ne se rendent pas compte. Ils n'ont pas besoin de faire beaucoup de politique, il y en a, mais c'est très large au Canada anglais—la loi sur les langues officielles qui porte concrètement seulement sur certains territoires. La région d'Ottawa, la région Brunswick etc. ça ne va pas porter beaucoup à Vancouver ou Calgary. Donc, alors nous, on veut que le français, non seulement que le français se maintienne mais on voulait qu'il se développe.'

²⁹ 'Donc, si tout le monde a l'accès à l'éducation en français, une bonne éducation en français, et si tout le monde grâce à sa connaissance du français peut gagner sa vie au Québec, là, on vient d'augmenter la cohésion sociale et on vient d'assurer au français en même temps une bonne pérennité. C'est vraiment deux objectifs qui se nourrissent l'un l'autre. Je peux voir que ça serait vraiment quelque chose de bien pour le pays de Galles aussi.'

Yn yr un ffordd, amlinella Swyddog MIDI fod yr achos ieithyddol yn bodoli yn unig lle ceir gwrthdaro ieithyddol. Y cwestiwn yn ei thyb hi yw i ba raddau y gall is-wladwriaeth ddeddfu dros iaith is-wladwriaethol:

Mae amddiffyn iaith yn digwydd ble mae yna wrthdaro ieithyddol. Pam nad yw iaith yn ddadl yng ngweddill Canada? Yn syml iawn, gan nad oes yna wrthdaro. Mae hi'n dechrau yn yr Unol Daleithiau. Yn Québec, mae e reit yn y canol. I ba raddau felly y gall gwladwriaeth ansoffran ddeddfwriaethu dros iaith ansoffran? Dyna ydy'r cwestiwn.³⁰ **Swyddog MIDI**

Ymhellach, rhybuddia'r Swyddog MIDI rhag gwneud cymariaethau o gydlyniant cymdeithasol drwy honni bod y cysyniad o gydlyniant cymdeithasol yn Québec wedi'i ffurfio a'i llywio drwy ddatblygiadau hanesyddol ac ieithyddol penodol y dalaith ac felly'n unigryw iddi hi yn unig:

Fy marn bersonol ydy hyn, mae'r sefyllfa yn Québec yn gysylltiedig â'i diwylliant. Os ydy Québec wedi gweithredu deddfwriaeth ieithyddol a phethau eraill, mae hyn oherwydd bod cydlyniant cymdeithasol eisoes wedi meithrin lliw penodol, bodolaeth, 'savoir-etre', rhywbeth o'i ddiwylliant, sydd wedi datblygu dros amser maith. Dichon nad yw'r un 'savoir-etre' yn bodoli mewn man arall. Gellid cymharu cydlyniant cymdeithasol mewn cymdeithas arall, ond nid yn gyfan gwbl, oherwydd bod yna rhywbeth neilltuol ynddo yn y gymdeithas. Rhaid bod yn ofalus wrth gymharu achos mae'n cyffwrdd â rhywbeth llawer mwy eang.³¹ **Swyddog MIDI**

Yn y dyfyniad isod, pwysleisia'r Swyddog MIDI fod polisiau Québec ar ryngddiwylliannedd a chydlyniant cymdeithasol yn dibynnu ar y grŵp mwyafrifol Ffrangeg. Atega fod siaradwyr Cymraeg yn lleiafrif a bod y Gymraeg, er gwaethaf ei statws swyddogol, yn parhau i gael ei thrin fel iaith leiafrifol yng Nghymru:

Ers y *révolution tranquille*, caiff [y Québec Ffrengig] ei hystyried yn fwyafrif, felly mae gennym ddeddfau ar gyfer y mwyafrif, a chydlyniant ar gyfer y mwyafrif.

³⁰ 'La défense de la langue comme était un enjeu collectif ne surgit là où il y a conflit linguistique. Pourquoi ailleurs au Canada la langue n'est-elle pas un enjeu? Tout simplement parce qu'il n'y a pas d'enjeu. Aux États-Unis, ça devient. Là où il n'y a pas de conflit, ou de mises en législation, mise en discours ou recherche. Pour le Québec, ça a toujours été au centre. À quel degré un état non souverain peut légiférer sur une langue non souveraine? Elle est là, la question.'

³¹ 'C'est vraiment mon opinion personnelle, la situation du Québec est très liée à une culture ambiante. Si le Québec a agi avec la législation linguistique et d'autres choses, c'est parce que la cohésion sociale avait déjà une certaine couleur, une être, un savoir-être, quelque chose de très culture, qui a grandi pendant très longtemps. Ce n'est probablement pas le même savoir-être ailleurs. La cohésion sociale dans une autre société sera comparable, mais pas entièrement parce que c'est quelque chose qui est très particulier à la société. Il faut faire attention dans les comparaisons là parce que ça touche à quelque chose beaucoup plus large.'

Ond i chi, lleiafrif ieithyddol ydych, sydd yn cael ei thrin fel lleiafrif. Mae'n sefyllfa wahanol iawn o'r foment y gwnaeth Québec gymryd yr awenau dros addysg, mewnfudo, y Siatr a diwylliant yn eu dwylo, fel cymuned a hawliau'r gymdeithas. Dyna yw'r gwahaniaeth gydag amlddiwylliannedd.³² **Swyddog MIDI**

Awgryma Swyddog MIDI felly fod polisiau rhyngddiwylliannol Québec yn gweithio yno am fod y gymdeithas Ffrengig yn grŵp mwyafrifol. Er bod Québec yn is-wladwriaeth, yr awgrym yw bod Québec yn gweithredu ac yn ymddwyn fel gwladwriaeth gydag iaith wladwriaethol. Am y rheswm hwn, creda'r Swyddog MIDI fod safle lleiafrifol siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn golygu na fyddai cymhwyso amrywiaeth drwy'r model rhyngddiwylliannol yn weithredol yng Nghymru fel y mae yn Québec.

Yn wir, cydnabuwyd o'r dechrau bod sefyllfa is-wladwriaethol Cymru a Québec, er gwaethaf rhai nodweddion cymharol, yn dra gwahanol o ran demograffeg iaith a phwerau hunanlywodraeth. Derbyniwyd bod dulliau o gymhwyso amrywiaeth yn datblygu yn sgil cyd-destun sosio-wleidyddol ac hanesyddol penodol a'r berthynas rhwng is-wladwriaeth a'r wladwriaeth berthynol.

Er gwaetha'r cyd-destun cymdeithasol unigryw sydd yn rhan annatod o gymeriad grŵp (ieithyddol yn yr achos hwn), dadleua'r ddamcaniaethwr Alan Patten (2014) fod egwyddorion sylfaenol yn bodoli rhwng grwpiau lleiafrifol sydd yn sail i hawliau lleiafrifol cytûn. Mae'r ymchwil a wnaed yn Québec yn awgrymu bod nodweddion o'r dull rhyngddiwylliannol y medrir eu haddasu i gyd-destunau is-wladwriaethol eraill. Cofiw'n eiriau Charles Taylor wrth iddo gyfeirio at hyblygrwydd y model rhyngddiwylliannol yn Québec (2012):

³² 'Depuis la révolution tranquille, elle [le Québec francophone] est considérée comme une majorité donc on a des lois pour la majorité, dont une cohésion à la majorité. Mais pour vous, une minorité linguistique qui est traitée comme une minorité. C'est une situation très différente. À partir du moment où le Québec a pris les rênes sur l'éducation, l'immigration, la charte et la culture a pris en main, en plus la collectivité, les droits de la collectivité. C'est là, la différence entre le multiculturalisme.'

The intercultural story is not simply made for Québec. It also suits better the situation of many European countries. The features which make it applicable to Québec also often apply in Europe. There: (1) many countries have a long-standing historic identity which is still shared by the great majority of their citizens; (2) this identity frequently centres around a language which is not spoken elsewhere, and is under pressure from larger, 'globalized' languages; and (3) the same kind of not-fully-structured fears for the future of its culture and way of life may arise there as I noted in Québec (2012, t. 420).

Trafodwyd ym Mhennod 1 a Phennod 2 sut y datblygodd y dull rhyngddiwylliannol ar gyfer cyd-destun is-wladwriaethol. Yn ôl Bouchard (2012), seiliwyd rhyngddiwylliannedd ar amlgeneldaetholdeb wrth gydnabod prif ddiwylliannau mwyafrifol a lleiafrifol fel man cychwyn er mwyn datblygu diwylliant cynhwysol sydd wedi'i seilio ar luosogrwydd yn ogystal â diwylliant cyffredin. Yn yr un ffordd, awgryma Cyfarwyddwr y CSLF fod cydlyniant cymdeithasol yn Québec yn fodel addas ar gyfer cyd-destun amlgenedlaethol arall. Dywed hyn ar sail y ffaith y'i datblygir mewn cyd-destun o gyfiawnder cymdeithasol gyda phwyslais ar gydraddoldeb mynediad i adnoddau ieithyddol a datblygu cyfleoedd a rhwydweithiau i ddefnyddio iaith is-wladwriaethol. Yng nghyd-destun Cymru felly, mae yna ymagweddau o sbectrwm rhyngddiwylliannol Québec sydd o ddiddordeb o safbwynt rheoli a chymhwyso iaith. Gall hefyd fod yn ymateb posibl i hinsawdd newydd o ran rheoli amrywiaeth a drafodir yn y bennod nesaf.

4.3. YMAGWEDDAU GRŴP: QUÉBEC

4.3.1. Llywodraeth Québec

Edrychir yn awr ar gydberthynas y grŵpiau gan ddechrau â rôl Llywodraeth Québec â'i pholisïau. Wrth ddadansoddi polisïau ac ymatebion i'r cyfweiliadau, gwelir bod pwyslais yn y mesurau ieithyddol ar ddysgu Ffrangeg trwy'r cyrsiau *francisation* er mwyn gallu defnyddio'r iaith mewn bywyd cyhoeddus:

O ran proses integreiddio i'r gymdeithas Québécois, mae ffrangegeiddio mewnfudwyr yn targedu eu gallu i ddefnyddio Ffrangeg er mwyn cyfathrebu'n gyhoeddus. Dyna yn eglur yw ysbryd Siartr dros y Ffrangeg³³ (Pagé 2005, t. 210).

Yn wir, bu hyn yn ymgais fwriadol i bellhau oddi wrth ddisgwrs ar hunaniaeth ethnig gan ganolbwyntio ar ddefnydd offerynnol yr iaith: 'mae eu perthynas at y Ffrangeg yn berthynas offerynnol sydd yn sgil hynny yn gwneud gosodiad o'r fath yn dderbyniol (Pagé 2011).³⁴ Wrth hyrwyddo lluosogrwydd diwylliannol, y neges a drosglwyddwyd yw bod y Ffrangeg yn perthyn, os nad yn anghenreidiol, i bob unigolyn yn y byd cyhoeddus.

Mewn cyfweiliad â swyddogion y MIDI, soniwyd bod ganddynt rôl benodol yn asesu gofynion ieithyddol mewnfudwyr a'u cyfeirio at sefydliadau priodol i dderbyn hyfforddiant Ffrangeg. Soniant eu bod yn ceisio bod yn fwy gweithredol drwy gynllunio rhaglenni sydd yn meithrin partneriaethau rhwng y gweithle a'r mewnfudwyr:

Y camau cyntaf yw [...] cael eu hasesu, eu harwain at sefydliad, brifysgol, cyfundrefn gymunedol. Caiff unigolyn â lefel gradd ei arwain at Brifysgol. Mae'r rhaglen yr un fath pobman. Dyn ni'n annog y mewnfudwyr i ffrangegeiddio a chyfranogi yn y gymdeithas, ymrestru mewn Prifysgol [...] Roedd gan y MICC ddsbarthiadau Ffrangeg gyda'r ysgolion heb gyswllt â'r gweithle, felly creon ni gysylltiadau â sefydliadau eraill sydd yn caniatáu rhwydwaith o gysylltiadau.³⁵

Swyddog MIDI

Yn yr ystyr hwn, nodant fod integreiddio ieithyddol yn y gweithle yn ddibynnol ar flaenoriaethau'r cyflogwr. Yn hyn o beth, mae'r llywodraeth yn pwysleisio cynnig cyfleoedd i ddysgu Ffrangeg oddi mewn i'r gweithle:

Sut gallwn ni integreiddio i gymdeithas Ffrengig os nad oes gennym ni'r offer ieithyddol i'w wneud? Ar ryw adeg, gallent gael eu heithrio os ydym yn eu

³³ 'En tant que processus d'intégration à la société québécoise, la francisation des immigrants vise principalement leur capacité à utiliser le français dans la communication publique. C'est clairement l'esprit de la Charte de la langue française.'

³⁴ 'Leur rapport à la langue française est un rapport instrumental et c'est ce qui rend cette imposition moralement acceptable'

³⁵ 'Les premières étapes [...] se faire évaluer. Diriger vers un établissement, une université, les organismes communautaires. Quelqu'un avec un niveau universitaire sera dirigé vers une université. Les programmes sont les mêmes pourtant. On encourage les immigrants à se franciser à participer à la collectivité. Inscrire à l'université [...] c'est le MICC qui avait les classes de français avec les écoles sans contacts avec l'emploi alors on a créé des liens avec d'autres établissements qui permettent un milieu—réseau de contacts.'

gwahanu [...] a mewnfudwyr yn medru siarad yr iaith ond os nad yw'r cyflogwr yn eu hannog i wneud hynny, mae'r canlyniad yn anffafriol. Os nad ydy'r cyflogwr yn gorfodi rhywun i siarad Ffrangeg, ni fydd y mewnfudwyr mor awyddus i ddysgu. Os yw'n medru Saesneg ac nid Ffrangeg, fe fydd yn siarad Saesneg yn haws heblaw bod y cyflogwr yn annog iddo wneud hynny. Dyn ni'n cynnig cyfleoedd i fewnfudwyr ddysgu Ffrangeg yn y gweithle felly. Dyn ni'n ceisio gweithredu mewn ffordd llawer mwy integredig—y ddwy elfen, mewnfudo a'r realiti Ffrangeg.³⁶ **Swyddog MIDI**

Dywedant nad tactegau cymathiadol sydd ar waith yn Québec gan fod hawliau iaith Québec hefyd yn estyn parch a hawliau at grŵpiau lleiafrifol Saesneg yn ogystal â lleiafrifoedd eraill:

Mae hawliau'r gymuned angloffon yn cael eu parchu. Mae yna ysgolion, gwasanaethau o bob math i'r cymunedau Saesneg eu hiaith. Pe byddai nod cymhathu gennym, gellid ymyrryd ar yr hawliau hyn. Nid felly mae hi ond mae rhyw ddadl ieithyddol yn bodoli dros barhad y Ffrangeg yn Québec—brwydr sydd yn parhau ers canrifoedd. **Swyddog MIDI**³⁷

O ran datblygu ymdeimlad o berthyn trwy'r iaith, honna'r MIDI fod rôl bwysig ganddynt wrth ddylunio polisiau a strategaethau ieithyddol ac mae'r rhain yn dylanwadu ar ymarferion ieithyddol. Serch hynny, cydnabyddant fod cyfyngiadau i ddylanwad polisi ar integreiddio mewnfudwyr yn y gymuned nad yw'n gallu treiddio i bob cwr a chornel profiad mewnfudwr yn integreiddio. Yn wir, honna ei bod yn bwysig rhoi rhyddid i'r cymunedau gydweithio a chreu cyfleoedd mwy lleol er mwyn hybu cydlyniant.

Mae'r pŵer yn dod oddi wrth y Weinyddiaeth, ond hyd at bob gwithien, i ba le y bydd e'n cyrraedd, mae 'na fanteision ac anfanteision. Yn wir, pe na fyddai unrhyw orchymyn o ran y Llywodraeth, fe fyddai tipyn bach fel 'free for all' a falle dim byd yn digwydd a phobl yn gwneud beth a fynnant. Felly mae 'na fframwaith sydd yn angenrheidiol ond pe byddai'r fframwaith hwn yn dod yn rhy strwythuredig, buasai'n atal mentrau mwy lleol sydd yn gallu manteisio ar y

³⁶ 'Comment on veut intégrer dans une société francophone si on n'a pas d'outil linguistique pour le faire? A un moment donné il peut devenir ségrégué si on cloisonne ailleurs. [...] Un immigrant peut parler français, mais si l'employeur ne l'encourage pas à le faire, c'est moins bon, le résultat. Si l'employer n'oblige pas quelqu'un de parler en français, l'immigrant ne serait pas porté à apprendre le français. S'il connaît anglais et pas français, il va parler plus facilement l'anglais à moins que l'employeur ne l'encourage de le faire. On offre les possibilités pour les immigrants à apprendre le français en milieu du travail également. On essaie de faire des actions beaucoup plus intégrées—les deux aspects, l'immigration et le fait français.'

³⁷ 'Pour la communauté anglophone, leurs droits sont respectés, il y a des écoles anglophones, tous les services pour les communautés anglophones. S'il y avait un but d'assimilation, ces droits, là, pourraient être attaqués. Mais ce n'est pas le cas. Mais il y a certains enjeux linguistiques pour la survie de français au Québec. Une bataille qui mène depuis des siècles.'

fframwaith hwn mewn ffordd hyblyg. Does dim angen dadansoddi i'r fan bellaf, buasai hynny'n rhy weinyddol. Ni ellir mesur canfyddiadau.³⁸ **Swyddog MIDI**

Fel dywed Pagé, nid gwaith y Wladwriaeth yw ymwneud ag integreiddio'n gymdeithasol ar lefel lleol, ond y gymuned groeso ei hun. Penderfyniad ydyw i'r '[...] *Québécois francophones* sydd mewn cyswllt â'r mewnfudwyr yn y gweithle a thu allan i'r gweithle' (Pagé 2011, t. 26). Yn ôl Pagé (2005), dylai'r gymuned groeso ymarfer *hospitalité identitaire* yn ei hiaith. Dylai mewnfudwyr gael eu symbylu a'u hatynnu gan y gymuned groeso: 'mae'r ymdeimlad o berthyn yn ychwanegu rhywbeth at hunaniaeth a ddylai fod yn atyniadol i'r person, hynny yw bod y person yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o berthyn.' (Pagé 2005, t. 219). Mae sylwadau'r swyddogion MIDI yn adlewyrchu'r un safbwynt ac yn pwysleisio nad ydynt yn medru deddfu ar lefel cymunedol. Mae dimensiynau ehangach ar integreiddio yn y gymuned yn dibynnu llawer ar ymateb y gymuned groeso. Serch hynny, wrth wrthdroi'r cwestiwn, dywedant nad oes amheuaeth fod deddfwriaeth ieithyddol yn chwarae rôl gefndirol bwysig yn datblygu ymdeimladau o berthyn i'r Ffrangeg yn Québec:

Pe byddem yn gofyn y cwestiwn ar ei waered—a all ymdeimlad o berthyn gryfhau pe na fyddai'r Llywodraeth yn ymyrryd? Dyna yw'r mater dw i'n meddwl. Mae'r Llywodraeth yn gallu rhoi mesurau integreiddio yn eu lle, ond yn wir, i ba raddau, sut ac ar ba gyfradd y mae hynny'n cynhyrchu ymdeimlad o berthyn? Mae'n rhywbeth mor bersonol. Mae 'na ddeddfwriaeth, gweinyddiaeth, gweithredaeth ond mae'n mynd tu hwnt i hyn. Yn ysbryd y Siartr, mae 'na apêl at hunaniaeth gytûn ond syniad ydyw. Ar ôl hyn, rhywbeth sydd yn datblygu ar hyd amser ydyw. Nid yw'n rhywbeth sydd un ai gennym neu beidio. Mae'n dibynnu ar y cyd-destun.³⁹ **Swyddog MIDI**

³⁸ 'Le pouvoir vient du Ministère, mais jusqu'au à la dernière capillaire, dans quel milieu est-ce que ça va tomber—il y a des pour et des contres. C'est sûr que s'il n'y a aucune prescription de la part du gouvernement, c'est un peu *le free-for-all* et peut-être rien qui se passe et les gens font n'importe quoi. Donc il y a un encadrement qui se fait, mais si cet encadrement devient trop encadré, ça étouffe aussi les initiatives, qui sont plus locales qui peuvent combiner d'une façon profitable, cet encadrement est assez flexible. Il ne va pas à l'évaluation de la dernière [...] ça serait très administratif. Les perceptions ne s'évaluent pas.'

³⁹ 'Si l'on posait la question à l'inverse, où est-ce que l'appartenance de toutes ces personnes seraient s'il n'y avait pas aucune intervention du gouvernement? Je pense que c'est là. Il y a des facilitateurs d'intégration que le gouvernement peut mettre en place, mais bon, à quel degré et comment et à quel rythme est-ce que ça déclenche un sentiment d'appartenance? C'est tellement personnel. Il y a une législation, une administration, une exécution, mais ça va au-delà. Dans l'idée de la charte, il y a une identité commune, mais c'est dans l'idée. Puis c'est quelque chose qui se développe. Ce n'est pas quelque chose qu'on a ou on n'a pas. Il dépend du contexte.'

Trafodwyd eisoes fod polisi iaith wedi cael cryn ddylanwad ar dirlun ac ymddygiad ieithyddol Québec yn sgil polisïau iaith y saithdegau. Honna rhai damcaniaethwyr oddi mewn i Québec (Bourhis a Carignan 2010) ac oddi allan (Cantle 2012) fod polisïau Québec yn tueddu at ideoleg gymathiadol. Er hynny, gwrthwyneba swyddogion y Llywodraeth a Chyfarwyddwr y CSLF honiadau o'r fath drwy honni bod y Ffrangeg ac ieithoedd eraill yn cael eu trin mewn cyd-destun o luosogrwydd gyda phwyslais ar uniaethu â diwylliant cyffredin datblygol. Serch hynny, maent yn ymwybodol nad yw effaith polisi yn treiddio i bob cwr o'r gymuned ac oherwydd hynny mae gofynion ar y gymuned groeso i chwarae rhan bwysig yn y broses o integreiddio i'r gymuned. Yn hyn o beth, edrychir yn awr ar ymagweddau'r tiwtoriaid a ddisgrifir yn ôl y canlyniadau uchod fel cyfeirbwynt y gymuned groeso.

4.3.2. Tiwtoriaid *Francisation*

Mae'r data o'r cyfweiliadau â'r tiwtoriaid yn dangos eu rôl allweddol hwy fel cynrychiolwyr y gymuned groeso yn y canolfannau *francisation* yn ogystal â gweithredwyr polisi'r Llywodraeth. Yn wahanol i swyddogion polisi'r Llywodraeth, mae ganddynt berthynas uniongyrchol gyda'r mewnfudwyr. Mae eu hymagweddau hwy felly yn ganolog i ddeall prosesau integreiddio mewnfudwyr yn Québec.

Roedd pob un o'r tiwtoriaid y cyfwelwyd â hwy yn cydnabod eu rôl fel hwyluswyr iaith sydd yn cwmpasu elfennau integreiddio ar lefel fwy eang. Disgrifiwyd eu hunain hefyd fel 'symbylwyr' iaith a chyfeirbwynt Ffrengig y mewnfudwyr, ond nid fel cenhadon yr iaith o reidrwydd. Nodwyd rhai enghreifftiau isod:

Mae'n swyddogaeth bwysig. Ni yw'r cyfeirbwynt Ffrengig. Nid yr iaith yn unig ydyw—ond bywyd Ffrengig hefyd. Maen nhw'n derbyn llawer o ddogfennau yn Ffrangeg, hyd yn oed os ydynt yn Saesneg hefyd. Dyn ni fel 'cyfryngwr', dw i'n

ceisio eu harwain nhw at y byd Québécois. Dw i ddim yn eu gorfodi. Dw i ddim yn eu barnu chwaith os nad ydynt yn ei wneud.⁴⁰ **Tiwtor francisation 1**

Mae ein swyddogaeth ychydig bach yn rhanedig. Dyn ni eisiau iddynt ddysgu Ffrangeg a rhannu ein cariad at yr iaith [...] dyn ni fel mam i'r dechreuwyr. Ni yw'r cyswllt cyntaf—mae gennym ni swyddogaeth bwysicach. Weithiau, maen nhw'n cyrraedd ddydd Llun gyda chwestiynau 'mae fy mhlentyn yn sâl, beth ydw i'n ei wneud?'⁴¹ **Tiwtor francisation 2**

Dw i ddim yn gweld fy hun fel gwerthwr diwylliant [...] hwylusydd ydw i mewn gwirionedd a dw i'n eu tywys a cheisio'u cael nhw i ddarganfod llawer o bethau sydd ar gael yma. Eu penderfyniad nhw ar ôl hynny.⁴² **Tiwtor francisation 3**

Cydnebydd y tiwtoriaid fod profiadau mewnfudwyr yn dysgu Ffrangeg yn y canolfannau yn aml yn brofiadau beichus gydag oriau hir. Gwelant fod llwyddiant y mewnfudwyr i ddysgu Ffrangeg yn seiliedig ar chwilfrydedd a lefelau addysg. Golygir hyn bod person addysgedig eisoes â'r sgiliau i gymhwyso iaith newydd:

Mae dysgu iaith yn gymhleth. Yn aml, myfyrwyr anhyddysg ydynt. Felly, nid oes sgiliau dysgu ganddynt. Y myfyrwyr sydd yn llwyddo yw'r rheini â'r lefelau addysgol uchaf. Does dim cyfrinach am hynny. Rheini sydd â'r dulliau ar gyfer dysgu. Maent yn deall beth mae dysgu yn ei olygu. Ond yn aml, dyn ni o flaen myfyrwyr nad ydynt â meistrolaeth dda o'u hiaith ysgrifenedig nhw. Mae'n anodd trosglwyddo i mewn i iaith ddieithr arall lle mae'r strwythur [...] mae'n gwestiwn o addysg.⁴³ **Tiwtor francisation 3**

Dw i'n meddwl ei fod yn gwestiwn o addysg hefyd. [...] Mae llawer o bobl ifanc gyda fi sydd â chymwysterau. Dw i'n gweld mai cwestiwn o chwilfrydedd ydyw. Maent yn deall sut mae pethau yn gweithio [...] ar ôl hynny, mae eu lefel o integreiddio yn dibynnu ar eu lefel o chwilfrydedd hefyd. Chwilfrydedd yw e.

⁴⁰ 'C'est un rôle important. On est la référence francophone. Ce n'est pas juste la langue—c'est la vie en français. Ils reçoivent beaucoup de documents même s'il y a l'anglais, beaucoup est en français. On est comme un 'passeur', j'essaie de les amener vers le monde québécois. Je n'impose pas. Je ne les juge pas s'ils ne le font pas.'

⁴¹ 'Notre rôle est un peu comme une liaison. On veut qu'ils apprennent le français et partagent notre amour pour la langue. [...] Pour les nouveaux débutants, on est comme la 'maman'. On est le premier contact—on a un rôle plus lourd. Des fois, ils arrivent lundi avec des questions 'mon enfant est malade, qu'est-ce que je fais?'

⁴² 'Je ne me vois surtout pas comme quelqu'un—un vendeur de culture [...] C'est vraiment 'facilitateur' et je les oriente et j'essaie de leur faire découvrir beaucoup de choses par rapport à ceux qu'ils peuvent découvrir ici. C'est à eux après ça.'

⁴³ 'Apprendre une langue, c'est complexe. C'est souvent les élèves qui ne sont pas scolarisés. Donc ils n'ont pas les méthodes. Les élèves qui réussissent le mieux sont ceux qui sont scolarisés. Il n'y a pas de secret. C'est les élèves qui ont les méthodes d'apprentissage. Ils savent c'est quoi apprendre. Mais parfois quand on est devant les élèves, qui ne maîtrisent même pas très bien leur propre langue écrite, ça vient difficile à faire un transfert à une langue étrangère où les structures sont...l'enjeu ce n'est pas un don. C'est une question [...] de scolarisation'

Allwn ni ddim gwneud mwy. Fe ddangoswn ni iddynt ddiwylliant, ond dyw e ddim i bawb.⁴⁴ **Tiwtor francisation 4**

Er bod manteision gan unigolion sydd yn siarad iaith debyg i Ffrangeg neu sydd yn rhannu diwylliant tebyg, mae gallu a chymhelliant person yn dibynnu'n fawr ar yr unigolyn, ei *bagages culturelles* gan gynnwys statws, iaith, arian, teulu ac oedran. Esboniwyd bod y ffactorau hyn yn dylanwadu ar ewyllys yr unigolyn i ddysgu'r iaith yn ogystal â phwysau i ddod o hyd i swydd. Er bod y Llywodraeth yn annog nifer i ymrestru ar gyrsiau *francisation* er mwyn cael mynediad at swyddi, noda'r tiwtoriaid fod nifer sydd eisoes â rhyw lefel o Saesneg yn dewis gweithio trwy gyfrwng y Saesneg:

Mae 'na flaenoriaethau eraill, dw i'n gwybod, ond y broblem i'm myfyrwyr yn y sefyllfa economaidd hon yw nid dyma'r flaenoriaeth gyntaf [dysgu Ffrangeg]. Oherwydd mae 'na waith i gael. Hyd yn oed os nad yw'n swydd dda, gallant weithio yn Saesneg neu yn eu hiaith. Dyw e ddim yn gwestiwn o beidio â bod eisiau gweithio yn Ffrangeg, ond hefyd mae yna elfen o frys. Does dim rhaid iddyn nhw ddod, dydyn nhw ddim wedi'u hariannu i'w wneud.⁴⁵ **Tiwtor francisation 1**

Ar y dechrau, maen nhw eisiau meistrolï Saesneg achos maen nhw eisiau—mae delwedd ganddynt o Saesneg fel yr iaith ryngwladol ond ar ôl iddynt gyrraedd gyda'r syniad hwn o'u gwlad maen nhw'n sylweddoli nad yw meistrolï Saesneg yn ddigonol i'r Québécois, heblaw dy fod yn symud i ffwrdd.⁴⁶ **Tiwtor francisation 4**

Er mwyn dweud y gallaf ymdopi yn Saesneg neu hyd yn oed yn fy nghymuned leol oherwydd mod i'n gallu mynd i'r siop trin gwallt Iraneg, dw i'n gallu mynd i dy bwyta Indiaidd. Mae'n dibynnu [...] ond ein swyddogaeth ni yw ceisio dweud wrthynt fod hyn i gyd yn digwydd drwy'r Ffrangeg. Dw i ddim yn hoffi cyffredinoli. ⁴⁷ **Tiwtor francisation 3**

⁴⁴ 'Moi, je pense que c'est une question de scolarité aussi. Qu'est-ce qu'il faut faire en plus pour réussir, maintenant. J'ai beaucoup de jeunes, avec des diplômés, je vois bien c'est la curiosité. Ils comprennent comment ça fonctionne [...] Après ça, leur niveau d'intégration va dépendre de leur niveau de curiosité aussi. C'est la curiosité. On ne peut pas faire plus en classe. On va leur montrer la culture, mais ce n'est pas pour tout le monde.'

⁴⁵ 'Il y a d'autres priorités je le sais, mais le problème pour mes étudiants dans l'économie, ce n'est pas la priorité numéro un parce qu'il y a du travail. Même si ce n'est pas un bon job, ils vont pouvoir travailler en anglais ou dans leur langue. Ce n'est pas qu'ils ne veulent pas travailler en français, mais il y a le côté d'urgence aussi. Ils ne sont pas obligés de venir, ils ne sont pas financés.'

⁴⁶ 'Au départ, ils veulent maîtriser l'anglais parce qu'ils veulent—they ont une conception que l'anglais c'est une langue internationale puis ils arrivent avec cette idée de leur pays et ils se rendent compte que si tu maîtrises l'anglais ce n'est pas suffisant pour les Québécois. À moins que tu décides de démanger.'

⁴⁷ 'De dire, je peux me débrouiller en anglais ou même dans ma communauté parce que finalement je peux coiffer dans ma coiffeuse iranienne, je peux entrer dans un restaurant indien. Ça dépend [...] mais c'est vraiment le rôle d'essayer de dire qu'en français ça se passe. Je n'aime pas généraliser.'

Pan dw i'n siarad amdano, dw i'n ceisio siarad ag argyhoeddiad er mwyn dangos iddynt. Mae'n wir y gallant fyw yn Saesneg. Mae'n wir y bydd ganddynt lai o ddewis. Maen nhw eisiau ennill arian yn hytrach na cholli blwyddyn mewn addysg. Dw i'n deall safbwynt y mewnfudwr. Ond dydw i ddim yn gorfod ei dderbyn.⁴⁸ **Tiwtor francisation 5**

Yn ogystal â phwysleisio Ffrangeg fel y llwybr i gyflogaeth yn Québec, eglura'r tiwtoriaid fod ganddynt rôl ddiwylliannol i egluro pam mae pobl yn siarad Ffrangeg a sut mae Québec yn wahanol yn ddiwylliannol ac yn wleidyddol i weddill Canada. Mae'r elfen ddiwylliannol yn ôl un tiwtor yn bwysig er mwyn cymell mewnfudwyr i ymroi i'r realiti'r Ffrangeg neu'r *fait français*:

Mae'n anoddach cyfathrebu ar y dechrau. Roeddwn i wedi paratoi cwrs cryno iawn ar hanes Québec. Roedden nhw'n ymddiddori'n fawr yn yr hanes, yn arbennig oherwydd bod ganddynt brofion Dinasyddiaeth i'w gwneud. Mae angen gwybodaeth sylfaenol arnynt. Mae'n gwestiwn maen nhw'n ei godi'n aml—pam dych chi'n siarad Ffrangeg yma? Os nad ydyn nhw'n gwybod pam, yna does dim awydd ganddynt i gyfrannu at y realiti Ffrangeg.⁴⁹ **Tiwtor francisation 3**

Oherwydd pwyslais rhyngddiwylliannol Québecaidd ar ddysgu a chyfranogaeth drwy'r Ffrangeg, esbonia un tiwtor fod gwrthdaro â chysyniadau amlddiwylliannol Seisnig Canada. I nifer o fewnfudwyr, yn cynnwys mewnfudwyr sydd wedi symud o dalaith arall o Ganada i Québec, mae gofyn iddynt dderbyn egwyddorion cymdeithasol gwahanol. Er gwaethaf statws y Ffrangeg yn Québec, esbonia fod grym y Saesneg yn ddylanwadol iawn o hyd ym Montréal a'u bod nhw felly yn ymgeisio i ennill mewnfudwyr i'w hachos hwy:

Dw i'n dweud, dyw e ddim yn wleidyddiaeth i gyd, dyn ni'n byw wrth gwrs mewn gwlad o'r enw Canada sydd yn hyrwyddo amlddiwylliannedd. Fy hun, dw i ddim yn credu ynddo. Wel, maen nhw'n iawn yn eu cymunedau nhw a dyn ni'n dweud wrthynt i newid, dyw e ddim yn hawdd. Felly, ar y lefel yna, mae'n iawn iddynt ond dw i ddim yn meddwl bod hynny o fudd iddynt. Ar ben hynny, mae gennym

⁴⁸ 'Quand j'en parle, j'essaie d'en parler avec conviction pour leur montrer. C'est sûr qu'ils peuvent vivre en anglais. C'est vrai qu'ils vont avoir moins de choix. Ils veulent gagner de l'argent plutôt que perdre un an à l'école. Je comprends d'un point de vue de l'immigrant. Mais je ne suis pas obligé de l'accepter.'

⁴⁹ 'C'est plus difficile à communiquer au début. J'avais préparé un cours très très résumé de l'histoire du Québec. Ils s'intéressaient beaucoup à l'histoire. Surtout parce qu'ils ont des tests de citoyenneté à faire. Ils ont besoin d'avoir certaines connaissances. Aussi, je pense qu'il est intéressant pourquoi. C'est une question qu'on m'a souvent posée. Pourquoi, on parle français ici? Si on ne sait pas pourquoi, on n'est pas très intéressé à poursuivre finalement le fait français.'

broblem ychwanegol, sef y Ffrangeg. Pe bai popeth yn Saesneg, dw i'n amau a fyddai gennym yr un problemau.⁵⁰ **Tiwtor francisation 1**

Mae yna isymwybod 'ond dwi ddim yn 100% yn Ffrangeg, dw i dal yn well yn Saesneg'. Dyma ein gelyn, nid Saesneg yw'r gelyn ond y ffaith ein bod yn dweud, os oes problem, y gallwn ymdopi yn Saesneg. Dyna yw e. Os nad yw hyn yn cael ei ddatrys, ni fydd gennym fewnfudo drwy'r Ffrangeg.⁵¹ **Tiwtor francisation 1**

Serch hynny, dyweda y tiwtoriaid eu bod hwy'n anghytuno â disgwrs cyhoeddus sydd yn tueddu i feirniadu arwahaniad mewnfudwyr yn y gymdeithas. Honnant fod y sawl sydd ar gyrsiau Ffrangeg yn deall gofynion sylfaenol y gymdeithas ac o ganlyniad, mae nifer yn dymuno dysgu Ffrangeg am resymau integreiddiol yn ogystal â rhesymau offerynnol:

Ydw, dw i'n meddwl bod ewyllys i integreiddio. Maen nhw'n deall bod Québec yn gymdeithas Ffrangeg hyd yn oed os yw Saesneg ac ieithoedd eraill yn bresennol ym Montreal. Maen nhw'n deall bod bywyd gwleidyddol, cyhoeddus a dinesig yn digwydd yn Ffrangeg. Mae 'na ewyllys. Nid gwaith yn unig yw e, allan nhw ddim bod yn anwybodol ohono achos ein bod yn gofyn am feistrolaeth mewn Ffrangeg mewn cyfweliad. Ond dyw e ddim i wneud â'r gwaith yn unig. Maen 'na ewyllys i integreiddio a chymryd rhan mewn cymdeithas.⁵² **Tiwtor francisation 3**

Mae 'na bobl o'm cwmpas sydd yn meddwl nad yw mewnfudwyr yn gwneud unrhyw ymdrech i integreiddio. Mae'n bleser dweud wrthynt fod y mewnfudwyr o'm blaen yn y dosbarth yn benderfynol iawn o integreiddio.⁵³ **Tiwtor francisation 5**

Dw i'n teimlo eu bod nhw [y myfyrwyr] yn llawer mwy agored na dyn ni'n ei feddwl. Llawer mwy. Maen nhw'n hoffi gweld pethau fel y *cabanes à sucre*⁵⁴. Y lefelau mynediad sydd gennyf bob tro a dyw e ddim bob tro yn hawdd ond gyda'r

⁵⁰ 'Je dis, ce n'est pas toute la politique, on est quand même dans un pays qui s'appelle le Canada où on prône le multiculturalisme. Moi je ne crois pas à ça. Alors, eux ils sont bien dans les communautés et on leur dit de changer ça, ce n'est pas facile. Donc, à ce niveau là, c'est correct pour eux, mais je ne pense pas que ça leur rend service puis on a une difficulté supplémentaire, c'est le français. Si on était tout anglophone, je ne pense pas qu'on aurait les mêmes difficultés.'

⁵¹ 'Il y a un subconscient—' mais je ne suis pas 100% français [...] je suis toujours meilleur en anglais ». Ça c'est notre ennemi, ce n'est pas l'anglais, notre ennemi, c'est le fait de se dire, s'il y a un problème, je vais me débrouiller en anglais. C'est ça. Si ça n'est pas réglé, on n'aura pas une immigration en français.'

⁵² 'Oui, je pense qu'il y a un vouloir pour s'intégrer. Ils comprennent que le Québec est une société francophone même si l'anglais et d'autres langues sont présentes à Montréal. Ils comprennent que la vie politique, la vie publique, citoyen, se passent en français. Il y a une volonté. Ce n'est pas juste le travail, on ne peut pas l'ignorer parce qu'on leur demande en entrevue, une maîtrise du français. Donc, mais il n'y a pas simplement du travail. Une volonté de s'intégrer qui fait partie de la société.'

⁵³ 'Il y a des gens autour de moi, qui pensent les immigrants ne font aucun effort pour s'intégrer. C'est un plaisir de leur dire que les immigrants en face de moi dans la classe sont vraiment déterminés à s'intégrer.'

⁵⁴ Tŷ siwgr neu *Sugarshack* yn Saesneg lle caiff surop masarn ei wneud.

lefelau uwch, rhaid cyfleu'r diwylliant, nid caneuon bach yn unig.⁵⁵ **Tiwtor francisation 1**

Cred y tiwtoriaid fod gan bolisi rôl flaenllaw yn darparu ac ariannu'r rhaglen *francisation*.

Yn hyn o beth ystyriant fod cydraddoldeb mynediad i fewnfudwyr fel y gymuned groeso yn hanfodol er mwyn hwyluso integreiddio. Serch hynny, yn unol â sylwadau Llywodraeth Québec, credant fod rhai agweddau ar y broses integreiddio y tu hwnt i ddylanwad polisi ac yn nwylo'r gymuned groeso a'r mewnfudwyr:

Y ddwy ochr yw e. Ond ar yr un pryd, dw i'n meddwl bod y Québécois yn gwneud llawer yn barod [...] fel, yma, dw i'n teimlo bod y system yn hael hyd yn oed os yw e'n wleidyddol. Mae'n hael eisoes i ddymuno integreiddio drwy raglenni *francisation*. Mae hyn yn gryn dipyn yn barod. Yn sicr, mae'n rhaid i'r Québécois wneud tipyn bach hefyd.⁵⁶ **Tiwtor francisation 4**

Dw i'n dweud wrthynt, ewch at y Québécois, ewch at y sefydliadau. Ti sydd angen mynd i chwilio am hyn i gyd. Dyn ni'n gwneud hyn wrth eu ffrangegeiddio. Fel hyn, maen nhw'n ymddiddori mwy yn Québec—os oes arian ganddynt, maen nhw'n gallu teithio i lefydd. Dyna sy'n allweddol. Oes oes arian gennynt, rwy'ti'n gallu dod i nabod Québec o gymharu ag aros ym Montreal. Dyna yw e. Y mwyaf y mae gan fewnfudwyr yr un mynediad i'r un pethau â'r Québécois, y mwyaf o fynediad y cânt, y mwyaf y byddan nhw'n integreiddio.⁵⁷ **Tiwtor francisation 3**

Honna'r tiwtoriaid nad yw cwblhau'r rhaglen *francisation* yn ddigonol er mwyn hybu cyswllt â'r gymuned groeso. Yn hyn o beth credant fod angen mwy o waith i bontio'r rhaglen *francisation* a mynediad at swyddi Ffrangeg yn y gweithle.

Gwelwyd bod y tiwtoriaid yn parchu Mesurau Iaith Québec sydd wedi agor posibiladau i'r gymuned groeso gynnig addysg drwy gyfrwng y Ffrangeg i blant ac oedolion sydd yn newydd-ddyfodiaid. Ystyriant hefyd fod eu rôl nhw yn ganolog i'r broses integreiddio ac

⁵⁵ 'Moi je trouve qu'ils [les étudiants] sont beaucoup plus ouverts que l'on pense. Beaucoup plus. Ils aiment ça voir les cabanes à sucre. J'ai toujours les niveaux débutants et ce n'est pas toujours facile, mais avec les niveaux un peu plus, puis il faut fournir la culture, pas juste les chansons.'

⁵⁶ 'C'est les deux côtés. Oui, mais en même temps, je pense que les Québécois ont fait déjà beaucoup [...] Alors ici, je trouve que c'est un système déjà généreux même si c'est politique. C'est déjà généreux de vouloir intégrer par des programmes de francisation. C'est déjà pas mal. Alors, c'est sûr qu'il faudrait que les Québécois fassent un petit peu.'

⁵⁷ 'Je leur dis, 'va vers le Québécois, va vers les institutions. C'est toi qui dois aller chercher tout ça. En fait ça en même temps que franciser. Là, ils s'intéressent plus au Québec, ils ont de l'argent, ils peuvent voyager partout. C'est ça la clé. Si tu n'as pas d'argent, tu ne peux pas connaître le Québec alors tu va rester à Montréal. Je pense que c'est ça. Plus les immigrants ont l'accès aux mêmes choses que les Québécois, plus ils ont l'accès, plus ils vont être intégrés.'

fel hynny, mae disgwyl iddynt gyfleu neu berswadio'r unigolion bod gwerth dysgu Ffrangeg ym Montreal. Gwelwyd felly bod profiad addysgol y myfyrwyr o safbwynt y tiwtoriaid yn ystod y rhaglen *francisation* yn hollbwysig i lwyddiant yr unigolion i integreiddio'n gyflawn i'r gymdeithas. Crybwylla'r tiwtoriaid y gobeithiant am welliannau i'r rhaglen *francisation* gyda mwy o bartneriaethau rhwng y gweithle a'r rhaglen *francisation*. Serch hynny credant fod llwyddiant yr unigolion ar gyrsiau *francisation* yn ddibynnol ar ffactorau personol megis lefelau addysg, chwilfrydedd yr unigolyn a sicrwydd swyddi. Yn ôl model MAI, gogwydd integreiddio-drasnewidiol (*integrationnisme-transformation*) sydd yn nodweddiadol wrth iddynt gefnogi mewnfudwyr i ymaddasu i Québec drwy ddysgu Ffrangeg. Parchant hefyd eu hieithoedd cynhenid er nad oes darpariaeth addysg i gadw a chynnal eu hieithoedd brodorol. Yn hyn o beth, edrychir yn awr ar ymagweddau'r myfyrwyr sydd o fewn pum mlynedd o gwblhau'r rhaglen *francisation*.

4.3.3. Myfyrwyr *Francisation*

Roedd nifer o'r myfyrwyr y cyfwelwyd â hwy wedi mewnfudo i Québec yn uniongyrchol o'u gwledydd brodorol drwy *Immigration Québec*. Roeddent yn ymwybodol o bwysigrwydd y Ffrangeg ac roedd nifer ohonynt wedi gwneud ymdrechion i ddysgu Ffrangeg sylfaenol cyn ymsefydlu ym Montréal. Roedd yr unigolion hyn hefyd wedi ymrestru ar gyrsiau *francisation* ar ôl cyrraedd Québec a nodant mai'r gwersi Ffrangeg oedd eu prif gyswllt ag iaith a diwylliant Québec. Esbonia'r myfyrwyr bod y profiad o'r rhaglen *francisation* y tu hwnt i ddysgu iaith am eu bod yn dysgu'n neilltuol am ddiwylliant a hanes Québec ar yr un pryd. I'r unigolion hyn, profiad integreiddio gwerthfawr ydoedd wrth ymglyfarwyddo â chymdeithas newydd:

Nid yw'r rhaglen ffrangegeiddio yn ymwneud â dysgu Ffrangeg yn unig. Dyn ni'n dysgu llawer o bethau yn gysylltiedig â'r diwylliant Québécois. Roedd hwn yn help mawr. Mae'r *francisation* wedi'i gwneud yn dda. Dysgais lawer o bethau.

Fe'm helpodd i integreiddio i'r diwylliant. Aethon ni ar wibdeithiau'n aml, aethon ni i'r *cabanes à sucre*.⁵⁸ **Myfyriwr francisation**

Nid yr iaith yw e. Mae'r *francisation* yn gyfnod er mwyn ymglyfarwyddo â'r wlad. I ni, yr hyn a wnaethon ni oedd mynd i Brifysgol am flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn, ddefnyddion ni'r amser er mwyn ymaddasu ac adnabod y ddinas ac ati [...] mae blwyddyn gyda chymorth ariannol—mae'n arian pwysig iawn ar gyfer byw, ond hefyd yn ystod y flwyddyn dyn ni'n gwneud gweithgareddau ymaddasu a dyn ni'n derbyn cyngor, gweithwyr cymdeithasol sydd yn gallu ein helpu ni.⁵⁹ **Myfyriwr francisation**

Gyda'r gyfarwyddwraig, cawson ni gyfle i ymweld â'r amgueddfeydd, y ffermydd afalau. Cawson ni gyfle i wyllo ffilmiau Ffrangeg. I fi, yn bersonol, dw i'n meddwl bod y *francisation* yn fendigedig. Dw i'n hoff iawn o'r *francisation*. Mae 'na rai eraill sydd ddim yn ei hoffi. Mae fy mhrofiad i yn un da iawn.⁶⁰ **Myfyriwr francisation**

Bron bob dydd, mae yna rywbeth newydd i ddarganfod yn y *francisation*. Yma, mae'r wlad yn cadw ei diwylliant. Mae'n dda iawn. Dw i'n teimlo nad ydw i'n gwybod llawer am fy ngwlad, ar ôl [y rhaglen *francisation*], dwi'n meddwl mod i'n gwybod mwy am fan hyn na fy ngwlad fy hun!⁶¹ **Myfyriwr francisation**

Esbonia un fyfyrwraig *francisation* bod dwy ran eglur i'w cyrsiau hwy, iaith yn y bore a diwylliant yn y prynhawn gan gynnwys ymweliadau cymdeithasol wythnosol:

Mae 'na wastad ddwy ran. Y rhan ramadegol, llenyddol a'r ail, maen nhw'n arddangos pethau am yr hanes a bywyd ac ati. Yn yr ail ran, maen nhw'n dechrau dweud wrthom, dyn ni'n dweud hyn, dyn ni'n siarad fel hyn. Mae mwy o gyswllt gyda bywyd bob dydd [...] bob wythnos dyn ni'n gwneud o leiaf un gweithgaredd allgyrsiol. Dyn ni wedi mwynhau mewn bar. Maen nhw'n dangos y pethau pwysig. Mae 'na gemau er mwyn dechrau siarad fel y bobl yma.⁶² **Myfyriwr francisation**

⁵⁸ 'Le programme de francisation, ce n'est pas seulement le français. On apprend beaucoup de choses par rapport à la culture québécoise. Ça m'a aidé beaucoup. La francisation, c'est bien fait. J'ai appris beaucoup de choses. Ça m'a aidé beaucoup à intégrer dans la culture. On a fait des sorties souvent, on est allé à la cabane à sucre.'

⁵⁹ 'Ce n'est pas la langue. La francisation est une période pour s'adapter au pays. Nous, ce qu'on a fait est d'aller à l'université pendant une année et pendant cette année, on a aussi utilisé ce temps pour s'adapter et connaître la ville et tout. [...] Un an avec la subvention—c'est un argent très important pour vivre, mais aussi pendant cette année on pourrait avoir les activités d'adaptation et avoir des conseils, les travailleurs sociaux qui peuvent aider.'

⁶⁰ 'Avec la monitrice on avait eu l'occasion de visiter les musées, les fermes où ils cultivent les pommes. On a eu l'occasion de regarder les films francophones. Pour moi, personnellement, je pense que la francisation est merveilleuse. J'aime beaucoup la francisation. Il y a aussi les personnes qui n'aiment pas la francisation. Mon expérience est qu'elle est vraiment quelque chose de bien.'

⁶¹ 'Presque tous les jours, il y a quelque chose vous devez connaître dans la francisation. Ici, ce pays garde sa culture. C'est très bon. Moi, j'ai trouvé que je ne connaissais pas beaucoup de choses de mon pays et après je pense que je connais plus d'ici que mon pays!'

⁶² 'Toujours il y a comme deux parties. La partie grammaire, littérature et la deuxième ils te montrent des choses de l'histoire et la vie et tout ça. Dans l'autre partie, ils commencent à nous dire, on parle comme ça, on dit comme ça. C'est plus une connexion avec la vie quotidienne [...]

Cytuna'r myfyrwyr fod rôl y tiwtor yn mynd ymhellach na thiwtor iaith yn unig. Yn y dyfyniad isod, gwelir bod y tiwtor yn gyfeirbwynt diwylliannol ond hefyd yn gymorth ar gyfer anghenion gyrfaoel a phersonol yr unigolyn:

Roedd e'n athro, ond roedd e'n fwy na hynny. Er enghraifft, pan ffeindiais i waith, gofynnais iddo roi geirada i fi. Fe ffoniodd fy nghyflogwr a rhoddodd y tiwtor eirada da iawn iddo. Roedd e'n rhywun a oedd yn fwy nag athro, roedd e'n fy nabod fel person ac roedd e wastad yn ein cofio. Weithiau roedd e'n anfon negeseuon bach, pethau fel hynny. Person oedd e—doedd e ddim yn ein hystyried fel myfyrwr, ond fel pobl.⁶³ **Myfyriwr francisation**

Dywed un tiwtor bod yr ystafell ddosbarth a'r ganolfan *francisation* yn fan cyfarfod i nifer fawr o fewnfudwyr o bedwar ban y byd. Am y rheswm hwn mae'r canolfannau iaith yn gyfystyr â man 'integreiddio':

Mae'r ymdeimlad o berthyn yn cael ei greu yn y ganolfan—rhwydwaith sydd gennym yn y dosbarth. Ond y tu hwnt i hynny, dw i ddim yn gwybod.⁶⁴ **Tiwtor francisation 5**

Er gwaethaf cymorth a chefnogaeth y tiwtor a'r canolfannau iaith, tybir i ba raddau yr oedd mewnfudwyr yn datblygu o fod yn ddysgwyr ar y rhaglen *francisation* i siaradwyr yn y gymuned.

4.3.4. O'r Dosbarth *Francisation* i'r Gymuned

Yn hyn o beth, mae'r data yn dangos bod cyfyngiadau ar rôl y tiwtor wedi i fewnfudwyr adael yr ystafell ddosbarth a chwblhau'r cyrsiau *francisation*. Yn y cyswllt hwn, disgrifia un myfyriwr y profiad *francisation* fel bod mewn 'capsiwł':

Yn y dosbarth dyn ni'n mewn capsawl. Mae popeth yn iawn, ond wedyn rhaid inni fynd allan i'r stryd a dod i nabod y byd go iawn.⁶⁵ **Myfyriwr francisation**

oui, au moins chaque semaine on faisait une sortie. On s'est amusé dans un bar. Ils nous montrent des choses importantes. Il y a des jeux pour commencer à parler comme les personnes d'ici.'

⁶³ 'Il était un professeur, mais il était plus que ça. Par exemple, quand je trouvais mon emploi, je lui ai demandé de me donner des références. Mon employeur lui a appelé. Il [nom du professeur] lui a donné de bonnes références. C'était une personne qui n'était pas seulement mon professeur, il me connaissait en tant que personne et ils se souviennent toujours de nous et parfois ils envoient des petits messages et des choses comme ça. C'était une personne—il ne nous connaissait pas comme des étudiants, mais comme des personnes.'

⁶⁴ 'Le sentiment d'appartenance qui se crée au centre—c'est un réseau dans la classe. Mais au delà de ça, je ne sais pas.'

Dywed eraill ei bod yn her iddynt ddefnyddio'r Ffrangeg yn y gymuned oherwydd bod nifer yn ymateb iddynt yn Saesneg. Maent yn ymwybodol nad yw pawb yn amyneddgar at ddysgwyr yr iaith ac yn colli amynedd â hwy, am eu bod yn troi i'r Saesneg neu oherwydd bod y siaradwr Ffrangeg yn teimlo bod rhaid troi i'r Saesneg ei hunan:

Ces i drafferth yn eu deall. Gofynnais am eglurhad yn Saesneg ond roedden nhw'n grac. Doeddwn i ddim yn gwybod a oedden nhw'n dweud 12 neu 2 o'r gloch. Dywedais i 'allwch chi ailadrodd yr amser yn Saesneg?' achos do'n i ddim yn siŵr a oeddwn yn gallu gwahaniaethau rhwng y ddau. Dechreuodd hi ddweud wedyn fod ganddi hawl i weithio yn Ffrangeg. Pan wyt ti'n siarad, mae'n amlwg—dwyt ti ddim yn gallu cael gwared ar yr acen.⁶⁶ **Myfyriwr francisation**

Er gwaethaf presenoldeb Ffrangeg yn y ddinas, cydnebydd y tiwtoriaid fod yna heriau i'r mewnfudwyr ddod i nabod aelodau'r gymuned groeso a bod nifer o'u cysylltiadau hwy yn tueddu i fod yn fewnfudwyr eraill:

Mae'n wir ei bod yn anodd. Yn aml, mae eu ffrindiau yn fewnfudwyr hefyd. Ond pan maen nhw'n mynd allan i'r stryd, mae'n anodd dod yn ffrind â rhywun ar y stryd er mwyn magu gwir berthynas, ar wahân dy fod yn mynd i'r un siop wastad yn siarad â'r un person.⁶⁷ **Tiwtor francisation 1**

Mae'n anodd i'r myfyrywyr. Dydyn nhw ddim yn gwneud dim gyda siaradwyr Ffrangeg. Mae gan rai brofiadau negyddol.⁶⁸ **Tiwtor francisation 2**

Maen nhw'n dweud taw'r broblem yw eu bod nhw'n siarad yn y dosbarth ond pan maen nhw'n gadael y fan hon—dyn ni byth yn ei siarad. Mae'n wir felly. Hefyd, maen nhw'n ceisio siarad a mae pobl yn eu hateb yn Saesneg.⁶⁹ **Tiwtor francisation 5**

Dyw llawer o fyfyrwyr sydd yn gadael yr ysgol [canolfan cymunedol] ddim yn siarad Ffrangeg wedyn. Dw i'n credu ei bod yn cymryd amser. Gyda'r fenyw, yr

⁶⁵ 'Dans les cours on est dans une capsule. Tout est bien, mais après on doit sortir dans la rue et connaître la réalité.'

⁶⁶ 'J'avais la misère à les comprendre. Et je demandais pour une clarification en anglais et là ils étaient fâchés. Je ne savais s'ils disaient 12 heures ou 2 heures. J'ai dit, 'est-ce que vous pouvez répéter l'heure en anglais?' parce que, moi, je savais que je ne suis pas capable de dire les différences entre [...] elle a commencé qu'elle avait le droit de travailler en français. Quand tu parles, c'est évident—tu ne peux pas effacer l'accent.'

⁶⁷ 'C'est vrai que c'est difficile. Souvent, leurs amis, c'est d'autres immigrants. Mais quand ils sortent dans la rue, c'est dur de devenir ami avec quelqu'un dans la rue pour avoir une relation vraie à moins que tu ailles au même magasin et que tu parles toujours avec la même personne.'

⁶⁸ 'C'est difficile pour les étudiants, ils ne sortent pas avec personne qui parle français. Certains ont de mauvaises expériences.'

⁶⁹ 'Ils disent que le problème c'est qu'on parle dans la classe, mais quand on sort d'ici, on ne parle jamais. Puis, c'est vrai. Puis souvent, ils vont essayer de parler et les gens vont leur répondre en anglais.'

Eidales, mae hi wedi bod yma ers amser hir ond dyw hi ddim yn siarad Ffrangeg. Ond mae llawer yn integreiddio drwy ddysgu Ffrangeg. Mae'n dibynnu ar eu diwylliant cynhenid, eu hoedran, eu plant, eu cymuned yma.⁷⁰ **Tiwtor francisation 2**

Gwelwyd mai pwyslais Llywodraeth Québec yw sicrhau gwaith trwy gyfrwng y Ffrangeg er mwyn integreiddio mewnfudwyr yn gymdeithasol a gwella'u sgiliau Ffrangeg. Serch hynny, yn ôl y cyfweiliadau â'r mewnfudwyr, nodwyd bod y mwyafrif heb sicrhau cyflogaeth mewn gweithle Ffrangeg ei iaith ar adeg y cyfweiliad:

Mae'n sefyllfa anodd oherwydd bod y Llywodraeth eisiau i bawb siarad Ffrangeg, ond nid dyma sydd yn digwydd yn y gwaith.⁷¹ **Myfyriwr francisation**

Roedden ni'n dipyn bach yn drist achos dyn ni'n hoffi dwyieithrwydd yma ym Montreal a Québec. Ond, er enghraifft, yn fy achos i, astudiais Ffrangeg yn y Brifysgol am flwyddyn ond pan wnes i'r cyfweiliad cefais wybod bod y swydd i gyd yn Saesneg felly roedd rhaid i mi newid popeth i Saesneg. Roedd e'n ofnadwy i fi.⁷² **Myfyriwr francisation**

Yn hyn o beth, heb gyswllt â rhwydwaith o siaradwyr Ffrangeg tu allan i'r Ganolfan francisation, honna'r mewnfudwyr bod ymgysylltu â'r gymuned groeso yn peri problemau iddynt:

Mewn gwirionedd, dw i'n siarad [Ffrangeg] gydag un ferch yn unig, ond anaml iawn yw hynny achos siaradais fwy pan o'n i'n astudio yn yr ysgol a phan oeddwn i'n gwneud y cwrs sylfaenol. Nawr, dw i ddim yn gwneud cymaint. Mae'n anodd ffeindio cyfleoedd i siarad.⁷³ **Myfyriwr francisation**

Yn anffodus yn y gwaith, mae fy nghyd-weithiwr yn dod o Golombia felly mae'n siarad Sbaeneg gyda fi. Mae fy mhennaeth yn dod o Drindad a Tobago ac felly mae'n siarad Saesneg gyda fi a'r mae'r llall yn siarad Ffrangeg, ond dyw e byth yn

⁷⁰ 'Il y a beaucoup d'étudiants qui sortent de l'école et ne parlent plus le français. Je pense que ça va prendre le temps. Pour la dame, l'Italienne, ça fait longtemps qu'elle est là et ne parle pas français. Mais beaucoup quand même s'intègrent en apprenant le français. Ça dépend de la culture d'origine, leur âge, des enfants, leur communauté ici.'

⁷¹ 'C'est une situation difficile parce que le gouvernement essaie que tout le monde parle le français, mais ce n'est pas ce qui se passe dans les travaux et dans les domaines.'

⁷² 'C'était un peu triste pour nous parce que nous aimons le bilinguisme ici à Montréal et au Québec, mais par exemple dans mon cas, j'ai étudié à l'université (ACC) une année en français et quand je faisais l'entrevue j'ai découvert que tout mon travail était en anglais alors je devais encore changer ma tête pour l'anglais. C'était terrible pour moi.'

⁷³ 'En fait, je parle seulement avec une fille, mais c'est vraiment très sporadique parce que j'ai parlé plus avant quand j'étais à l'école et quand j'étais à la fondation. Maintenant, comme je ne suis pas active. C'est difficile à trouver les moments de parler.'

y swyddfa. Yn y diwedd, mae pawb yn siarad Saesneg yn y swyddfa. Mae'n drist.⁷⁴ **Myfyriwr francisation**

Gwelir felly bod anawsterau ar yr unigolion hyn i gael mynediad at waith mewn cwmnïau Ffrangeg ac i ddatblygu cysylltiadau gyda'r gymuned groeso. Maent yn cydnabod bod Ffrangeg yn allweddol ar gyfer cael swydd well ond mae'r llwybr at gyrraedd y lle hwnnw yn anoddach. Dywedodd fod prosesau llym y gweithle yn Québec gan gynnwys safonau uchel Ffrangeg yn eu hanffafrio rhag cael swydd well:

Hoffwn i gael y cyfle i ymarfer Ffrangeg yn y gwaith achos dyn ni wedi gweithio mewn cwmnïau bach iawn os ydym ni eisïau gyrfa well gyda llawer o gyfleoedd i ddatblygu, byddai'n well ymarfer Ffrangeg achos bod y swyddi gwell yn Ffrangeg. Pan ddaw'r cyfle i ffeindio swydd arall neu gwmni mwy, dw i'n gwybod y bydd Ffrangeg yn bwysig iawn, iawn.⁷⁵ **Myfyriwr francisation**

Does dim llawer iawn o hyder ganddynt gyda'r Ffrangeg. Ar gyfer sgwrs, ond dim ar gyfer cyfweiliad. Dw i'n meddwl bod hyn yn ein poeni ychydig.⁷⁶ **Myfyriwr francisation**

Er gwaethaf polisi ieithyddol Québec sydd yn blaenoriaethu Ffrangeg, ystyria'r mewnfudwyr fod angen y ddwy iaith arnynt er mwyn sicrhau cyflogaeth dda yno. Er bod y mewnfudwyr yn fodlon gyda'r ddarpariaeth *francisation* gan Lywodraeth Québec, ymddengys eu bod yn ffafrio darpariaeth lle gellid cael mynediad cyfartal at Saesneg yn ogystal â Ffrangeg:

Dwedwn i fod y mwyafrif o gyfleoedd swydd—mae angen bod yn ddwyieithog. Ie, mae'r Ffrangeg yn bwysig yn Québec, ond dw i'n hollol ymwybodol bod Saesneg yn iaith ryngwladol. Dw i eisïau bod yn ddwyieithog Ffrangeg-Saesneg. Byddai'r Ffrangeg yn bwysig, ond Saesneg hyd yn oed yn fwy, yn enwedig yn y

⁷⁴ 'Malheureusement dans le travail, ma collègue, c'est un Colombien alors je parle espagnol avec lui. Mon patron il vient de Trinidad et Tobago alors il parle l'anglais et l'autre patron parle français, mais il n'est jamais dans le bureau. À la fin, tout le monde parle anglais dans le bureau. C'est triste.'

⁷⁵ 'Moi je voudrais avoir l'occasion de pratiquer le français au travail parce que nous avons travaillé dans les compagnies très petites et si on veut une carrière avec beaucoup d'opportunités de grandir ça serait mieux de pratiquer le français parce que les meilleurs travaux sont en français, mais alors oui, je voudrais pratiquer le français un peu plus. Quand c'est le moment de trouver un autre travail ou une compagnie plus grande, je sais que le français serait très très important.'

⁷⁶ 'On n'a pas beaucoup de confiance avec le français—pas pour une conversation, mais pour une conversation d'entrevue. Je pense que ça va nous donner un peu de souci de parler de notre matière.'

farchnad waith. Mae Saesneg hyd yn oed yn fwy angenrheidiol.⁷⁷ **Myfyriwr francisation**

Pan dyn ni'n cyrraedd yma, mae llawer o bethau i feddwl amdanynt. Dyn ni'n meddwl mai'r Ffrangeg yw'r fwyaf pwysig, ond ar ôl inni ddechrau gweithio yn y farchnad waith, dyn ni'n sylweddoli nid felly y mae. I fy ngŵr, roedd hyn yn eglur iawn. Mae'n effeithio ar feysydd penodol Yn enwedig, fel yn y maes Technoleg Gwybodaeth er enghraifft—dyw e ddim wir yn siarad Ffrangeg. Nawr, dwedwn i, ein bod ni'n teimlo tipyn bach yn rhwystredig. Ie, mae'n wir.⁷⁸ **Myfyriwr francisation**

Ar gyfer mewnfudwyr sydd ddim â sgiliau Saesneg, mae hynny'n gallu bod yn sefyllfa anodd ac annisgwyl yn dilyn pwyslais *Immigration Québec* ar ei sgiliau Ffrangeg. Mae Llywodraeth Québec yn hyrwyddo unieithrwydd ac yn cyfleu bod y Ffrangeg yn ddigonol ond noda un fyfyrwraig fod pwysigrwydd dwyieithrwydd Saesneg a Ffrangeg yn gorfodi'r mewnfudwyr i ail-ystyried ac ymestyn eu 'prosiect' integreiddio i Québec:

Mae'n annifyr. Dyn ni'n dod gyda chyllideb. Mae gennyn ni gynllun llawn. Cynllun ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Mae gennyn ni bopeth, dyn ni'n dod yma a rhaid inni ddysgu Saesneg, mae e'n rhywbeth tu hwnt i'n rhaglen. Mae ffrindiau gyda fi a wnaeth astudio Saesneg achos sylweddolion nhw ei bod yn anghenreidiol—os y byddan nhw'n siarad Ffrangeg gyda ti mewn cyfweiliad—byddan nhw'n dweud 'rhaid i ti siarad Saesneg' hyd yn oed os nad yw'r person yn siarad Saesneg! Mae hynny'n ehangu'r broses integreiddio—o leiaf un flwyddyn yn hirach.⁷⁹ **Myfyriwr francisation**

Serch hynny, dyweda'r fewnfudwraig ei bod yn cydymdeimlo â phwyslais Llywodraeth Québec ar y Ffrangeg oherwydd cyd-destun gwleidyddol a diwylliannol yr is-wladwriaeth. Mae'r myfyrywyr yn bennaf oll yn falch o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt i ddysgu

⁷⁷ 'Je dirai que la plupart des emplois disponibles—il faut être bilingue. Oui, le français est important au Québec, mais je suis plein conscient que l'anglais est la langue mondiale. Mon prochain but est d'apprendre l'anglais. Je veux être bilingue français-anglais. Ça serait, le français—oui—il est important, mais l'anglais est encore plus. Surtout pour le marché du travail. L'anglais est encore plus déterminant.'

⁷⁸ 'Quand on arrive ici, il y a beaucoup de choses auxquelles il faut penser. On pense que vraiment le français est le plus important, mais après quand on a commencé à entrer dans le marché du travail on réalise que ce n'est pas comme ici. Pour mon mari, c'était vraiment clair ça. Surtout, il y a des domaines qui sont plus affectés. C'est comme le domaine d'informatique par exemple—il ne parle pas français vraiment. Maintenant, on dirait que nous on est un peu frustré. Oui, c'est vrai.'

⁷⁹ 'C'est embêtant. On vient ici avec un budget. On a toute une planification. C'est comme un plan qu'on fait pour les prochains cinq ans. On a tout—on vient ici et on doit suivre un cours d'anglais c'est une chose hors programme. J'ai des amis qui ont dû faire l'anglais parce qu'ils se rendaient compte que c'est très nécessaire même si dans l'entrevue ils vont toujours te parler en français—ils vont te dire 'tu dois parler anglais' même si la personne n'a pas d'anglais. Ça donne, ça fait que le processus d'intégration s'allonge—au moins un an de plus.'

Ffrangeg. Ymhellach, gwelir yn y dyfyniad isod fod y myfyriwr yn ymwybodol iawn o sefyllfa hanesyddol Québec a'r ymdrech i gynnal a chadw'r iaith. O ganlyniad, teimlant gyfrifoldeb a pharch tuag at y *fait français* yng Ngogledd America:

Ond, ar y llaw arall, dw i'n dweud ei bod yn drueni taswn i'n dod yma ac yn dysgu Saesneg yn syth. Heddiw, dwi'n meddwl 'mod i'n falch o siarad Ffrangeg. Mae'n strategaeth dda er mwyn dod yn ddwyieithog, dechrau gyda Ffrangeg.⁸⁰
Myfyriwr francisation

Mae'n wir fod y Ffrangeg yn broblematig achos dw i'n gwybod beth ddigwyddodd yn hanesyddol. Dw i'n meddwl ei fod yn bwysig iawn cadw'r Ffrangeg. Pan dw i'n rhoi fy hun yn safle'r bobl yma, dw i'n deall yn well bwysigrwydd y Ffrangeg yn well.⁸¹ **Myfyriwr francisation**

Yn sgil lleihad yn y niferoedd sydd yn siarad Ffrangeg yn ôl Cyfrifiad Canada yn 2006 a 2011, mae disgwrs cyhoeddus cynyddol ar fygythiad sydd yn wynebu'r Ffrangeg yn Montréal, yn benodol yr her i integreiddio mewnfudwyr alloffon drwy'r Ffrangeg (Longpré 2013). Serch hynny, mae ymchwil Corbeil a Houle (2013) yn canolbwyntio ar *trajectoire* ieithyddol y mewnfudwyr. Honnant fod mewnfudwyr Québec yn fwyfwy amlieithog (41.9% o fewnfudwyr diweddar ers 2011 yn siarad Ffrangeg a Saesneg a 41% yn siarad o leiaf tair iaith yn 2011). Dyweda Corbeil a Houle (2013) fod angen i ymchwil ieithyddol symud i ffwrdd oddi wrth gategoreiddio llym a derbyn bod perthynas unigolyn ag ieithoedd yn fwyfwy dialectig a chymysg.

Mae ymatebion y myfyrwyr *francisation* yn awgrymu bod y Saesneg fel y Ffrangeg yn perthyn i *trajectoire* ieithyddol yr unigolion. Ar y naill law, dengys ymatebion y myfyrwyr nad cwestiwn o integreiddio i'r gymuned Ffrengig neu i'r gymuned Saesneg mohoni ond sicrhau sgiliau yn y ddwy iaith. Honna Heller (2000) fod mewnfudo cynyddol yn gorfodi cymdeithas i ail-ystyried y berthynas rhwng iaith, integreiddio a dinasyddiaeth. Yn hyn o

⁸⁰ 'Mais, de l'autre côté, je dis que c'est dommage si je viens ici et j'apprends tout de suite l'anglais. Peut-être aujourd'hui, je suis fière d'apprendre le français. C'est une bonne stratégie pour être bilingue, commencer avec le français.'

⁸¹ 'C'est sûr que le français est une problématique parce que je sais au passé qu'il y a toute une histoire. Oui je pense qu'il est très important de garder le français. Quand je mets dans les peaux de gens ici, je comprends mieux l'importance de français.'

beth, mae categorïau ieithyddol traddodiadol a'r syniad o gymunedau ac ieithoedd ffiniedig yn cael eu herio yn benodol gan fewnfudwyr sydd yn dysgu iaith neu ieithoedd y gymdeithas groeso (Heller 2007). Awgryma Lamarre (2012) ymhellach fod y newidiadau mewn cymdeithas yn trawsnewid ymagweddau unigolion at adnoddau ieithyddol â'r farchnad ieithyddol. Dadleua Lamarre (2012) fod angen dealltwriaeth fwy eang o iaith fel rhinwedd ieithyddol. Dengys canlyniadau ei hymchwil hi nad yw mewnudwyr i Fontreal yn ymlynu ag un gymdeithas ieithyddol yn unig ond yn defnyddio'r Ffrangeg fel adnodd er mwyn symud *rhwng* y cymunedau. Er bod mewnudwyr cynyddol i Québec yn dangos perchnogaeth trwy ddysgu a defnyddio'r iaith, honna nad yw'r mewnudwyr o reidrwydd yn arddangos perchenogaeth dros hunaniaeth yr iaith—hynny yw nid yw dysgu Ffrangeg yn gwneud i berson deimlo'n *Québécois* neu *Québécoise*.

Serch hynny, mae'r canfyddiadau yn dangos bod yna gyfyngiadau ar berchenogaeth y myfyrwyr ar y Ffrangeg. Datgela ymatebion y myfyrwyr fod nifer yn y gymuned groeso yn cyfathrebu â'r cyfranogwyr yn Saesneg er gwaethaf ewyllys yr unigolion i gyfathrebu yn Ffrangeg. Yn yr ystyr hwn, nid ystyriant fod y mewnudwyr yn siaradwyr 'dilys' yr iaith. Mae hyn felly yn cyfleu heriau penodol i'r gymdeithas yn Québec a'r angen i ymateb i'r hyn y mae Pagé (2005) yn ei alw'n *hospitalité identitaire*. Yn ogystal â hyn, roedd rhai o'r cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hanffafrio yn y farchnad lafur am nad oedd eu sgiliau ieithyddol a phrofiad o weithio yng Nghanada yn ddigonol. Er gwaethaf y honiad mai dysgu Ffrangeg a/neu Saesneg yw'r porth at gyfranogaeth lawn yng Nghanada, mae'r anffafiaeth yn sgil trefn hegemonaid y gymdeithas yn fater o 'ddi-ddinasyddiaeth' yn ôl Heller (2013).

Er gwaethaf honiad bod mewnudwyr yn perchenogi'r iaith fel adnodd yn hytrach nag fel hunaniaeth, mae'r canfyddiadau yn dangos bod rôl bwysig gan y gymuned groeso tuag at

y mewnfudwyr sydd yn fyfyrwyr iaith. Mae'r canfyddiadau yn dangos eu bod hwy'n dymuno cael cyfleoedd i fod yn rhan o'r gymuned, er mwyn ymarfer yr iaith ac ymglyfeillio â'r gymuned groeso. Yn hyn o beth, gwelwyd bod rôl y canolfannau *francisation* yn hollbwysig yn eu *trajectoire* wrth gyflwyno iaith ac elfennau diwylliannol elfennol i'r mewnfudwyr. Ystyriwyd bod mewnbwn diwylliannol y rhaglen *francisation* yn galluogi'r mewnfudwyr i ddeall cyd-destun cymdeithasol ac ieithyddol Québec drwy adeiladu pontydd â'r gymuned groeso. Fel y dywed Cardinal (2012), mae cynlluniau sydd yn datblygu ymlyniad mewnfudwyr at yr iaith yn ganolog i ddyfodol Ffrangeg yn Québec.

Yn wir, mae'r canfyddiadau yn dangos proses drawsnewidiol sydd i ddysgu iaith yn unol â'r *trajectoire langagière*. Dangosa'r canfyddiadau sut y mae'r mewnfudwyr yn dymuno gwireddu cynllun neu *projet* penodol er mwyn integreiddio. Dangosant hefyd barodrwydd mewn nifer o achosion i ymaddasu i'r cartref newydd gan gynnwys dysgu Ffrangeg a Saesneg (Ralatatina *et al.* 2012). Mae'r *socialisation langagière* yn chwarae rhan allweddol yn caniatáu mewnfudwyr i weithredu'r cynllun. Gwelwyd hefyd sut y mae'r dosbarth iaith yn dod yn gymuned ymarfer i'r myfyrwyr iaith (Wenger 1991). Yn hyn o beth, mae eu hintegreiddiad cymdeithasol yn ddibynnol ar y cyrsiau *francisation*.

Serch hynny, cydnebydd y myfyrwyr fod yna heriau wrth dreiddio i'r gymuned Ffrangeg ei hiaith ym Montreal. Mae canfyddiadau'r ymchwil ymysg y grŵpiau gwahanol yn arddangos nad yw'r rhyngweithio rhwng y canolfannau, y gymuned groeso a'r mewnfudwyr yn ddigonol. Awgrymir felly nad yw dylanwad 'integreiddio' y canolfannau *francisation* o reidrwydd yn parhau dros yr hirdymor gan eu bod yn colli cyswllt gyda'r lleoliad a'r cysylltiadau ar ôl cwblhau'r rhaglen *francisation*. Mae pwysau felly ar y mewnfudwyr i sicrhau mynediad at rwydweithiau cymdeithasol trwy'r gweithle neu drwy rwydweithiau cymdeithasol eraill. Ceir un enghraifft o un fewnfudwraig yn ymateb i'r her

drwy ymrwymo â phartneriaethau iaith a gwaith elusennol. Adlewyrcha hyn ymdrech ehangach yn Québec i sefydlu partneriaethau iaith o'r enw *jumelages interculturels*. Yn ôl Carignan *et al.* (2013) mae mentrau o'r fath ar gynnydd mewn sefydliadau fel Prifysgol UQAM ym Montreal gyda'r nod o bontio myfyrwyr o Québec gyda myfyrwyr rhyngwladol ac ymarfer sgiliau iaith yn ogystal ag ymdrin â rhagfarnau ac anffafiaeth.

4.4. CASGLIAD: ADEILADU AR RYNGDIWYLLIANNEDD QUÉBEC

Mae'r bennod hon wedi cyflwyno trawstoriad o safbwyntiau i'r broses o integreiddio mewnfudwyr. Gwelwyd bod rôl polisi hollbwysig a chanolog i gymdeithas Québec. Cyfeirir felly at y *modèle d'acculturation interactif* (MAI) sydd yn adnabyddus am fesur ymagweddau grŵp ym maes seicoleg ac iaith ar lefel facrogymdeithasol. Ar sail y data ansoddol a gasglwyd yn Québec, awgrymir bod Llywodraeth Québec yn mabwysiadu ideoleg luosogol (*l'ideologie pluraliste*) ynghylch mewnfudwyr sydd yn dymuno dysgu Ffrangeg. Serch hynny, er gwaethaf tueddiadau lluosogol, awgryma'r canlyniadau fod yna elfennau o anghytgord ymhlith y mewnfudwyr (ymyleiddio—*marginalisation*) a hynny yn benodol ynglŷn ag ymarferion a defnydd iaith yn y gymuned ac yn y gweithle. Awgryma'r canlyniadau nad ymatebion polisi o reidrwydd sydd yn mynd i ddiwallu anghenion mewnfudwyr i integreiddio'n gymdeithasol ond rhyngberthynas mewnfudwyr a'r gymuned groeso ar lefel gymunedol. Yn hyn o beth, bydd y bennod neaf yn mynd i'r afael ag addasrwydd y model MAI ar gyfer data Cymru. Wrth ystyried y data hyd yn hyn awgrymir bod categoreiddio gogwyddau integreiddio mewnfudwyr yn peri inni weld prif dueddiadau mewn ymagweddau grŵp. Cydnabyddir serch hynny nad yw model o'r fath yn ystyried proses datblygol taith ieithyddol mewnfudwyr.

Yn yr ystyr hynny, mae Carignan *et al.* (2015) yn seilio egwyddorion y partneriaethau iaith mewn cyhoeddiad o'r enw *Jumelages interculturelles: communication, inclusion et*

integration. Yn y cyhoeddiad hwn, honna Bourhis fod y MAI yn gweithredu fel *passerelle conceptuelle*—pont gysyniadol—rhwng polisiau integreiddio'r Llywodraeth a chysylltiadau rhyngddiwylliannol rhwng y gymuned groeso a'r mewnfudwyr (Bourhis 2015, t. 22). Dadleua felly fod allbwn ymchwil macrogymdeithasol ar ymagweddau cydberthynol y model yn sail i fentrau pellach megis y *jumelages interculturels* sydd yn gweithredu ar lefel meicrogydmeithasol:

Mae'r partneriaethau rhyngddiwylliannol yn cynnig fframwaith ar gyfer cysylltiadau rhyngddiwylliannol mwy cyfartal sydd yn annog aelodau'r gymuned groeso fwyafriol i ystyried eu dyletswydd wrth hwyluso mewnfudwyr i integreiddio. Mae'r partneriaethau yn eu hannog i wneud ymdrech wrth roi croeso i'r rhain [mewnfudwyr] sydd ar y cyfan yn ei werthfawrogi. Mae hyn yn cyfrannu drwy hynny at gydlyniant cymdeithasol mewn Québec sydd am barhau i fod yn agored i amrywiaeth diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol (Bourhis *et al.* 2015, t. 29).⁸²

Mae'r canlyniadau ymchwil a gafwyd yn Québec yn awgrymu y byddai mentrau o'r fath yn mynd i'r afael â nifer o'r rhwystrau y mae'r mewnfudwyr yn eu profi ar lefel gymunedol. Yn hyn o beth, byddai cysylltu partneriaethau iaith â'r rhaglen *francisation* yn ddatblygiad ffafriol er mwyn pontio'r gymuned groeso a'r mewnfudwyr yn ogystal â sicrhau cyswllt parhaol â'r canolfannau iaith ar ôl gorffen y rhaglen ffrangegeiddio. Yn ôl Zapata-Barrero (2015), mantais cysyniad mwy cynhwysfawr o ryngddiwylliannedd a gyflwynir yn ei lyfr *Interculturalism in Cities* (2015) yw bod pwyslais ar reoli amrywiaeth o'r gwaelod i fyny yn hytrach na o'r gwaelod i lawr. Er bod polisiau Llywodraeth Québec ar gymhwyso amrywiaeth yn cael eu gwireddu o ben i lawr cymdeithas, mae mentrau cymunedol 'rhyngddiwylliannol' yn caniatáu i'r cysyniad ddatblygu o wreiddiau'r gymdeithas i fyny hefyd.

⁸² 'Les jumelages interculturels offrent un cadre de rencontre interculturelle plus égalitaire qui incite les membres de la majorité d'accueil à considérer qu'il est de leur responsabilité de faciliter l'intégration des immigrants. Les jumelages les encouragent à fournir un effort d'accueil largement apprécié par ces derniers, contribuant ainsi à la cohésion sociale d'un Québec qui se doit de demeurer ouvert à la diversité culturelle, religieuse et linguistique.'

Mae'r bennod hon yn gyfeiriad felly i'r ymchwil a wnaed yng Nghymru a amlinellir yn y bennod nesaf. Gwelir eisoes bod agweddau ar y model rhyngddiwyllynnol a'i ddiffiniad o gydlyniant cymdeithasol o berthnasedd i gyd-destun Cymru. Bydd y data yn y bennod nesaf felly yn pwysu a mesur dehongliadau ar gymhwyso amrywiaeth yn y ddau gyd-destun daearyddol. Trafodwyd ymagweddau cydberthynol dysgu Ffrangeg i fewnfudwyr o safbwynt Llywodraeth Québec, y tiwtoriaid a'r mewnfudwyr. Felly, wrth ganolbwyntio ar brosiect peilot i sefydlu dosbarthiadau Cymraeg i fewnfudwyr yng Nghymru, ystyrir rôl ganolog y lleoliadau a'r tiwtoriaid yno yn ogystal â goblygiadau integreiddio yn y gymuned. Wrth gyfeirio at y *trajectoire langagière*, ystyrir cyfleoedd i fewnfudwyr ddysgu Cymraeg a'r rhwystrau sydd yn eu hwynebu yn ogystal â mentrau i ddod â'r gymuned groeso a'r mewnfudwyr ynghyd.

Pennod 5: CANLYNIADAU CYMRU

Bydd y bennod hon yn dadansoddi ac yn dehongli'r data a gasglwyd o waith maes yng Nghaerdydd a Gwynedd yn 2014. Bwriad y bennod yw cyflwyno'r data sydd yn deillio o'r holl ddulliau ymchwil (cyfweiliadau, grwpiau ffocws ac arsylwadau dosbarth/ymchwil weithredu) a'r holl gyfranogwyr ymchwil (Llywodraeth Cymru, Cyngorau Lleol, Canolfannau Iaith ESOL/CiO a Mewnfudwyr) yng Nghaerdydd a Gwynedd. Y bwriad yw gosod lleisiau'r cyfranogwyr wrth galon y drafodaeth er mwyn tynnu sylw at y cymariaethau a'r gwrthdrawiadau mewn ymagweddau at fewnfudo, integreiddio ac addysg iaith. Yr ail nod yw dehongli'r data yn unol â'r cwestiynau ymchwil. Fel y bennod flaenorol ar ddata Québec, y mae i'r bennod hon dair rhan. Yn gyntaf, cyflwynir data sydd yn trafod cwestiynau ynghylch rheoli a chymhwysio amrywiaeth yng Nghymru. Yn ail, trafodir ymagweddau'r cyfranogwyr fesul grŵp ynghylch integreiddio ieithyddol trwy'r Gymraeg. Yn drydydd, cyflwynir a dehonglir data sydd yn disgrifio defnydd y Gymraeg gan fewnfudwyr yn y dosbarth a'r gymdeithas.

5.1. CYMHWYSO AMRYWIAETH: CYMRU

5.1.1. O Amlddiwylliannedd i Ryngddiwylliannedd: Polisi Llywodraeth Cymru

Yn y drafodaeth ym Mhennod 1, gwelwyd bod yr hyn y mae Vertovec a Wessendorf (2010) yn ei ddisgrifio fel 'adlach amlddiwylliannedd', yn benodol ar lefel polisi, wedi dylanwadu ar gyfeiriadau polisiâu gwladwriaethau. Hyd yn oed ar lefel ddamcaniaethol, dywed Patten (2014) y dylid ymwrthod ag amlddiwylliannedd normadol sydd yn ei dyb ef yn 'an essentialist picture of cultures as determinate, bounded and homogenous, a picture that is empirically false and morally dangerous' (t. 38). Yn Ewrop, nodwyd bod polisiâu gwladwriaethol eisoes yn ffafrio 'integreiddio', 'cymathiad' neu'r cysyniad newydd o 'ryngddiwylliannedd'. Ym Mhennod 2, trafodwyd sut y mae cysyniadau ôl-

genedlaethol o ddinasyddiaeth wedi ceisio ymdrin ag 'undod' ar lefel wladwriaethol, megis ym Mhrydain (Cantle 2012; Goodhart 2013) neu ar lefel o gosmopolitanaeth a dinasyddiaeth fyd-eang (Cantle 2012; Waldron 1995). Serch hynny, gwelwyd bod bwlch yn y drafodaeth ar sefyllfa Cymru. Trafodwyd ym Mhennod 1 a 2 sut y mae sefyllfa Cymru yn wahanol i weddill Prydain wrth ganolbwyntio yn neilltuol ar gyd-destun ieithyddol Cymru. Yn hyn o beth, bu'r gwaith maes yn gyfle i holi rhai o swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau Lleol ym maes polisi iaith a chymhwysio amrywiaeth ynghylch eu hymagweddau at reoli amrywiaeth ac yn neilltuol ar gwestiwn newydd-ddyfodiaid yn dysgu Cymraeg. Dehonglwyd i ba raddau yr oedd ideolegau llywodraethol yng Nghymru yn ymdebygu neu'n gwahaniaethu â Llywodraeth San Steffan a sut yr oedd is-wladwriaeth Cymru yn ymateb i bwyslais newydd gwladwriaethol ar 'integreiddio' a 'rhyngddiwylliannedd'.

Daeth yn amlwg o'r cyfweiliadau â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru eu bod hwy'n ymbellhau o'r drafodaeth ar amlddiwylliannedd. Sylwyd bod materion ynghylch amrywiaeth a chydlyniant yn cael eu gweithredu ar lefel is-lywodraethol bellach. Ers 2014, penodwyd wyth Swyddog Rhanbarthol dros Gydlyniant Cymunedol yn y Cynghorau Lleol i weithio ar draws Cymru a chanddynt fwriad o dargedu materion lleol yng Nghymru sydd yn effeithio ar gydlyniant (Bashir *et al.* 2012). Roedd y swyddogion y cyfwelwyd â hwy yn gyfrifol am ardal Caerdydd a'r Fro a Gogledd Cymru gan gynnwys Gwynedd, Môn a Chonwy.

Noda'r ddau Swyddog fod gwendidau i'r dull amlddiwylliannol a chyfeiriant at ogwydd newydd polisi ar reoli amrywiaeth. Yn ôl Swyddog sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol, gwendid polisi amlddiwylliannedd yw'r diffyg pwyslais ar 'gyfnewidiaeth' diwylliannol:

So a long time ago, when cohesion work was being done, it was called multiculturalism. There was a multicultural approach and people would often would get invited to visit a certain kind of venue and people would say 'this is my culture, come and learn about it'. Very often, what didn't happen was the other way around. People were invited to go and learn about different things but didn't reciprocate and learn about this culture. **Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol (1)**

Yn ôl y Swyddog sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol, roedd amlddiwylliannedd yn ddiffygiol am ei fod yn canolbwyntio ar hawliau'r lleiafrifoedd yn hytrach na dysgu am ddiwylliant y gymuned groeso. Ystyria'r Swyddog fod rhyngddiwylliannedd yn ateb posibl i ddiffygion amlddiwyllianedd. Diffinia rhyngddiwylliannedd fel 'phase' newydd o gydlyniant cymunedol a hynny yn ôl diffiniadau'r Athro Ted Cante. Cyflwyno'r Swyddog egwyddor o 'heriau' sydd yn perthyn i'r cysyniad newydd o gydlyniant. Nid yn unig y mae'r pwyslais ar gyfnewid diwylliannol ond ystyrir yr angen am 'addasu' a 'chymhwyso' ymagweddau diwylliannol. Rhoddai enghraifft benodol yn yr achos hwn:

I think when I approach cohesion now, it's a term that Ted Cante is calling interculturalism. It's almost like a new phase of community cohesion that we are going into. Some of that is about 'challenge'. If you're inviting guests, I'll talk about the Muslim community, as it's a lot of my experience [...]. If you invite guests to come to a mosque, then it's about, do you then go and visit their church? It's also about, say a school [...] I had a group of school children that were invited to go and see a mosque and the Imam or volunteer there said to the girl 'are any of the girls menstruated?' This male teacher was horrified. 'Well I don't know and I'm certainly not about to ask! This guy said 'well we won't let any of them in then! Because menstruating women are not allowed into this mosque.' Now that sets up a whole kind of dilemma. From a multicultural point of view, you would accept this and say, 'well, that's their culture' you should respect it. Then people think, 'well, I don't want to offend anybody'. From an intercultural approach, 'No actually, you should be more inclusive and none of these girls are Muslim. They are not practising Muslims, so why does it matter? That's not an appropriate question to be asking a 14 year old girl and if you are going to invite people into your place of worship then you're going to have to bend around a little bit in order to accommodate. For those girls, culturally, it wasn't accepted. So you can see how it's a different approach. I can't think of a similar example for Welsh but when I would be working with communities, say, we've got a group from a Somali community, and we were doing work with them, I would be looking to say 'well, right, that's your cultural background, the Welsh cultural backgrounds is [...] and kind of work with that, rather than the other way around. **Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol (1)**

Er bod y dyfyniad hwn yn cyfeirio'n bennaf at agwedd grefyddol ar gymhwyso amrywiaeth yn Lloegr, cyfeiria'r Swyddog hefyd at enghraifft ieithyddol drwy awgrymu bod y Gymraeg yn ystyriaeth ddilys mewn trafodaethau ar ryngddiwylliannedd. Yr awgrym felly yw y gall partneriaethau iaith rhwng siaradwr Cymraeg a siaradwr iaith arall hwyluso dealltwriaeth ryngddiwylliannol yng Nghymru. Er nad yw'r Swyddog yn ymhelaethu ar swyddogaeth y Gymraeg mewn cyd-destun rhyngddiwylliannol, mae'r dyfyniad yn awgrymu bod posibilrwydd ychwanegu dimensiwn ieithyddol i bolisiau rhyngddiwylliannol Cymru o fewn y DG.

Cadarnha'r Swyddog serch hynny fod diffiniad Llywodraeth Cymru o gydlyniant cymunedol a rhyngddiwylliannedd yn tarddu o'r syniad a fabwysiadwyd gan Lywodraeth San Steffan (Cantle 2001). Fel y dywed Moore (2010) ynghylch strategaeth Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru, '[...] social cohesion strategies arose out of a new political discourse which rejected multi-culturalism and deemed it to have failed' (t. 136). Yn unol â'r hyn a ddogfennwyd ym mholisiau Llywodraeth Cymru (2009a), cadarnhawyd mai Lloegr yw prif gyfeirbwynt polisiau ar reoli amrywiaeth yng Nghymru ynghyd â'r datblygiadau mewn polisiau a ddaeth yn sgil y terfysgoedd yng Ngogledd Lloegr yn 2001. Esbonia'r Swyddog yn y dyfyniad isod bod pwyslais felly ar werthoedd a rennir ym Mhrydain yn hytrach na'r gwahaniaethau sydd yn gwneud Cymru'n unigryw:

The Welsh Government have used a definition that has been used by the British Government and they talk about community cohesion being a set of principles and things that must happen in the community to make it cohesive. [...] but it also talks about ways of bringing people together and that's about trying to capture some of that discussion around British values maybe and that kind of thing. That people should have a shared value and sense of belonging to where they live, that new and existing communities can live alongside and recognise the value of diversity. That people have positive relationships and come together in a positive way. So it's kind of moving away from that kind of cultural aspect—where you get people together and understand their cultural background is and what foods they eat. It's getting away from that kind of model really. It's about real people relating to each other in a real way. Knowing that the woman is a mother and has kids and they care for their father is more important than knowing this woman is Muslim and she prays 5 times a day and I think that's what

the model is trying to do. **Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol (1)**

Yn hyn o beth, mae pwyslais ar 'British values' neu 'werthoedd a rennir' yn adleisio'r drafodaeth ym Mhennod 2 ar ddinasyddiaeth ôl-genedlaethol. Mae'r pwyslais ryngddiwylliannol yn ffafrio cyfranogaeth a chynhwysiant dros gydnabyddiaeth a hawliau diwylliannol sydd wrth galon amlddiwylliannedd normadol. Mae agenda Cydlyniant Cymunedol Cymru yn gwahaniaethu ag agenda Cydlyniant Cymunedol Lloegr, drwy gynnig strategaeth benodol ar wrthdlodi ac addysg ond heb gynnig bod gwahaniaethau diwylliannol rhwng Cymru a Lloegr.

Er gwaetha'r cyfeiriad at ddiwylliant 'Cymreig', dyweda y Swyddog sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol fod angen gofalu wrth ddiffinio 'diwylliant' fel nad yw'n fater o ddehongliadau personol neu wleidyddol. Ymddengys bod ei sylw yn cyd-fynd â sylwadau Cattle (2012) ar ddiwylliant yn Adran 1.2.3, sydd yn honni bod angen edrych y tu hwnt i gysyniadau diwylliannol ar reoli amrywiaeth. Yn yr adran hon, datgelwyd bod rhyngddiwylliannwr amlycaf Prydain, Ted Cattle, yn beirniadu syniadau Bouchard, prif rhyngddiwylliannwr Québec, yn arbennig ynghylch syniadau am ddiwylliant sydd wedi'i leoli ar draddodiad, hawliau a'r gymuned wleidyddol. Mae'r ymgais i ymbellhau oddi wrth yr elfen ddiwylliannol yn cyd-fynd â beirniadaeth ar amlddiwylliannedd normadol a'r pwysigrwydd a roddir ar gydnabod diwylliant (*societal culture*) y grwpiau lleiafrifol a mwyafrifol (Patten 2014). Yn ôl y Swyddog, nid yw 'diwylliant' yn chwarae rôl flaenllaw mewn cydlyniant cymunedol yng Nghymru ychwaith:

What I find with these types of things, issues get in the way, these little barriers are very often not cultural, they are personal. People's personal interpretations of what they see as culture. I mean I could see it working in a way you had a group of workers who were Welsh speakers or bilingual who wanted to help in the process of settling new people into the area whereby you had a friending schemes where they taught them some Welsh and the refugee or asylum seeker perhaps shared with the Welsh speakers, kind of like a time banking kind of arrangement.
Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol (1)

Cynigia'r Swyddog enghraifft o bartneriaethau iaith rhwng y gymuned groeso a mewnfudwyr fel syniad posibl o gydlyniant cymunedol ar waith â'r Gymraeg. Yng nghydestun trafodaeth ar bolisi rhyngddiwylliannedd a'r rôl y gall y Gymraeg chwarae ynddi, esbonia'r Swyddog fod manteision ac anfanteision i swyddogaeth y Gymraeg mewn cydlyniant. Er bod pwyslais cydlyniant ar y gallu i gyfathrebu, cred fod perygl y gall y Gymraeg achosi arwahanrwydd yn arbennig ar gyfer grwpiau bregus mewn cymdeithas nad ydynt yn meddu ar addysg:

If you overlay that [Welsh] with migration, I can see some really positive points and some negative points. Obviously, for people to come and live and work in Wales, they do need to be able to communicate with others and that's vital for others. There are some issues of isolation when that does not happen and that affects some groups of people more than others. Some women can be more affected than others and they can be hidden in communities because they are not able to communicate. If you overlay that with whether they learn Welsh or English and you possibly put in people who have not had the standard of education that they would have had in this country, you can see how that is layer upon layer of difficulty for some people. That might be something that is too big a leap for some individuals and some communities. So I think that's the downside. **Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol (1)**

Ymddengys felly bod pwyslais cydlyniant cymunedol ar integreiddio i'r diwylliant mwyafrifol er nad yw'n hollol eglur beth yw diffiniad y diwylliant hwnnw, boed yn ddiwylliant Cymreig, Seisnig neu Brydeinig:

G: Do you think community cohesion can do more to promote Welsh?

I think in terms of [...] I would always come at community cohesion, as you do have to try and promote the dominant culture that people are settling in. **Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol (1)**

Coda hyn gwestiwn sydd wrth wraidd cymhwyso amrywiaeth yng Nghymru, sef sut yn union y diffinnir y gymuned groeso yng Nghymru? Ai Cymuned ddwyieithog ydyw ynteu cymysgedd o gymunedau Cymraeg a Saesneg eu hiaith?

Mewn cyfweiliad â Swyddog sydd yn ymwneud â chydlyniant cymunedol yng Ngogledd Cymru, holwyd i ba raddau yr oedd y Gymraeg yn rhan o syniadau newydd ar

ryngddiwylliannedd a chydlyniant cymdeithasol. Yn ei dyb ef, mae gan y Gymraeg rôl mewn Cydlyniant Cymunedol. Er gwaethaf safle mwyafrifol y Gymraeg yng Ngwynedd, dywed ei bod yn bwysig trin y Gymraeg yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol eraill. Dywed hefyd na fyddai Swyddogion eraill yn caniatáu i'r Gymraeg gael blaenoriaeth dros unrhyw iaith arall a hynny ar sail tegwch cymdeithasol:

G: Chi 'di sôn nad yw iaith yn dod o dan 'cydlyniant cymunedol'—ydy hynny'n iawn?

Nac ydy, dydy hynny ddim yn iawn. Mae 'na elfennau o'r cynllun—mae pob iaith, dim jyst y Gymraeg. Maen nhw'n gorfod cael eu trin a'u trafod yn gytbwys. Faswn i ddim yn dweud nad yw'r Gymraeg yn cael ei chynnwys yn fynna ond be faswn i'n dweud, baswn i'n dweud y basen ni'n cael ein gweld yn hiliol neu'n eithafol tasen ni'n cymryd y Gymraeg uwchben unrhyw iaith arall [...] fel dych chi'n cofio fi'n sôn yn gynharach am y *multicultural awareness*. Taswn i'n cynnal un o rheini ac yn dweud 'reit 'dan ni'n mynd i fod yn hyrwyddo'r Gymraeg heddiw ma'. Fasa hynny'n ddigon teg hefo pobl ethnig ond fasa fo ddim yn deg i ddweud ein bod ni'n mynd i hyrwyddo'r Gymraeg yn unig. Fasai hefyd angen hyrwyddo *minority languages* hefyd o ran cadw'n deg efo pawb. **Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol (2)**

Serch hynny, cydnebydd fod y duedd ryngddiwylliannol sydd i gydlyniant cymunedol yn golygu llai o bwyslais ar y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Dywed fod hyn hefyd yn fater ariannol gan fod llai o arian yn cael ei fuddsoddi mewn materion ieithyddol:

Beth oeddwn i'n trio gwneud oedd cael pobl at ei gilydd mewn dosbarthiadau lleol, i ddathlu ymagweddau gwahanol o fywyd gwahanol e.e. *multicultural awareness days*. Roedden ni'n gwneud hyn trwy ysgolion lleol, rhoi *stall* i fyny. Roedden ni'n rhoi gwahanol grwpiau ymlaen o bob rhan o'r byd oedd yn byw yn y cyffiniau yma ac roedden ni'n paratoi gwleddoedd arbennig e.e. Indonesia—roedd llewyrch yn yr ochr yma o gydlyniant cymunedol ac roedd pawb yn dod i nabod ei gilydd. Pwy oeddem ni—Ile oedden nhw wedi dod, lle oeddem ni rŵan, ag ella bod parch yn codi yn dod o hynny. Hefyd, ella gwneud mwy i integreiddio i mewn i Gymru achos bod nhw'n byw yng Nghymru rŵan a Chymry yn dod at ei gilydd ac yn esbonio sut oedd pethau yn digwydd. Torri'r *barriers* i lawr oedd yr adeg honno, trio ffynnu pawb yn cyd-fyw yn hawddach ac yn well efo'i gilydd [...] rŵan does dim arian tuag at y math hyn o beth. **Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol (2)**

Yn hyn o beth, awgrymwyd bod agenda amlddiwylliannol blaenorol y Llywodraeth yn rhoi llwyfan i'r Gymraeg ymysg ieithoedd eraill tra bo'r pwyslais newydd ar ryngddiwylliannedd neu 'integreiddio' yn pwysleisio 'gwerthoedd cyffredin' ac yn diystyru'r Gymraeg i raddau helaeth.

Er bod cydlyniant cymunedol yn cael ei weithredu ar raddfa leol, mae'r agenda yn cael ei benodi o hyd gan Lywodraeth Cymru. Gan nad yw'r Gymraeg neu ieithoedd eraill yn un o 7 blaenoriaeth polisi Cydlyniant Cymunedol, cydnebydd y Swyddog y byddai angen diffinio swyddogaeth iaith yn eglur oherwydd y gwahaniaethau ieithyddol ar draws Cymru:

Faswn i ddim eisiau cael mwy o 'remit' ond os tasai'r iaith yn rhywbeth sy'n cael ei fabwysiadu i mewn i'r swyddogaeth cydlyniant cymunedol, basai rhaid diffinio'n fanwl iawn be yn union sydd angen wneud a basai rhaid i hwnnw fod yn rhywbeth sy'n cael ei helpu'n lleol. Basai'n anodd iawn i ddweud 'across Wales, we will do X,Y Z with the language.' Mae 'na *situation* gwahanol gyda'r iaith. Ym Môn, mae 'na bocedi bach ac yng Ngwynedd mae 'na tipyn mwy efo'r Brifysgol, Llanrug a Rhostryfan [...] does dim yr un peth ym mhob sir. Ond mae angen fwy o ryddid lleol i daclo problemau mae pobl yn ei weld yn hytrach na bod y Llywodraeth yn dweud, dyna sydd ei hangen. Ond baswn i'n ofnadwy o ofalus o gael mwy o ddyletswyddau. Basai wyth [remit] [...] dw i ddim yn gallu gwneud mwy nag ydw i. A ddylen ni fod yn monitro dysgwyr Cymraeg sut mae hynny'n cael effaith ar *community cohesion*? Ond o safbwynt mynd allan a gwneud y gwaith, a hyrwyddo'n lleol, does dim *budget*. **Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol (2)**

Nid yw rôl y Saesneg fel iaith fwyafrifol yn amlwg ym mholisiau Cydlyniant Cymunedol Cymru fel y gwelir ym mholisiau Québec. Mae Swyddog polisi ESOL Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn anodd cyffredinoli ar ba iaith, ynteu'r Gymraeg neu'r Saesneg, sydd yn 'iaith' cydlyniant cymunedol. Noda fod llawer yn dibynnu ar ba ardal a rhan o Gymru y mae unigolion yn byw ynddi. Noda fod cydlyniant cymunedol ynghlwm wrth ddimensiynau ehangach—rhaid ei ystyried o fewn cyd-destun ehangach Prydeinig. Dywedai ei bod yn rhesymol i fewnfudwyr sydd yn ymsefydlu yng Nghymru, gan gynnwys cymunedau Cymraeg eu hiaith, i ddysgu Saesneg fel blaenoriaeth:

G: Would you say English is the language of social cohesion in Wales?

That's a difficult one. I think it would depend what village you are in. I grew up in [...] so there—no, it wasn't. I think if you were realistically trying to get a job in Gwynedd, then no. Probably having the Welsh language would be more important to you. But migrants in Gwynedd, who need to be able to speak Welsh and are looking for jobs, in any capacity, are minimal. I think, whilst I wouldn't say that English is the language of social cohesion [...] realistically, we can't look at it in isolation of just being Wales [...] we are talking about the whole of the UK.

When you are looking at the number of migrants here with no language, no UK language skills whatsoever, then I think it stands for reason that their first thought is going to be learning English and then Welsh. **Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud ag ESOL**

Er bod ffigurau Cyfrifiadau 2001 a 2011 yn dangos mewnfudo sylweddol i'r Fro Gymraeg a shifft ieithyddol yn sgil hynny, ymddengys mai'r Saesneg yw iaith integreiddio oherwydd ei safle o fewn y DG. Wrth edrych ar bolisi yn ei gyfanrwydd felly, esbonia'r Swyddog yn y dyfyniad isod fod mewnfudo [o'r tu allan i'r DG] yn bennaf yn ninasoedd Cymru sydd yn fwyafrifol Saesneg eu hiaith:

I don't believe [...] I'm not making any statements about it but I don't think it's [Welsh] necessarily the most logical choice for a migrant wishing to start a life in the UK. And bearing in mind, the majority of migrants are in Cardiff and Swansea [...] there are four UK border agencies, UK homes offices, asylum hubs in Wales, Newport, Swansea, Cardiff and Wrexham. None of which are particularly high Welsh language cohorts. However, I think the way we use the Welsh language within ESOL, to basically say to people, any other additional language is a bonus [...] if you're going back to community cohesion, there isn't so big an issue of Welsh and English language in the South East as in other parts of Wales. So I think you'd have to fit it with the same brush as you look at those issues. I guess, if I'm really honest, the difficulties with community cohesion in Cardiff are much more race and religion based than language. When you bear in mind the level and multitude of asylum seekers and refugees in comparison to the rest of Wales. Like I said, the city has more than all of Wales put together. **Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud ag ESOL**

Yn ôl y Swyddog ESOL, Saesneg yw iaith cydlyniant cymunedol er ei bod yn cydnabod nad yw hynny'n wir ar gyfer pob ardal o Gymru, hyd yn oed mewn rhai cymunedau yng Nghaerdydd. Y gwahaniaeth, yn ei thyb hi, yw bod angen Saesneg ar fewnfudwyr er mwyn cael mynediad at adnoddau. Cysyllta'r Gymraeg â nodwedd gymdeithasol yn hytrach nag anghenraid offerynnol ar gyfer integreiddio:

G: Would you say English is the language of social cohesion in Wales?

Well, I think it is really [...] because it is that common language. People come into this country and into Britain and then coming to Wales, as a country, will have some understanding or awareness of English, they don't of Welsh unfortunately unless they are coming from Patagonia or Argentina [...] if you're looking at integration in Cardiff. Unfortunately, I don't think you could in Cardiff there is such a need for ESOL. It's not so much the social aspect. It's access to services and the services they are accessing are in English. In this area, it saddens me to say [...] it depends where you go. If you are in Pontcanna, then you know [...] maybe you'd feel [...] If you think as far as children [...] if you're looking at

families. It's [Welsh] not so much integration as opposed to socialisation.
Swyddog ym Maes ESOL (1)

Yn hyn o beth, mae safle lleiafrifol y Gymraeg yn peri rhwystrau wrth ddiffinio ei rôl ond hefyd gan ei fod yn gwrthdaro â pholisi Llywodraeth Prydain sydd yn gorfodi mewnfudwyr i ddysgu Saesneg er mwyn meddu ar Ddinasyddiaeth swyddogol.

Serch hynny, anghytuna Swyddogion Cymraeg i Oedolion y cyfwelwyd â hwy â safle'r Gymraeg mewn materion ynghylch cymhwyso amrywiaeth. Dadleuant o blaid cynnwys y Gymraeg o fewn trafodaethau ar gydlyniant cymunedol ar sail y ffaith bod mynediad at y ddwy iaith yn rhoi cyfleoedd llawn i gyfranogi yng Nghymru. Amlinella Swyddog Cymraeg i Oedolion (1) fod goblygiadau a sgil-ffeithau o beidio â sefydlu strategaeth i sicrhau cydraddoldeb mynediad i'r Gymraeg fel y Saesneg:

Y broblem yw os nad dyn ni'n gwneud y ddwy iaith ar gael i leiafrifoedd ethnig yng Nghymru dan ni'n rhagfarnu yn eu herbyn nhw [...] hefyd mae llawer o swyddi yn gofyn am y Gymraeg yn hanfodol neu yn ddymunol felly mae cael mynediad i'r iaith yn bwysig o ran cyflogaeth ac mae eisiau inni sicrhau cydraddoldeb mynediad i'r ddwy iaith oherwydd os nad dych chi'n cael mynediad i'r ddwy iaith mae'n effeithio ar ansawdd eich bywyd chi [...] mae'r iaith o'ch cwmipas chi. Mae'r rhan fwyaf o'r Cymry yn gallu deall peth Cymraeg felly yn yr ystyr yna nid yw'r iaith yn lleiafrifol ond yn fwyafrifol. Mae mwyafrif pobl Cymru yn gallu defnyddio'r Gymraeg i ryw raddau. Mae'n anodd felly i ti gyfranogi yn llwyr os nad wyt ti'n cael mynediad i'r ddwy iaith. **Swyddog ym Maes Cymraeg i Oedolion (1)**

Gwelir bod syniadau'r Swyddog Cymraeg i Oedolion ar gydraddoldeb mynediad a thegwch ieithyddol yn ymdebygu i gysyniadau Québec ar gydlyniant cymdeithasol.

5.1.2. Polisi a Darpariaeth Iaith i Oedolion yng Nghymru

Gofynnwyd felly i Swyddogion Llywodraeth Cymru i ba raddau y dylid sicrhau cydraddoldeb mynediad i Saesneg a'r Gymraeg fel ei gilydd. Yn ôl y Swyddog sydd yn gysylltiedig ag ESOL, ni fyddai cydraddoldeb mewn darpariaeth yn weithredol am y ffaith nad yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried fel un o'r Sgiliau Hanfodol yn unol â sgiliau mathemeteg a llythrennedd yn ôl Llywodraeth Cymru (2014b):

G: Should there be equal provision of Welsh and ESOL?

Difficult one because you know we came across quite a lot of opposition to even making ESOL provision of an equal status with Essential Skills.⁸³ You can imagine the cohort of people who have those opinions, especially when we've made such huge cuts to a lot of adult community-learning provision. We've had a lot of very negative comments—why is ESOL free then if I can't do my art class? Our attitude is that it is an essential skill. There is no restriction on anybody from an ESOL background accessing Welsh for adults as anybody else. There is a significant amount of funding in Welsh for Adults. What we don't have is the ability to support those learners and I guess that would be on the basis that they had a certain level of understanding of English before they embark on Welsh. Again I go back to the argument that if there was a cohort of learners who at college or provider in the North, Coleg Menai and Coleg Cambria. If they felt there was a cohort of learners that they could teach Welsh to as their first UK language. They would have the same access to provision I guess as they would for ESOL. So I can't see that we would be able to [...] I don't think there would be a lot [...] we don't get far if we tried to differentiate a specific Welsh class for ESOL learners. **Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud ag ESOL**

Dywed Swyddog ESOL Llywodraeth Cymru fod eisiau hefyd ystyried yr anghenion gwahanol sydd i fewnfudwyr sydd yn ymsefydlu yng Ngwynedd a Chaerdydd. Ar lefel fwy lleol, dywed fod Canolfannau ESOL yn y Gogledd yn ymgorffori elfennau o'r Gymraeg yn eu gwersi a bod y mewnfudwyr yn eu mwynhau. Ymhellach, noda nad oedd rhwystr i fyfyrwyr ESOL gael mynediad i gyrsiau Cymraeg i Oedolion pe dymument. Ar lefel polisi, cydnebydd y Swyddog ESOL fod y cwestiwn ynghylch cynnal cyrsiau Cymraeg i fewnfudwyr wedi cael ei godi. Esboniwyd yn y dyfyniad isod serch hynny na fyddai darpariaeth o'r fath yn rhesymol oherwydd bod angen Saesneg er mwyn byw ym Mhrydain. Y consensws oedd bod y Gymraeg yn peri dryswch i fewnfudwyr nad ydynt yn siarad Saesneg:

At a time, there was a sort of question, debate over whether we would have something like WSOL. And then it was actually a case of questioning whether or not that that's really helpful to immigrants because if they can't speak English then Welsh is great in certain communities in order to really exist in the UK—English. And it [Welsh] can be more confusing for them. **Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud ag ESOL**

⁸³ Dywed Polisi ESOL Llywodraeth Cymru (2014b) 'Rydym yn ystyried ESOL fel sgil sylfaenol ac, o ganlyniad, credwn y dylai gael ei drin yn yr un modd â Sgiliau Hanfodol.' Mae Sgiliau Hanfodol Cymru yn cynnwys sgiliau cyfathrebu hanfodol, cymhwyso rhif hanfodol, sgiliau cyflogadwyedd hanfodol a sgiliau llythrennedd hanfodol.

Yn yr un ffordd, dywed Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud â Pholisi y Gymraeg nad cwestiwn o gymharu darpariaeth ESOL a Chymraeg i Oedolion mohoni. Honna'r Swyddog fod sefyllfa darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn gyfartal i bawb yng Nghymru gan gofio bod y mwyafrif o boblogaeth Cymru â'r un ddarpariaeth â mewnfudwyr o'r tu allan i'r DG:

Mae'n gyfartal i bawb yn hytrach na bod mewnfudwyr yn eu cael nhw am ddim ac wedyn bod Cymry eu hunain yn gorfod talu. Byddai hwnna'n gwneud y sefyllfa hyd yn oed yn waeth, byddwn i'n tybio, achos bydd y bobl sy'n dod o'r wlad yn teimlo'n annifyr iawn eu bod nhw [y bobl leol] yn gorfod talu i ddysgu iaith eu hunain. Mae'r tensiynau'n wahanol. Mae cymharu ESOL a CiO yn beryglus iawn yn fy marn i achos maen nhw'n ddau beth eitha' gwahanol. **Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud â pholisi y Gymraeg**

Datgela Swyddogion ym maes ESOL serch hynny nad yw darpariaeth Cymraeg a Saesneg yn caniatáu targedu'r un grwpiau yn y boblogaeth:

Being able to give a Welsh taster when the parents are on one of our courses I think that's really good [...] but it is the funding issue as we are able to provide free courses from our Welsh Government funding—that's what gets the parents in, it's free we provide everything on that course—trips, you don't have to pay anything for [...] I think if we started charging we'd be delivering to very different people and it wouldn't be our target parents. **Swyddog ym Maes ESOL (1)**

Noda fod ymdrech benodol gan ESOL yn mynd â'r ddarpariaeth i grwpiau anodd eu cyrraedd heb arian nag arfer o fynychu cwrs prif ffrwd. Noda Swyddog ym maes ESOL (2) fod darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn wahanol hefyd yn y ffaith bod disgwyliad bod gan unigolyn sydd yn ymrestru ar gwrs Cymraeg i Oedolion gefndir addysgol. Ychwanega, serch hynny, fod y darpar-grŵp yn dechrau newid yn sgil addysg Gymraeg a mewnfudo:

It's making an assumption and pretty much accurately that people who are coming along for [Welsh] language, have an education background. However, from my point of view, I see that maybe changing because [...] especially in Cardiff where you've got families who are looking for Welsh medium education who maybe have less education [...] their own literacy skills [...] also from the ethnic minorities who are looking at a Welsh medium education. **Swyddog ym Maes ESOL (2)**

Esbonia Swyddog CiO fod cwestiynau ariannol ynghlwm wrth ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ynghyd â'r ffaith nad yw Llywodraeth Cymru yn diffinio'r Gymraeg fel Sgil

Hanfodol fel y Saesneg (Llywodraeth Cymru 2014b). Ymhellach, dywed y Swyddog fod niferoedd Cymraeg i Oedolion yn gostwng yn ddiweddar ac felly mae angen ymatebion mwy pragmataidd yn hytrach nag atebion polisi:

Mae CiO yn wirfoddol, allen ni ddim gorfodi pobl yng Nghymru, gallwn ni wneud y penderfyniadau tasen ni eisiau ond yn wleidyddol, dwi ddim yn siŵr a fyddai gwleidyddion eisiau mynd lawr y lôn yna achos byddai lot o ymwrthod a hefyd does dim digon o gyllid i wneud e'n orfodol i bawb fel mae ESOL yn orfodol i bawb. Dwi ddim yn dweud bod e ddim yn bosib, mae unrhywbeth yn bosib, mae deddfwriaeth polisi yn bosib ond ar sail y ffaith bod niferoedd Cymraeg i Oedolion wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf mae rhaid bod yn eithaf pragmatig am y ffaith bod pobl yn dewis peidio dysgu am ba bynnag rheswm a bod angen edrych ar ddulliau eraill o ddarparu er mwyn ymateb i anghenion sydd â bywydau prysur erbyn hyn. **Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud â pholisi y Gymraeg**

Daw'r cwestiwn ynghylch y ddarpariaeth yn ôl at gwestiynau ynghylch cydlyniant cymunedol. Yn ôl Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud â Pholisi y Gymraeg, byddai darpariaeth Gymraeg i fewnfudwyr ar sail yr un ddarpariaeth Saesneg i fewnfudwyr yn mynd yn groes i gydlyniant cymunedol am y byddai'n camwahaniaethu â gweddill y boblogaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg:

Tasen ni'n penderfynu bod mewnfudwyr yn cael nhw am ddim a dych chi ddim—fyddai ddim yn gweithio—fyddai fe ddim yn gweithio achos gweddill y gymdeithas byddai wedyn yn anghytuno â'r peth a byddai cydlyniant cymdeithasol ddim yn bodoli aniwê achos byddan nhw'n pwyntio bys ar y lleill. **Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud â pholisi y Gymraeg**

Esboniwyd bod ffactorau gwleidyddol yn ogystal â ffactorau ariannol yn sgil toriadau cynyddol ynghlwm wrth gynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a hynny am y ffaith bod polisiâu Dinasyddiaeth yn gorfodi unigolion i brofi lefel eu Saesneg:

Mae'r cyllid wedi caei ei dorri eto eleni ac felly. Does dim byd am ddim yn y byd hwn ac mae pawb yn gorfod derbyn hynny i raddau. Ond wedyn mae ESOL yn ddarpariaeth benodol ac mae polisi hollol wahanol ar gyfer hynny o safbwynt nad yw pobl sy'n siarad Saesneg—gallai pobl ddadlau bod pobl yn dysgu Cymraeg neu Saesneg—gall hynny fod yn ddadl ond mae polisi Llywodraeth Prydain ynghlwm wrth ESOL hefyd, felly os ydyn nhw eisiau dinasyddiaeth, maen nhw'n gorfod siarad Saesneg hefyd. So 'yn ni wedyn ynghlwm wrth bolisi sy'n cael ei wneud yn Llundain er bod darpariaeth ESOL yn cael ei gyllido fan hyn. Os ydy unrhywun eisiau dod i Brydain a chael dinasyddiaeth, maen nhw'n gorfod pasio'r prawf yna felly. Mae'n clymu ni mewn. **Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud â pholisi y Gymraeg**

Yr unig eithriad i'r sefyllfa hon yw polisi addysg Gwynedd. Esbonia'r Swyddog fod y canolfannau newydd-ddyfodiaid yn ysgolion Gwynedd yn deillio o bolisi addysg y Sir sydd wedi'i seilio ar addysg ddwyieithog. Dywed felly bod y disgyblion yn ysgolion Gwynedd ar eu colled os nad ydynt yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg i safon dderbyniol. Y canlyniad yw eu bod nhw'n cymhathu'n ieithyddol i'r ysgol a'r gymdeithas o'u cwmpas.

Mae'r canolfannau newydd-ddyfodiaid yn rhywbeth eithaf gwahanol achos mae rhaid i blant Gwynedd siarad Cymraeg achos bod yr addysg yn ddwyieithog. Os nad ydyn nhw'n gallu siarad Cymraeg, maen nhw'n colli allan ar addysg [...] ond mae'n dod o'r ffaith bod rhaid darparu addysg statudol a pholisi Gwynedd yw bod yr addysg yna yn ddwyieithog ac felly er mwyn i'r plant gael yr addysg ddwyieithog, mae'n rhaid iddynt allu dysgu Cymraeg. Fel rhan o'r broses maen nhw'n cymhathu i'r gymdeithas ond dim y cymhathu yw'r *driver*. Y ffaith bod angen iddyn nhw ddysgu Cymraeg i gael addysg yw'r *driver*. **Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud â pholisi y Gymraeg**

Er hynny, cydnebydd Swyddog ym maes Cymraeg i Oedolion (2) lwyddiant polisi iaith Cyngor Gwynedd i greu siaradwyr dwyieithog a chred felly y gall polisiau Cymraeg i Oedolion efelychu model tebyg:

Dyn ni'n cydweithio gydag ysgolion Gwynedd [...] maen nhw'n sicrhau bod pawb yn gadael yn ddwyieithog ond bod nhw'n cyflwyno'r Gymraeg yn llawer iawn fwy blaengar [...] fel rhan o hynny, dyn ni wedi cydweithio ar union yr un sail. Y plant yn cael yr holl gefnogaeth Cymraeg—ac allan ni helpu gyda'r rhieni—Ffeindiwch chi rieni i ni a wnawn ni ddysgu nhw. Felly dw i'n meddwl bod hynny'n fodel sy'n gallu gweithio. **Swyddog ym Maes Cymraeg i Oedolion (2)**

Ar sail y sylwadau uchod, gwelwyd nad yw Swyddogion Llywodraeth Cymru a Swyddogion y Cyngorau Lleol y cyfwelwyd â hwy yn credu mai deddfwriaeth bellach i'r Gymraeg sydd yn briodol er mwyn ehangu darpariaeth ieithyddol ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Swyddogion ym Maes Cymraeg i Oedolion yw'r unig leisiau sydd yn gweld arwyddocâd cynnig cyfleoedd i fewnfudwyr i ddysgu Cymraeg ar sail cydraddoldeb mynediad. Nid oes gan y Gymraeg rôl swyddogol yn strategaethau cydlyniant cymunedol ond mae ymatebion y Swyddogion yn awgrymu bod yna bosibiliadau ychwanegu elfennau sydd yn ymwneud â'r Gymraeg mewn modd naturiol, graddol ac 'organig'. Yr hyn sydd yn cael ei annog yw datblygiadau oddi mewn i'r gymuned, trwy fentrau cymdeithasol megis y Ganolfan Cymraeg i Oedolion. Fel y dywed Swyddog sydd yn

gysylltiedig â Chydlyniant Cymunedol, cefnogaeth a datblygiad rhwng y gymuned groeso a'r mewnfudwyr yw'r sail fwyaf effeithiol ar gyfer integreiddio a chyfranogaeth mewnfudwyr drwy'r Gymraeg:

In my mind, it's about that organically kind of growing and being nurtured so it flourishes in a natural way rather than saying, right, you will [...] do this and this and this. That's the key. You could see the benefit of that. As people settle, and put their children in Welsh schools, they're learning conversational Welsh. I think that's far better than trying to legislate it through. Progressively, I would agree with that [...] in a more organic way. **Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol (1)**

5.1.3. Rhyngddiwyllyannedd Cynhwysfawr: Gwahaniaethu neu Uno Prosiectau Cymru a Québec?

Er gwaethaf adlach amlddiwyllianedd yn Ewrop, gwelwyd ym Mhennod 1 a Phennod 2 bod gan y model amlddiwyllianol sylfaen ddamcaniaethol gadarn. Nodwyd eisoes bod damcaniaethwyr amlycaf amlddiwyllianedd (Kymlicka 2003, Modood a Meer 2011) wedi amau gallu rhyngddiwyllyannedd i ragori ar amlddiwyllianedd drwy ei hystyried yn gysyniad anwleidyddol neu'n briodol yn unswydd ar gyfer rheoli amrywiaeth ar lefel feicrogymdeithasol. Serch hynny, mae'r honiad bod amlddiwyllianedd wedi methu ag ymdrin â natur ddatblygol a newidiol yr oes mewnfudo a globaleiddio wedi achosi nifer o ddamcaniaethwyr i gwestiynau seiliau'r mosaig amlddiwyllianol ac i ddyfeisio modelau newydd o reoli amrywiaeth (Patten 2014). Gwyddom eisoes mai rhyngddiwyllyannedd hyd yn hyn yw prif olynydd amlddiwyllianedd. Mae damcaniaethwyr rhyngddiwyllyannedd, megis Zapata-Barrero (2015), Bouchard (2011) a Cattle (2012), yn honni ein bod ers peth amser yn gweld newid cyfeiriad mewn rheoli amrywiaeth gan ei alw 'the intercultural turn'.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi troi o ddull amlddiwyllianedd i 'ryngddiwyllyannedd', nid yw wedi diffinio rhyngddiwyllyannedd yn ei pholisïau. Mae'r canlyniadau serch hynny yn dangos bod ideoleg sifig Prydeinig, wedi'i gwisgo mewn iaith 'Cydylniant Cymunedol Cymreig', y tu ôl i'w pholisïau ar gymhwyso amrywiaeth. Er bod Llywodraeth Cymru yn

diffinio cydlyniant cymunedol yn wahanol i'w fodel cyfatebol yn Lloegr, rhydd y Llywodraeth bwyslais ar gydraddoldeb hil a gwrthlodi yn hytrach na chydabod diwylliant y gymuned groeso. Gwelwyd hefyd ym Mhennod 4 nad yw Llywodraeth Québec yn mabwysiadu terminoleg rhyngddiwylliannedd i'w pholisiau hi ychwaith: mae ei pholisiau hwy ar gydlyniant cymunedol yn adlewyrchu gwerthoedd rhyngddiwylliannol 'ieithyddol' serch hynny. Mae'r pwyslais yn Québec ar sefydlu cydbwysedd rhwng gwerthoedd a diwylliant y gymuned groeso a hawliau ethnoddiwylliannol y mewnfudwyr.

Er trafod yr un cysyniad yn y ddau gyd-destun, eironi'r mater yw bod diffiniadau rhyngddiwylliannol yn lled wahanol i'w gilydd. Y mae'r cwestiwn ieithyddol yn dod â'r gwahaniaethau hyn i'r brig. Yn ôl cyfweiliadau â Llywodraeth Québec, mae iaith yn rhan elfennol o gydlyniant cymdeithasol am fod yr *enjeu* (gwrthdaro) ieithyddol yn bresennol a sgil-ffeithiau amlwg ar gydlyniant y dalaith. Cymharer hyn â diffyg cydnabyddiaeth ieithyddol ym mholisiau i'r Ganada ffederal lle nad yw'r un *enjeu* yn bodoli o fewn fframwaith mwyafrifol Saesneg. Er gwaethaf bodolaeth cymunedau Ffrangeg eu hiaith ar draws Canada, nid yw ffactor ieithyddol yn chwarae rhan flaenllaw fel y gwna yn Québec. Yn ôl Gagnon (2012), elfen gymathiadol 'gudd' o amlddiwylliannedd Eingl-Sacsonaidd yw'r Saesneg yno.

Ar sail ymatebion y cyfranogwyr ymchwil yng Nghymru, gwelir nad yw ieithoedd yn chwarae rôl amlwg ym mholisiau integreiddio a chydlyniant. Wrth beidio â diffinio swyddogaeth iaith neu ieithoedd yn eu polisiau hwy, datgela'r canfyddiadau mai Saesneg yw iaith ddiamod cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru fel y mae yng ngweddill Prydain. Mae cymhlethdodau diffinio rôl y Saesneg, y Gymraeg ynghyd ag ieithoedd eraill yn cael eu hosgoi felly. O ganlyniad cymharer hyn â syniadau traddodiadol Rhyddfrydol o *benign neglect* neu'r hyn y mae C.H. Williams (2013) yn ei ddisgrifio fel 'the


Mask of Piety'. Nid yw'n fater o gyfeirio at ryngddiwylliannedd Cymreig; rhyngddiwylliannedd Prydeinig yng Nghymru ydyw.

Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu trafodaeth a geir ym Mhennod 2 ar y gwahaniaethau rhwng amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd yng nghyd-destun Canada a Phrydain. Y paradocs yw bod polisiau rhyngddiwylliannedd Prydeinig yn agosach at bolisiau amlddiwylliannol Canada, y ddau yn sifig eu natur ac yn cynnwys dimensiynau 'cudd' tuag at integreiddio drwy'r iaith fwyafrifol. Ochr arall y paradocs yw'r ffaith bod damcaniaeth Kymlicka ar amlddiwylliannedd yn agosach at ddamcaniaeth rhyngddiwylliannedd yn Québec am fod y ddwy yn seiliedig ar ddinasyddiaeth wahaniaethol. Tybed felly i ba raddau y mae dicotomi amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd yn ddefnyddiol bellach? Os honnir bod y Gymraeg yn cael ei diystyru o bolisiau a thrafodaeth ar gynwysoldeb a chydlyniant, i ba raddau y gall ymagweddau o ryngddiwylliannedd is-wladwriaethol fel a geir yn Québec ddylanwadu ar agenda Cymru? A oes ateb arall?

Wrth gydnabod y gwahaniaethau rhwng rhyngddiwylliannedd Prydeinig a rhyngddiwylliannedd Québec, ymgeisia Zapata-Barrero, ymchwilydd o Gatalonia, i ddod o hyd i dir cyffredin rhwng y dehongliadau gwahaniaethol er mwyn sefydlu sylfaen ddamcaniaethol a pholisi cadarn ar gymhwyso amrywiaeth yn Ewrop. Cyflwyna Zapata-Barrero rhyngddiwylliannedd (2013; 2015) fel dull cynhwysfawr o reoli gyda phwyslais ar reoli amrywiaeth *macro* a *meicrogymdeithasol*. Fel hyn, dywed Zapata-Barrero fod y model rhyngddiwylliannol yn cael ei fabwysiadu'n gynyddol gan wladwriaethau ac is-wladwriaethau democrataidd. Mae rhyngddiwylliannedd Québec, man geni'r cysyniad hwn, yn ganolbwynt newydd i is-wladwriaethau eraill sydd yn ceisio ymdrin ag amlgeneldaetholdeb ynghyd ag amrywiaeth ethnoddiwylliannol cynyddol (Zapata-Barrero 2015). Honna Zapata-Barrero (2015) fod dehongliadau Cantle (2012) ar

ryngddiwylliannedd yn ddiffygiol wrth beidio ag ystyried ffactorau ehangach megis y gymuned wleidyddol. Yn hyn o beth, ystyria fod dehongliad Bouchard o ryngddiwylliannedd yn ymateb i'r angen am gadw cydbwysedd rhwng y gymuned wleidyddol a mewnfudwyr. Serch hynny, nid oes ystyriaeth i'r ffordd y mae'r gymuned groeso a mewnfudwyr yn dod ynghyd. Er gwaethaf y gwahaniaethau sydd i brosiect rhyngddiwylliannol Cattle a Bouchard, cred Zapata Barrero fod y naill gysyniad a'r llall yn ddilys o'u huno'n un. Creda mai'r ffordd ymlaen i ryngddiwylliannedd yw cyflwyno 'haen' ychwanegol a eilw'n *constructivist strand* sydd yn seiliedig ar y dull medrau (Sen 1999). Gwelir ymdrech Zapata-Barrero i gyfuno'r haenau hyn yn Ffigur 10:

FFIGUR 10—Model o Bolisi Cynhwysfawr Rhyngddiwylliannedd



Tra bo'r cysyniadau neu 'haenau' eraill yn seiliedig ar hawliau unigolion neu grŵp, mae'r haen ychwanegol hwn yn seiliedig ar gynhyrchu rhywbeth o'r newydd megis mentrau newydd sydd yn hybu datblygiad medrau personol a chymdeithasol:

The capability approach tells us that the important matter is to encourage the creation of conditions for people to have real opportunities to judge the kind of life they would like to have and the type of people they would like to be. In this sense, enhancing the autonomy of individuals to choose the life they want in terms of their capabilities can rightly be considered as a new normative driver of intercultural policy (Zapata Barrero 2015, t. 13).

Noda'r hyn a elwir yn 'gymhelliant i ryngweithio' er mwyn hybu creadigrwydd a diwylliant cynhwysol, datblygol. Yn hyn o beth, daw rhyngddiwylliannedd yn fodel mwy cynhwysfawr, aml-gyfeiriadol sydd yn trin a negodi amrywiaeth 'oddi fry' yn ogystal ag 'oddi lawr'. Y dimensiwn ychwanegol hwn, sydd yn seiliedig ar ddull medrau Sen (1999), sydd yn galluogi rhyngddiwylliannedd i ragori ar gysyniadau amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd blaenorol, yn nhyb Zapata-Barrero:

This interplay between tradition, cohesion and innovation is the framework within which we should ground intercultural policies. The three strands become a new paradigm. They bring together policies, behaviours, cultural practices, institutional routines and management programmes that can help create bridges between 'what has always existed', 'what generates social conflicts' (in broader terms), and 'what it is now'. It ultimately involves applying the equilibrium logic so rightly defended by Bouchard, and the anti-exclusion logic orienting Cattle's cohesion strand, but with the added value of innovation, creativity and human and social development. Without this added value, interculturalism could become, in the last resort, just a phase in the historical trajectory of diversity in society, but it will not reach the level of becoming a new historical paradigm for our democratic societies. (2015, t. 15)

A all cyfuniad o'r tri dimensiwn gwahanol (gan gynnwys 'traddodiad', yn ôl model Québec, 'cydlyniant', yn ôl model Prydain, ac 'arloesi', yn ôl syniadau Zapata Barrero) fod yn llwybr posibl i gymhwyso amrywiaeth yng Nghymru? Bydd trydedd ran y bennod hon yn cyfeirio at fenter newydd ynghlwm â syniad Zapata-Barrero o 'arloesi a chreadigrwydd' ar ffurf dosbarth Cymraeg 'dinasyddiaeth'. A all dysgu Cymraeg i fewnfudwyr fod yn gam tuag at ysgogi rhyngddiwylliannedd Cymreig ar lefel cymunedol? Rhaid archwilio yn gyntaf raddau'r hyn y mae Llywodraeth Cymru, y Cynghorau Lleol, darparwyr iaith i oedolion (ESOL/CiO) ynghyd â mewnfudwyr yn ei feddwl am fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg cyn dehongli ymhellach.

5.2. YMAGWEDDAU GRŴP: CYMRU

5.2.1. Llywodraeth Cymru a Chynghorau Lleol

Yn dilyn y drafodaeth ar gymhwyso amrywiaeth gan gynnwys materion ynghylch amlddiwylliannedd, rhyngdiwylliannedd, cydlyniant cymunedol a pholisi iaith,

dadansoddir yn awr ymagweddau grŵp y cyfranogwyr tuag at integreiddio'n ieithyddol. Honna Bourhis fod ideolegau integreiddio Llywodraeth yn dylanwadu ar ogwyddau integreiddio'r gymuned groeso. Yn hyn o beth, edrychwyd ar ideolegau a gogwydd integreiddio unigolion sydd yn cynrychioli sefydliadau megis Llywodraeth Cymru, Cynghorau Lleol, Canolfannau ESOL, Canolfannau Cymraeg i Oedolion neu grŵp o fyfyrwyr iaith o gefndiroedd mewnfudol. Ni fydd yn bosibl crybwyll pob ymagwedd a barn bersonol ond ymdrechir i adlewyrchu ymagweddau grŵp ar y cwestiwn neilltuol ar newydd-ddyfodiaid yn dysgu Cymraeg yng Nghymru. Bydd y disgrifiadau hyn yn sail i ddehongliadau ar gydberthynas y grŵpiau ar ddiwedd yr adran hon drwy archwilio'r graddau y ceir cytgordd neu anghytgordd rhyngddynt yn ôl model MAI.

Dadansoddir yn gyntaf ymagweddau Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau Lleol. Gwelir o'r dyfyniad isod mai'r Cymry di-Gymraeg yw prif flaenoriaeth strategol Llywodraeth Cymru ynghylch adfywiad ieithyddol. Mae strategaethau presennol, 'Iaith Byw: Iaith Fyw' (Llywodraeth Cymru 2012) yn cadarnhau sylwadau'r Swyddog Polisi mai diogelu'r Gymraeg yn y gweithle a'r teulu a sicrhau defnydd cymunedol o'r iaith yw canolbwynt polisi iaith cyfredol:

Y prif flaenoriaethau dal i fod yw'r Cymry di-Gymraeg er mwyn iddyn nhw gael defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, Cymraeg yn y teulu a chynyddu defnydd o fewn y gymuned so does dim yn dweud bod pobl o leiafrifoedd ethnig yn cael eu cau allan o hyn. Ond yng nghyd-destun Cymru efo jest dros hanner miliwn o siaradwyr Cymraeg a'r gweddill ddim yn siarad Cymraeg, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio yma.

Dyna yw ein blaenoriaethau ni achos dyna 'le yn ni fel gwlad o safbwynt y siaradwyr sydd gyda ni a'r canlyniadau Cyfrifiad—hynny yw, mae digon o broblem i ni wyrddroi pobl sy'n dod o'r wlad cyn bod ni'n hyd yn oed yn dechrau edrych ar bobl sy'n symud i'r wlad, er yn amlwg bod croeso iddyn nhw fynychu ein cyrsiau achos bod nhw'n agored i unrhywun. Does neb yn *exempt* o'r cyrsiau.

Swyddog y Llywodraeth sydd yn ymwneud â pholisi y Gymraeg

Yn sgil sefyllfa bresennol yr iaith a chanlyniadau Cyfrifiad Prydain ym 2011 yn datgelu cwmp y siaradwyr Cymraeg o 21% i 19%, esbonia'r Swyddog CiO fod angen

canolbwyntio ar ddiogelu defnydd o'r Gymraeg yn y cymunedau Cymraeg. Serch hynny, nodwyd bod mentrau sydd yn targedu anghenion ieithyddol penodol mewnfudwyr yn medru digwydd yn y canolfannau iaith:

Falle tu fas i Wynedd yn benodol ond dw i'n gwybod yn y Gogledd, mae Gogledd Ddwyrain wedi treialu cyrsiau gyda mewnfudwyr o Wlad Pwyl yn y gorffennol. Mae De orllewin wedi gwneud yr un peth lle mae 'na *influx* o bobl o wledydd penodol. Maen nhw wedi trio treialu gwahanol gyrsiau ond mae'n fater iddyn nhw adnabod eu cynulleidfaedd yn hytrach neu fod ni'n dweud chi'n gorfod eu gwneud e. Maen nhw'n gorfod ffeindio cynifer o ddysgwyr ac mae sut maen nhw'n gwneud hynny yn fater iddyn nhw. **Swyddog y Llywodraeth sydd yn ymwneud â pholisi y Gymraeg**

Y safbwynt felly yw nad yw sefyllfa ieithyddol y Gymraeg yn addas ar gyfer deddfau neu strategaethau ychwanegol. Noda hefyd fod y mesurau sydd eisoes mewn lle heb weddnewid y sefyllfa ieithyddol fel yr oedd 'Iaith Pawb' yn ei ddatgan (Llywodraeth Cymru 2003):

Mae'r cyrsiau'n benodol ymhobman—dim ond bod pobl yn dewis peidio mynd ato fe am ba bynnag rheswm. Falle bydd y Mesur a'r ffaith bod cyrff cyhoeddus yn gorfod cydymffurfio safonau yn gwella pethau i raddau ond mae pobl yn anghofio bod y ddeddf iaith yn bodoli ers '93 a oedd fod i wella gwasanaethau Cymraeg, ac 20 mlynedd lawr yr heol, dyn ni ddim cymaint bell ymlaen. Felly dw i'n credu bod disgwyliadau pobl o'r safonau yn eithaf uchel [...] fod yn mynd i wyrdroi'r sefyllfa dros nos. Dyn ni'n gwybod o brofiad dyw e ddim yn mynd i newid dros nos [...] mae e'n mynd i gymryd llawer iawn o amser lle mae'r cyrff yma mewn sefyllfa lle mae'r ddarpariaeth gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a chael Cymry Cymraeg yn defnyddio'r gwasanaethau hynny [...] mewn sefyllfa lle mae'n mynd yn fwy naturiol. Mae e'n mynd i gymryd o leiaf 10 mlynedd i gyrraedd y pwynt yna. Dyn ni barod 20 mlynedd lawr y daith a gall pobl dadlau bod dim lot o gynnydd wedi bod er bod 'na. So hyd yn oed o wneud yn orfodol o dan ddeddfwriaeth, mae e dal yn mynd i gymryd pobl i sylweddoli hynny. **Swyddog y Llywodraeth sydd yn ymwneud â pholisi y Gymraeg**

Yn hanfodol, esboniwyd nad yw darpariaeth addysg i Oedolion â'r un pwysigrwydd ag addysg i blant a phobl ifanc. Gyda chynnydd mewn addysg Gymraeg a'r gobaiith o genhedlaeth newydd yn siarad yr iaith, esboniodd y Swyddog y byddai angen i ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion leihau:

Dyna mewn gwirionedd lle mae'r bobl ifanc yn bwysicach nag oedolion achos nhw yw ein gweithwyr ni i'r dyfodol so mwy o rheina sy'n mynd trwy addysg Cymraeg, mae'n lleihau'r angen am Gymraeg i Oedolion achos fyddan nhw'n rhugl o'r system addysg. **Swyddog y Llywodraeth sydd yn ymwneud â pholisi y Gymraeg**

Nid yw hynny, serch hynny, yn ymdrin â'r duedd gynyddol o fewnfudwyr rhyngwladol i Gymru (cynnydd o 78% rhwng 2004 ac 2011, H.Jones 2015), sydd yn ymsefydlu yng Nghymru heb sgiliau Cymraeg (a Saesneg i nifer healeth ohonynt) ac sydd yn gorfod penderfynu anfon eu plant i ysgolion Cymraeg neu Saesneg eu hiaith.

Cydnebydd y Swyddog fod gan y Gymraeg statws cydradd â'r Saesneg o ran deddfwriaeth ac esbonia nad oes problem mewn egwyddor i ddarparwyr iaith gynrig dosbarthiadau Cymraeg i fewnfudwyr. Atega'r Swyddog sydd yn gysylltiedig ag ESOL fod trafodaeth wedi bod ar ddarpariaeth Gymraeg i fewnfudwyr ESOL o'r enw WSOL. Serch hynny, esboniwyd nad oedd galw oddi wrth y mewnfudwyr am y Gymraeg ac felly nid oedd unrhyw ddatblygiad penodol ynghylch ddarpariaeth o'r math hwn. Honnant fod y galw gan y newydd-ddyfodiad am Saesneg yn ddealladwy oherwydd mai dyma'r iaith y mae ei hangen arnynt er mwyn integreiddio i'r gymdeithas mewn modd ehangach:

G: You mentioned there was a debate about WSOL [...]

When doing the policy as part of the work-based learning tender process. They had it written down and they asked 'do we still do this?' No. It has never been anything and it never came off the ground. I think because there would be absolutely nothing stopping any colleges or provider from doing that. If they wanted to do that—if they are in conjunction with WFA—they'd be nothing stopping it. There was simply not the take up. But then that's logical any more that you'd have take of Spanish in this country. If you're an immigrant, your immediate thought is going to be [...] unless they are from Patagonia, but their first questions aren't going to be 'am I going to speak Welsh?' The questions are going to be 'can I speak English? Because I need that to be able to integrate more generally. **Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud ag ESOL**

Ymhellach rhydd y Swyddog resymau ychwanegol pam na fyddai dosbarthiadau Cymraeg yn addas ar gyfer mewnfudwyr heb sgiliau uchel yn y Saesneg. Mae'r angen addysgol (megis anllythrennedd) yn rhwystr eisoes i'r rhai sydd â sgiliau siarad Saesneg ac felly honnwyd y gallai pwyslais ar y Gymraeg gymhlethu ymdrechion mewnfudwyr i ymsefydlu yng Nghymru:

I think if you attend the classes in Cardiff, they find it difficult enough to teach English to their learners let alone any other language. Third country nationals—you're dealing with a lot of difficult issues—let alone teaching another language.

Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud ag ESOL

Because that's the other thing with ESOL in comparison to other subjects and I suppose WFA probably is quite comparable in some respects. If you're talking about an adult numeracy and literacy class, the majority of your students will be at the same level, the difference for ESOL is that you can have a doctor sitting next to a street cleaner. Then English language skills can be exactly the same but their ability to learn—their history and educational history will be vastly different. Within the ESOL cohort, there is a great deal of basic skills problem—you're dealing with two problems. So that's where we are coming from.

Swyddog Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud ag ESOL

Serch hynny, anghytuna'r Swyddog Cyngor sydd yn gysylltiedig â Chydraddoldeb ac Iaith â meddylfryd sydd yn nacáu dymuniad mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg. Yn ôl y Swyddog hwn, mae blaenoriaethau polisi a strwythurau dysgu Saesneg yn anwybyddu dymuniad gan fewnfudwr i ddysgu Cymraeg:

Dw i'n meddwl y teimlad ydy os wyt ti'n symud i gymuned Gymraeg, mi gei di goblyn o groeso os wnei di ddangos parodrwydd i ddysgu'r iaith. Hefyd mae 'na ddiffyg o weld Cymreictod fel rhywbeth sydd yn ddi-gwestiwn bositif. Ti'n gwybod, mae'r syniad yma os yw rhywun yn mewnfudo i Gymru—y peth diwethaf maen nhw isho yw dysgu Cymraeg [...] pan ti'n meddwl am y peth ac yn enwedig os ydy'r awydd yna—mae'r strwythur yna yn peri i rywun anwybyddu'r awydd yna.

Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydraddoldeb ac Iaith

Wrth gynnig enghraifft o fyfyrwyr rhyngwladol ym Mhrifysgol Bangor, sonia nad yw'r myfyrwyr yn cael eu hysbysu o bwysigrwydd y Gymraeg ar gyfer swyddi yng Nghymru:

Rhywbeth arall sy'n taro chi mewn perthynas â'r Brifysgol [yw] os ydy rhywun yn gwneud cwrs astudiaethau cymdeithasol i ba raddau mae'r sawl sy'n dechrau ar y cyrsiau yn gwybod pa mor allweddol bwysig ydy sgiliau iaith Gymraeg i unrhyw fath o gyflogaeth yn y maes yng Nghymru at y dyfodol?

Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydraddoldeb ac Iaith

Er gwaethaf statws cydradd swyddogol y Gymraeg a Saesneg yng Nghymru, gwelwyd bod ymagweddau swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau Lleol yn gwahaniaethu ynghylch rôl iaith ac integreiddio mewnfudwyr. Blaenoriaethau polisiâu y Gymraeg yn ôl 'Iaith Fyw: Iaith Byw' (Llywodraeth Cymru 2012) yw cynnal a chadw'r iaith a hynny wrth gynyddu'r ddefnydd o'r Gymraeg ymhlith ei siaradwyr yn y gweithle ac yn y cartref. Yn

ogystal â hyn, ceir pwyslais hefyd ar greu siaradwyr newydd o'r boblogaeth Gymreig drwy addysg statudol. Gyda'r Saesneg, mae'r canolbwynt yn ôl Polisi ESOL Llywodraeth Cymru (2014) ar sicrhau sgiliau cyfathrebu i fewnfudwyr allu integreiddio i'r gymdeithas yng Nghymru. Er gwaetha'r Mesur y Gymraeg (Llywodraeth Cymru 2011) sydd yn datgan na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, cawn bortread deglosig o swyddogaethau'r iaith wrth ymdrin â'r ddarpariaeth ieithyddol i fewnfudwyr yng Nghymru. Y mae'r Saesneg felly'n borth ar gyfer cydlyniant cymdeithasol ond y mae'r Gymraeg yn rhwystr rhag cydlyniant cymdeithasol. Ymddengys fod y deiglosia ieithyddol hwn yn dylanwadu ar yr hyn y mae darpariaeth gydradd iaith yn ei olygu i swyddogion Llywodraeth Cymru a Chynghorau Lleol. Serch hynny, yn ôl y Swyddog dros Gydraddoldeb ac Iaith, mae'r anghydraddoldeb mewn darpariaeth Saesneg a Chymraeg yn ei thyb hi yn peri i'r awdurdodau anwybyddu dymuniadau fewnfudwyr i ddysgu Cymraeg. Yn yr un modd, cred fod anghydraddoldeb mewn triniaeth iaith i fewnfudwyr mewn oed yng Nghymru yn rhoi fewnfudwyr dan anfantais wrth osgoi pwysigrwydd cynyddol y Gymraeg ar gyfer cyflogaeth.

5.2.2. Canolfan ESOL

Dadansoddir yn awr ymagweddau Tiwtoriaid ESOL at fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg. Cynhelir cyfweiliadau â thiwtoriaid yng Ngholegau Addysg Oedolion yng Nghaerdydd ac yng Ngwynedd. Gwelwyd bod eu gwaith hwy fel tiwtoriaid wedi'i seilio ar y ffaith bod rhaid i fewnfudwyr ddysgu Saesneg er mwyn cael eu derbyn fel dinasyddion swyddogol y DG. Cydnebydd un tiwtor ESOL fod pwysau oddi wrth Lywodraeth Prydain yn bennaf gyfrifol ar gymhelliant myfyrwyr i ddysgu Saesneg yno:

Dw i'n meddwl pan mae'n dod i'r wlad—prif nod, cymhelliant yw dysgu Saesneg i weithio. Mae lot o bobl sy'n dod i ddysgu Saesneg yn dod o'r *Government*—rhaid i chi ddysgu Saesneg. **Tiwtor ESOL 1, Gwynedd**

Esbonia tiwtor ESOL yng Nghaerdydd nad yw'r Gymraeg o ddefnydd i fewnfudwyr.

Gwelwyd bod ei hymateb yn seiliedig ar ei phrofiad personol o fyw yng Nghaerdydd:

G: Do you think learning Welsh would be of use for them?

Not really. I don't think so if I'm honest. I don't speak Welsh and I manage my life without speaking Welsh. I think if they lived someone that wasn't Cardiff, where they would hear more Welsh, you can go around and not hear much Welsh and you certainly don't need to use it to get yourself understood so I think if they [...] everybody has got constraints on their time. If they have to choose to learn. If they have to choose to learn Welsh or English they need to concentrate on their English. Sorry. **Tiwtor ESOL 2, Caerdydd**

Nodwyd bod nifer o'r tiwtoriaid ESOL eraill y cyfwelwyd â hwy yn cadarnhau ymateb y Swyddog ESOL am eu bod yn ystyried dysgu Cymraeg fel rhwystr ychwanegol i'r myfyrwyr. Honna rhai o'r tiwtoriaid na fyddai'r Gymraeg yn hwyluso'u hintegreiddiad i Gymru, megis ceiswyr lloches. I'r rhain, byddai'r iaith yn rhwystr ar lefel ariannol yn ogystal ag ar lefel addysgol. Gwelir amrywiaeth o ddyfyniadau isod yn cyfleu'r safbwyntiau hyn:

It's just an awareness of the language. I think the point with our language. They are learning a language in order to live their lives and they don't need to learn Welsh to live their life [...] they have enough trouble learning English and living their life and getting their job. Learning Welsh is not really going to do anything. **Tiwtor ESOL 1, Caerdydd**

I think that would be quite preventative. Especially when you are talking about asylum seekers they have such a limited amount of money. I can't see them—well they won't pay for English lessons either so I can't see them paying for a Welsh class. **Tiwtor ESOL 2, Caerdydd**

So with low level ESOL students or low level international students, they're not going to want to spend their time learning a language they are most likely—I get away with not using Welsh at all and I'm in Cardiff and I can speak some Welsh. That's the problem. With low-level students in Cardiff, trying to get them to learn Welsh, what's the point? Because I don't use it, but in the North, it's OK. **Tiwtor ESOL 3, Caerdydd**

People are already struggling and you need to learn English. That's what your priority is. Well, maybe you should have for every English class, a free Welsh one! There needs to be some—people don't usually have the luxury of doing two languages if they have to pay a lot of money for it. That's just the nature of it here. It's English that they need. **Tiwtor ESOL 3, Caerdydd**

If they're in a Welsh speaking community like up North then absolutely. In Cardiff, even the people who were born here, like me. I can't speak Welsh but I wasn't allowed when I was in school. So why would they? If they heard it everyday and felt isolated in that corner shop where everyone's speaking Welsh, then maybe they would. But if English gets them where they need to be, why would you put more on your plate? **Tiwtor ESOL 4, Caerdydd**

Not in Cardiff. Probably if they were in North Wales or somewhere where they speak Welsh more don't they. I suppose they will be hearing it more, they'd be more likely to kind of want to understand. **Tiwtor ESOL 5, Caerdydd**

Gwelir mai ymatebion tiwtoriaid ESOL Caerdydd yw'r rhain. Er eu bod yn amau gwerth y Gymraeg i fewnfudwyr yng Nghaerdydd ar sail eu profiadau personol, gwrthgyferbynnant sefyllfa Caerdydd â Gogledd Cymru drwy ddatgan bod dysgu Cymraeg yn fwy rhesymol a phwrpasol yno.

Nodir bod y tiwtoriaid dan sylw wedi arsylwi dosbarthiadau Cymraeg i'w myfyrwyr ar ddydd Gŵyl Dewi. Gofynnwyd felly i'r tiwtoriaid ESOL i ba raddau yr oeddent yn credu bod y myfyrwyr ESOL wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cyrsiau blasu Cymraeg. Atebodd rhai o'r tiwtoriaid gan ddweud bod y myfyrwyr wedi mwynhau'r sesiynau ac yn dangos diddordeb ond nid oedd hynny yn sylfaen i ysgogiad pellach i ddysgu'r iaith:

Maybe it is this novelty of ooh—they know it's not English. So it gives them something to hook on to which they can't with English [...] But it's still a novelty thing it's not useful to them it's just a novelty. **Tiwtor ESOL 1, Caerdydd**

I wouldn't say the students ever enquire about the Welsh language. They are stimulated when we go to the St. David's day celebrations. They are interested in the language and when we talked about the fact that minority languages are suppressed they are quite interested from a historical and cultural perspective. In terms of learning Welsh, there's not much interest because they have enough to do learning English and they feel English is what is going to get them a job and get them to speak to their doctor and help their kids in school. So yes I think there's a general interest in Welsh and Welsh culture but taking the time to actually learn the language—they are not so enthusiastic. **Tiwtor ESOL 2, Caerdydd**

Pan ofynnwyd i ba raddau yr oedd Saesneg yn helpu mewnfudwyr i integreiddio, esboniwyd bod y Saesneg yn allweddol nid yn unig ar lefel leol ond hefyd ar ddimensiwn ehangach o ran deall bywyd yn y Deyrnas Unedig:

G: Do you think teaching English helps them integrate?

T: Absolutely! Definetely! I especially see that if you go to the communities down in Butetown where you have the all women groups—lots of women that have been, you know, with their families, they don't have the opportunity for learning and they come into the class and meet people from different backgrounds. I think

that helps them understand a different way of life and not what their families are telling them. They can see a bit more of what life is really like in the UK. **Tiwtor ESOL 2, Caerdydd**

Yn ôl y tiwtoriaid ESOL mae gwerth offerynnol ac integreiddiol cryf i fewnfudwyr flaenoriaethu Saesneg yng Nghaerdydd am y ffaith bod y Saesneg yn iaith fwyafrifol yn y ddinas ac yn iaith wladwriaethol. Esboniodd Swyddog ym maes ESOL fod rhai tiwtoriaid wedi gwrthwynebu'r syniad o gynnal sesiynau Cymraeg i fyfyrwyr ESOL a gynigwyd fel rhan o ysgoloriaeth i fewnfudwyr gan y Ganolfan Cymraeg i Oedolion:

I had a bit of a bone—I had a battle when we were looking at the scholarship—I had a battle with some tutors. There were definite barriers there because they didn't take on board the need [...] some did. It's actually picking those initially—tutors who are on board and that brings the others on board. **Swyddog ym Maes ESOL (1)**

Awgryma'r Swyddog ESOL mai ymagweddau'r tiwtoriaid yn hytrach nag ymagweddau'r mewnfudwyr sydd yn achosi rhwystrau i fewnfudwyr ddysgu Cymraeg. Yn ôl y Swyddog ESOL, oherwydd dylanwad y tiwtoriaid ar y myfyrwyr, cred y byddai'n fuddiol codi ymwybyddiaeth o ddefnydd y Gymraeg ymysg y tiwtoriaid ESOL fel cam cyntaf mewn ymgais i hyrwyddo'r Gymraeg i'r myfyrwyr ESOL:

I think that is some of the barriers we get with some learners as it might be well 'I'm here to learn English'. For all our learners, this is an additional language for them. They're very familiar with learning other languages and very open to learning other languages so I'm wondering maybe how much that is maybe from a tutor's aspect rather than the learners. **Swyddog ym Maes ESOL (1)**

Er hynny, mae safbwyntiau tiwtoriaid ESOL Caerdydd yn gwrthgyferbynnu â safbwyntiau tiwtoriaid ESOL yng Ngwynedd. Esbonia tiwtoriaid ESOL yng Ngwynedd fod y Gymraeg yn adnodd offerynnol i'r mewnfudwyr ac nid ystyriant fod y Gymraeg yn faich ychwanegol i gynlluniau mewnfudwyr wrth iddynt ymsefydlu yn y gymuned:

[...] ond maen nhw'n gallu gweld y gwerth o ddysgu Cymraeg. Mae rhai o'n myfyrwyr ni yn dweud eu bod nhw eisiau cael swydd ac maen nhw'n dweud 'you must know basic Welsh'. Maen nhw'n gweld bod angen dysgu a siarad Cymraeg yn dda iawn. Maen nhw eisiau dysgu Cymraeg hefyd. Dyn nhw ddim yn gweld e fel 'o gosh, another thing.' **Tiwtor ESOL 1, Gwynedd**

Atega'r tiwtor yng Ngwynedd yr hoffai gael mwy o ryddid yn y cwricwlwm ESOL i ddysgu

Cymraeg i'w myfyrwyr:

Baswn i'n hoffi dysgu lot mwy o Gymraeg i'n myfyrwyr ni ym Mangor achos maen nhw angen mwy o Gymraeg [...] Mae pobl sy'n rhieni hefyd—maen nhw'n gweld bod angen dysgu tipyn bach o Gymraeg. Baswn i'n gweld lot o angen am Gymraeg i rieni ac i fyfyrwyr ESOL. Byddai hynny yn ffantastig. **Tiwtor ESOL 1, Gwynedd**

Esbonia tiwtor ESOL arall yng Nghwynedd fod y galw am ddarpariaeth Gymraeg yno yn dod oddi wrth y mewnfudwyr. Er hyn, eglura nad oes cyllid ar gyfer darpariaeth Gymraeg yn achos y Saesneg ar sail y ffaith nad yw'r Gymraeg yn cael ei ystyried yn gymhwyster hanfodol:

Wel does dim pres. Mae'r pres [...] dw i'n gwneud *report* rwan arno fe. Mae pres i ddysgu 'Essential Skills'—Dyn ni'n mynd allan i'r lle gwaith ond mae rhai o'n myfyrwyr ni yn dweud 'dyn ni eisiau dysgu Cymraeg'—maen nhw'n iawn os ydy'n nhw'n siarad Cymraeg ac eisiau gwella'u Cymraeg ond dydy e ddim yn iawn os does dim byd o Gymraeg gyda nhw. Mae hynny ella yn rhywbeth sy eisiau newid. Mae hynny ddim yn 'promotio'—'it's not promoting the Welsh language!' **Tiwtor ESOL 2, Gwynedd**

Ar sail ymagweddau'r tiwtoriaid ESOL, gwelwyd bod eu hymagweddau yn adlewyrchu ymagweddau Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau Lleol ac eithrio tiwtoriaid Gwynedd. Yn unol â'r hyn a welwyd yng nghanfyddiadau Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau Lleol, awgrymwyd bod ychwanegu addysg Gymraeg i broses integreiddio mewnfudwyr o'r tu allan i Brydain yn creu rhwystrau yn hytrach na datod rhwystrau ychwanegol. Hefyd, yn unol ag ymagweddau'r Llywodraeth, ystyria'r tiwtoriaid ei bod yn gwestiwn o ddewis integreiddio drwy'r Gymraeg *neu'r* Saesneg. Am resymau ymarferol felly, mae'r Saesneg yn mynd i gynnig mwy o opsiynau i'r mewnfudwyr a hynny fydd y dewis strategol yn y tymor hir. Yr eithriad i diwtoriaid ESOL Caerdydd yw mewnfudwyr sydd yn ymsefydlu yng Ngogledd Cymru lle y byddai dysgu Cymraeg yn fwy ymaferol oherwydd presenoldeb cryfach yr iaith yno. Serch hynny, noda tiwtoriaid ESOL Gwynedd fod gwerth offerynnol ac integreiddiol mewn dysgu Cymraeg i fewnfudwyr er nad yw'r

ddarpariaeth ar gyfer oedolion yn caniatáu i fewnfudwyr gael yr un cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a Saesneg ar hyn o bryd.

5.2.3. Canolfan Cymraeg i Oedolion

Dadansoddir yn awr ymagweddau tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion at fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg. Cyfwelwyd â thiwtoriaid a oedd wedi bod yn rhan o gynllun dysgu iaith i fewnfudwyr yng Nghaerdydd a Gwynedd. Cyfwelwyd hefyd â swyddogion Canolfan Cymraeg i Oedolion yn ne a gogledd Cymru.

Yn ôl y tiwtoriaid Cymraeg, ystyriant fod gan Saesneg berthnasedd i fewnfudwyr nad yw'r Gymraeg yn meddu arno:

Felly yn ymarferol, mae 'na fodd iti ymdoddi i'r gymdeithas Gymraeg yng Nghymru ond wrth gwrs *lingua franca* Cymru—er nad yw pawb yn gallu siarad Saesneg yng Nghymru—mae hynny'n wir—yw Saesneg. Felly mae 'na ymarferoldeb sy'n perthyn i'r Saesneg sy ddim yn perthyn i'r iaith Gymraeg ond mae 'na fanteision wrth gwrs. **Tiwtor CiO, Gwynedd**

Ma'r cymhelliant yna. Ond efallai Saesneg, wel ma' pawb arall yn siarad Saesneg a rhwyddach i ffeindio swydd. Ac ar wahân i hynny mae'n gyfreithiol. Ma rhaid i ti ddysgu Saesneg i fyw yn y wlad yma. Ma rhaid i ti ddysgu Saesneg a siarad Saesneg o ryw lefel i fod yn ddinesydd y wlad yma ac nid hwnna ydy'r un amodau i fyw yng Nghymru. Mae'r un amodau i fyw yng Nghymru ag yn Lloegr, ac yn yr Alban—ond dydy o ddim yn golygu'r un peth yn gymdeithasol. **Tiwtor CiO, Caerdydd**

Fel hynny, er bod cymhelliant i ddysgu Saesneg yn cael ei yrru gan y wladwriaeth Brydeinig, esbonia'r ymatebwyr hyn fod mewnfudwyr yn sgil eu profiadau dysgu hwy yn gweld budd yn y Gymraeg ar sail cymhelliannau cymdeithasol yn benodol:

Wel am Saesneg ma nhw'n mynd i feddwl wel ok—dw i'n dysgu Saesneg dwi'n gallu ffeindio gwaith. Dydyn nhw ddim yn gweld eto bod y Gymraeg yn cynnig y cyfle yna. Dyn nhw ddim yn gweld hynny eto. Wel dim y mwyafrif ohonyn nhw beth bynnag. Ond ma' nhw'n gweld yr ochr gymdeithasol, yr ochr gymdeithasol yw'r un fwyaf pwysig iddyn nhw. Gofynnais i [...] 'wel dwi'n dysgu oherwydd dwi'n byw yma—dyna iaith y bobl' medden nhw a chi'n meddwl, wel, dyna fe! Does dim mwy o reswm. Ma'r cymhelliant yna. **Tiwtor CiO, Caerdydd**

Ymddengys mai ar sail integreiddio ar lefel gymdeithasol yw'r prif gymhelliant yn ôl y tiwtoriaid er bod hynny'n gwahaniaethu rhwng Gwynedd a Chaerdydd:

Os oes gen ti ardaloedd Cymraeg iawn, er mwyn i ti integreiddio, mae angen i ti siarad Cymraeg. Mae 'na ardaloedd lle mae hynny'n wir sy'n wahanol i Gaerdydd lle dy'r rheswm dros ddysgu Cymraeg ddim yr un fath. **Tiwtor CiO, Grŵp Ffocws Gwynedd**

Dywed un tiwtor fod angen apelio i'r ochr emosiynol gyda'r Gymraeg ac mae hyn yn golygu dod allan o'u 'cylch cysur' Saesneg:

Maen nhw'n deall yn iawn beth yw hynny achos da chi'n symud da chi isio clywed rhywbeth da chi'n teimlo'n gyfforddus. *Comfort zone* yn Saesneg. Felly dyna beth yw'r peth, trio cyrraedd mewn ffordd emosiynol. Mae'r elfen emosiynol mewn dysgu iaith yn hynod o bwysig hefyd yn ôl beth rwy'n credu. Felly ma'r dysgwyr ffordd yma yn dweud, *ok*, dwi di dod i'r wlad yma a dwi isio byw yma, neu dwi'n gweithio yma neu dw i'n magu teulu fan hyn, nifer o resymau pam mae pobl yn symud o un man i'r llall ac felly siŵr o fod dach chi isio ymdoddi yn y sefyllfa yn y gymdeithas yna a da chi isio neud y gore allan o'r sefyllfa felly siarad yr un iaith a phobl yr ardal yn un ffordd. **Tiwtor CiO, Caerdydd**

Dywed tiwtor arall fod mantais gan fewnfudwyr gan eu bod hwy'n amlieithog ac mae nifer fel hynny yn ystyried iaith fel 'adnodd' gyda rhinweddau penodol iddynt. Cymherir hyn ag ymagweddau ymhlith y Cymry di-Gymraeg sydd ymysg rhai amharod i ddysgu'r iaith:

Gyda lot o bobl dw i wedi siarad â nhw, os oes ieithoedd eraill gyda nhw, maen nhw'n gallu gweld y fantais yn well na phobl o Loegr neu hyd yn oed Cymru. Mae lot o bobl o Gymru ddim yn gweld y fantais o ddysgu Cymraeg. Mae ieithoedd eraill gyda nhw ond maen nhw'n meddwl 'pam ddim dysgu Cymraeg?' [...] mae'n ystrydebol i ddweud ond falle bod mwy o *open mind* am y peth ond gyda phobl, Cymry di-Gymraeg, falle bod eu teulu nhw'n meddwl bod y Gymraeg ddim yn bwysig ac wedyn mae'n cael ei basio ymlaen ac mae'n cael ei ffosileiddio tipyn bach a dyn nhw ddim eisiau dysgu Cymraeg o gwbl. Falle bod fewnfudwyr ddim wedi meddwl am ddysgu Cymraeg ond pan maen nhw'n dysgu am y Gymraeg, maen nhw'n meddwl 'actually, mae mantais—mae ieithoedd eraill gyda fi'. **Tiwtor CiO, Caerdydd**

Er bod y tiwtor yn honni bod manteision gan unigolion amlieithog o ran gallu ac ymagwedd gadarnhaol tuag at ddysgu iaith, esbonia tiwtor CiO arall fod darpariaeth yn fater canolog. Teimla fod yr iaith yn cael ei danseilio am y ffaith nad oedd yr un amser a blaenoriaeth yn cael eu buddsoddi yn y Gymraeg fel y Saesneg:

Can I just add, it's not even just bilingualism, I've seen trilingual, young children, and they have no problem at all—they switch from one language to another and that's the time to do it. That's the first thing. The second point that I want to make as well. We were talking about giving time to learn another language—Welsh we're talking about. What I worry about it whether people would then see

the second language, which is in this case, Welsh, as a 'second' language, unless you give equal time and priority to both. **Tiwtor CiO, Grŵp Ffocws Caerdydd**

Noda tiwtor arall ei bod wedi sylwi ar ymagweddau tiwtoriaid ESOL yn ystod sesiynau ymwybyddiaeth y Gymraeg i fyfyrwyr ESOL, a'i bod yn tybio bod ymagweddau'r tiwtoriaid ESOL yn dylanwadu ar y mewnfudwyr:

Pan o'n i wedi gwneud y cyrsiau blasu yn y Friary, ymagwedd y tiwtor oedd 'o na maen nhw'n dod o rywle arall—dw i ddim yn gweld pwynt yn y Gymraeg—felly pam fyddan nhw?' Falle bod yr ymagwedd yna yn effeithio arnyn nhw. Ond dw i ddim wedi'i weld e yn unrhywle arall ond dw i'n gallu dychmygu eu bod yn effeithio ar bobl. Weithiau os yw rhywun yn dechrau dweud rhywbeth drwg am y Gymraeg, wel dyw lot o bobl ddim yn mynd i anghytuno. Mae'n cymryd person cryf i ddweud 'dw i ddim yn cytuno'. **Tiwtor CiO, Caerdydd**

Serch hynny, yn y dyfyniad isod, disgrifia'r ymatebwr, sefyllfa un myfyriwr yn ymholi ynghylch darpariaeth Cymraeg a Saesneg i oedolion. Dywedodd fod yr enghraifft hon yn tanlinellu annhegwch ieithyddol sydd yn bodoli rhwng darpariaeth y Gymraeg trwy CiO a'r Saesneg trwy ESOL yng Nghymru:

Enghraifft sy gyda ni—mae'n enghraifft reit dda. Cawson ni gŵyn gen ddysgwyr yn dweud dwi'n gorfod talu mynd ar gwrs ar roedd e'n llythrennol mynd i'r neuadd lle oedd ein cyrsiau ni ac roedd e'n mynd fyny'r grisiau ac roedd e'n dweud dosbarth Cymraeg i'r chwith ac 'ESOL class' i'r dde. Ac roedd o'n dweud mai'r bobl ar y dde yn cael y cyrsiau am ddim ac mae'r chwith yn gorfod talu. Beth bynnag ydy'r dadleuon o blaid neu yn erbyn talu, mae 'na annhegwch yna. Oes wyt ti eisiau trin y ddwy iaith yn gyfartal, dyn ni ddim yn neud o ar hyn o bryd. **Swyddog ym Maes CiO (2)**

Safbwynt y Swyddogion ym maes CiO yw bod diddordeb mewnfudwyr yn y Gymraeg yn ddibynnol ar waith marchnata penodol e.e. eu targedu yn y gweithle. Yn unol ag argymhellion swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cyngorau Lleol yn Adran 5.1.2, gwaith ar lefel *feicro* sydd yn strategol bosibl yn ôl yr ymatebwr:

Dw i'n credu bod nhw [Llywodraeth Cymru] yn trio targedu pawb ac yn peidio gwahaniaethu rhwng gwahanol garfannau. Ond be dwi'n ymwybodol ohono fe yw, fy nheimplad i yn gam neu'n gymwys, er mwyn llwyddo i roi cyrsiau Cymraeg i bobl o gefndiroedd ethnig bod angen i chdi dargedu nhw'n benodol. Yn hytrach na hysbysebu fe'n gyffredinol yn y wasg neu ar dy wefan. Rwy'ti'n mynd i gael yr 1% yn ymrestru yn y Gogledd am wahanol resymau a alla fod yn rhesymau gwaith neu blant ond mae 'na le dw i'n meddwl er mwyn cynllunio ieithyddol mwy effeithiol e.e. ar lefel meicro bod chdi'n mynd i Gaernarfon ac yn targedu [...] dw i ddim eisiau stereoteipio [...] ond yn cyffredinoli bod chi'n targedu'r

lleoliadau bwyd, y sector gwerthu bwyd, tai bwyta. Mi allai di greu dosbarth hyfyw iawn. **Swyddog ym Maes CiO (2)**

Serch hynny, cyfeiriodd y trafodaethau â'r Swyddogion CiO yn aml iawn at gwestiynau ariannol yn sgil toriadau sylweddol i'w darpariaeth yn 2014 (BBC Cymru 2014). Nodwyd bod maes Cymraeg i Oedolion dan newidiadau sylweddol a hefyd yn colli 15% o'i gyllid. Nodir felly bod pwyslais y Llywodraeth wedi newid i ddiogelu a sicrhau bod y siaradwyr presennol yn defnyddio'r iaith:

Dw i'n credu bod arian CiO yn mynd i gael ei gwasgu a gwasgu a gwasgu. [...] Felly be sy'n eglur yn genedlaethol dwi'n synhwyro y byddwn yn gwneud llai nag yn ni wedi bod yn gwneud [...] sy'n drueni ond mewn sefyllfa lle bydden ni'n gorfod gwneud llai dros bobl Cymru yn gyffredinol oherwydd bod blaenoriaethau strategol yr iaith Gymraeg wedi newid gan y Llywodraeth bellach ac wedi symud o ehangu'r Gymraeg i sicrhau bod y rhai sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn ei ddefnyddio. **Swyddog ym Maes CiO (1)**

Safbwynt Swyddog ym maes CiO (2) yw bod ehangu darpariaeth i ddarpar grwpiau megis mewnfudwyr yn llai o flaenoriaeth nag erioed. Er bod angen diogelu defnydd yr iaith, credai fod y newid pwyslais ar ddefnydd yr iaith ar draul datblygu siaradwyr newydd yr iaith. Tybia Swyddog CiO (2) fod hyn yn mynd i gael effaith sylweddol ar nifer y siaradwyr sydd yn cael eu cynhyrchu:

Dyna'r 'dy'r peth, os wyt ti'n mynd i esgeuluso creu siaradwyr, mae dy gronfa di o siaradwyr yn mynd i leihau. P'un ffordd, mae 'na golled net o siaradwyr bob blwyddyn—tair mil dw i'n credu—so mewn 10 mlynedd mae 30 mil rwyt ti wedi colli ar hyn o bryd, ella bod Cymraeg i Oedolion yn medru—i fyny i lefel canolradd—dw i ddim wedi gweithio allan ond ffigwr o dop fy mhen mewn 10 mlynedd, pan rwyt ti'n gallu canfod 10 mil neu greu 10 mil o siaradwyr, mae gyda chi draean o'r blwch. Wel, mae hynny'n tanlinellu pa mor bwysig ydy Cymraeg i Oedolion i fedru cynnal y Gymraeg. Dw i'n derbyn bod defnyddio'r Gymraeg yn bwysig eithriadol hefyd ond mae e'n agenda gwahanol. Ti angen y ddau. **Swyddog ym Maes CiO (2)**

Ar sail y sylwadau uchod gan diwtoriaid a swyddogion ym maes ESOL ar y naill law a thiwtorïaid a Swyddogion ym maes CiO ar y llaw arall, gwelir bod pegynau gwrthgyferbyniol i'w hymagweddau ar fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg a'r ddarpariaeth ieithyddol sydd yn rhesymol i newydd-ddyfodiaid Cymru. Gwelwyd bod gwrthdrawiadau sylweddol ymysg y grwpiau ynghylch gallu'r Gymraeg i hwyluso integreiddio. Sylwyd bod

yr ymagweddau yn gwahaniaethu oddi mewn i grŵpiau yn ogystal â rhwng grwpiau. Wrth ystyried ymagweddau tiwtoriaid a swyddogion Cymraeg i Oedolion yn benodol, nodir bod tiwtoriaid CiO yn cydnabod perthnasedd dysgu Saesneg a'r ymarferoldeb i ddewis Saesneg fel blaenoriaeth wrth integreiddio yng Nghymru. Serch hynny, mae'r tiwtoriaid a swyddogion CiO yn ymateb o ran eu profiadau a'u hegwyddorion ar gydraddoldeb iaith. Yn wahanol i'r tiwtoriaid a swyddogion ESOL, credant fod y Gymraeg yn ddimensiwn ffafriol i'r mewnfudwyr. Hefyd, gwelant fod cyfrifoldeb arnynt i gyfleu perthnasedd yr iaith iddynt oherwydd ni chredant fod manteision economaidd yn ogystal â manteision cymdeithasol y Gymraeg yn amlwg i fewnfudwyr ar draws Cymru.

5.2.4. Mewnfudwyr

Dadansoddir yn awr sylwadau'r mewnfudwyr ar sail cyfweiliadau lled-strwythuredig yn holi am eu cymhelliannau ac ideolegau ynghylch iaith ac integreiddio yng Nghymru. Wrth ddehongli sylwadau'r mewnfudwyr, nodwyd eu hymatebion hwy i'r cwestiwn 'pam dysgu Cymraeg?' Er gwaethaf y gwahaniaeth rhwng lleoliadau mewnfudwyr rhwng Caerdydd a Gwynedd, daeth yn amlwg fod nifer o'r cymelliannau emosiynol i ddysgu Cymraeg yn debyg—a hynny yn cynnwys myfyrwyr ar gyrsiau mynediad yn ogystal â myfyrwyr uwch a hyfedredd. Yn gryno, noda'r mewnfudwyr y cyfwelwyd â hwy bod dysgu Cymraeg yn gam rhesymol am y ffaith eu bod nhw wedi ymsefydlu yng Nghymru ac am fod y Gymraeg yn briod-iaith Cymru:

First because I think, as I said before, I will be here as much as I live, I think. So it's good that I know the place where I am and I would like also to know more about, not just the language, also the history of Wales and knowing more about it because I'm here anyway. **Myfyriwr Dosbarth 'Dinasyddiaeth', Caerdydd**

Dw i'n caru ieithoedd ac roedd wastad gen i gydwybod gwael am nad o'n i wedi dysgu Cymraeg ac achos taw Cymraeg yw iaith y wlad hon.⁸⁴ **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

I'm in Wales at the moment, so why not learn? **Myfyriwr Dosbarth 'Dinasyddiaeth', Caerdydd**

⁸⁴ Ich liebe Sprachen und ich hatte immer schon ein schlechtes Gewissen dass ich Walisisch nie gelernt habe, weil Walisisch die Sprache dieses Landes ist.

To boost my knowledge of the country. It's really important when you arrive in another country that you know all the use—the identity of the people. I love discovering other people. **Myfyriwr ESOL, Caerdydd**

If you don't use language, you lose your culture. I think it is important. For me if I live here, I need to know the road signs, where is Menai Bridge. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Ymddengys fod cymhelliant i ddysgu yn gysylltiedig â sefydlogrwydd. Gwelwyd bod y mewnfudwyr y cyfwelwyd â hwy yn dymuno aros yng Nghymru ac ymddengys fod hyn yn dylanwadu ar eu dewisiadau bywyd. Ymhellach, nodir bod eu cymhelliant i ddysgu Cymraeg yn deillio o chwilfrydedd i ddarganfod mwy am eu cartref newydd.

Hefyd, trafodant y Gymraeg mewn perthynas ag ieithoedd eraill yr oeddent yn eu siarad. Mewn rhai sefyllfaoedd, gwelwyd tebygrwydd rhwng y Gymraeg a'u hieithoedd brodorol hwy o safbwynt ideolegol. Dywed un fyfyrwraig ESOL o Algeria bod y Gymraeg yn ei hatgoffa o'i mamiaith Berber, am ei bod yn iaith frodorol, hanesyddol sydd wedi cael cydnabyddiaeth wladwriaethol yn y blynyddoedd diweddar. Am y rheswm hwnnw, esbonia ei bod yn teimlo cysylltiad emosiynol â'r Gymraeg. Yn aml felly, roedd ganddynt brofiadau blaenorol o fyw mewn sefyllfaoedd amlieithog anghyfartal eu natur. Gwelir isod enghraifft arall o fewnfudwraig Rwmaneg yn cymharu ei phrofiad o sefyllfa ieithyddol Valencia yn Sbaen gyda'r Gymraeg ym Mhrydain:

I don't know how to say but when you go into a country, it's a shame to don't know a bit of their language. I know it's English here, but it's part of their history and they try to put it in. So it's a shame to don't know. Because I remember in Spain, you have in our community it's 'Valencia' and all the people always said 'you have to speak Valenciana' [...] because it was the same, like here. In the school, the old ones say 'no Valenciana', they stopped it now just Spanish. Now they try to introduce it more in school and speaking more, so. I even understand Valenciana now because of that way 'you have to', you have to!' **Myfyriwr Dosbarth 'Dinasyddiaeth', Caerdydd**

Yn wir, roedd nifer o'r myfyrwyr yn y dosbarthiadau Cymraeg yn rhyfeddu bod gan y Gymraeg statws cyfreithiol a gofynnant gwestiynau yn y dosbarth ynglŷn â chyfiawnder ieithyddol yn eu gwledydd brodorol hwy ynghyd â statws cynyddol Saesneg yn nifer fawr

o wledydd. Ymateb nifer yn y dosbarthiathau iaith oedd y dylai trigolion Cymru fod yn falch o'r statws sydd yn eiddo i'r Gymraeg erbyn heddiw. Ymddengys bod eu hymdrechion i ddysgu'r iaith hefyd yn destun balchder iddynt hefyd.

For this reason, I'm thinking to learn Welsh because we live here and we should be proud to know about, something about what happened in this country, what is the language, to be able to speak the language. **Myfyriwr ESOL, Caerdydd**

I'm proud to tell, share with my relatives in Malaysia. Sometimes I put a Facebook status in Welsh. **Myfyriwr Dosbarth 'Dinasyddiaeth', Caerdydd**

Gwelwyd gan nifer fod yna ddimensiwn integreiddiol dros ddysgu Cymraeg a theimlo'n 'gartrefol' yng Nghymru:

Dwi'n teimlo mwy adref yng Nghymru nawr. Dw i o wlad arall a Saesneg yw fy ail iaith. Felly mae'n rhyfedd mae e un o'r rhesymau dw i wedi dechrau dysgu Cymraeg. Falle do'n i ddim yn *realise*, sylweddoli [...] ond siŵr o fod i er mwyn bod yn gartrefol yma. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

To integrate it would help really. If living in Cardiff where there is so much English. Since it's not mandatory that's how it goes [...] After seeing the tutor in our Welsh class, it made me think, Yes, it is possible. Until then, I was like, can I, can't I? **Myfyriwr Dosbarth 'Dinasyddiaeth', Caerdydd**

Yn hyn o beth, gwelwyd bod elfen o fod yn gartrefol yn gysylltiedig â dangos ewyllys da a pharch tuag at y gymuned groeso yn ogystal â'r dymuniad i gyfathrebu â'r bobl leol:

The Welsh people feel more open if they see the stranger are more open to learning language. They feel [...] oh really good people. Join together, They feel with us. They want to do what we are doing. They want to speak with us. They feel more familiar with us. Because we are still human, we still judging, we still like, oh no, ye. **Myfyriwr Dosbarth 'Dinasyddiaeth', Caerdydd**

I cannot speak Welsh fluently but I always believe that we have to respect our language of the land. That is the language of the host land. It's a lovely language and we must learn and it would be easier to communicate with the local people—it is very very important for people coming from outside like me. It is important for them to speak with local people in their own language. Acceptance will be much easier, that's what I feel. **Myfyriwr ESOL, Caerdydd**

Dw i'n teimlo'n well hefyd achos Catalanwr dw i felly dw i wrth fy modd pan mae rhywun o'r tu allan i Gatalwnia yn trio siarad Catalaneg felly rwy'n teimlo ar yr ochr arall nawr sa'n un licio siarad Cymraeg efo pobl o Gymru. A hefyd dwi'n meddwl ella dwi'n cael 'disgownt' neu rywbeth os ydw i'n siarad Cymraeg yn haws! **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Mae dau reswm gyda fi i ddysgu Cymraeg. Dysgu Cymraeg yw'r ffordd gorau i wybod mwy am ddiwylliant Cymraeg ac i wybod y bobl leol. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Ynghlwm â theimladau o barch at yr iaith, noda un myfyriwr bod gwahaniaeth rhwng cymelliannau dros ddysgu Saesneg a Chymraeg. Ystyria Saesneg yn iaith ryngwladol ag iddi ffactorau economaidd cryf. Cysyllta'r Gymraeg ag elfen o ddyletswydd fel dinasyddion newydd Cymru:

I start to learn English in school because it was part of the programme with French and at some point Russian, French, German and Latin. This is the school. Because of business, I had to learn English, nothing to do with England itself—nobody knew that I will start a life in England. English is a different business. Like it or not it is an international language and it's good, if you start to learn a language. It's better to start with English, it's more spread than others—that was the reason for English. Welsh is another matter, I am in this country, sooner or later I will be a citizen of this country—I want to learn Welsh. **Myfyriwr ESOL, Caerdydd**

Esbonia rhai o'r mewnfudwyr sy'n dysgu Cymraeg fod rhai ffactorau penodol wedi'u hysgogi i ddechrau dysgu'r iaith gan gynnwys 'ysgogiad' oddi wrth eu plant:

I suddenly became interested. And when we had [enw'r plentyn], I thought [...] we should learn the language. We should learn the language here. If you live in Uganda, it makes sense for him to learn the language and hopefully he will have a language. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

But the thing that push me more is my daughter. Because she's in this school but she's been asking me to move in a Welsh school. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

One of the children said every Tuesday morning [...] 'I don't want to go to school!'—'Why?' 'Because I have Welsh today', so this pushed me to pay and study Welsh here. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Yn aml, noda'r myfyrwyr ESOL a CiO bod ffactorau economaidd wrth galon eu cymhelliannau yn ogystal â ffactorau cymdeithasol:

I say yes to socialise with other people. I think it is important for the job too. In the hotel, it is important to speak in Welsh for those who arrive. Like you, if you don't speak Italian it is important to understand to protect me. **Myfyriwr ESOL, Caerdydd**

Ie, mae'n ddefnyddiol iawn i ddysgu. Yn fy achos, y rheswm cyntaf a theulu fy nghariad, ail reswm yw gwaith—sa'n i'n lico byw yma ac aros yng Nghymru. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Yn ail yn y swyddfa ro'n i'n efallai mae e'n dda ar fy CV am fy ngyrfa yn y dyfodol Falle hoffwn i weithio rhywle arall. Mae e'n neis i ddeall yn y stryd—mae e'n ddwyieithog. Mae e weithiau'n ysgrifennu rhywbeth dim ond yn Gymraeg.
Myfyriwr CiO, Caerdydd

Mae cyfleoedd swydd yn llawer gwell—dylai fod mwy o bwysau oddi wrth y Llywodraeth sydd yn meddwl bod pobl dim ond yn dymuno dysgu Cymraeg ond eu bod hefyd yn gallu.⁸⁵ **Myfyriwr CiO, Bangor**

Er bod rhai o'r mewnfudwyr yn falch nad oes unrhyw fesur yn gorfodi dinasyddion i ddysgu Cymraeg fel Saesneg, esbonia un myfyriwr y bydd angen iddo ddysgu Cymraeg un ffordd neu'i gilydd, a hynny am resymau economaidd yn benodol. Yn hyn o beth, dymuna fuddsoddi yn yr iaith ar gyfer ei yrfa oherwydd ystyria y bydd pwyslais cynyddol ar y Gymraeg yn y dyfodol:

This is only my impression—it's quite the normal way. You are in Wales [...] to be able to speak Welsh—you should need it. I was happy and impressed in a good way when I was told that I don't need to speak Welsh coming here because that was quite a big barrier but otherwise, ok—I didn't have to know coming here, but after a while you have to [...] Even if it's only for my pride, it is good enough. But it's not the case. It's about business—some jobs require Welsh. At this moment—just some. How I said earlier, maybe in the near future, more and more jobs will require knowing Welsh. This is quite a powerful reason. I can't see any other reason to be honest. **Myfyriwr ESOL Caerdydd**

Esbonia myfyriwr arall bod y Gymraeg yn agor posibiliadau newydd; yn adnodd yn y farchnad waith:

Dw i'n cyflawni breuddwyd—ro'n i wastad eisiau dysgu Cymraeg [...] dw i'n ffeindio'r Gymraeg yn ddiddorol gan fy mod yn ieithydd [...] ond nawr dw i'n gwybod bod nifer o swyddi yn y farchnad yn gofyn am y Gymraeg ac oherwydd fy mod yn bedwardeg oed nawr, dw i'n meddwl ei fod yn dda ydych yn gallu gwneud tipyn mwy.⁸⁶ **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Yn hyn o beth, nodwyd sylwadau rhai mewnfudwyr ynghylch materion ieithyddol a oedd yn peri rhwystrau ieithyddol yn eu barn wrth ymsefydlu yng Nghymru. Yn y dyfyniad isod, gwelir enghraifft o fewnfudwr a ddymunodd ddysgu Cymraeg a Saesneg wrth iddo

⁸⁵ Die Job Aussichten sind viel besser—meiner Meinung nach, sollte man mehr Druck auf die Regierung machen dass, alle die Walisisch lernen möchten, dass, sie es auch können.

⁸⁶ 'Ich erfühle mir einen Traum—ich wollte schon immer Walisisch lernen [...] ich finde Walisisch interessant weil ich Linguistin bin [...] und ich weiss auch, dass viele Jobs auf dem Markt auch Walisisch verlangen, und weil ich jetzt 40 bin denke ich es ist gut wenn man noch etwas mehr kann.'

ymsefydlu yng Ngogledd Cymru. Serch hynny, esbonia fod y ffioedd ynghlwm â'r ddarpariaeth Gymraeg wedi ei gymell i ddysgu'r Saesneg yn gyntaf:

Ond pan ddes i yma, nes i tsecio'r ddwy iaith achos ro'n i eisiau siarad y ddwy—Saesneg a Chymraeg. Do'n i ddim yn siarad—wel tipyn bach o Saesneg yn yr ysgol. O'n i wedi astudio rhifau a phethau fel 'na. Ond ro'n i eisiau dysgu'r ddwy. Ac, pan es i i Goleg [...]—ro'n nhw fel 'wel mae 'na scholarships i ddysgu Saesneg am ddim'. Be am Gymraeg? Mae 'na ddisgownt ond dylai ti dalu—dim llawer ond tipyn bach. Myfyriwr o'n i felly doedd gen i ddim llawer o bres ac mi benderfynais i Saesneg yn gyntaf a pan fydd gen i bres, ella dw i'n astudio Cymraeg. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Esbonia ei fod wedi cael cyfle i ddysgu Cymraeg yn ddiweddar fel rhan o'i swydd ond dywed fod anghytgord rhwng yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ddatgan o ran cydraddoldeb y Gymraeg a Saesneg a darpariaeth y Gymraeg a Saesneg:

Ok. Dim yr un cyfle oedden nhw. Dw i'n dallt bod yr arian i ddysgu Saesneg yn dod o Ewrop—ESF oedd o, ond, wel, os oes 'na bolisi dwyieithog *equal* ac ati mi ddylai'r Llywodraeth matsio'r *funding*. Fel arall, does nad dim pwynt dweud pethau fel [...] sy ddim yn digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Gwelir yn achos y myfyriwr hwn bod ei farn ef yn gysylltiedig â'i brofiadau o fyw yng Nghatalwnia. Yn hyn o beth, cred fod cydraddoldeb ieithyddol yn dod yn sgil blaenoriaethu'r iaith leiafrifol dros yr iaith fwyafrifol a honna nad yw polisïau Llywodraeth Cymru ar ddwyieithrwydd yn llesol i'r Gymraeg:

Dw i'n dallt y teimlad o siarad iaith leiafrifol a sefyllfa'r iaith a pha mor bwysig yw siarad yr iaith leiafrifol bob dydd, achos dyma'r unig ffordd i gadw'r iaith yn fyw. Dw i ddim yn dallt *attitude* Llywodraeth Cymru ynglŷn â 'rhaid i ni fod yn ddwyieithog' achos rhaid i ni barchu iaith Saesneg yr un peth a'r Gymraeg. *Approach* Catalaneg yw 'dyn ni'n trio gwneud popeth trwy gyfrwng Catalaneg.' A dyma'r unig ffordd ti'n cael cymdeithas sy'n medru siarad y ddwy iaith. Dw i'n dallt 'rhaid i ni barhau a pharchu' ond dw i ddim yn dallt pan dyn nhw ddim yn gweld y canlyniad o rywbeth fel 'na. Achos mae e wedi digwydd yn y gorffennol. Rhaid i ni newid y system addysg i bopeth trwy gyfrwng y Gymraeg [...] Ysgolion cynradd, uwchradd, y prifysgolion hefyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Os oes 'na rywun sy ddim eisiau siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, maen nhw'n medru mynd i Loegr. Does 'na ddim problem. Mae 'na lawer o gyfleoedd. Wel, dyma fy syniadau. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Mae myfyriwr Cymraeg arall yn esbonio yn y dyfyniad isod ei bod yn dymuno dysgu Cymraeg fel y Saesneg. Esbonia fod ganddi ewylllys i gyfrannu i'r gymdeithas a bod o

fudd economaidd i Wynedd. Serch hynny, mae'r dyfyniad isod yn datgelu'r rhwystrau yn ei phrofiad hi o gael mynediad at ddarpariaeth iaith a swyddi yng Ngwynedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywed fod hyn yn ei gorfodi i ail-feddwl ei chynlluniau i'r dyfodol:

I would want to learn Welsh as I do English and I would really want to be established here. I want to be encouraged. If I know that I don't have doors open to do that. I wouldn't want to be a teacher here. If you live here and I like the area—I want to be economically good for the area. I want to contribute but if not there is not a way, I won't invest in it. I am already doing a Masters this year. And I study Law as well. I'm doing a training contract out of Wales because I don't think I have a future here. I think there are other people like that [...] I'm considering very seriously my options because I can't get the job I want here. Even if I study Welsh for the next ten years, my level will not be as good as a native's person and I will always be compared to a native person. And to go in Gwynedd Council, I don't think I have any future. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Yn yr un modd, mae myfyriwr CiO ar gwrs blasu i fewnfudwyr gyda Chanolfan CiO y Gogledd yn mynegi teimladau o anffafiaeth o ran darpariaeth a mynediad at y Gymraeg. Ei theimlad hi yw bod polisiau Cymraeg yn ffafrio siaradwyr Cymraeg brodorol yn unig ac nad yw'n hybu dysgwyr a siaradwyr newydd yr iaith i sicrhau swyddi yng Ngwynedd. Hoffai hi pe byddai'r gweithle yn cefnogi unigolion fel hi i ddysgu Cymraeg fel rhan o gytundeb gyda'r gweithle. O ganlyniad, teimla fod hyn yn digalonni ymdrechion mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg yng Ngwynedd ac yn enghraifft o waharddiad ieithyddol. Yn hyn o beth, adlewyrchir rhai o ymagweddau'r mewnfudwyr yn Québec tuag at sicrhau swyddi drwy'r Ffrangeg ym Montreal:

In theory, the way the Welsh language policies are drafted at the moment are counter-productive for accessing the Welsh language because people are just discouraged. I came to the point because I'll never get to that level. I'm not getting a job in the Council anyway. I'm not getting there or there. I'm just not going for these jobs. So I don't need to learn the language. Very simple. I don't need to learn. If the Welsh language support were to be there and say 'ok, you can't do now but from the thirty five hours you work, we expect you to do three hours on top of the Welsh language and three hours while you are working and we pay for that.' This way, I would have been encouraged to do something but that is not done. So in the end, what I feel like is that it's being used as a medium of discrimination. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Mae'r canfyddiadau ar ymagweddau mewnfudwyr yn datgelu bod sawl rheswm, offerynnol ac emosiynol yn eu cymell i ddysgu Cymraeg. Mae'r data yn dangos

cymhellion tebyg yng Nghaerdydd a Gwynedd er gwaethaf y gwahaniaeth yn nemograffeg y cymunedau o ran eu hiaith. Gwelir bod ewylls gan y mewnfudwyr i integreiddio drwy'r Gymraeg a Saesneg yn ogystal â chadw'u hieithoedd cynhenid. Yn wir, gwelir bod cyswllt rhwng mewnfudwyr sydd yn gwerthfawrogi eu hieithoedd cynhenid a'r ewylls i ddysgu Cymraeg. Serch hynny, datgelwyd bod mewnfudwyr yn profi rhwystrau penodol i ddysgu Cymraeg o ran mynediad at yr iaith ac o ganlyniad i gyfleoedd dysgu a gwaith, sydd yn debyg i brofiadau rhai mewnfudwyr yn Québec. Edrychir yn yr adran nesaf ar sut y mae ymagweddau grŵp yn cydberthyn neu yn gwahaniaethu â'i gilydd.

5.2.5. *Y modèle d'acculturation interactif*: Cydberthynas Ymagweddau Cymru

Wrth gymhwyso model MAI i gyd-destun Cymru, y prif gwestiynau yw'r graddau y mae ideolegau'r Llywodraeth ac ymagweddau'r gymuned groeso a'r mewnfudwyr yn groes neu'n gytûn i'r syniad o fewnfudwyr yn dysgu'r Gymraeg (yn ogystal â'r Saesneg a chynnal a chadw eu hieithoedd brodorol). Seilir y canfyddiadau ar ddulliau ymchwil ansoddol. Data meintiol sydd yn arferol i'r model hwn—gweler 3.1.2. Er gwaethaf datganiadau ym mholisiau'r Gymraeg sydd yn annog holl ddinasyddion Cymru i gael y cyfle i ddysgu Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2010b), gwelir bod amharodrwydd gan Lywodraeth Cymru i greu darpariaeth neu strategaeth benodol i fewnfudwyr. Awgrymir bod hyn yn nodweddiadol o ymagwedd sifig 'ddi-ymyraeth' lle mae'r iaith fwyafrifol yn cael ei hariannu a'i chefnogi yn bennaf (Bourhis *et al.* 2012). Gyda golwg ar ymatebion y Llywodraeth a Chynghorau Lleol yn yr ymchwil hwn, awgrymir mai tueddiad at ideoleg sifig—*idéologie civique*—gydag elfennau lluosogol sydd wrth galon ymagweddau Llywodraeth Cymru tuag at fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg. Nodir bod yr ideoleg sifig a fabwysiedir gan Lywodraeth Cymru wedi'i seilio ar oruchafiaeth y Saesneg mewn bywyd cyhoeddus. Er bod gan Lywodraeth Cymru strategaeth dros gydlyniant cymdeithasol yng

Nghymru, mae'r canfyddiadau yn dangos bod y pwyslais ar integreiddio mewnfudwyr i'r DG yn bennaf. Mae hyn ynghlwm hefyd wrth Ddinasyddiaeth Brydeinig sydd yn gofyn am gymhwysterau yn y Saesneg.

Awgrymir hefyd fod tiwtoriaid ESOL Caerdydd yn mabwysiadu gogwydd 'integreiddio'—*integrationnisme*—tuag at y Saesneg ond gydag elfennau 'cymathiadol' yn unol ag ideoleg sifig Llywodraeth Prydain lle pwysleisir ymdoddi i'r gymuned drwy iaith wladwriaethol yn hytrach na'r iaith is-wladwriaethol. Yr eithriad i hyn yw tiwtoriaid ESOL yng Ngogledd Cymru (Gwynedd) sydd yn mabwysiadu gogwydd 'integreiddio-drawsnewidiol'—*Integrationnisme-Transformation*—yn yr ystyr eu bod yn cefnogi integreiddio drwy ddysgu'r ddwy iaith yng Nghymru, er eu bod o'r farn fod angen gwneud rhai addasiadau er mwyn i fewnfudwyr gael cyfleoedd cyfartal i ddysgu Cymraeg a Saesneg.

Awgrymir hefyd fod ymagweddau tiwtoriaid a swyddogion Cymraeg i Oedolion hefyd yn mabwysiadu gogwyddau 'integreiddio'. Maent yn gefnogol dros fewnfudwyr yn cynnal a chadw eu hieithoedd cartref hwy yn ogystal â mabwysiadu'r ieithoedd swyddogol yng Nghymru. Serch hynny awgrymir eu bod hefyd yn mabwysiadu gogwyddau 'integreiddio-drawsnewidiol'—*Integrationnisme-Transformation*—am iddynt gredu bod angen newidiadau yn y gymdeithas er mwyn i fewnfudwyr allu mabwysiadu'r iaith wladwriaethol yn ogystal â'r iaith is-wladwriaethol.

Yn yr un modd, gwelwyd bod y mewnfudwyr yn mabwysiadu gogwydd 'integreiddio' tuag at ddysgu Saesneg a'r Gymraeg ond nodwyd serch hynny bod yr anffafriaeth a fynegwyd gan sawl unigolyn ynghylch mynediad at y Gymraeg yn ogystal ag ymagweddau negyddol y gymuned groeso tuag at fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg yn

datgelu bod gogwydd o 'ymylu'—*marginalisation*—yn bresennol. Yn ôl Bourhis (2015), gogwyddau o 'ymylu' sydd fwyaf problematig i gydberthynas grwpiau oherwydd eu heffeithiau seicolegol (t. 20).

Cesglir felly nad yw cydberthynas ymagweddau grŵp yng Nghymru yn unffurf. Gwelwyd bod ymagweddau mewnfudwyr, o waelod cymdeithas i fyny, yn gwahaniaethu ac yn gwrthdaro ag ideolegau'r Llywodraeth ac yn rhannol â gogwyddau ymaddasu'r gymuned groeso. Mae'r canfyddiadau serch hynny yn datgelu nad yw'n bosib gosod grŵp yn daclus o fewn un categori. Cwestiynir felly pa mor addas y mae'r model yng nghyd-destun siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Ni ddychmygwyd model MAI ar gyfer cymuned groeso 'ddwyieithog'. Nid yw'n ystyried ychwaith wahaniaethau mewn ideolegau o fewn y categorïau llym hyn a'r ffaith bod dimensiynau gwleidyddol ehangach gyda pholisïau gwladwriaethol a pholisi is-wladwriaethol ar waith. Er i'r model gynnig braslun eglur o gydberthynas grwpiau, awgrymir nad yw'n adlewyrchu natur ddatblygol, newidiol a dyrys sydd i'r broses integreiddio.

Serch hynny, nod yr ymchwil oedd mynd y tu hwnt i astudiaeth ar ymagweddau grŵp yn unig. Am y rheswm hwn, edrychir yn awr ar ymagwedd ganolog i'r ymchwil sef cynllun peilot i sefydlu dosbarthiadau 'dinasyddiaeth' Gymreig i fewnfudwyr. Edrychir ar y data sydd yn disgrifio ymatebion y mewnfudwyr i'r cynllun hwn gyda'r bwriad o archwilio'r graddau y mae menter o'r fath yn cymharu â sylwadau ar draws y dulliau ymchwil eraill.

5.3. Y DOSBARTH 'DINASYDDIAETH'

Esboniwyd eisoes bod yr arsylwadau cyfranogol gyda elfennau o ymchwil weithredu yn rhan o brosiect peilot i ddarparu dosbarthiadau Cymraeg i fewnfudwyr. Nodwyd bod dau ddosbarth wedi cymryd rhan yn y prosiect a'r ddau ynghlwm wrth ddosbarthiadau ESOL. Roedd y dosbarth cyntaf yn cynnwys grŵp o oedolion ifanc ar gwrs ESOL. Cefais

ganiatâd i ddarparu cwrs Cymraeg oddi fewn i gwricwllwm ESOL. Cynhaliwyd y dosbarthiadau am bum wythnos yn unig â thiworiaid ESOL yn bresennol. Roedd yr ail ddsbarth â grŵp o oedolion, rhieni yn bennaf, a oedd wedi cwblhau cwrs ESOL i'r teulu yn Ysgol Gynradd Severn Road yn Nhreganna. Nid oedd felly'n gwrs ynghlwm wrth gwricwllwm ESOL ac roedd croeso i aelodau eraill ymuno â'r cwrs Cymraeg. Cynhaliwyd y cwrs Cymraeg yn yr un lleoliad am gyfanswm o ddeg wythnos. Yn achos y dosbarth hwn, cynhaliwyd cwrs tri deg wythnos drwy ysgoloriaeth i fewnfudwyr gan Ganolfan CiO Caerdydd a Bro Morgannwg yn dilyn y cwrs blasu. Yn ogystal â'r ymchwil weithredu, cyfeirir hefyd at arsylwadau cyfranogol yn nosbarthiadau ESOL yng Nghaerdydd a Bangor lle addysgwyd y dosbarth gan diwtor ESOL. Yn yr achos hwn, y nod oedd arsylwi'r graddau yr oedd elfennau ieithyddol a diwylliannol am Gymru yn cael eu cymhwyso oddi mewn i'r dosbarth ESOL.

Trafodir yn gyntaf sylwadau ar yr ymchwil weithredu gan gynnwys y ddau ddsbarth peilot Cymraeg i ESOL yn Adran 5.3.1. Cymherir hyn â thrafodaeth gyffredinol ar yr arsylwadau cyfranogol yn y dosbarthiadau ESOL. Yn ail, trafodir ymatebion y tiwtoriaid ESOL a CiO i'r prosiect peilota dosbarthiadau Cymraeg i'w myfyrrwyr yn Adran 5.3.2. Wedi hynny, yn Adran 5.3.3, trafodir themâu a godir yn sgil y dosbarthiadau Cymraeg, sef defnydd iaith yn y dosbarth—defnydd y Gymraeg yn y gymuned yn Adran 5.3.4 ac ymatebion y gymuned groeso i ymdrechion mewnfudwyr i ddysgu'r iaith yn Adran 5.3.5. Defnyddir data a gafwyd o gyfweiliadau lled-strwythuredig â chyfranogwyr y dosbarth 'dinasyddiaeth' yn ogystal â mewnfudwyr ar gyrsiau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion.

5.3.1. Ymatebion y Myfyrrwyr i'r Dosbarth 'Dinasyddiaeth'

Cyflwynwyd y dosbarth 'dinasyddiaeth' fel cwrs sydd yn cwmpasu elfennau o ddiwylliant a hanes Cymru yn ogystal â'r Gymraeg. Gwelwyd o'r cychwyn bod cyflwyno cyd-destun

hanesyddol a diwylliannol Cymru yn rhan annatod o'r dosbarthiadau iaith ac roedd hyn yn amlwg yn codi diddordeb a brwdfrydedd y myfyrwyr. Gwelwyd hefyd fod cyn lleied o wybodaeth ganddynt am gyd-destun diwylliannol a hanesyddol Prydeinig a Chymreig. Yn hyn o beth, bu'r gwersi yn ymdebygu i gwrs ymwybyddiaeth iaith â phwyslais ychwanegol ar gyfnewid profiadau blaenorol y mewnfudwyr. O ganlyniad, cefnogodd y tiwtor ESOL y syniad o hyrwyddo cwrs 'dinasyddiaeth' a hysbysebwyd y cwrs yn wreiddiol fel 'Cwrs Cymru, Cymraeg a'r byd'.

Wrth drafod y Gymraeg o fewn hanes Cymru, daeth profiadau ieithyddol y myfyrwyr yn amlwg i'r brig. Mewn rhai sefyllfaoedd roedd gan y myfyrwyr brofiadau o ormes ieithyddol ac roeddent yn awyddus i drafod hyn yn y dosbarth. Soniwyd eisoes bod un o'r myfyrwyr yn nosbarth Treganna yn teimlo agosatwydd i'r Gymraeg oherwydd bod yr iaith yn ei hatgoffa o'i mamiaith Berber er nad oedd statws swyddogol wedi'i breinio iddi fel sydd i'r Gymraeg. Roedd cydymdeimlad ieithyddol y myfyrwyr yn amlwg a nifer, megis myfyrwyr o Kurdistan, yn rhyfeddu at lwyddiant y Gymraeg i ennill statws swyddogol. Trafodwyd profiadau amlieithog dyddiol y mewnfudwyr. Soniodd nifer eu bod nhw'n awyddus i gadw'u mamiaith fel iaith y cartref ond rhagwelant yr heriau sydd i hynny gyda chyn lleied o gefnogaeth addysgol. Ystyriwyd fy rôl felly fel cynghorydd ieithyddol yn ogystal â hwylusydd ieithyddol.

Yn unol â'r *trajectoire langagière*, roedd pwyslais ar gymharu profiadau amlieithog blaenorol y mewnfudwyr. Roedd nifer yn gweld tebygrwydd rhwng sŵn y Gymraeg a'r Arabeg. Roedd tebygrwydd o'r math hwn, yn caniatáu i'r iaith ymddangos yn llai estron ynghyd ag adeiladu pontydd diwylliannol. Soniodd un Eidalwr am ei brofiadau o amlieithrwydd ar waith yn Bolzano, lle siaredir Almaeneg, Eidaleg a Ladin. Soniodd yr Eidalwr ei fod wedi dysgu Almaeneg yno er mwyn gwella ei gyfleoedd gwaith. Yn yr un

modd, ymholodd am gyrsiau Cymraeg i fusnes yng Nghaerdydd. Datgelodd ymatebion i'r dosbarthiadau hyn bod y mewnfudwyr yn barod i wneud lle i ieithoedd ychwanegol yn eu prosiect mewnfudo neu *trajectoire*. Nid cwestiwn o ddiddordeb pur mewn dysgu ieithoedd yn unig ydoedd (er bod hynny'n ffactor amlwg mewn nifer o achosion) ond teimlad bod angen y Gymraeg arnynt er mwyn integreiddio mewn ffordd fwy cyflawn ynghyd â'r ymdeimlad fod ganddynt hawl ar yr iaith wrth ystyried bod eu plant yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol.

Roedd nifer yn gwrthgyferbynnu rhwng Lloegr â Chymru, a Llundain yn benodol, lle bu nifer ohonynt yn byw cyn ymgartrefu yng Nghymru. Yn hyn o beth, roeddent yn gwahaniaethu profiadau o fyw mewn dinas brysur aml-ethnig fel Llundain gyda Chaerdydd fel dinas dawel â thraddodiad a hanes gwahanol.

Yn arsylwadau'r dosbarth ESOL, gofynnodd rhai i'r tiwtor am gynllun y wers ar un achlysur—'are we having an English-Welsh class today?' Er y cyfeiriadau at y Gymraeg a Chymru yn ystod yr arsylwadau, nodwyd bod holl gynllun y dosbarth wedi'i fframio o gwmpas y Saesneg. Nid oedd yn rhoi unrhyw sylw penodol at eu hieithoedd cynhenid ychwaith na manteision amlieithrwydd. Er bod yr arsylwadau cyfranogol yn gyfle i godi rhywfaint o ymwybyddiaeth am y Gymraeg, anodd yw rhagweld dysgu'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ESOL. Ymhellach, nid oedd gan y tiwtoriaid ESOL adnoddau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwersi a'r mwyafrif o'r tiwtoriaid yng Nghaerdydd â chyn lleied o wybodaeth am y Gymraeg. Yn ystod un arsylwad, gofynnodd y tiwtor iddynt gynnig strwythurau am roi cyngor gan awgrymu y gellid trafod rhoi cyngor wrth ddysgu Saesneg. Ateb rhai yn y dosbarth oedd y canlynol: 'It is a good idea to learn Welsh to apply for a course', 'I would recommend learning Welsh' a 'You'd be better learning Welsh instead'. Roedd hyn yn ddiddorol gan fod y myfyrwyr wedi ymateb fel hyn heb

sbardun. Yn ystod yr un arsylwad, gadawodd dynes Fwslimaidd yr ystafell er mwyn gweddio gan ofyn sut oedd dweud 'pray' yn Gymraeg.

Yn y dosbarth ESOL *Youth*, dywedodd un myfyriwr o Kurdistan nad oedd yn deg cael un awr o Gymraeg yr wythnos yn unig o gymharu ag ugain awr yr wythnos ar gyfer Saesneg. Honnai nad oedd yn syndod felly ei fod yn methu gwneud fawr o gynnydd yn yr iaith. Ymatebodd y tiwtor ESOL yn chwareus wrth ddweud ei fod yn cofio mwy o Gymraeg na Saesneg.

Er gwaethaf cefnogaeth y tiwtoriaid ESOL i'r Gymraeg yng Ngwynedd, sylwyd yn y dosbarthiadau nad oedd ymgais i ymgorffori'r Gymraeg yn y wers ESOL. Roedd y tiwtoriaid serch hynny yn defnyddio Cymraeg er mwyn cyfathrebu â fi a thiwtoriaid eraill yn ystod y gwersi ac er mwyn siarad am y myfyrwyr yn hytrach na siarad gyda'r myfyrwyr. Am y rheswm hwn, roedd yn anodd dirnad ymateb y myfyrwyr i'r Gymraeg o fewn y dosbarth. Teimlwyd bod yr iaith o ganlyniad yn cael ei defnyddio fel côd rhwng y tiwtoriaid oddi mewn i'r dosbarth.

5.3.2. Ymatebion y Tiwtoriaid i'r Dosbarth 'Dinasyddiaeth'

Roedd cefnogaeth y tiwtoriaid ESOL hefyd yn dyngedfennol i lwyddiant y dosbarthiadau. Gwelwyd bod gan y tiwtoriaid ESOL awdurdod dros eu grŵpiau o fyfyrwyr ac roedd cysylltiadau â'r myfyrwyr ESOL yn ddibynnol i raddau helaeth ar benderfyniad y tiwtor i ganiatáu neu wrthod mynediad i'r dosbarth. Er i fwyafrif y tiwtoriaid ESOL beidio ag ymateb i ymholiadau am gynnal dosbarthiadau Cymraeg i fyfyrwyr ESOL, cytunodd dau diwtor ESOL i fod yn rhan o brosiect peilot i gynnal dosbarthiadau Cymraeg i fewnfudwyr gyda'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion.

Noda tiwtor dosbarth ESOL i'r teulu ei bod wedi ymholi pob unigolion yn y dosbarth am y Gymraeg ac yn benodol am addysg Gymraeg i'w plant cyn helpu sefydlu'r dosbarth 'dinasyddiaeth' yno. Dywedai'r canlynol yng ngrŵp ffocws Caerdydd:

When I start classes I ask about Welsh in schools. I ask about your children that learn Welsh in school. Do you think that that's OK? Do you agree with it? Invariably they all say 'yes' because it is the language of Wales and it is a country. They recognise it is a country. **Tiwtor ESOL, Grŵp Ffocws Caerdydd**

Un o amcanion y cyrsiau yn ôl y tiwtor oedd i'w ddefnyddio fel llwyfan i drafodaethau ar ddinasyddiaeth.

All the newcomers in Wales they want to gain citizenship. Part of the citizenship should be now in my eyes, not only learning English, and proving that you are learning English, but because you are living in Wales, it [Welsh] should be part of it. **Tiwtor ESOL, Grŵp Ffocws Caerdydd**

Nid oedd y tiwtor hwn wedi dysgu Cymraeg fel y lleill ond, fel mewnfudwraig ei hun, ystyriai fod mewnfudwyr yn awyddus i ymglyfarwyddo â chyfranogi mewn bywyd sifig Cymreig a bod yr iaith yn rhan annatod o hynny. Gwelwyd hefyd fod brwdfrydedd prifathrawes yr ysgol ynghylch y dosbarth dinasyddiaeth ar sail y ffaith bod cymaint o rieni'r ysgol yn cyfranogi mewn gweithgareddau ar safle'r ysgol. Dywedai mai dyma oedd y tro cyntaf i rai ohonynt ymwneud â diwylliant cymdeithasol yr ysgol.

Esbonia tiwtor y cwrs ESOL yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ei bod hi'n amheus o ymateb ei dosbarth i'r Gymraeg ar sail y ffaith bod lefel eu Saesneg hwy yn sylfaenol. Datgelodd mewn cyfweiliad yn dilyn y dosbarthiadau ei bod wedi synnu at ymateb cadarnhaol y dosbarth a roedd llawer o'i hymagweddau i ymwneud â rhagdybiaeth:

When we first came, I did think to myself, are they really going to go for this? Because I presumed, we have got enough troubles with English but they loved it but I agree I think they like knowing some basic things [...] I think they were great. They really enjoyed it—I wouldn't have expected them to respond as well as they did. But it think it's easy to make assumptions—'they're not going to be interested'. But in fact, they were. They were more interested than a lot of English people might be. I think partly because they come from multilingual societies themselves and they kind of 'get that'. Do you know what I mean? [...] I can say this because I am English. English can get really touchy and funny about it. As if it is something really unnatural to have two languages—it's not. It's

normal in most parts of the world. So there is something, there was something that quite surprised me [...] that they were so interested. **Tiwtor ESOL, Caerdydd**

Esboniodd ymhellach fod ymagweddau cadarnhaol y myfyrwyr ESOL wedi eu gwreiddio yn eu cefndiroedd amlieithog a'r ffaith bod amlieithrwydd yn rhywbeth cyffredin i'r unigolion hyn. Serch hynny, roeddent yn ymwybodol o wahaniaethau mewn statws a phŵer ieithyddol. Dywedodd ymhellach bod eu myfyrwyr yn cymryd cryn ddiddordeb yn sefyllfa wleidyddol Prydain a'u bod yn gwahaniaethu rhwng Cymru a Lloegr mewn ffordd amlwg:

I presume they knew nothing before they came to this country—most people haven't even heard of Wales, have they? They accepted it. It's also, maybe a bit negative, they come from countries where there is a little bit of tension between things. They are very into this. Not to do with language. But when you ask them 'what did you do at the weekend?' They say things like 'I went to England' well I'd never say that, I'd say 'I went to Bristol!' **Tiwtor ESOL, Caerdydd**

Eglura fod eu myfyrwyr yn ystyried Cymru fel uned wleidyddol ar wahân am y ffaith bod nifer o bobloedd a chenhedloedd heb gydnabyddiaeth swyddogol:

I imagine that the concept of Wales isn't a difficult concept for them. It doesn't matter about the geopolitical situation does it? Kurdistan with its language exists. It's oddly similar. They may not be analysing it like that but it kind of makes sense to them. **Tiwtor ESOL, Caerdydd**

Bu tiwtor cynorthwyol hefyd yn mynychu'r sesiynau iaith gyda'r dosbarth 'ESOL Youth'.

Roedd ei hymateb hi i'r cwrs Cymraeg yn wahanol i'r tiwtor blaenorol. Yn unol â barn mwyafrif y tiwtoriaid ESOL y cyfwelwyd â hwy fel rhan o'r prosiect, ystyria fod cyflwyno dosbarthiadau Cymraeg i fewnfudwyr sydd â lefelau isel o Saesneg yn achosi rhwystrau ac i raddau ddim yn gynhyrchol:

I thought it was good. We want to talk about integration and language learning and citizenship because they live in Wales. They should know the 'shwmaes' and 'bore da' but beyond that I don't think you need the language to understand the culture. Because unless your Welsh was at a certain level, you can explain it all in English. I don't disagree with having a few sessions just to get them used to hearing Welsh. But certain students will be interested and certain students won't be so interested. With some of them—their language ability is so low. They have difficulty in understanding Welsh because you have to explain it in English. Because their level of English is so low, they still don't understand it and for them

to have to switch it to Welsh as well. I felt that they found it hard.
Tiwtor ESOL, Caerdydd

Er bod y tiwtor cynorthwyol yn cytuno ar gynnwys cyfarchion Cymraeg yng nghwricwlwm dinasyddiaeth y myfyrwyr, nid yw credu bod angen yr iaith er mwyn deall y diwylliant. Adlewyrcha hyn ymagweddau'r tiwtoriaid ESOL yn Adran 5.2.2. Serch hynny, datgelwyd yn ystod yr arsylwadau dysgu ac ymchwil weithredu bod prif diwtor y dosbarth a'r tiwtor cynorthwyol wedi bod yn dysgu Cymraeg. Ymddengys bod y gwahaniaeth rhwng ymagweddau'r ddau diwtor at y Gymraeg yn seiliedig ar eu profiadau dysgu personol. Esbonia'r prif diwtor ei bod wedi cael profiad cadarnhaol o ddysgu Cymraeg a'i bod yn byw ym Nhreganna gyda niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg (20% yn ôl Cyfrifiad 2011). Serch hynny, esbonia'r tiwtor cynorthwyol bod ei phrofiad o ddysgu Cymraeg yn weddol negyddol, yn benodol wrth ddefnyddio'r iaith yn y gymuned:

But it's difficult with Welsh. You learn it and then you are not forced to use it. Let's say if I went to Spain and lots of people speak Spanish and don't speak very good English. If I picked up Spanish, my Spanish would be improving daily. Whereas with Welsh, kids don't want to speak Welsh. I realised from long ago that my daughter didn't want to [...] even though her Welsh was better than mine [...] I think a lot has to do with me. It's the willpower to practise Welsh and not feeling that you're being a burden to somebody. Because people offer all the time you can come and talk and speak in Welsh to me [...] that is because of me I feel. **Tiwtor ESOL, Caerdydd**

Ystyria nad yw'r anghenraid yn perthyn i'r Gymraeg ag sydd i'r Saesneg. Hefyd nid yw ei phlant hi'n fodlon siarad Cymraeg â hi ac o ganlyniad roedd y tiwtor hwn yn ddihyder yn y Gymraeg ac ymddengys felly bod ei phrofiad o'r iaith yn adlewyrchu ar ei ymagweddau tuag at fyfyrwyr ESOL yn dysgu Cymraeg.

5.3.3. Iaith Darged yn y Dosbarth 'Dinasyddiaeth'⁸⁷

Un o'r themâu a gododd yn yr ymchwil weithredu a'r arsylwadau cyfranogol oedd defnydd yr iaith darged. Gan fod pwyslais ar gyfathrebu deunydd diwylliannol, teimlais bwysau o'r cychwyn i gyfathrebu ffeithiau diwylliannol drwy'r iaith darged fel y cyfeiriwyd ato yn Adran 3.2.1. Er bod addysgu drwy'r Gymraeg yn unig yn fater hanfodol i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion, gwelwyd ymhen rhai dosbarthiadau iaith bod cyfuno'r Saesneg, y Gymraeg ac ieithoedd eraill yn hybu'r awyrgylch dysgu. Roedd gan y mwyafrif sgiliau gwell yn y Saesneg na'r Gymraeg ar yr adeg honno a phenderfynwyd ei bod hi'n fwy buddiol defnyddio Saesneg ar gyfer cyfathrebu materion yn ymwneud â diwylliant yn y dosbarth. Er imi deimlo bod hyn yn bradychu egwyddorion dysgu drwy'r iaith darged (Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg 2014) ac yn niweidiol i feithrin diwylliant Cymraeg ei hiaith y tu mewn i'r dosbarth, sylwais ei bod yn fanteisiol gwneud defnydd o'r ddwy iaith. Yn wir, nid yw'r myfyrwyr yn ystyried bod defnydd y Gymraeg a Saesneg yn wrthgyferbyniol oherwydd bod hyn yn adlewyrchu realiti cymunedau amlieithog. Defnyddiwyd ieithoedd eraill yn y dosbarth rhyngof i a'r siaradwyr Ffrangeg yn ogystal ag ieithoedd eraill ymysg y myfyrwyr. Ceir sefyllfa dipyn yn wahanol yn y dosbarth iaith ESOL *Youth* yng Nghaerdydd. Nodwyd bod sgiliau Saesneg y dosbarth yn sylfaenol. Oherwydd hyn a'r ffaith bod amser yn gyfyngiedig, addysgwyd y dosbarth drwy'r iaith darged. O ganlyniad, nid oeddwn yn ymwybodol o wahaniaethau yn sgiliau Saesneg y myfyrwyr yno. Bu'n rhaid imi hefyd addasu a chreu defnyddiau penodol ar gyfer y grŵp hwn gan nad oedd y dulliau cyfredol megis geirfa Gymraeg i Saesneg yn gweddu i anghenion y myfyrwyr yno.

Mewn cyfweiliadau â myfyrwyr ar gyrsiau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion, sonia'r myfyrwyr bod y dosbarthiadau Cymraeg yn ddibynnol ar ddealltwriaeth helaeth o'r Saesneg a'r

⁸⁷ Defnyddir y person cyntaf yn yr ardan hon er mwyn cyfleu y profiadau o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth.

cyd-destun diwylliannol Prydeinig. Dywed un myfyriwr ei fod wedi gorfod gofyn am gefnogaeth bellach oherwydd nad oedd ei sgiliau Saesneg yn ddigonol i ddilyn y dosbarth

Cymraeg:

Pan ddechreuais i ddysgu Cymraeg, doedd fy Saesneg ddim yn dda chwaith. Roedd yn anodd iawn i fi ddysgu Cymraeg trwy gyfrwng Saesneg. Dw i'n cofio bod y tiwtor yn helpu fi lot achos roedd hi'n trio esbonio—rhoddodd hi ei *Facebook* i fi i ofyn rhywbeth. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Dywed cyn-fyfyriwr Cymraeg arall nad oedd cyfeiriadau at y cyd-destun diwylliannol Prydeinig wedi hwyluso ei broses dysgu. Ymddengys fod hynny oherwydd ei fod mewn dosbarth gyda myfyrwyr Prydeinig:

Ro'n i ddysgu efo pobl o Loegr fel arfer. Ro'n i'n colli pethau diwylliannol ac ati. Hyd yn oed pan wnaethon ni pethau fel *phrases* a phethau fel 'na. Roedden nhw'n cyfieithu nhw mewn i *phrases* Saesneg a do'n i ddim yn gwybod. Neu gymeriadau poblogaidd. Ie, pethau diwylliannol yn arbennig mews cwrs uwch a meistrolï. Ro'n i'n mynd ar goll tipyn bach oherwydd y cyd-destun Prydeinig i gyd. Do'n i ddim yn gyfarwydd â sefyllfa llefydd arbennig ond dim ond pethau bach oedden nhw. Yn y diwedd, os wyt ti eisiau dysgu—wel dw i ddim yn mynd i siarad am y pethau yna beth bynnag—ond dw i ddim yn gwybod y pethau yma yn Saesneg felly dw i ddim yn siŵr pa mor ddefnyddiol ydyn nhw i fi i wybod yn Gymraeg. Do'n i ddim yn gwybod am [...] a ro'n nhw fel 'this is that in English'. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Soniodd myfyrwraig o Rwmania ei bod yn haws iddi osgoi'r Saesneg wrth ddysgu

Cymraeg gan ei bod yn gweld manteision iaith graffo-ffonemig:

Yeah, because Welsh is a phonetic language and I know two phonetical languages. So, most of the time, the translation from Welsh, I don't write it in English. I do in Spanish or Romanian because I feel it more difficult to spell English. So from Romanian it was easier for me to learn it. The polite way 'chi' and ti' in Romanian is the same. Ye, Spanish is the same. English is not. So for English people it's more difficult to understand this. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Noda myfyriwr arall fod pwyslais ar y Gymraeg o bosib yn rhoi'r argraff i fyfyrwyr fod yr iaith ei hun yn eilradd, esbonia er hynny ei bo fod yn hawdd iddo ddefnyddio'r Saesneg

fel cyfrwng rhwng Sbaeneg a Chymraeg:

I think that by teaching Welsh through English it always makes it very dependant on English and like a subsidiary language but not really—it does really stand on its own. At the same time perhaps you need that point of reference. I find [...] maybe I shouldn't but I'm learning Welsh through English so I don't translate the vocab into Spanish but into English. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Beirniada un fyfyrwraig y cyrsiau gan esbonio nad oedd y cwrs yn addas ar gyfer siaradwyr Saesneg ail iaith ac roedd hi'n ceisio dal i fyny â'r Saesneg yn ogystal â'r

Gymraeg yn y cyrsiau iaith:

But when I came and wanted to learn the language it was not aimed at second language English speakers. The learning was for English speakers and it was nearly impossible for me to catch up with a fifth language with so much English to learn because you never learn the structure of the language. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Fe wnaeth hwn fy nghynhyrfu i hefyd gyda dysgu Cymraeg. Roeddwn i eisiau gwybod ond dywedodd hi nad oeddwn yn gallu ei ddweud [...] Gofynnais pam achos doedd hi ddim eisiau i fi ddweud 'fy nghi i' o'r dechrau. Mae hyn yn digwydd llawer gyda dysgu Cymraeg ac mae pobl o Ewrop sydd yn hoffi dysgu ieithoedd-mae'n helpu pan nad oes rhywun yn dweud 'it will come', 'just wait'.⁸⁸
Myfyriwr CiO, Gwynedd

Yn ôl un tiwtor sydd yn dysgu dosbarthiadau ESOL a Chymraeg i Oedolion mae dysgu drwy'r iaith darged yn gwbl bosibl hyd yn oed heb fawr o sgiliau Saesneg. Noda fod hynny weithiau yn fantais:

Dw wedi dysgu *absolute complete beginners* ac mae gynnai pobl o Fwlgaria, Romania, Iraq—does gynnan nhw ddim iaith gyffredin ac maen nhw'n gallu cyfathrebu efo'i gilydd erbyn diwedd y dosbarth. Does yna ddim [...] dw i'n meddwl y gall weithio yn bendant i'r Gymraeg. **Tiwtor CiO, Gwynedd**

Yn ôl tiwtor Cymraeg i Oedolion a oedd yn dysgu dosbarth Cymraeg i fewnfudwyr, mae dysgu drwy'r iaith darged yn hollol sylfaenol:

Dw i'n un sy'n hybu'r math o syniad achos be sy rhaid i ti ddeall mewn gwirionedd pan ti'n dysgu iaith rwy'ti mynd i ffordd wahanol i feddwl am bethau a ffordd wahanol i fynegi hynny, felly mae'n bwysig i fynd i'r ffordd yna. Ie mae dysgu tiwn yn bwysig i ganu [...] wel ma rhaid i chi ddysgu'r diwn gywir gyda'r geiriau cywir i ganu hi mewn tiwn yn hyfryd. Wel dyna beth yw e. Weithiau dyn nhw ddim yn sylweddoli. Clywais i ryw dro mae e fel trio dysgu iaith yn lle, drwy'r iaith darged, mae o fel trio chwarae rygbi gyda rheolau pêl-droed. Chi'n gallu dweud ydy maen nhw'n chwaraeon ac mae pêl yn gyffredin rhyngddyn nhw ac mae 'na hyn a hyn o chwaraewyr ar y cae ond mae rhai o'r rheolau'n wahanol. Ewch, dysgwch y rheolau penodol i'r chwaraeon ac ewch amdani i ymarfer neu chwarae. A dyna beth yw e. **Tiwtor CiO, Caerdydd**

⁸⁸ 'Das hat mir auch geärgert beim walisisch lernen. Ich wollte wissen wenn das kannst du noch nicht sagen [...] ich fragte warum [...] weil sie nicht wollten, dass ich 'fy nghi i' von Anfang an sage. Es wird oft so Walisisch gelehrt, dass die Europäer, die die Sprache lernen möchten, nicht wissen warum man 'fy nghi i' sagt [...] es würde helfen, wenn jemand sagen würde 'it will come', 'just wait!.'

Mae'r prosiect 'dosbarth dinasyddiaeth' i fewnfudwyr yn codi nifer o gwestiynau am dulliau dysgu Cymraeg. Mae'r data yn awgrymu bod tueddiadau a safbwyntiau gwahanol ym maes dysgu Cymru a gellid awgrymu bod hyn yn rhannol gan nad yw maes dysgu Cymraeg fel ail iaith hyd yn hyn wedi gorfod delio llawer â myfyrwyr heb sgiliau Saesneg. Er bod y Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn honni bod tiwtoriaid yn defnyddio'r dull iaith darged yn gyson, mae'r data o brofiadau myfyrwyr yn awgrymu bod llawer o'r dysgu yn ddibynnol ar gyfieithu i'r Saesneg. Mae'r profiadau o ddysgu Cymraeg i fewnfudwyr yn datgelu serch hynny fod defnyddio'r ddwy iaith (neu fwy), pan fo hynny'n bosibl ac at ddibenion lled wahanol yn ffordd effeithiol o ddysgu iaith.

O fewn y dosbarth ESOL, datgelwyd hefyd fod y Gymraeg yn cael ei thrin i raddau fel yr iaith 'arall' yn hytrach na chael ei ffrydio i mewn i'r dosbarth. Yn ôl Pujolar (2010) mae dosbarthiadau i fewnfudwyr yng Nghatalonia, lle dysgir Sbaeneg a Chatalaneg, yn dueddol o ystyried y Gatalaneg o fewn fframwaith y Sbaeneg. Yn hyn o beth mae'n cyfeirio at *language interposition* lle mae'r iaith yn cael ei thrafod o gyfeirbwynt yr iaith fwyafrifol. O ganlyniad, honna Pujolar nad yw'r tiwtoriaid yn ystyried y Gatalaneg yn iaith sydd yn addas ar gyfer integreiddio cymdeithasol mewnfudwyr. Yn hytrach, caiff y Gatalaneg ei thrin fel 'craidd' hunaniaeth a rhaid cyrraedd yr hunaniaeth hon drwy ddysgu Sbaeneg yn gyntaf. Er gwaethaf polisiâu sydd yn sefydlu'r Gatalaneg fel iaith gyhoeddus, noda Pujolar fod realiti o fewn y dosbarth iaith i fewnfudwyr yn trin y Gatalaneg fel yr iaith 'fewnol'. Noda Pujolar fod tiwtoriaid wedi gorfod ymateb i anghenion ychwanegol mewnfudwyr heb sgiliau o reidrwydd mewn Sbaeneg. Awgrymir bod sefyllfa debyg ar waith yn y dosbarth ESOL sydd yn cyflwyno elfennau o'r Gymraeg ac o Gymru o ogwydd yr iaith fwyafrifol—y Saesneg. Awgrymir hefyd y byddai ystyried dulliau dysgu priodol ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg i fewnfudwyr heb Saesneg fel mamiaith yn gam dyngedfennol er mwyn hwyluso defnydd yr iaith darged.

5.3.4. O'r Dosbarth 'Dinasyddiaeth' i'r Gymuned

Un o'r brif heriau cynnal dosbarthiadau iaith leiafrifol yw'r ymgais i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth (Newcombe 2007). Er gwaethaf brwdfrydedd y myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth nid oedd yn eglur sut y byddai hyn yn trawsnewid yn gymhelliant ac yn awydd i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned. Tybiwyd i ba raddau yr oedd perchen ar fwy nag un iaith yn rhoi mantais iddynt wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Wrth ystyried mai hyder yw un o brif rwystrau dysgwyr Cymraeg fel ail iaith (Newcombe 2007), ystyriwyd i ba raddau yr oedd myfyrwyr o gefndiroedd mewnfudol â mwy o hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn fwy parod i ddod o hyd i 'byllau'r iaith' (Crowe 1988).

Yn sicr, yn ôl yr hyn a arsylwyd yn yr ystafell ddosbarth, roedd yr unigolion yn fodlon arbrofi a mentro â'r Gymraeg yn ystod y dosbarthiadau. Ymhellach, ymddengys nad oeddent yn betrusgar am ddefnyddio'r Gymraeg:

I think there are many place where I could practice and I start to know now because [...] [the tutor] gives us all the information as well. I think like everything, if you want, you can. If you want to practise, you can find place to practise.

Myfyriwr CiO, Caerdydd

Gwelir hefyd fod y myfyrwyr yn deall bod angen gwneud ymdrechion penodol er mwyn llwyddo yn yr iaith a hynny yn benodol wrth ddefnyddio iaith yn y gymuned mewn ffordd ragweithiol:

Ye, we are living here, look at her in front of us ! They can't see [...] for me I am very very busy [...] and look at her with as busy as she is [...] make time to learn Welsh! It's good to make a difference. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Yn fy marn i, i allu defnyddio'r Gymraeg, rhaid i fi fod yn *proactive* nid yn *passive*. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

When we did this course, there was lots of information about places to go and people to meet up with, it boils down to when you have time to do it. For me it would be weekends, because my husband had to take two week off work to do that. It's one of those things. An evening or weekend but I would like to keep going. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Fel y gwelir gyda mewnfudwyr ar gyrsiau *francisation* yn Québec, roedd ymwybyddiaeth bod dysgu iaith yn broses tymor hir a bod cynnydd yn araf ac yn raddol:

A language to learn, you can't learn in a year. It takes years. You don't have to force yourself if you can't say it correctly or if it's too difficult. You do it how best you can but you will catch it. **Myfyriwr Dosbarth 'Dinasyddiaeth', Caerdydd**

Yn y Gogledd, ceir enghreifftiau o fewnfudwyr yn dewis defnyddio'r Gymraeg ac ieithoedd eraill mewn bywyd dyddiol:

Dw i'n siarad Cymraeg efo fy ngwraig. Dwi'n siarad Dutch efo'r plant. Da ni'n siarad trwy'n gilydd adra. Lle bynnag dwi'n gweithio [...] dwi'n siarad Cymraeg neu Saesneg wrth gwrs. [...] Felly dwi'n cal lot o alwadau ffôn, e-bost, llythyrau. Dw i'n ceisio atab nhw fel dwi'n medru. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Dywed un myfyriwr Cymraeg ei fod wedi dewis defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf a bod hyn yn ennyn ffafrau gan siaradwyr Cymraeg mewn rhai sefyllfaoedd!:

Dw i'n teimlo'n fwy rhan o'r gymdeithas Gymreig—hyd yn oed pan oedd gen i rywun adre i drwsio rhywbeth—dw i'n dechrau gyda'r Gymraeg ac fel arfer maen nhw'n dweud 'o Cymraeg! Cymraeg! A dyn ni'n siarad yn Gymraeg a dw i'n siarad Cymraeg [...] A hefyd dwi'n meddwl ella dwi'n cael disgownt neu rywbeth os ydw i'n siarad Cymraeg yn haws! O ie [...] Ok Ok! Yn y garej—yn aml maen nhw'n ripio ni *off* ond gobeithio os dw i'n siarad Cymraeg, mae'n ie! **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Yng Nghaerdydd, gwna nifer o'r myfyrwyr dipyn o ddefnydd o'r cyfleoedd cymdeithasol sydd wedi'u trefnu gan y Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn ogystal â gwyliau Cymraeg swyddogol:

Dechreuais i fynd i'r Mochyn Du—noson gymdeithasol gyda'r Ganolfan. Wedyn ar ôl y dosbarthiadau, maen nhw eisiau yfed neu siarad mwy ar ôl felly bues i gyda nhw. Nawr, dyn ni'n ffrindiau. Wedyn maen nhw'n cyflwyno fi i bobl eraill. Dyma pam dw i'n nabod mwy o bobl. Mochyn Du a Chapter yw'r llefydd. A'r Eisteddfod a Tafwyl. Mae lot o ddysgwyr yn dod i'r digwyddiadau hynny. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Dadleua tiwtor Cymraeg i Oedolion fod digonedd o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y brifddinas ac mae myfyrwyr ar y cyrsiau yn cael mynediad i'r cyfleoedd hynny:

Ma llawer o bobl yn dweud wrthyf 'o does dim llawer o bobl Cymraeg yng Nghaerdydd, does dim so so yn Gymraeg yng Nghaerdydd', wel efallai dydyn ni ddim wedi goroesi'r ffordd neu dydyn ni ddim wedi gwneud y pethau rydyn ni di gwneud i ffeindio hynny achos 'ma cyfleoedd. Llwyth o gyfleoedd, dwi ddim yn neud dim byd yn Saesneg yng Nghaerdydd. Dwi'n colli'r ochr dwi'n gwybod. Dwi'n colli'r ochr cymdeithasol Saesneg ond fel dwi'n clywed yn y cyrsiau Cymraeg ma dysgwyr yn dweud lle yn y byd dwi wedi bod nes i golli'r holl

ddiwylliant yma, do'n i ddim yn gwybod bod y ddynes drws nesa yn barddoni yn Gymraeg, heb sôn bod nhw'n cymryd rhan mewn eisteddfodau bod nhw'n ysgrifennu llyfrau, lle dwi wedi bod! **Tiwtor CiO, Caerdydd**

Yn ôl un myfyriwr CiO, agorwyd drws iddo i ddiwylliant Cymreig yn y ddinas nad oedd yn ymwybodol ohono cyn dechrau dysgu Cymraeg:

Mae ond angen i ti ddweud gair neu ddau yn Gymraeg ac mae'n agor porth—nid drws yn unig! [...] hynny yw drws i'r diwylliant Cymreig. Ni welais i hwn o'r blaen gan fod y drws wedi ei gau.⁸⁹ **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Gwnaeth tiwtor ESOL hefyd sylw ar y dosbarth 'ESOL Youth' ar drip i San Ffagan gan ddweud y canlynol:

I think actually taking them somewhere, where Welsh is spoken in the streets. Obviously, in different parts of Wales, they have that experience anyway. But in Cardiff, you never get to that 'somewhere'. You remember when they went to St. Fagan's, that was really funny, that really changed them, the students must have realised that they could speak English as well but they were 'I've got to do it in Welsh' and they really went for it, they really did! **Tiwtor ESOL, Grŵp Ffocws Caerdydd**

Dywed tiwtor Cymraeg i Oedolion ei bod yn allweddol cyflwyno myfyrwyr Cymraeg yng Nghaerdydd i'r cymunedau Cymraeg yn y ddinas. Serch hynny, dywedodd fod atyniad gan fyfyrwyr at gylchoedd lle mae'r dysgwyr yn cwrdd â'i gilydd a bod dod i gyfarfod a nabod y gymuned groeso yn anos:

Falle mwy o bethau i ddysgwyr nag yn y byd go iawn ond mae hynny achos pan dych chi'n dysgu dych chi ddim eisiau mynd i mewn i'r byd go iawn dw i'n meddwl. Ond ie, llefydd fel San Ffagan a dyn ni'n mynd i lefydd lle mae'r Gymraeg o gwmpas fel y Mochyn Du ond falle ddim gyda'r bobl 'go iawn'. **Tiwtor CiO, Grŵp Ffocws Caerdydd**

Yn hyn o beth, gwelir bod rhwystrau defnyddio'r iaith yn y gymuned yn debyg i rwystrau gan oedolion eraill sydd yn dysgu Cymraeg (Newcombe 2007). Serch hynny, gwelir bod tueddiad gan y cyfranogwyr i ddangos dipyn o hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Deallant fod y Gymraeg yn iaith leiafrifol yng Nghaerdydd ac yn cael ei thrin i raddau fel iaith leiafrifol

⁸⁹ 'Man muss nur ein oder zwei Wörter auf walisisch sagen und es öffnet sich sofort ein Tor—nicht eine Tür! [...] zwar das Tor zur walisischen Kultur. Das Tor habe ich vorher nicht gesehen weil es zu war.'

yng Ngwynedd. Yn hyn o beth, ystyriant fod angen gwneud ymdrechion penodol er mwyn gwneud cynnydd yn yr iaith.

5.3.5. Y Gymuned Groeso

Gwelwyd eisoes bod heriau cymdeithasol amlwg yn codi wrth i fyfyrwyr ddefnyddio Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Er gwaethaf sylwadau cadarnhaol myfyrwyr Caerdydd ar y posibiladau o ddefnyddio Cymraeg yn y ddinas, noda un myfyriwr fod darganfod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amserlen dynn ac mewn cymuned Saesneg ei hiaith yn her iddo:

Mae problem fawr gyda fi. Dw i'n byw ar fy mhen fy hun. Mae'n anodd i fi ddefnyddio Cymraeg a Saesneg. Dw i'n gweithio yn Saesneg a pan dw i'n mynd i'r siop—mae pobl leol yn defnyddio Saesneg—dim problem gyda fi. Gyda phobl leol, mae'n anodd i fi ddefnyddio'r Gymraeg—does neb yn gallu siarad â fi. Dw i'n trio defnyddio ac maen nhw'n dweud 'I don't speak Welsh' [...] dw i'n ymuno â chlwb darllen y Ganolfan ac dwi'n darllen erthyglau a newyddion. Gyda siarad—dwi ond yn siarad Cymraeg dwywaith yr wythnos neu teirgwaith. Mae'n anodd i fi ffeindio'r cyfleoedd. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Hoffwn i siarad mewn siop [...] er enghraifft os ydw i'n mynd i Clare's. Neu os dw i'n gwybod bod rhywun yn siarad Cymraeg, yna hoffwn i siarad mwy—ond mae'n naturiol—mae'r cyfleoedd yn brin i siarad Cymraeg yn naturiol yn Ne Cymru a Chaerdydd.⁹⁰ **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Er gwaethaf cymhellion yr unigolion i ddysgu Cymraeg, esboniant eu bod yn dod ar draws safbwyntiau negyddol tuag at y Gymraeg a rhai o'r rhain wedi'u cyfeirio at eu hymdrechion hwy wrth ddysgu'r iaith:

A lot of born Welsh here say [...] Welsh, I hate that! You go to study [...] one of the ladies who was more than sixty came and joined Welsh and one of their friends said 'Welsh you're going to study Welsh. What horrible language! Look, I said [...] 'no, don't do that' [...] you have to [...] it's not justice. It's terrible to say something like that, 'nobody speaking Welsh!' **Myfyriwr Dosbarth 'Dinasyddiaeth', Caerdydd**

A few people I know on the course—they look at me like—what's the idea? Why have you done that? It's not. I'm not sure what they are thinking. It's different.

⁹⁰ 'Ich möchte gern in einem es nur in Laden walisisch sprechen können [...] zum Beispiel wenn ich noch zu Claire's gehe. Oder wenn ich weiss, dass jemand spricht Walisisch spricht dann würde ich mehr sprechen. Aber es ist natürlich—es gibt wenige Gelegenheiten in Süd-Wales und Cardiff, Walisisch spontan zu sprechen.'

They're not used to seeing this, especially an ethnic minority learning the language. It's a reaction—I'm not sure—it's like you speak Welsh—OK! **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

I've had one negative experience. A friend of mine is married to a man in his fifties. He said 'I don't understand why you are learning Welsh'. He is Welsh himself. Why don't you learn French or Spanish instead? Well I said, I speak them already! He said, I don't want my wife to learn Welsh. I want her to learn French. I said 'what's the point!? It's not like you go to France all the time.' That was quite surprising. But otherwise it is quite positive. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Serch hynny, datgana nifer ohonynt eu bod yn defnyddio eu safle hwy fel unigolion o'r 'tu allan' er mwyn cymell ac ysgogi eraill i ddysgu Cymraeg:

Dw i'n trio annog nhw bob tro iddynt ddysgu Cymraeg—mae pobl yn dweud 'I feel ashamed because I'm Welsh and I can't speak Welsh'—hoffwn i wneud iddynt feddwl yn wahanol. Dw i'n meddwl bod rhywbeth diddorol yn y Gymraeg—ac mae'n atynnu pobl o ddiwylliannau eraill. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Ye, they feel a bit ashamed. For me, English is my third language. And I start to learn Welsh. Even the lady [...] 'we have to be ashamed' [...] 'you have a lot of children, it's not your first language and you still want to try to learn!' [...] my point of view is not like them. I encourage them [...] with one or two children. Why not do that? They are living all life here. **Myfyriwr Dosbarth 'Dinasyddiaeth', Caerdydd**

I've been talking to quite a few Welsh people. They are kind of embarrassed that they don't know the language They think it's great and they say—'maybe I should learn it too' because it's part of their heritage etc. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Gwelwyd nad yw mewnfudwyr yn ddiuedd neu yn *neutral bystanders* (Kymlicka 2011c) i gyd-destun sosioieithyddol a gwleidyddol eu cartref newydd. Mae'r canfyddiadau yn datgelu bod y mewnfudwyr yn dirnad a beirniadu materion ynghylch yr iaith, sydd yn effeithio arnynt fel unigolion ac ar eraill yn y gymdeithas.

Datgelwyd ymhellach nad ymatebion negyddol siaradwyr di-Gymraeg neu ddiffyg cyfleoedd i ymarfer yw'r unig rwystrau cymdeithasol. I nifer o fyfyrwyr y Gogledd a Chaerdydd, y siaradwyr Cymraeg oedd y rhwystr ar hyd eu llwybr ieithyddol hwy am y ffaith nad oeddent o reidrwydd yn barod iawn i helpu myfyrwyr ar eu taith iaith:

Dyna oedd rhyw foi yn dweud wythnos dwetha yn y Nant, oedd o'n deud o ie dwi'n cytuno medda fo a dwi di bod yn trio, ma pawb isio fi ddysgu Cymraeg ond does 'na neb isio bod yr athro. Ma pawb yn gefnogol iawn i fi ddysgu Cymraeg

ond does neb isio helpu. Ar ôl y geiriau Cymraeg cyntaf ma pawb yn troi i'r Saesneg. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

O'n i fwy awyddus na'r gŵr sŵn i'n deud, achos odd o'n ffeindio mewn ffordd bod e'n ormod o drafferth dw i'n meddwl. A dwi di gweld yr agwedd yma efo lot o Gymry Cymraeg ond maen nhw'n dweud 'you're learning Welsh, that's great' ond dydyn nhw ddim yn trafferthu lot i chdi allu dysgu. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Ie ac iddyn nhw gefnogi, achos mae'n ddigon hawdd dweud, timod yn aml iawn 'o she's learning', mae hi yn dysgu ond dyn nhw ddim isio cefnogi pobl sy'n dysgu ma nhw isio pobl sy'n cyrraedd y lefel. Ond ti ddim yn cyrraedd y lefel. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Lots of parents in my son's school and in the BBC my best friends were Welsh speakers. It was quite funny. We were like a group of Welsh speakers and me. I was doing ideas and research for programmes. They kept swapping to English. But I was like 'I want to learn' but they were very polite. Not all nationalities do that. **Myfyriwr CiO, Caerdydd**

Yn ôl Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydraddoldeb ac Iaith, eironi'r siaradwyr Cymraeg yw eu bod nhw'n croesawu dysgwyr newydd yr iaith ond nid ydynt yn fodlon chwarae eu rhan drwy eu helpu nhw i ddysgu'r iaith:

Dw i'n meddwl o ran y sawl [...] ti'n gwybod fel mae hi. Os ydy rhywun yn dweud [...] 'dw i'n dysgu Cymraeg', argoel fawr, dyn ni mor ddiolchgar ond dyn ni ddim yn cadw ochr ni o'r fargen—dyn ni'n troi at y Saesneg. Dw i yn meddwl bod hynny yn wir am unrhyw ddysgwr o le bynnag maen nhw wedi dod de. Faswn i ddim isho dweud am un eiliad bod cymunedau Cymraeg yn y Gogledd—na na na dyn ni ddim yn hiliol—wel mae'n siŵr iawn bod esiamplau o hynna ag o densiwn. Ond wedi dweud hynna, be wyt ti'n clywed lot fawr ydy—ac wrth gwrs mae hyn yn hiliol yn ei hun—'duwcs na maen nhw'n fwy bodlon i ddysgu Saesneg a Chymraeg na'r rhan fwyaf o Saeson.' Dyna ydy o. Dw i ddim yn dweud ei fod o'n iawn—jest dyna beth ydy o. **Swyddog Cyngor sydd yn ymwneud â Chydraddoldeb ac Iaith**

Er gwaethaf yr honiad bod mewnfudwyr o'r tu allan i Brydain yn fwy parod i ddysgu Cymraeg na mewnfudwyr o Loegr, ymddengys nad oes fawr o wahaniaeth mewn ymarferion nifer o aelodau'r gymuned Gymraeg eu hiaith tuag at siaradwyr newydd y Gymraeg. Gwelwyd mai problem gyffredinol yw hon, nid ar gyfer mewnfudwyr yn benodol ond ar gyfer holl siaradwyr newydd y Gymraeg:

Cael mewnfudwyr yn rhan o gymuned. Mae'n broblem mwy na jest i fewnfudwyr. Dan ni'n ffeindio bod ein dysgwyr ni yn gyffredinol—mae'n job fawr. Fedri di ddysgu nhw, fedri di roi'r cyfle i ni fynd allan a chlywed y Gymraeg ond mae 'na broblem fawr yn bodoli lle tydi pobl sy'n siarad Cymraeg ddim yn barod i siarad Cymraeg efo dysgwyr. Mae hwnna'n digwydd beth bynnag. Mae'n job i ni

ddatrys. Ond os ydy rywun yn dod o'r tu allan i Brydain, maen nhw'n edrych yn wahanol i ddechrau. Fel o't ti'n dweud efo'r hogyn o Tsiena yn Llanberis, tydi rhywun ddim yn disgwyl ei fod yn siarad Cymraeg. **Tiwtor CiO, Grŵp Ffocws Gwynedd**

Ymddengys mai her benodol mewnfudwyr yw'r ffaith nad yw'r gymdeithas yn disgwyl iddynt siarad Cymraeg am eu bod yn edrych yn 'wahanol' ond hefyd am nad yw siaradwyr Cymraeg yn gwybod ar ba lefel y mae'r dysgwyr. Yn hyn o beth, cyfeiriwyd eisoes at ddisgwrs academiaidd yn Adran 1.3.1 sydd yn honni nad yw perthynas y Gymru â'r 'arall' mor oddefgar ag y credir (C. Williams *et al.* 2015) a bod ethnoganolrwydd y Gymraeg yn cau lleiafrifoedd ethnig allan o Gymreictod (C. Williams 2005). Yn ôl ymchwil Threadgold *et al.* (2008) a Scourfield a Davies (2005) mae goblygiadau niweidiol i Gymreictod sydd wedi ei seilio ar genedlaetholdeb ac iaith ar sail y ffaith bod 'minority ethnic people are less likely to be Welsh speakers, and the reluctance of minority children to claim Welshness' (t. 3).

Er gwaetha'r honiadau hyn, cydnebydd C. Williams *et al.* (2015) fod prinder ymchwil ar ymagweddau mewnfudwyr at y Gymraeg a'r ffordd y maent yn priodoli hunaniaeth ethnig iaith. Rhydd y prosiect ymchwil hwn fewnwelediad felly i berthynas rhwng mewnfudwyr, ethnigrwydd ac iaith. Yn ôl un mewnfudwr, esbonia fod dysgu iaith a pherchnogi ethnigrwydd yn ddau beth gwahanol:

I'll do my best but I can't pretend to compare myself with a Welsh person who is born here and lived here for a generation or even an Indian person who is born here. If that person doesn't like education, then I will overtake and know more Welsh language. Of course, I can say 'I am better than you' but inside he is more Welsh than me. You can be a citizen, but I'm talking about feelings. **Myfyriwr ESOL, Caerdydd**

Gwelir bod gwahaniaeth rhwng y dymuniad i feithrin hunaniaeth y 'Gymraeg' a'r dymuniad i ddod yn 'ddinesydd' Cymreig. Awgryma'r dyfyniad bod dysgu iaith yn rhan o brosiect dinasyddiaeth mewnfudwr ond nid yw'n dymuno perchnogi hunaniaeth

ethnoddwylliannol yr iaith. Serch hynny, nid yw hynny'n golygu nad yw'r mewnfudwyr yn gallu bod yn rhan o'r gymuned neu yn gallu ymlynu wrth Gymru:

It's fun when sometimes, people ask me, 'are you going home often?' I do everyday. I feel part of Wales. I know what they mean but [...] because of course I feel part of Wales but I don't feel Welsh [...] yet. You never know. **Myfyriwr Dosbarth 'Dinasyddiaeth' Caerdydd**

Serch hynny, dywed y myfyriwr yn y dyfyniad isod fod dysgu iaith yn sylfaen i fod yn rhan o'r gymuned:

Cyn hynny, mae pawb yn groesawus iawn beth bynnag ond ar ôl i chdi ddechrau dysgu'r iaith ti'n cael dy dderbyn mwy—ti rhan ohonyn nhw. O'r blaen, ti'n cael lle a ti'n cael dy dderbyn mewn ffordd ond ti ddim yn rhan o'r gymuned ond ar ôl dechrau dysgu'r iaith, hyd yn oed os ti mond yn dechrau a dangos diddordeb, ti'n dechrau bod yn rhan o [...] ac wedyn ti'n dal yn nodi allan 'dutchman dw i'. Ond ma 'na bobl di bod yn dweud yn y blynyddoedd dwetha 'o ti'n Gymro go iawn erbyn hyn'. Mae'n cymryd blynyddoedd dydy. Ond yr iaith ydy'r peth pwysica' yn hwnna wrth gwrs. Os fydden i ddim di dysgu'r iaith fasa neb di deud hwnna. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Er i'r myfyriwr nodi mai 'dutchman' ydyw, aelodau'r gymuned sydd yn ei alw'n 'Gymro'. Yn hynny o beth, dadleua Brooks (2014) fod y term 'Cymro' yn air cynhwysol ac yn cyfeirio'n bennaf at ddiffiniad ieithyddol yn hytrach na'r diffiniad ethnig sydd yn perthyn i'r gair cyfatebol 'Welsh' yn Saesneg. Hefyd, efelycha hyn syniadau Heller (2013) sydd yn honni bod mewnfudwyr yn perchenogi'r iaith fel adnodd yn hytrach na pherchenogi hunaniaeth ethnig yr iaith.

Mae dyfyniadau yn dangos nad yw'r mewnfudwyr o reidrwydd yn dymuno efelychu aelodaeth y siaradwr mamiaith fel mae eraill wedi honni (Piller 2001, Soler 2012). Gwelir isod fod y fewnfudwraig yn fodlon â'i statws fel 'acquaintance' y gymuned. Yr hyn sydd yn bwysig iddi yw bod aelodau'r gymuned yn cyfathrebu â hi yn Gymraeg:

Na dwi ddim yn meddwl bydda'i byth [yn Gymraes] rhwng y bobl leol. Ma pawb yn glen ac mae pawb yn gyfeillgar [...] mewn ffordd dwi'n rhan o'r gymuned ond acquaintance ydw i fwy na'i ffrind nhw. Ond na mae'n champion, ond ma pawb yn siarad Cymraeg efo fi, y Cymry Cymraeg [...] dim ond yr un ddynes. Na dwi'n hapus iawn. **Myfyriwr CiO, Gwynedd**

Awgrymir bod hyn yn cyd-fynd ag ymchwil Lamarre (2012) sydd yn nodi bod mewnfudwyr i Fontreal yn perchenogi iaith fel adnodd neu 'gyfalaf' (Bourdieu 1982) ac yn ei ddefnyddio er mwyn symud *rhwng* cymunedau yn hytrach nag integreiddio i un gymuned ieithyddol yn unig. Mae integreiddio i'r gymuned yn parhau i fod yn her benodol i siaradwyr Cymraeg newydd boed yn fewnfudwr neu ddinesydd brodorol. Serch hynny, mae'r ymchwil yn awgrymu bod mewnfudwyr sydd â mynediad at ddysgu Cymraeg, yn perchenogi'r iaith drwy ei dysgu a'i defnyddio. O ganlyniad, maent yn priodoli iaith fel rhinwedd yn hytrach na phriodoli iaith fel hunaniaeth *per se*. Mae'r ymlyniadau newydd hyn yn ehangu gorwelion neu hyd yn oed yn ailddiffinio Cymreictod 'oddi fyny' i fod yn fwy cynhwysol ac amlddiwylliannol.

5.3.6. Y *trajectoire langagière* a'r Dosbarth 'Dinasyddiaeth'

Mae'r *trajectoire langagière* yn gymorth wrth ddehongli ymatebion ac ymagweddau mewnfudwyr at y Gymraeg. Mae'r model yn ystyried bod gan fewnfudwyr 'brosiect' yn sgil mewnfudo sydd yn deillio o anghenion am hunanddatblygiad (*besoin d'autodéveloppement*) (Rالاتاتiana 2015). Dywed Amireault a Lussier (2008) a Rالاتاتiana *et al.* (2012) fod allfudo, boed yn ddewis neu orfodaeth, yn deillio o ddymuniad am newid (am resymau economaidd, teuluol neu ddiogelwch) a bod hyn yn creu dyhead am hunanddatblygiad ar lefel broffesiynol a phersonol. Noda Rالاتاتiana *et al.* (2015) fod mewnfudo yn creu'r angen am adeiladu cysylltiadau newydd wrth i'r unigolion ymgysylltu â'r 'arall' (*l'alterité*). O ganlyniad, ceir newidiadau i hunaniaeth yr unigolyn.

Gwelwyd yn sgil yr arsylwadau a chyfweliadau lled-strwythuredig bod dysgu Cymraeg fel Saesneg yn rhan o 'brosiect' mewnfudo ehangach y mewnfudwyr. Yn wahanol i fewnfudwyr Québec, lle yr oeddent wedi paratoi at ddysgu Ffrangeg cyn mewnfudo i'r dalaith, nid oedd y mewnfudwyr yn y dosbarth 'dinasyddiaeth' wedi ystyried dysgu Cymraeg cyn ymsefydlu yng Nghymru. Gwelwyd mai'r prif reswm am hyn oedd diffyg

gwybodaeth y myfyrwyr o'r Gymraeg cyn ymsefydlu yng Nghymru. Nodir hefyd fod nifer wedi mewnfudo i Loegr yn gyntaf cyn dod i Gymru. Serch hynny, awgryma'r canfyddiadau bod y Gymraeg wedi datblygu fel rhan o brosiect y mewnfudwyr hyn o ganlyniad i fewnfudo i Gymru ac wrth ymgysylltu â'r diwylliant newydd megis trwy sylwi ar arwyddion dwyieithog a dysgu am addysg Gymraeg.

Er gwaethaf amrywiaeth cefndiroedd y cyfranogwyr a sefyllfaoedd teuluol a gyrfaol gwahanol, mae'r *motivation d'accomplissement*—y cymhelliant i ddyfalbarhau—yn chwarae rôl bwysig yn cymell y mewnfudwyr i ddyfalbarhau gyda'r dosbarthiadau iaith. Yn achos canfyddiadau Québec, gwelwyd bod rôl y tiwtor yn ganolog ac awgrymwyd mai *porteur* neu 'hwylusydd' diwylliannol ydoedd. Fel hynny, roedd cyfrifoldeb gan y tiwtor Ffrangeg i gyfleu gwerth integreiddiol ac economaidd yr iaith ac roedd y cyd-destun hanesyddol a gwleidyddol yn rhan annatod o hyn o ganlyniad. Yn achos y dosbarthiadau 'dinasyddiaeth' Gymreig i fewnfudwyr, ystyriwyd fy rôl fel tiwtor yn ganolog ac yn ehangach na thiwtor iaith. Yn unol â phrofiadau tiwtoriaid iaith Québec, roedd fy swyddogaeth, ar y naill law, yn ymdebygu i hwylusydd 'integreiddio' drwy addysgu gwybodaeth gefndirol am y Gymraeg, am Gymru yn ogystal ag ymateb i ymholiadau ieithyddol personol yr unigolion. Ar y llaw arall, teimlwyd bod yr unigolion yn f'ystyried yn gyfaill am fod nifer ohonynt yn awyddus i gadw cyswllt y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Yn nosbarthiadau *francisation* Québec, nodwyd bod agenda deublyg i'r cyrsiau i fewnfudwyr gan gynnwys mewnbwn ieithyddol a diwylliannol. Yn y dosbarthiadau 'dinasyddiaeth' Gymreig, datblygiad *ad hoc* oedd yr elfennau diwylliannol yn sgil yr angen i gyd-destunoli'r Gymraeg yng Nghymru. Er gwaetha'r dystiolaeth sydd yn cefnogi natur bugeilio'r tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion (Cyfweliad gyda Swyddog CiO), mae ymatebion mewnfudwyr ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion yn awgrymu bod dirfawr angen ffocws ar

'ddiwylliant' neu 'ddinasyddiaeth' Gymreig yn y cyrsiau presennol. Gellir dadlau felly fod y mewnbwn diwylliannol yn bwysig er mwyn i fewnfudwyr ddeall cyd-destun sosiowleidyddol y Gymraeg ac ar gyfer eu cymhelliant i ddyfalbarhau gyda'r Gymraeg fel y gwelwyd ymysg mewnfudwyr yn dysgu Ffrangeg ym Montreal. Yn ôl Wenger (2000):

Teachers need to 'represent' their communities of practice in educational settings. This type of lived authenticity brings into the subject matter the concerns, sense of purpose, identification, and emotion of participation. (t. 276)

O ran y dulliau dysgu, awgryma'r data bod y cyrsiau Cymraeg fel ail iaith yn targedu siaradwyr mamiaith Saesneg. Gwelwyd bod mewnfudwyr ar gyrsiau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion wedi profi rhai trafferthion gyda chyfeirbwynt canolog y cyrsiau at y Saesneg a chyda chyfeiriadau diwylliannol at gyd-destun Prydeinig. Er bod Swyddogion Llywodraeth Cymru yn honni y byddai rhaid i fewnfudwyr sydd am ddysgu Cymraeg feithrin sgiliau Saesneg, datgelodd yr ymchwil weithredu gyda dosbarth 'ESOL Youth' nad oedd hynny o reidrwydd yn wir. Nodwyd serch hynny nad oedd dulliau dysgu cyfredol yn gwbl addas i fyfyrwyr gyda chyn lleied neu dim Saesneg. Yn wahanol i'r dosbarth 'ESOL Youth', roedd gan fewnfudwyr ar y cwrs peilot Cymraeg yn Ysgol Gynradd Severn Road yn Nhreganna lefelau uwch o Saesneg. Serch hynny, ystyriwyd hefyd fod angen gwneud addasiadau i'r cwrs peilot er mwyn pwysleisio elfennau diwylliannol am Gymru a'r Gymraeg. Am y rheswm hwn, defnyddiwyd Saesneg at bwrpasau penodol. Roedd y pwyslais ar brofiadau blaenorol y mewnfudwyr a'u hieithoedd brodorol yn ffordd o hwyluso llwyfan i ddilysu amlieithrwydd drwy wneud cymariaethau ieithyddol a diwylliannol â'r Gymraeg.

Yn hyn o beth, mae cysyniadau newydd o *translanguaging*, sydd yn ehangu ar gysyniad gwreiddiol 'trawsieithu' yng Nghymru (Lewis *et al.* 2012), yn debycach i realiti sefyllfa'r dosbarth dinasyddiaeth Gymreig. Yn unol â'r *trajectoire langagière*, mae *translanguaging* yn broses aml-gyfeiriadol sydd yn ymateb i dueddiadau ôl-strwythurol wrth ystyried iaith

fel 'proses' yn hytrach nag 'iaith' fel sustem (Wright 2015). Fel y dywed Garcia a Wei (2014):

[...] translanguaging refers to new language practices that make visible the complexity of language exchanges among people with different histories, and releases histories and understandings that had been buried within fixed language identities constrained by nation-states (t. 21).

Dull ydyw er mwyn adeiladu dealltwriaeth a chyfryngu dealltwriaeth rhwng grwpiau ieithyddol. Honna Garcia a Wei (2014) fod y dull yn caniatáu i ddealltwriaeth a hunaniaethau newydd gael eu creu. Mae'r dull addysgol aml-gyfeiriadol hwn yn codi cwestiynau dyrys am ddulliau a phrosesau o gyfryngu iaith a diwylliant i fewnfudwyr drwy'r Gymraeg a Saesneg yn ogystal â'u plethu i brofiadau ac ieithoedd y mewnfudwyr.

Yr hyn a welir wrth gymhwyso cysyniadau'r *trajectoire langagière* a'r dull *translanguaging* yw rôl bwysig yr ystafell ddosbarth neu'r 'gymuned ymarfer' (Wenger 2000). Gwelwyd yn y prosiect peilot Cymraeg ynghyd â'r dosbarthiadau *francisation* bod yr ystafell ddosbarth yn fan integreiddio ac felly'n fan 'trawsnewidiol'. Roedd y broses o *socialisation langagière*—cymdeithasoli ieithyddol—felly yn digwydd o fewn y dosbarth yn ogystal â'r gymuned. Honna Wenger (2000) fod profiadau blaenorol oedolion wedi'u gwreiddio mewn cyd-destunau gwahanol ac felly mae dysgu iaith newydd yn broses o negodi ystyr a chymodi gwrthdrawiadau. Y prosesau hyn sydd yn galluogi unigolion i berchenogi, ail-ddehongli ystyr a chyfranogi:

[...] newcomers also provide new models for different ways of participating. Whether adopted, modified or rejected in specific instances, paradigmatic trajectories provide live material for negotiating and renegotiating identities' (t. 156).

Mae'r ddau fodel a fabwysiadwyd ar gyfer yr ymchwil, y *trajectoire langagière* a'r model MAI, yn cyfateb yn eu hamcanion wrth iddynt asesu sut mae mewnfudwyr yn ymateb ac ymaddasu i ddiwylliant newydd. Fel y dywed Ralatatiana *et al.* (2012) 'mae astudiaeth ar

y *trajectoires* a strategaethau yn mynd law-yn-law ag ymaddasu.⁹¹ (t. 108). Mae'r model yn caniatáu dehongliad mwy arbrofol o ymagweddau ac ymatebion mewnfudwyr i'r dosbarth peilot Cymraeg. Mae'r *trajectoire* yn peri i ymchwilydd ystyried ffactorau nad yw'r model MAI yn ei wneud a sut mae stori'r mewnfudwyr yn datblygu ac yn cael ei hail-ddehongli ar lefel hunaniaethol. Fel y dywed Boutinet (1998), mae'n seiliedig ar allu'r mewnfudwr i berchenogi'r presennol er mwyn creu rhywbeth o'r newydd (t. 94). Mae'r mewnfudwyr felly yn cael eu hystyried fel actorion neu randdeiliaid yn eu prosiectau dysgu iaith (Vatz Larroussi 2009) ac mae rôl y tiwtor hefyd yn trawsnewid yn sgil hynny. Gwelwyd hefyd sut y mae'r prosesau trawsnewidiol o fewnfudo a phriodoli iaith newydd yn cyfrannu at dorri lawr ffiniau ethnoddiwylliannol iaith. Cyfranna hyn hefyd at ailddiffinio cysyniadau o Gymreictod ar hyd trywydd mwy cynhwysol ac amlddiwylliannol 'oddi mewn'⁹².

Mae gallu'r mewnfudwyr i ymbweru eu profiadau addysgol yn gysyniad grymus ond rhaid nodi bod y cysyniadau newydd o berchenogaeth ac ymlyniadau at iaith yn ddibynnol ar sicrhau mynediad a chaniatáu cyfranogaeth barhaol:

While newcomers are forging their own identities, they do not necessarily want to emphasize discontinuity more than continuity. They must find a place in relation to the past. In order to participate, they must gain access—vicarious as it may be—to the history they want to contribute to; they must make it part of their own identities (Wenger 2000, t. 157).

Mae'r *trajectoire langagière* yn tynnu sylw at yr her o ddarganfod ffyrdd i gyfranogi yn y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth mewn cymuned leiafrifol ei hiaith (Crowe 1988). Gan fod y rhan fwyaf o ddigwyddiadau wedi'u creu ar gyfer dysgwyr, prin yw'r cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned Gymraeg ei hiaith. Yn hyn o beth, rhwystr yr arsylwadau cyfranogol ac ymchwil weithredu oedd y ffaith nad oeddwn yn gallu dilyn myfyrwyr ar

⁹¹ 'L'étude des trajectoires et des stratégies va de pair avec l'acculturation'

⁹² Mae 'oddi mewn' yn cyfeirio at ddisgrifad Patricia Lamarre o fewnfudwyr yn trawsnewid huniaiaeth Québec 'from within' yn ei hysgrif ar 'Montreal on the Move' (Anthropologica 2014).

hyd cyfnod hwy ac am fwy na dwy awr gyswllt yr wythnos er mwyn arsylwi gallu'r mewnfudwyr i integreiddio'n gymdeithasol ar hyd amser. Byddai hefyd wedi bod o fudd cynnwys cofnodion ysgrifenedig gan y mewnfudwyr ar hyd eu profiadau addysgol fel a wnaed yn ymchwil Ralattiana (2015) ar y *trajectoire langagière*.

Rhwyrstr llawer mwy elfennol yw parhad y dosbarth 'dinasyddiaeth' Gymreig. Nodir mai menter unigol ydoedd yn cynnig mynediad rhad ac am ddim i fewnfudwyr y tu mewn i sefydliad addysgol. Mae dilyniant addysgol a chymunedol i'r mewnfudwyr yn ganolog i barhad eu *trajectoire*. Gwelir yn enghraifft Québec bod y rhaglen *francisation* yn caniatáu mynediad cyson ar gyrsiau dwys neu ran amser ar hyd y lefelau addysgol. Yr her i'r myfyrwyr *francisation* yw pontio â'r gymuned Québécois. Mae'r dosbarthiadau 'dinasyddiaeth' Gymreig wedi'u modelu i raddau ar egwyddor y dosbarth *francisation* ond cwestiynir y graddau y gall menter o'r fath barhau a lledaenu heb gynlluniau a fframwaith pendant mewn lle sydd yn cael eu hysgogi, eu cefnogi a'u hariannu gan sefydliadau addysg, cynghorau lleol a'r Llywodraeth. Y canlyniad posibl yw bod profiadau'r mewnfudwyr hyn yn dod i ben fel nifer o fyfyrwyr ar ddiwedd lefel Mynediad neu Sylfaen cyrsiau Cymraeg i Oedolion (CBAC 2014). Wrth drafod rhwystrau a chyfleoedd y fenter hon o fewn fframwaith y *trajectoire langagière*, ystyrir yn awr bosibiliadau a gwendidau datblygu syniadau ar ddarpariaeth Gymraeg i fewnfudwyr ar sail y dystiolaeth a drafodwyd yn y bennod hon.

5.4. CASGLIAD: RHWYSTRAU A CHYFLEOEDD DYSGU CYMRAEG I FEWNFUDWYR

5.4.1. Rhwystrau a Chyfleoedd Dewis Dull o Gymhwyso Amrywiaeth yng Nghymru

Ar ôl trin a thrafod cysyniadau gwahanol ar gymhwyso amrywiaeth, cesglir nad yw'r dulliau ar waith mewn polisiâu Llywodraeth yn ymgynraedd â datblygu dinasyddiaeth

sifig sydd yn cynnwys y Gymraeg. Awgrymir bod hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod y cysyniadau mwyaf blaengar megis amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd yn cael eu diffinio a'u perchenogi gan agenda'r genedl-wladwriaeth. Er gwaethaf rhethreg amlgenedlaethol ac amlieithog y gwladwriaethau democrataidd, parhau y mae safbwyntiau sydd yn deillio o'r oes Fictoraidd ar gymhathu mewnfudwyr i iaith a diwylliant oruchafol y wladwriaeth:

Although Britain is very obviously multilingual, its representation as a monolingual state, or one that at best tolerates a degree of regional bilingualism in Wales and Scotland, allies with the powerful ideology of 'one nation one language' (Simpson *et al.* 2015, t. 202)

Y feirniadaeth ar seilio dinasyddiaeth ar ddiwylliant yr is-wladwriaeth (ac fel y gwelwyd yn achos beirniadaeth ar bolisiau Québec) yw bod ei hiaith a chenedligrwydd yn cael eu hystyried yn nodweddion statig ac anhygyrch (D. G. Williams 2012). Yn achos Cymru, mae rôl y Gymraeg yn parhau i fod yn broblem i ddatblygu polisiau ar gynhwysiant a chydlyniant ar lefel genedlaethol. Ystyriwyd eisoes nad yw safbwyntiau'r rhain yn ddiduedd; honna Brooks (2014) fod y wladwriaeth yn sefydliadol i'r ethnig ac yn cuddio elfennau cymathiadol y tu mewn i retoreg sifig. Er bod y canfyddiadau yn dangos bod anghytgord ymhlith swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, Cyngorau Lleol a darparwyr iaith ESOL a Chymraeg i Oedolion, yr iaith oruchafol sydd yn cael blaenoriaeth.

Nid yw Llywodraeth Cymru eisoes wedi diffinio swyddogaeth y Gymraeg o fewn polisiau ar gydlyniant. Ymddengys felly nad oes llawer o wahaniaeth rhwng polisiau amlddiwylliannol a rhyngddiwylliannedd sifig Prydeinig. Mae'r data serch hynny yn awgrymu bod pwyslais rhyngddiwylliannol 'gwladwriaethol' sydd wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn haws i osgoi diffinio'r 'bowlen salad'⁹³ Gymreig.

⁹³ Defnyddir y term hwn mewn gwrthwynebiad â thawddlestr diwylliannol. Mae cysyniad y 'bowlen salad' yn ymdebygu i'r cysyniad o fosäig diwylliannol ond pwysleisir prif gynhwysion y 'salad' (y diwylliannau cenedlaethol) yn ogystal â chynhwysion ychwanegol (diwylliannau'r mewnfudwyr).

Addas felly yw ailymweld â galwad Kymlicka am ail-ddehongli dinasyddiaeth genedlaethol ym Mhrydain, ac yn neilltuol i Gymru yn y drafodaeth hon. Mae enghraifft Québec wedi bod yn ganolog i gryfhau dadleuon ar gymhwyso iaith ac amrywiaeth ethnoddwylliannol ar lefel is-wladwriaethol. Daethpwyd i'r casglwyd, er gwaethaf gwahaniaethau gwleidyddol a chymdeithasol amlwg, bod elfennau o fodel Québec yn ddefnyddiol i Gymru. Ar lefel sylfaenol, dangosir bod y Ffrangeg yn Québec, a oedd ar un adeg yn cael ei heithrio o drafodaeth ar gydlyniant, wedi ei diffinio a'i datblygu i fod yn adnodd cynhwysol mewn fframwaith lluosogol. Yn wahanol i bolisiau ffederal Canada, gwelwyd bod polisiau cydlyniant cymdeithasol Québec yn diffinio camau penodol ar gyfer rheoli amrywiaeth fel bod mewnfudwyr yn datblygu *preference* i'r Ffrangeg. Mae dadleuon deallusol Bouchard wedi cyfoethogi'r drafodaeth hon ac yn dangos bod y model rhyngddwylliannol yn un deinamig a datblygol sydd yn pwysu a mesur diwylliant y gymuned groeso, hawliau ethnoddwylliannol mewnfudwyr gyda'r ymgais i wirio rhwng dadleuon y sifig a'r ethnig a drafodwyd yn Adran 1.3.1 ac wrth reswm felly'r *pluralist dilemma* y cyfeiriwyd ato yn Adran 1.1.1.

Y broblem fwyaf wrth gymhwyso model o'r math hwn yw statws lleiafrifol y Gymraeg fel y pwysleisiwyd mewn cyfweiliadau gyda swyddogion polisi iaith Québec yn Adran 4.4.1. Mae presenoldeb cymuned fwyafrifol Saesneg ei hiaith a chymuned leiafrifol Gymraeg ei hiaith yn golygu na fyddai'r gwagle rhyngddwylliannol yn Gymraeg ei hiaith—rhaid wrth wagle dwyieithog. A oes atebion eraill heblaw breinio'r Gymraeg yn arwyddnod y gymdeithas fel y gwnaed yn Québec? Yn ôl Cyfarwyddwr y CSLF, bu raid i'r cymunedau Saesneg a Ffrangeg eu hiaith Québec wneud cymwysiadau er mwyn derbyn dulliau newydd o reoli iaith ac amrywiaeth. Ar sail ymatebion tiwtoriaid ESOL a Llywodraeth Cymru awgrymir nad ydy'r cymunedau ieithyddol yng Nghymru yn barod am *sacrifices*

[wneud aberth]—yn ôl geiriau Cyfarwyddwyr y CSLF. Anodd felly yw dod o hyd i ddull nad yw'n cynhyrchu anghyfiawnder ieithyddol y naill ffordd neu'i gilydd. Fel y dywed Hymes (1996), lle mae gwahaniaeth, mae anghyfiawnder.

Yn ôl Van Parijs (2011), rhaid derbyn a hyrwyddo datblygiadau Saesneg yn rhyngwladol gan fod hyn yn ffordd o sicrhau cydlyniant croes-ddiwylliannol. Cydnebydd serch hynny fod angen cyflwyno trefn—*territorial differentiated regime*—lle mae gwladwriaethau yn breinio'u hiaith fel 'brenhines' neu lle y gall is-wladwriaethau freinio'u hieithoedd fel 'tywysogaethau' ar yr amod eu bod yn fodlon datblygu adnoddau ac ariannu rhaglenni addysgol er mwyn hybu amrywiaeth ieithyddol rhyng-leol. Honna Parijs y gellir cyfiawnhau aloffons yn dysgu'r iaith 'wannach' ar sail *parity of esteem* ar yr amod bod yr iaith yn cael ei diffinio y tu fewn i'r 'drefn' a thrwy gynnig mynediad at adnoddau megis cyrsiau iaith a chyfleoedd iddynt gyfranogi.

Cyflwynna Patten (2014) syniadau o niwtraliaeth Ryddfrydol a honnai fod angen ystyried ffactorau ehangach na syniadau Van Parijs sydd hefyd yn rhagori ar wendidau cysyniadol amlddiwylliannedd Kymlicka. Yn ei dyb ef, rhaid cefnu ar syniadau sydd yn wreiddiedig mewn hawliau unigolyddol a'r gymuned ynghyd â hanfodaeth diwylliannau. Nid ideoleg cosmopolitaniaeth ydyw ond cyflwynir yn hytrach syniadau ar gydnabyddiaeth gyfartal. Cred fod niwtraliaeth y wladwriaeth yn ffordd fwy cyfiawn o sicrhau'r canlyniadau y dymuna damcaniaethwyr amlddiwylliannol a rhyngddiwylliannol eu gweld. Y sail felly yw bod gan y wladwriaeth Ryddfrydol ddyletswydd weithredol i drin ieithoedd yn niwtral. Serch hynny nid yw triniaeth gyfartal yn golygu anwybyddu anghenion penodol ieithoedd ond yn golygu estyn hawliau diwylliannol penodol i grwpiau lleiafrifol. Y gwahaniaeth yw nad hawl dros gynnal a chadw diwylliant yw'r amod ond hawl dros gydnabyddiaeth gyfartal i bob diwylliant.

Dadleua Wright (2015) fod syniadau Van Parijs yn ystyried ieithoedd fel systemau anhyblyg o fewn gwladwriaethau. Fel nifer o academyddion eraill (Pennycook 2012; Bloomaert 2010; Heller 2013) dadleua fod cysyniadau ynghlwm wrth gyfiawnder ieithyddol yn seiliedig ar edrych ar iaith fel system nid iaith fel proses ac ymarfer: 'the top-down requirement to acquire a national standard does not dovetail with the new social and economic phenomena [...] and is not in concert with the global and local identities that migrants assume' (Wright 2015, t. 126). Honna Bloomaert (2010) ein bod mewn cyd-destun o *fusion* yn hytrach na chyd-fodolaeth ieithoedd a bod amrywiaeth diwylliannol hyd yn oed mewn llefydd mwy gwledig yn cael eu hail-ddychmygu ar hyd llinynnau creadigol. Yn hyn o beth, awgrymir y bydd awdurdod ar faterion ieithyddol yn y dyfodol yn cael eu cyfeirio at brosesau iaith anghytwys a sigledig 'oddi fyny' yn hytrach nag 'oddi lawr'.

Mae'n eglur felly fod angen ffordd newydd o drin amrywiaeth diwylliannol nad yw wedi'i fframio ar sail cysyniadau unieithog y genedl-wladwriaeth nac ychwaith yn anwybyddu diwylliannau lleiafrifol cenedlaethol a mewnfudol—model sydd ei angen i ymateb i brosesau lleol oddi fyny ('bottom-up') mewn modd deinamig a chreadigol. Dengys gwaith Mcarty (2011) fod polisi a chynllunio iaith oddi fyny yn dechrau pan fo newidiadau mewn arferion disgwrs ar lefel y gymuned. Yn hyn o beth, cyfeirir at gysyniadau newydd o ryngddiwylliannedd 'cynhwysfawr' a ddatblygir yn wreiddiol mewn cyd-destun is-wladwriaethol. Trafodwyd yn Adran 5.1.3 bod cysyniadau Zapata-Barrero yn cwmpasu haenau gwahanol o ryngddiwylliannedd gan gynnwys syniadau Bouchard a chysyniadau Cattle ar gydlyniant yn ogystal â haen sydd yn canolbwyntio ar gymell mewnfudwyr ac aelodau i gydweithio a hybu arloesi, creadigrwydd ayb. Cynigir bod fframwaith y *jumelages interculturels* yn Québec yn enghraifft o'r arloesi rhyngddiwylliannol y sonnir

amdano. Yng nghyd-destun Cymru, dichon bod y dosbarth 'dinasyddiaeth' yn enghraifft arall o fenter arloesol a datblygol sydd yn datblygu cymwysterau a dealltwriaeth mewnfudwyr a'r gymuned groeso ynghyd. Model cysyniadol newydd ydyw serch hynny: a ydw'n fodel iwtopaidd? Onid yw'n debycach i gysyniadau amwys o ddeialog ac addysg ryngddiwylliannol a hyrwyddir gan sefydliadau Ewropeaidd? Neu ydyw'n gyfle i Gymru hawlio'i lle mewn dadl ryngddiwylliannol sydd yn cael eu datblygu fwyfwy ar gyfer amrywiaeth o fewn yr is-wladwriaeth? Er gwaethaf hyn oll, tybir nad dewis y model iawn sydd rhaid ond, fel y soniwyd eisoes, lleoli a diffinio'r Gymraeg yn eglur ac yn weithredol tu mewn i fodel o gymhwysu amrywiaeth. Hwn fydd yn angenrheidiol er mwyn trawsnewid y drafodaeth polisi yng Nghymru.

5.4.2. Rhwystrau a Chyfleoedd Sefydlu Dosbarthiadau Dinasyddiaeth er mwyn Hwyluso Cydlyniant.

Mae diffyg diffinio model penodol i Gymru drwy fabwysiadu modelau sydd eisoes ar waith yn Lloegr â goblygiadau i'r broses integreiddio yng Nghymru. Awgrymir bod y meddylfryd o drin iaith fel endid a system yn hytrach nag fel defnydd neu broses yn weladwy yn ymagweddau Llywodraeth Cymru, y Cynghorau Lleol a'r gymuned groeso yn 5.2.1 a 5.2.2. Ymddengys bod tueddiad yn ymatebion swyddogion Llywodraeth Cymru, Cynghorau Lleol a'r tiwtoriaid iaith at gategoreiddio'r broses integreiddio drwy un iaith neu'r llall yn nodweddiadol o'r pwynt hwn. Yn y cyswllt hwn, gwelwyd bod nifer o'r cyfranogwyr yn cyfeirio at ddysgu'r Gymraeg neu'r Saesneg gan ddibynnu ar yr iaith sydd o werth mwyaf i'r mewnfudwyr. Ar yr un pryd, mae darpariaeth Cymraeg i Oedolion ac ESOL yn cael eu trin fel endidau ar wahân ac at bwrpasau lled wahanol ym mholisi Llywodraeth Cymru yn ogystal ag yn ymatebion y cyfranogwyr. Rhybuddiwyd gan un o'r Swyddogion bod cymharu'r ddwy ddarpariaeth yn amhosib, os nad yn beryglus, am fod agenda a grymoedd gwahanol i'r darpariaethau, sef grym gwladwriaethol ar un ochr, a phŵer is-wladwriaeth ar yr ochr arall.

Gwelwyd bod ideolegau ynghylch y Saesneg fel iaith ddiamedod cydlyniant cymdeithasol yn cael eu porthi 'oddi lawr'. Honna David Cameron fod diffyg yng ngallu mewnfudwyr i siarad Saesneg ym Mhrydain yn creu *discomfort* a *disjointedness* (Telegraph 2011). Ymddengys bod y gwrthwyneb i siarad Saesneg, sef siarad iaith arall, fel y Gymraeg yn 'codi rhwystrau' yn hytrach na 'chwalu rhwystrau'. Hyn sydd yn nodweddiadol o ymagweddau tiwtoriaid ESOL (Caerdydd) at fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg.

Yn ôl Hamilton a Hillier, diffinnir ESOL fel 'a compensatory education program to aid the assimilation of immigrant communities into what is perceived as a traditionally monocultural, monlinguistic heritage' (2009 t. 8). Ynglwm wrth ESOL mae pwerau grymus Dinasyddiaeth sydd, ers Hydref 2013 yn gofyn i fewnfudwyr i Brydain basio prawf dinasyddiaeth lefel Saesneg B1 er mwyn ymsefydlu yno (Swyddfa Gartref 2015). Yn sgil hynny, mae dadl gyhoeddus Brydeinig ar fewnfudo (a gwrth-fewnfudo) yn cael ei thrafod yn gynyddol yng nghyswllt eu sgiliau Saesneg (Smith *et al.* 2015). Mae mesurau llymach o ran dethol mewnfudwyr yn golygu bod darpariaeth iaith i oedolion yn parhau i newid.

Yn y ddau gyd-destun, mae toriadau'n effeithio'n gynyddol ar ddarpariaeth iaith i oedolion. Serch hynny, nodwyd yn Adran 2.3.2 bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth unigryw ar gyfer ESOL i Gymru (Llywodraeth Cymru 2014b) sydd yn diffinio Saesneg fel sgil hanfodol ac yn amlinellu pwysigrwydd y ddarpariaeth hon i ddyfodol mewnfudwyr yng Nghymru. Yn 2014 gwelwyd hefyd newidiadau i ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion, ond ar drywydd gwahanol, wrth i doriadau ariannol i'w ddarpariaeth gael eu gweithredu a'u cyfnewid i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Yn ôl Swyddogion y Canolfannau Cymraeg i Oedolion, mae hwn yn gam llesteiriol ar gyfer datblygu siaradwyr newydd yng Nghymru ac yn sicr yn llesteirio ymdrechion i ehangu cyfranogaeth tu hwnt i'r targedau amlwg ac er mwyn ehangu cyfranogaeth

lleiafrifoedd ethnig. Yn ôl tiwtoriaid CiO a thiwtorïaid ESOL Bangor, mae'r diffyg cydraddoldeb mewn darpariaeth â goblygiadau gweladwy yn y gymdeithas. O ganlyniad, yr ymdeimlad ymhlith rhai o'r mewnfudwyr a thiwtorïaid yw bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn eu herbyn hwy am nad ydynt yn derbyn yr un gefnogaeth i ddysgu Cymraeg a Saesneg ar y sail bod rhesymau gyrfaol dros ddysgu Cymraeg. Ymdeimlad ymysg carfan o'r cyfranogwyr yw bod y Gymraeg yn cael ei chynnig fel iaith yr addysgedig, dosbarth canol.

Honna un o'r Swyddogion ESOL fod pob croeso a gallu i ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion fel ESOL ddatblygu menter sydd yn galluogi mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg. Gyda golwg ar y dosbarth dinasyddiaeth Gymreig a ddatblygwyd yn sgil ysgoloriaeth unigryw i fewnfudwyr gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro, amheuir y gallu i fentrau eraill esblygu heb gefnogaeth ychwanegol. O ran y ddarpariaeth ESOL, penderfyniad y tiwtor yw cynnwys elfennau o'r Gymraeg oddi mewn i'r gwersi. Ar sail yr arsylwadau cyfranogol, cesglir nad yw tiwtoriaid yn aml â'r gallu na'r hyder i gynnwys y Gymraeg. Mewn cyd-destun lle roedd y tiwtor yn siarad Cymraeg, awgrymir bod y Gymraeg yn cael ei thrin o gyfeirbwynt y Saesneg drwy gyfleu bod y Gymraeg yn israddol—nodwedd o *language interposition* yn ôl Pujolar (2010). Er bod y cynllun newydd yn annog tiwtoriaid i 'integrate the Welsh language into their ESOL classes where possible' (Llywodraeth Cymru 2014b), mae'r dystiolaeth a gesglir yn ystod yr ymchwil yn awgrymu mai tocenyddiaeth yw'r Gymraeg ar y cyfan heb gynllun penodol i hyfforddi tiwtoriaid ESOL gyda'r sgiliau a'r adnoddau i gynnwys y Gymraeg.

Un peth sydd yn dod yn amlwg wrth wneud ymchwil ansoddol yw'r gwahaniaethau rhwng profiadau unigolion. Mae hyn yn neilltuol amlwg wrth ystyried diwylliannau amrywiol y mewnfudwyr ynghyd â'u teithiau gwahanol o'u mamwledydd i Gymru. Yn hyn

o beth, ystyrir bod unrhyw gymariaethau yn eu hymagweddau a'u profiadau yn haeddu gwerth sylw. Er gwaetha'r honiad bod gan unigolion ffyrdd ffafriol o ddysgu iaith, gwelwyd bod dulliau dysgu Cymraeg i Oedolion heb ddiwallu anghenion rhai o'r mewnfudwyr am fod dibyniaeth ar y Saesneg a'r cyd-destun Prydeinig wedi drysu ar rai ohonynt. Gwelwyd bod sawl rhwystr tebyg i fyfyrwyr Cymraeg yn gyffredinol ond bod ymagweddau siaradwyr di-Gymraeg yn medru bod yn negyddol tuag at ymdrechion y mewnfudwyr am nad ydynt yn gweld gwerth i'r Gymraeg neu o bosib am fod peidio dysgu'r Gymraeg yn adlewyrchu'n wael arnynt. Gwelwyd bod hyn hefyd yn achos gyda mewnfudwyr yn dysgu Gwyddeleg yn Iwerddon (Irish Times, Gorffennaf 2014). Mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn cefnogi'r syniad o fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg ac yn disgwyl i raddau bod eu hymagweddau hwy yn fwy ffafriol na nifer o siaradwyr Saesneg eu hiaith. Serch hynny, nid yw ymagweddau cadarnhaol y gymuned groeso cyfystyr â'r wybodaeth sydd gan y gymuned groeso ynghylch sut yn union i feithrin cysylltiadau neu sut i gael cyfle strwythurol i ddod i nabod mewnfudwyr er mwyn ymarfer *hospitalité identitaire* (Pagé 2005).

Serch y rhwystrau aml-gyfeiriadol a geir rhag datblygu amodau sydd yn hwyluso mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg, mae'r canfyddiadau'n dangos bod y mewnfudwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil yn awyddus i ddysgu Cymraeg. Nodwyd bod hyn ar sail ehangu eu cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â dangos parch at ddiwylliant eu cartref newydd. Mae'r cymhellion hyn ynddynt eu hunain yn datgelu bod darpar-grŵp o unigolion amlieithog yn fodlon ac yn gallu dysgu ieithoedd newydd. Mae hyn yn agor posibiliadau newydd i ddarpariaeth iaith i oedolion yn ogystal â'r goblygiadau sydd ynghlwm wrth hybu delwedd aml-ethnig Gymraeg.

Roedd y dosbarthiadau 'dinasyddiaeth' wedi mynd i'r afael ag addysg dinasyddiaeth yn ogystal ag addysg iaith. Gwelwyd bod y mewnfudwyr yn brin eu gwybodaeth am hanes a

diwylliant Cymru a'r Gymraeg. Erbyn diwedd y cwrs gwelwyd bod y mewnfudwyr yn fwy hyddysg am Gymru a bod ganddynt sgiliau cyfathrebu sylfaenol yn y Gymraeg. Pryder rhai academyddion a swyddogion polisi yw bod ffocysu ar yr iaith a diwylliant 'lleol' ar draul iaith a diwylliant 'gwladwriaethol' Prydeinig. Trafodwyd eisoes bryder ymysg damcaniaethwyr megis Miller (2011) bod addysg amlgenedlaethol ym Mhrydain yn medru arwain at addysg fwy ethnig na sifig. Noda Kiwan (2011) ymhellach nad yw addysg genedlaethol yng Nghymru o reidrwydd yn hybu dinasyddiaeth amlddiwylliannol. Yng nghyd-destun Cymru, honna rhai hefyd fod pryder cyflwyno addysg gyda phwyslais cryf ar y diwylliant a'r iaith leol (Selleck 2012). Serch hynny, awgryma canfyddiadau'r ymchwil bod y dosbarth dinasyddiaeth Gymreig wedi ysgogi awyrgylch cynhwysol yn ogystal â dealltwriaeth ryngddiwylliannol. Dadleuir bod hyn ar sail amcanion dysgu cynhwysol sydd yn ymdebygu i gysyniad *translanguaging* ond hefyd yn sgil datblygiadau naturiol yn yr ystafell ddosbarth wrth i'r myfyrwyr wneud nifer o gymariaethau rhwng eu hieithoedd hwy a'r Gymraeg. Roedd llwyfan i drafod y Gymraeg hefyd yn gyfle i'r unigolion drafod cwestiynau ynghylch ieithoedd eraill megis magu plant yn eu mamieithoedd gwahanol. Yn wir, mae'r canlyniadau yn dangos bod nifer yn teimlo'n fwy cartrefol a sefydlog yn sgil dysgu Cymraeg. Dadleuir bod cyrsiau dinasyddiaeth Gymreig yn cynnig mwy o gyfleoedd i fewnfudwyr ddiffinio'u hunain fel dinasyddion newydd Cymru. Cytunaf felly â Kymlicka (2011) a May (2002) fod gan fewnfudwyr yng Nghymru hawl i addysg dinasyddiaeth is-wladwriaethol a bod dosbarthiadau Cymraeg i fewnfudwyr yn cyfrannu at gysyniad mwy cyflawn o gydlyniant cymdeithasol yng Nghymru.

Un amcan wrth gyflwyno data yn y drefn hon oedd er mwyn cyfleu trawstoriad mewn safbwyntiau sydd yn ymestyn o lefel polisi hyd at yr ystafell ddosbarth a'r gymuned a thrwy adlewyrchu ymagweddau ac ideolegau'r grŵpiau sydd â rhan yn y broses o integreiddio mewnfudwyr. Wrth gynnig dehongliad o'r prosesau ar lefelau gwahanol y

broses integreiddio, agorwyd y drafodaeth hefyd at bosibiliadau a chyfeiriadau newydd i bolisiau ac ymarferion iaith i oedolion yng Nghymru, yr hyn y mae Pennycook (2012) yn enwi'n *preferred futures*. Bydd y bennod olaf felly yn trafod beth y gall y *preferred futures* fod i faes addysg iaith i oedolion yng Nghymru.

Pennod 6: CASGLIADAU—DIFFINIO DINASYDDIAETH GYNHWYSOL GYMREIG

Byddai'n bosibl i rywun herio dadleuon yr ymchwil hwn drwy honni eu bod yn amhriodol neu'n amhosibl i'r Gymru sydd ohoni am y ffaith seml nad oes rhaid i fewnfudwyr ddysgu Cymraeg. Yn wir, dyma fu ymatebion nifer o diwtoriaid a rhai swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau Lleol y cyfwelwyd â hwy yn ystod y prosiect ymchwil. Eto i gyd, bu Cymru yn dyst i ddatblygiadau mewn datganoli yn sgil refferendwm yr Alban ar y naill law a sylw cynyddol i reolau ac amodau mewnfudo yn sgil argyfwng ffoaduriaid ar y llaw arall. Gorfodir i Gymru felly wynebu cwestiynau newydd ynghylch yr 'ymateb Cymreig' i fewnfudo. Nid y syniad o ddatblygu strategaethau integreiddio a chysyniadau o ddinasyddiaeth yng Nghymru sydd yn broblematic, wrth gwrs, ond sut y'i datblygir a'i diffinnir—yn benodol wrth osod y Gymraeg yn y fantol. Bydd y bennod hon felly'n crynhoi'r cwestiynau ymchwil a drafodwyd ar hyd y penodau blaenorol wrth fynd i'r afael â'r canlynol—1. Sut y gellir diffinio dinasyddiaeth Gymreig mewn cymdeithas aml-ethnig ac amlieithog a 2. Sut y gellir llunio llwybr posibl at ddinasyddiaeth Gymreig mewn meysydd polisi ac addysg oedolion.

6.1. Tu Hwnt i Amlddiwylliannedd a Rhyngddiwylliannedd

Mae'r astudiaeth hon yn dangos nad yw'n gwestiwn syml o drosglwyddo'r model amlddiwylliannol neu rhyngddiwylliannol i gyd-destun Cymru. Er gwaethaf dadleuon tanbaid a pharhaus rhwng amlddiwyllianwyr a rhyngddiwyllianwyr (Antonsich 2015), cesglir bod rhyngddiwylliannedd yn amrywiad o'r mosaig amlddiwylliannol. Ni ddylid felly begynnu'r modelau hyn fel y gwna rhai academyddion (e.e. Cattle a Kymlicka) ond eu trafod ar un ochr y sbectrwm o reoli amrywiaeth ethnoddwylliannol mewn cyd-

destunau rhyddfrydol-ddemocrataidd (e.e. gweler Modood a Meer 2012). Honna Antonsich (2015) fod y rhaniad rhwng yr amlddiwyllianwyr a'r rhyngddiwyllianwyr yn dechrau ymdoddi. Yn ôl Iacovino (Antonsich 2015), mae syniadau Modood ar amlddiwylliannedd, sydd yn cydnabod anghydraddoldebau mewn pŵer, yn ein dwyn yn agosach at ryngddiwylliannedd, fel y'i dehonglir yn Québec:

Modood's more nuanced appeal to consider relationships of power within particular liberal societies, contingent on sociological forces, prompts me to believe that we have, indeed, entered an age of interculturalism, since his eloquent defence of multiculturalism echoes many of the distinguishing features of Québec's model in relation to its Canadian counterpart'. (t. 24)

Ond, yn wir, mae'r gwahaniaethau sydd yn bodoli rhwng y modelau hyn wedi eu seilio ar weledigaethau gwrthgyferbyniol ar ddinasyddiaeth. Awgrymir mai drwy gymharu diffiniadau o ddinasyddiaeth y daw gwahaniaethau arwyddocaol y modelau i'r golwg. Dinasyddiaeth ôl-genedlaethol ac unigolyddol sydd wrth galon triniaeth ryngddiwylliannol Prydeinig Cantle (2012). Yn hyn o beth, ymdebyga'r cysyniadau ôl-genedlaethol i syniadau ar gyfanfydaeth gan Waldron (1995) a dehongliadau ar gyfiawnder gan Barry (2001) sydd yn trosgynnu ymlyniadau ethnoddiwylliannol a diwylliannau cenedlaethol. Dinasyddiaeth wahaniaethol sydd yn cydnabod, gwarantu, cydbwysu a rheoli hawliau a rhyddid unigolion a grwpiau sydd ynghlwm wrth safbwynt amlddiwylliannol Kymlicka (1995) yng Nghanada a Modood ym Mhrydain (Antonsich 2015). Felly, dinasyddiaeth wahaniaethol 'genedlaethol' a 'is-wladwriaethol' sydd yn rhoi lliw gwahanol i ryngddiwylliannedd iswladwriaethol Bouchard (2012) yn Québec a Zapata-Barrero yng Nghatalonia (2015)—model sydd o wedd dra gwahanol i'r ffurfiau rhyngddiwylliannol macrogymdeithasol a hyrwyddir gan y Cyngor Prydeinig a Chyngor Ewrop.

Er gwaetha'r pontio cysyniadol rhwng amlddiwyllianwyr Prydeinig (Modood a Meer) a rhyngddiwyllianwyr Québec (Bouchard, Iacovino, Gagnon), nid oes trafodaeth eto ar

ddatblygu cysyniad is-wladwriaethol o dan ambarél amlddiwylliannedd neu ryngddiwylliannedd Prydeinig. Canlyniad hyn yw bod y Gymraeg yn cael ei heithrio o bolisiau Llywodraeth Cymru ar Gydyntiant Cymunedol er mwyn mabwysiadu 'gwerthoedd Prydeinig' a dinasyddiaeth wladwriaethol genedlaethol drwy gyfrwng y Saesneg. Yn ogystal â'r gwrthdrawiadau rhwng fersiynau cenedlaethol ac is-wladwriaethol o amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd a'r anallu i gymhwyso un o'r modelau hyn i anghenion Cymru, awgrymir yn gryf, fel Brooks (2014), bod angen diffinio 'dinasyddiaeth' Gymreig yn ychwanegol at ddinasyddiaeth gyfreithiol Brydeinig.

6.2. Model Unigol ac Unigryw i Gymru?

Ar ddechrau Pennod 1: disgrifiwyd ymateb arweinyddion gwladwriaethau Ewrop i fethiant honedig amlddiwylliannedd. Yn Rhagfyr 2015, pwysleisiodd Angela Merkel, Canghellor yr Almaen, unwaith eto bod amlddiwylliannedd nid yn unig yn fethiant ond yn dwyll—*Multikulti bleibt eine Lebenslüge* (Die Presse 2015). Hefyd yn Québec, ceir tensiynau parhaus rhwng rhethreg ryngddiwylliannol a llwybrau cymhathol oddi mewn i'r dalaith wrth iddynt freinio'r Ffrangeg fel arwyddnod hunaniaeth Québec.⁹⁴ Mae'r ddau yn ceisio ffyrdd o gyflwyno fersiwn o *Leitkultur* neu'r *fait français* drwy gymhathu mewnfudwyr i'w diwylliant ac iaith fwyafrifol ond drwy hefyd wneud ymdrechion penodol i dderbyn a chroesawu aml-ethnigrwydd ffoaduriaid.

Beth felly i Gymru? Er bod Van Parijs (2011) a Patten (2014) wedi cynnig syniadau newydd ar gyfiawnder ieithyddol a chydabyddiaeth gyfartal er mwyn ymateb i ddiffygion y modelau blaenorol, nid yw eu syniadau ar reoli iaith yn bodloni sefyllfa'r Gymraeg ac amrywiaeth ethnoddiwylliannol. Er bod y syniad o sicrhau tegwch a rhyddid drwy

⁹⁴ Ceir enghraifft o hyn yn Québec gydag ymdrechion diweddar y Parti Québécois (2013) i ddod ag achos yr *accommodement raisonnable* i ben drwy addasu'r *Charte des valeurs Québécoises* er mwyn gwahardd penwisgoedd crefyddol o fywyd cyhoeddus.

niwtraliaeth y wladwriaeth yn gymeradwy, nid yw model o'r fath yn rhesymol bosibl yn yr hinsawdd wleidyddol sydd ohoni. Gwyddom nad mater o ddewis rhwng modelau yw craidd y mater, ond diffinio swyddogaeth diwylliant ac iaith mewn trafodaethau, polisiau a strategaethau ar gydlyniant, cynhwysiant a dinasyddiaeth.

Un o wersi pwysicaf yr ymchwil yw'r canfyddiad bod angen edrych ar brosesau integreiddio drwy haenau a chyfeiriadau gwahanol cymdeithas ac ymateb i'r anghenion o ganlyniad. Dywed Mccarty (2011), 'Policy is best understood as a verb: policy 'never just is', but rather 'does'' (t. 2). Yn wir, mae natur ethnograffig yr ymchwil wedi caniatáu mewnwelediad o bolisi i gael ei greu neu ei ddehongli drwy groestorri haenau biwrocratiaeth a dimensiynau *meicro, macro a meso* yn yr ystafell ddosbarth iaith, â'r unigolyn, y gymuned a'r sefydliadau—'slicing the [policy] onion ethnographically' yn ôl Hornberger a Johnson (2007).

Un wers arall a ddysgwyd yw na ellir trafod integreiddio drwy'r Gymraeg heb fod ffyrdd i fewnfudwyr gael mynediad at iaith er mwyn datblygu sgiliau ieithyddol. Yn ôl un o Swyddogion Llywodraeth Cymru, mae mesurau dinasyddiaeth Brydeinig yn 'ein clymu ni i mewn'. Ai anallu i ddiffinio a gweithredu 'dinasyddiaeth' sydd yn ein 'clymu ni i mewn' ynteu ideolegau gwladychol ynghylch dinasyddiaeth unffurf hegemonaid? Mae'r canfyddiadau yn awgrymu'r ail. Am y rheswm hwn, dadleuir bod diffyg ewyllys polisi i gysylltu'r Gymraeg, mewnfudo ac integreiddio yn cynhyrchu 'di-ddinasyddion' (Ramanathan 2012) yn hytrach na 'ddinasyddion' yng Nghymru. Disgrifir hyn fel 'anabledd' yng ngeiriau Mccarty (2011) neu 'dlodi' yng ngeiriau Sen (1999) lle mae'r amodau a'r diffyg darpariaeth i fewnfudwyr yn eu rhwystro rhag cyfranogi'n llawn yn y gymdeithas. Gellir honni bod y diffyg ewyllys gwleidyddol i wireddu polisiau ieithyddol wrth galon yr anghydraddoldebau. Y sefydliadau addysg iaith i oedolion megis ESOL a

Chymraeg i Oedolion sydd felly yn cael eu gorfodi i strwythuro anghyfiawnder ieithyddol i fewnfudwyr mewn oed drwy beidio â chynnig na thargedu darpariaeth Cymraeg i fewnfudwyr.

Er hyn oll, gellid disgrifio'r prosiect peilot i gyflwyno dosbarthiadau dinasyddiaeth i fewnfudwyr fel ymyrraeth polisi, yng ngeiriau Mccarty (2011), ac ynnddi'r gallu i gynhyrchu gofodau newydd a chyfleoedd ideolegol a gweithredol i fewnfudwyr berchenogi iaith fel cyfalaf cymdeithasol ac economaidd (Mccarty 2011, t. 15; Hornberger 2006; Lamarre 2012). Roedd y *trajectoire langagière* yn datgelu sut yr oedd y myfyrwyr yn gallu bod yn rhanddeiliaid yn eu prosesau dysgu. Ond er gwaethaf cyfleoedd i herio hegemoni oddi lawr, nid ymddengys bod y cydbwysedd pŵer yn nwylo'r mewnudwyr neu'r addysgwyr. Nid yw mentrau i gynnig cyrsiau blasu yn y Gymraeg o reidrwydd yn troi'n gyfleoedd parhaol na medrau yn y Gymraeg am fod y wladwriaeth ei hun yn gyfrifol am rannu'r cronfeydd ariannol (C. H. Williams 2013). Heb bolisi nac ewyllys i weithredu, eithriad yn hytrach nag egin yw'r fenter hon.

Oes ateb felly i Gymru? Rhydd Jill Rutter (2015) sylw i'r angen am ddatblygu medrau mewnudwyr i Brydain er mwyn gwireddu cydlyniant. Fel Zapata-Barrero (2015), defnyddia Rutter gysyniadau Sen a Nussbaum (1993) er mwyn dadlau bod angen set o fedrau ar fewnfudwyr a hynny drwy bwysleisio pwysigrwydd darparu *facilitators*—hwyluswyr ar gyfer integreiddio megis sgiliau:

Good planning and public policy requires clear aims. Thus, integration policy should aim to provide migrants with the facilitators, and thus the capability to ensure social inclusion and well-being; language and vocational skills, employment, decent housing and opportunities for socialising (Rutter 2015, t. 72).

Er bod Rutter yn pwysleisio datblygu sgiliau Saesneg, awgryma y dylai polisiau Llywodraeth Cymru ddiffinio'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg fel medr sydd yn arfogi mewnudwyr i gymryd rhan lawnach mewn cymdeithas a rhoi'r pŵer iddynt ddewis eu

llwybr a datblygu'r sgiliau sydd yn berthnasol iddynt fel dinasyddion newydd Cymru. O drafod y dull medrau, mae hanfodion y ddadl ar ddarpariaeth Cymraeg i fewnfudwyr yn dod yn fwy eglur ac arwyddocaol. Mae hefyd yn agor llwybr newydd i'r ffordd y gall polisiau ar gymhwyso amrywiaeth yng Nghymru gyfrannu at hyn. Yn wir, nid yw syniadaeth o'r fath yn ddieithr i Gymru. Ym maes iechyd Cymru, bu cryn dipyn o ddiddordeb mewn model 'rhinwedd' sydd yn annog datblygu sgiliau a medrau unigolion er mwyn cynnal iechyd da yn hytrach nag ystyried iechyd yn ôl ei ddiffygion (Shepherd 2012). Newid mewn ieithwedd a rhethreg yn ogystal â pholisi sydd yn nodweddiadol yma felly.

Dychwelir at fodel a gyflwynwyd yn 5.1.3 sydd yn seiliedig ar strwythur aml-gyfeiriadol gan Zapata-Barrero (2015), sydd yn cynnwys haen yn seiliedig ar gydlyniant, haen yn seiliedig ar gydnabyddiaeth y diwylliant cenedlaethol yn ogystal â haen sydd yn seiliedig ar y dull medrau. Yr haen ddiwethaf sydd yn hybu datblygiad sgiliau, arloesedd a chreadigrwydd yn y gymuned. Mae'n cryfhau'r ddadl dros gynnig mynediad i'r Gymraeg, ac yn galluogi i'r model polisi hwn fod yn rhagweithiol ac yn gynhwysol er mwyn gweithredu o'r gwaelod i fyny, ar draws yn ogystal ag oddi lawr y gymdeithas. Caiff unigolion eu hystyried felly yn ôl eu medrau neu'r medrau y gellant eu datblygu'n hytrach na'u hawliau (Faist 2009). Creadigrwydd yn y gymuned sydd, yn ôl Ned Thomas, yn caniatáu 'gofod lle mae'r diwylliant yn rhydd i anadlu a datblygu, boed hwnnw'n ofod tiriogaethol neu'n ofod sefydliadol' (Thomas 2013, t. 231). Yn ôl Zapata Barrero (2015), mae'r model yn gweithio fel micro-polisi yn ogystal ag ar raddfa genedlaethol sydd yn 'charts the focus, the horizon and the direction of small-scale projects' (t.187).

Eironi'r mater wrth gwrs yw bod y model aml-gyfeiriadol gan Zapata-Barrero yn fodel rhyngddiwylliannol. Er i Zapata-Barrero gytuno ag egwyddorion y model sydd yn rhagori

ar ryngddiwylliannedd Prydeinig Cantle ac yn adeiladu ar ryngddiwylliannedd Bouchard, awgrymir y gellid osgoi glynu at derminoleg rhyngddiwylliannol. Boed yn fosaig amlddiwylliannol, tawddlestr diwylliannol neu fodel rhyngddiwylliannol, gwelwyd yn yr ymchwil bod y rhain i gyd yn cael eu diffinio a'u dehongli o gyfeiriad unieithog y Wladwriaeth Brydeinig. Nid oes fawr o wahaniaeth sut y mae'r polisiâu hynny'n cael eu gweithredu yng Nghymru o safbwynt y Gymraeg ac amlieithrwydd. Y mae'r dull medrau felly yn cyflwyno ochr ymarferol i bolisi integreiddio nad ystyriwyd yn ddigonol hyd yma. Y mae'n cynnig llwybr neu lwybrau posibl y gellir eu datblygu yn ôl gofynion integreiddio trigolion Cymru. Felly, wrth gyflwyno'r dull medrau ac wrth ddiffinio'r Gymraeg fel medr ymhlith eraill, rhaid gwahanu elfennau cudd cymhathiedig y modelau blaenorol er mwyn gallu gosod ffwythiannau megis sgiliau iaith yn eu plith.

6.3. Darparu Dosbarthiadau Dinasyddiaeth i Fewnfudwyr

Dengys canfyddiadau'r ymchwil hwn fod carfan o fewnfudwyr i Gymru yn ogystal â thiwtoriaid iaith CïO ac ESOL yn dymuno darpariaeth ychwanegol i fewnfudwyr er mwyn eu cefnogi i ddysgu'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Gwelwyd hefyd fod dymuniadau mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg ynghlwm wrth ewyllys i gyfranogi'n llawnach yn y gymdeithas yng Nghymru. Gyda golwg ar y canlyniadau ymchwil, cynigir bod datblygiadau o'r math hwn yn golygu sefydlu darpariaeth benodol. Yn wir, cyfraniad ethnograffeg feirniadol yw ei bod yn ystyried sefyllfa *emic* a'r *etic* â'i gilydd wrth ddod i gasgliadau posibl am y ffordd ymlaen ac yn fwy na dim yn cefnogi unigolion a chymunedau i ystyried eu dyfodol a'u hawliau ieithyddol (Canagarajah 2006; Mccarty 2011 t. 283). Mae hyn yn gofyn i berson feddwl yn wahanol—*penser autrement* yn ôl Foucault (1984). Gellid plethu hyn â syniad Pennycook (2012) am *preferred futures* a seiliwyd ar eiriau Kearney (1988) ynghylch 'the ethical demand to imagine otherwise.'

Ond nid oes rhaid edrych y tu hwnt i'r ymchwil hwn i weld darpariaeth iaith lwyddiannus ar waith. Er bod rhai diffygion i broses integreiddio mewnfudwyr yn Québec, gwelwyd wrth gyflwyno canlyniadau'r ymchwil bod y ddarpariaeth *francisation* yn seiliedig ar fynediad cyfartal at addysg a chydlyniant cymdeithasol (Pagé 2012). Yn agosach at sefyllfa ieithyddol Cymru, mae darpariaeth arbennig wedi'i sefydlu i fewnfudwyr yng Ngwlad y Basg o'r enw AISA. Ystyrir bod gwersi Basgeg i fewnfudwyr yn bwysig yn sgil anghenion cymdeithasol ac ieithyddol gwahanol o gymharu â dysgwyr Basgeg brodorol (Augustyniak 2014). Ymhellach, gyda'r Gatalaneg yng Nghatalonia, yr Almaeneg yn Ne Tyrol a'r Swedeg yn yr Ynysoedd Åland, gwelwyd ymdrechion penodol i greu darpariaeth ieithyddol i fewnfudwyr (Pujolar 2010, Whisthaler 2014). Yn wir, mae cymhellion y llywodraethau is-wladwriaethol hyn ynghlwm wrth agenda wleidyddol i osod yr iaith frodorol neu leiafrifol yn y blwch sifig. Yn ôl Brooks (2014), parhau y mae Cymru i gadw'r Gymraeg yn y blwch ethnig.

Yn wir, mae'r ymchwil yn dangos bod ymagweddau ac ideolegau swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau Lleol yn ogystal â rhai tiwtoriaid iaith yn anfodlon ystyried darpariaeth y tu hwnt i strategaeth integreiddio unieithog Saesneg. Dangoswyd bod y rhwystrau rhag cyflwyno'r Gymraeg mewn strategaeth integreiddio yng Nghymru ynghlwm wrth ymagweddau gwladwriaethol am iaith ac integreiddio. Dangoswyd bod aelodau'r cymunedau croeso Cymraeg a Saesneg eu hiaith hefyd yn llesteirio ymdrechion mewnfudwyr i ddysgu'r Gymraeg gan gynnwys ideolegau hegemonaidd a phroses o 'anghyfreithloni' (de-legitimize) siaradwyr newydd y Gymraeg (O' Rourke a Pujolar 2015). Cânt hefyd eu heithrio ar adegau o gymunedau ymarfer (Wenger 1998). Gwelwyd hefyd fod diffygion yn nulliau dysgu Cymraeg ar gyfer mewnfudwyr ond caiff hyn ei osod o'r neilltu ar hyn o bryd oherwydd toriadau cenedlaethol i ESOL a CiO sydd yn llesteirio unrhyw ddatblygiadau mewn darpariaeth ar gyfer mewnfudwyr (AOC 2015; BBC Cymru

2014). Nodir felly bod diffyg darpariaeth bresennol i fewnfudwyr yn y Gymraeg yn ffactor sydd yn nacáu cydlyniant cymdeithasol llawnach.

Eto i gyd, mae'r ymchwil wedi dangos bod modd *penser autrement* ond hefyd weithredu'n wahanol—*agir autrement*. Roedd y 'dosbarth dinasyddiaeth' yn gam cychwynnol at hyrwyddo Cydlyniant Cymunedol yng Nghymru drwy gynnig y canlynol: mynediad at y Gymraeg fel y Saesneg a'r gallu i ddatblygu medrau yn y Gymraeg. Roedd y 'dosbarth dinasyddiaeth' hefyd wedi cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth mewnfudwyr a thiwtoriaid am y Gymraeg a diwylliant a hanes Cymru yn ogystal â mynd i'r afael â nifer o ragfarnau, ystrydebau am Gymru a'r Gymraeg ymhlith mewnfudwyr a thiwtoriaid ESOL a CiO ynghyd. Yn hyn o beth, nid oedd y pwyslais ar gymathu ac ymaddasu ond ar gyfathrebu a thrawsnewid drwy ddefnyddio dulliau dysgu rhyngddiwylliannol a thrawsieithu (*translanguaging*) yn ôl Garcia a Wei (2014). Rhydd hyn gyfle i'r myfyrwyr drafod eu bywgraffiadau gan gynnwys eu cefndiroedd mewnfudol ac ieithyddol amrywiol (Higham 2014).

Argymhellir felly efelychu darpariaeth Gymraeg i fewnfudwyr yn ôl ffurf dosbarth 'dinasyddiaeth', yn ychwanegol i ddarpariaeth gyfredol CiO ac ESOL. Pwysleisir bod cydweithrediad rhwng y darpariaethau hyn yn hanfodol gan gynnwys yr angen i rannu adnoddau ac arfer da. Nod yr ymchwil hwn oedd dadansoddi ymagweddau ac ymatebion mewnfudwyr i'r Gymraeg wrth gynnig cwrs Cymraeg i fewnfudwyr drwy'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion i fyfyrwyr ESOL yn y gymuned. Adnabuwyd anghenion ymchwil eraill y dylid mynd i'r afael â hwy gan gynnwys buddiannau tymor byr a thymor hir y dylid eu hystyried er mwyn sefydlu darpariaeth 'dinasyddiaeth' i'r dyfodol.

Cwrs Dinasyddiaeth: 'Datguddio' Medrau Mewnfudwyr

Casglodd DEMOS (Paget *et al.* 2014) fod angen cefnu ar y model 'ddiffygiol'—*the deficit model*—ym myd ESOL er mwyn 'datguddio' medrau mewnfudwyr er budd iechyd, economi a chydlyniant yn Lloegr. Yn yr un modd, ymddengys mai cyfeiriad o'r math hwn sydd angen drwy ystyried darpariaeth Gymraeg i fewnfudwyr yn ogystal ag ESOL.

Ystyrir felly y dylid adeiladu ar y seiliau sydd eisoes mewn lle. Un o'r posibiladau hyn yw datblygu cyrsiau Cymraeg oddi mewn i gwricwlwm presennol ESOL yng Nghymru. Gan fod polisi ESOL Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd cyd-destunoli ESOL oddi mewn i Gymru, gellid cynnwys cyrsiau Cymraeg rheolaidd fel rhan o'r cwricwlwm. Gan fod y cyswllt swyddogol rhwng dinasyddiaeth Brydeinig a chymwysterau wedi'i ddiddymu erbyn hyn, mae mwy o hyblygrwydd oddi mewn i'r cwricwlwm ESOL i allu bod yn fwy creadigol a chyd-destunol (NIACE 2015). Awgrymir hefyd fod argymhellion LLUK (Llywodraeth Cymru 2007) yn agosach at ddarpariaeth gynhwysol Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Serch hynny, awgrymir y byddai'n fuddiol datblygu cwrs dinasyddiaeth y tu allan i'r cwricwlwm, mewn cydweithrediad â CiO. Ar sail datblygiadau yn Québec, awgryma'r ymchwil y byddai cyrsiau wedi'u lleoli yn y gweithle yn ffordd o ddatblygu arloesedd a medrau ynghyd â hybu amlieithrwydd er budd yr economi.

Hyfforddi Tiwtoriaid

Datgela'r ymchwil fod swyddogaeth tiwtoriaid iaith yn ganolog i frwdfrydedd a chymhelliant myfyrwyr. Yn Québec, gwelwyd ymatebion cadarnhaol y broses integreiddio yn rhannol yn sgil mewnbwn y tiwtoriaid. Gwelwyd hefyd sut yr oedd ymatebion negyddol ac anwybodaeth tiwtoriaid ESOL yn effeithio ar ymwybyddiaeth y myfyrwyr am y Gymraeg. Argymhellir cynnig hyfforddiant ar ymwybyddiaeth y Gymraeg i diwtoriaid ESOL ar sail cyrsiau ymwybyddiaeth y Gymraeg neu yn ôl cynlluniau tebyg i'r cynllun sabothol i athrawon cyfrwng Saesneg. Yn yr un modd, awgrymir y dylid creu cyfleoedd am drafod cefndiroedd mewnfudol ac ieithoedd mewnfudwyr ynghyd â hybu

trawsieithu. Yn hyn o beth, cefnoga'r ymchwil yr angen am gyrsiau hyfforddiant dysgu Cymraeg i fewnfudwyr i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion gan gynnwys addysg ryngdiwylliannol a thrawsieithu (Garcia a Wei 2014).

Sgaffoldio Cyrsiau

Yn ychwanegol at hyn, adnabuwyd yr angen am sgaffoldio cyrsiau 'dinasyddiaeth' penodol i fewnfudwyr ar gyfer CiO gan gynnwys defnydd o ddeunydd a dulliau dysgu nad ydynt yn ddibynnol ar gyfieithu i'r Saesneg a chynnwys mewnbwn diwylliannol am Gymru, diwylliant y Gymraeg a Phrydain drwy gyfrwng Saesneg (neu ieithoedd eraill) fel rhan annatod o'r cwrs. Yn hyn o beth, ceir datblygiadau newydd i faes Cymraeg i Oedolion drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol⁹⁵ a phosibiliadau o ran sut gall y ddarpariaeth gael ei theilwra ar gyfer anghenion ychwanegol siaradwyr ail iaith Cymraeg a Saesneg.

Peuoedd Integreiddio

Mae'r ymchwil hwn wedi cadarnhau bod integreiddio yn golygu llawer mwy na dysgu iaith mewn ystafell ddosbarth. Mae defnydd ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel peuoedd integreiddio neu *transversal spaces* (Rutter 2015) yn hanfodol er llwyddiant mentrau i ddysgu mewnfudwyr ac oedolion eraill. Mae'r canfyddiadau yn cyd-fynd ag ymchwil Gruffudd a Morris (2011) ar greu a Chymreigio peuoedd er mwyn ymarfer y Gymraeg yn y gymuned. Mae canfyddiadau'r ymchwil yn awgrymu bod y sefydliad addysg gymunedol yn un o'r peuoedd pwysicaf i'w datblygu. Datgela ymchwil doethuriaeth Edwards (2013) bwysigrwydd sefydlu cydberthynas mewn polisi ar gyfer y teulu a'r gymuned. Ymhellach, mae ymchwil Morrow (2011) ar ymagweddau disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn arddangos bod gan fewnfudwyr (a phlant mewnfudwyr) ymagweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg. Cefnoga'r ymchwil felly

⁹⁵ Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gorff newydd sydd yn gyfrifol am ddarpariaeth strategol Cymraeg i Oedolion (Llywodraeth Cymru 2014c)

fentrau i gysylltu addysg statudol gydag addysg oedolion er budd cysyniadau mwy 'lleol' o ddinasyddiaeth Gymreig.

Partneriaid iaith

Er bod angen ymchwil pellach i ddarganfod strategaethau ac ymarfer gorau ar sut i ddatblygu'r peuoedd integreiddio, gwelir gwerth mewn sefydlu partneriaethau iaith cymunedol. Astudiwyd enghraifft y *jumelages interculturels* (Bourhis 2015) yn Québec a'r *Voluntariat pera la lengua* yng Nghatalonia sydd eisoes wedi'i fabwysiadu gan Dde Tyrol a Sweden. Awgrymir y byddai strwythuro partneriaethau iaith fel rhan o gwricwlwm dysgu iaith i fewnfudwyr yn gosod cysail cadarn drwy roi cyfle i fewnfudwyr gwrdd â siaradwyr Cymraeg eraill ac ymgyswngwyo â'r diwylliant. Mae'r partneriaid iaith hefyd i'r afael â nifer o ragfarnau ac ystrydebau ar y naill ochr. Byddai ymchwil pellach yn medru archwilio'r dulliau gorau o gymell aelodau'r gymuned groeso i gymryd rhan yn y partneriaethau a sut i'w strwythuro'r er budd pwrpasau a'u diddordebau amrywiol.

6.4. Tu Hwnt i Gloriau'r Gwaith Ymchwil

Yn anffodus, nid yw'r gyfundrefn bresennol yn y rhan fwyaf o Gymru yn debygol o sicrhau y daw plentyn mewnfudwr i siarad Cymraeg, mwy nag yw'n sicrhau y daw plentyn a anwyd yng Nghymru i rieni di-Gymraeg i siarad Cymraeg (H. Jones 2015).

Ar nodyn fwy realistig, dychwelwn ar ddiwedd y drafodaeth hon i sefyllfa ansicr ac anghydradd sydd wrth galon gwleidyddiaeth iaith leiafrifol. Er gwaethaf twf addysg Gymraeg ac ysgolion Cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, gwyddom nad yw'r hinsawdd yn gwarantu mwy o sicrwydd y bydd plentyn a anwyd yng Nghymru yn datblygu sgiliau Cymraeg na'r sicrwydd y daw plentyn mewnfudwr i siarad Cymraeg. Beth am addysg oedolion yng Nghymru? Onid yw'r ddarpariaeth bresennol i oedolion yn 'gydradd i bawb'? Mae canlyniadau'r ymchwil yn awgrymu'n wahanol. Cymharer dau berson sydd â

hawliau cyfreithiol gwahanol ond sydd am ddysgu Cymraeg: ffoadur sydd yn ceisio dechrau bywyd yng Nghymru a dyn busnes o Loegr sydd wedi sefydlu busnes newydd yng Nghaerdydd. Ymddengys bod cymhelliant y ddau i ddysgu Cymraeg cyn cryfed â'i gilydd ar sail yr ewyllys i integreiddio yn gymdeithasol ac yn economaidd. Y mae'r dyn busnes yn holi am gwrs dwys Cymraeg i Oedolion yn y Brifysgol drwy ei ffynonellau ac yn talu ffioedd llawn i'w fynychu. Mae'r ffoadur yn holi am wersi iaith, mae'n ymrestru ar gwrs ESOL ond yn cael ei wfftio gan diwtor ESOL pan grybwyllir am ei ddymuniad i ddysgu Cymraeg. Heb gefnogaeth na chyllid, mae'n annhebygol y bydd y ffoadur yn dysgu Cymraeg. Nid senario bosibl ond realiti yw hyn. Efallai y byddai'r dyn busnes yn colli cymhelliant ac efallai y bydd y ffoadur yn symud i Loegr ymhen rhai misoedd neu flynyddoedd. Nid yw hynny'n newid anghyfiawnder y sefyllfa.

Gobeithir y bydd datblygiadau mewn polisi mewnfudo a chynhwysiant ar lefel wladwriaethol ac is-wladwriaethol yn cyd-fynd â datblygiadau mewn addysg iaith gydradd a chynhwysol i holl drigolion Cymru, mewnfudwr neu beidio. Y gobaith yw y bydd damcaniaeth normadol y drafodaeth ar gymhwyso amrywiaeth (e.e amlddiwylliannedd a rhyngddiwylliannedd) yn bwydo trafodaeth a phenderfyniadau ym myd addysg a mewnfudo ac y bydd canfyddiadau empiraidd yr ymchwil yn ysbrydoliaeth i brosiectau ymysg cyfranogwyr ledled Cymru. Gobeithio y bydd hyn hefyd yn gam ymlaen at lunio dinasyddiaeth Gymreig a dyfodol teg i Gymry aml-ethnig ac amlieithog hen a newydd.

Nid yw'r ymchwil wedi ceisio cynnig atebion plaen i sefyllfa gymdeithasol, wleidyddol ac economaidd ddyrys a datblygol yn y Gymru sydd ohoni. Serch hynny, mae'r ymchwil wedi ymdrin â chymhlethdodau'r sefyllfa aml-ethnig yng Nghymru a sut y mae'r newidiadau hyn yn caniatáu i unigolion herio anghyfiawnderau oddi fyny a chymryd

camau at lunio llwybrau teg a chydodd i ddinasyddion Cymru. Er mai mewnfudo o Loegr sydd yn parhau i effeithio ar y lefelau mudo uchaf yng Nghymru, gwelir twf cynyddol o dramor i'r DG (78% o gynnydd rhwng 2004 a 2011). Hefyd, gwelwyd cynnydd o 3.2% i 5% yng nghanran y boblogaeth yng Nghymru a aned y tu allan i'r DG (Statiaith 2015). Mae'n debygol felly o gynyddu eto dros y blynyddoedd nesaf. Cymru fwyfwy aml-ethnig ac amlieithog fydd Cymru'r dyfodol. Y mae ymdrin â'r cwestiynau hyn yn hanfodol felly i ddyfodol gwlad ddatganoledig.

Bu hon yn daith ddeallusol wrth ymdrin â chysyniadau amrywiol ar reoli amrywiaeth gan gynnwys y gwrthdrawiadau a'r cymariaethau er mwyn cynnig amodau model pwrpasol i Gymru. Bu hefyd yn siwrne emosiynol i minnau wrth dreiddio drwy haenau, rhwystrau, a thensiynau sydd i amodau mewnfudo a Dinasyddiaeth y DG, polisi addysg iaith oedolion ac wrth fynd i'r afael â hynt a helynt hanesion bywydau mewnfudwyr i Gymru. Oherwydd natur ryngddisgyblaethol yr ymchwil, dymunir y bydd yr ymchwil yn ehangu ffiniau gwaith sosioieithyddol a pholisi iaith yng Nghymru o bersbectif ethnograffeg feirniadol yn ogystal â chyfrannu at bolisi addysg oedolion a chynhwysiant mewnfudwyr. Er gwaethaf manteision ystod o gyfranogwyr a dulliau ymchwil amrywiol a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith maes, gobeithir mai dehongliad y data yw'r gwerth pwysicaf i'r darllenwyr—dehongliad sydd yn adlewyrchu realiti bywyd. Fel y dywed yr anthropolegwr George Spindler 'The smallest part of the whole seems to reflect the whole [...] if we know how to read it' (McDermott a Erickson 2000, t. 11). Felly, os gwyddom 'sut i'w ddarllen', mae gennym yn ein gafeal y gallu i drawsnewid anghyfiawnderau y mae dadansoddiad ethnograffig agos yn eu datgelu (McCarty 2011, t. 17).

LLYFRYDDIAETH

Alibhai-Brown, Y. 2000. *After Multiculturalism*. London: Foreign Policy Centre

Amireault, V. a Lussier D. 2008. Représentations culturelles, expériences d'apprentissage du français et motivations des immigrants adultes en lien avec leur intégration à la société québécoise. Yn *Langues et Sociétés* 45. Montréal: Office québécois de la langue française. [Ar-lein]. Ar gael:
https://www.oqlf.gouv.qc.ca/ressources/sociolinguistique/note_recherche/langues_socie tes_numero45.pdf [Cyrchwyd 16.4.16]

Andrews, R. a Mycock, A. 2007. Citizenship Education in the UK: Divergence within a multi-national state. *Citizenship Teaching and Learning* 3 (1), tt. 73-88

Antonsich, M. 2015. Interculturalism versus multiculturalism – The Cantle-Modood debate. [Ar-lein]. *Ethnicities* (10.09.15), Ar gael:
<http://etn.sagepub.com/content/early/2015/09/09/1468796815604558.full.pdf> [Cyrchwyd 10.10.15]

Association of Colleges. 2015. Further very late cuts to adult education funding announced [Ar-lein]. Association of Colleges. Ar gael:
<https://www.aoc.co.uk/news/further-very-late-cuts-adult-education-funding-announced> [Cyrchwyd 2.6.16]

Arnopoulos, S., M. a D. Clift. 1984. *English Fact in Quebec*. McGill-Queen's Press-MQUP

Augustyniak, A. 2014. Assimilation Through Language Learning?: Minoritised Language Perception and Integration Policies. [Ar-lein]. Prifysgol Southampton. Ar gael:
http://www.southampton.ac.uk/assets/imported/transforms/content-block/UsefulDownloads_Download/CB60E923DFED4428893AAFD5192B0A0A/6%20Assimilation_Anna%20Augustyniak.pdf [Cyrchwyd 5.11.15]

Baker, C. 2006. *Foundations of bilingual education and bilingualism*. Clevedon: Multilingual Matters

Banting, K. 2007. *Belonging? Diversity, Recognition and Shared Citizenship in Canada*. Montreal: Institute for Research on Public Policy

Banting, K. a Soroka, S. 2008. Minority Nationalism and Immigrant Integration. Canada in *Nation and Nationalism* 18 (1), tt. 156-176

Barry, B. 2001. *Culture and Equality: An Egalitarian Critique of Multiculturalism*. Cambridge: Harvard University Press

Bashir, N., Parr, S., Platts-Fowler, D. a Robinson, D. 2012. *Mainstreaming Community Cohesion: guidance for local authorities in Wales*. Sheffield: Centre for Regional Social and Economic Research: Sheffield Hallam University.

BBC Cymru. 2014. *Llai o arian i ganolfannau dysgu Cymraeg* [Ar-lein]. Ar gael:
<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/28220332> [Cyrchwyd 9.7.14]

- BBC. 2011. *State multiculturalism has failed* [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-12371994> [Cyrchwyd 14.9.13]
- BBC. 2016. *Muslim women's segregation in UK communities must end – Cameron* [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-35338413> [Cyrchwyd 16.1.16]
- Blommaert, J., 2010. *The Sociolinguistics of Globalization*. Cambridge: Cambridge University Press
- Blommaert, J., Leppänen, S., Pahta, P., Virkkula, T., Räisänen, T. gol. 2012. *Dangerous Multilingualism*. Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Blumer, H. 1956. Sociological Analysis and the "Variable". *American Sociological Review* (21), tt. 683-90
- Blunkett, D. Towards a Civil Society [Ar-lein]. IPPR. Ar gael: http://www.ippr.org/files/images/media/files/publication/2011/05/templblunkett_1289.pdf?noredirect=1 [Cyrchwyd 5.9.15]
- Bouchard, G. 1999. *La nation Québécoise au futur et au passé*. Montreal: VLB editeur
- Bouchard, G. 2012. *Interculturalisme: d'un point de vue Québécois*. Montréal: Éditions Boréal
- Bourdieu, P. 1982. *Ce que parler veut dire: L'économie des échanges linguistiques*. Paris: Arthème Fayard
- Bourhis, R. Y., Moise, L.C, Perreault, S. a Senécal, S. 1997. Towards an Interactive Acculturation Model: A Social Psychological Approach. *International Journal of Psychology* (32), tt. 369-386
- Bourhis, R. Y., Barrette, G. a Moriconi, P.A. 2008. Appartenances nationales et orientations d'acculturation au Québec. Yn *Canadian Journal of Behavioural Science/Revue canadienne des sciences du comportement* 40 (2), tt. 90-103
- Bourhis, R. Y., El-Geledi, S., a Sachdev, I. 2007. Language, ethnicity and intergroup relations. Yn Weatherall, A., Watson, B., a Galois, C. (gol), *Language, discourse and social psychology*, tt. 15-50. New York: Palgrave Macmillan
- Bourhis, R. Y., Montreuil, A., Barrette, G. a Montaruli, E. 2009. Acculturation and immigrant/host community relations in multicultural settings. In S. Demoulin, J.P. Leyens a J. Dovidio (gol). *Intergroup misunderstanding : Impact of divergent social realities*. New York : Psychology Press. tt. 39-61
- Bourhis, R. Y. a Carignan, N. 2010. Linguicism in Quebec and Canada. *Nos diverses cités/Our diverse cities* (7), tt. 156-162
- Bourhis, R. Y., Sioufi, R., a Sachdev, I. 2012. Ethnolinguistic interaction and multilingual communication. Yn Giles, H. (gol), *The Handbook of Intergroup Communication*, tt. 100-115. New York: Routledge Taylor & Francis
- Bourhis, R. Y., Carignan, N., Sioufi, R. 2015. Acculturation et jumelage interculturel dans la formation à l'enseignement. Yn Carignan, N., Deraîche, M. a Guillot, M. gol. 2015.

Jumelages Interculturels: Communication, inclusion et intégration. Québec: Presses de l'Université du Québec

Boutinet, J-P. 1998 L'engagement des adultes en formation et ses formes de légitimatio. *Education Permanente* (136), tt. 91-100

British Council. 2012. *OPENCities Monitor 2012*. [Ar-lein] Ar gael: http://www.opencities.eu/web/index.php?home_en [Cyrchwyd 8.6.16]

British Council. 2013. *Culture at Work; The Value of Intercultural Skills in the Workplace*. [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.britishcouncil.org/sites/default/files/culture-at-work-report-v2.pdf> [Cyrchwyd 8.6.16]

British Future. 2013. The state of the nation: where is bittersweet Britain heading? [Ar-lein]. British Future. Ar gael: <http://www.britishfuture.org/wp-content/uploads/2013/01/State-of-the-Nation-2013.pdf> [Cyrchwyd 15.5.13]

Brooks, S. 2009a. The Rhetoric of Civic 'Inclusivity' and the Welsh Language. Yn *Contemporary Wales*, 22 (1), tt. 1-15

Brooks, S. 2009b. *Yr hawl i oroesi*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch

Brooks, S. 2011. Ffantasi hil-laddiad a'r diwylliant Cymreig; dirnad cenedlaetholdeb ethnig, a syniadaeth Slavoj Žižek yn Willams, G. (gol) *Ysgrifau Beirnodol XXX*. Bethesda: Gwasg Gee

Brooks, S. a Roberts, G. gol. 2013. *Pa Beth Aethoch Allan i'w Achub? Ysgrifau i gynorthwyo'r gwrthsafiad yn erbyn dadfeiliad y Gymru Gymraeg*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch

Brooks, S. 2014. *Twf cenedlaetholdeb Seisnig—cyfaill ta gelyn? Sefydliad Materion Cymreig*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.clickonwales.org/2014/09/twf-cenedlaetholdeb-seisnig-cyfaill-ta-gelyn/> [Cyrchwyd 6.9.14]

Brooks, T. 2012. The British Citizenship Test: The Case for Reform. *The Political Quarterly*, 83 (3), tt. 560-566

Bryers, D. Winstanley, B. a Cook, M. 2013. 'Whose Integration? Working paper in urban language and literacies. Yn Mallows, D. (Gol). *British Council Innovation Series: Language and Integration*. London: British Council, tt. 19-34

Bryman, Alan. 2012. *Social research methods*. Oxford: Oxford University Press

Bullivant, B., M. 1981. *The pluralist dilemma in education: Six case studies*. Sydney: Allen & Unwin

Bundesamt für Migration und Flüchtlinge. 2016. Aktuelle Anzahl zu Asyl [Ar-lein] BAMF. Ar gael: <http://www.bamf.de/SharedDocs/Anlagen/DE/Downloads/Infothek/Statistik/Asyl/statistik-anlage-teil-4-aktuelle-zahlen-zu-asyl.html?nn=1694460> [Cyrchwyd 21.4.16]

Canagarajah, S. 2006. Ethnographic methods in language policy. Yn Ricento, T. *An introduction to language policy: Theory and method*, tt. 153-169. Malden, MA: Blackwell

Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg. 2014. *Canllawiau Cwrslyfr Mynediad 1 a 2*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd

Cantle, T. 2001. *Community Cohesion: A report of the independant review team* [Ar-lein]. Swyddfa Gartref. Ar gael: <http://www.tedcantle.co.uk/publications/001%20Cantle%20Report%20CCRT%202001.pdf>

Cantle, T. 2012. *Interculturalism: The new era of cohesion and diversity*, Basingstoke: Palgrave Macmillan

Cardinal, L. 2011. L'avenir de français dans un Québec interculturel. Yn— *Symposium international sur l'interculturalisme: Dialogue Québec Europe* [Ar-lein]. Montreal. Ar gael: http://www.symposium-interculturalisme.com/pdf/actes/Chap7_1Linda%20Cardinal.pdf [Cyrchwyd 18.11.13]

Carens, J. 2000. *Culture, Citizenship, and Community: A Contextual Exploration of Justice and Evenhandedness*. Oxford: Oxford University Press

Carignan N., Deraiche M. a Guillot, M.-C. (Gol). 2015. *Jumelages interculturels. Communication, inclusion et intégration*. Québec: Presses de l'Université du Québec

CBAC. 2014. *Bwletin Arholiadau Cymraeg i Oedolion*. CBAC. Rhagyfr 2014. [Ar-lein] Ar gael: http://www.wjec.co.uk/Bwletin%20Arholiadau%20Cymraeg%20i%20Oedolion-2014.pdf?language_id=1 [Cyrchwyd 13.2.14]

Centre of Dynamics and Ethnicity. 2013. *Who feels British?* [Ar-lein]. CoDE. Ar gael: <http://www.ethnicity.ac.uk/medialibrary/briefingsupdated/who-feels-british.pdf> [Cyrchwyd 23.6.13]

Conseil de l'Europe. 2011. *La biographie langagière* [Ar-lein]. Ar gael: http://www.coe.int/t/dg4/education/elp/elp-reg/ELP_biography_FR.asp. [Cyrchwyd 13.10.15]

Conseil supérieur de la langue. 2012. *Redynamiser la politique linguistique du Québec*. Québec : Gouvernement du Québec

Corbeil, J.-P. a Houle, R. 2013. *Trajectoires linguistiques et langue d'usage public chez les allophones de la région métropolitaine de Montréal*. Montréal: Office québécois de la langue française

Crick, B. 1998. *Education for citizenship and the teaching of democracy in schools. Advisory Group on Citizenship*. Ar gael: <http://dera.ioe.ac.uk/4385/1/crickreport1998.pdf> [Cyrchwyd 7.6.13]

Crowe, A. 1988. *Yr Wlpan yn Israel*. Aberystwyth: Canolfan Ymchwil Cymraeg i Oedolion

- Cyngor Ewrop. 1992. *European Charter for Regional or Minority Languages* [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.coe.int/en/web/conventions/full-list/-/conventions/treaty/148> [Cyrchwyd 14.9.13]
- Cyngor Ewrop. 1995. *Framework Convention for the Protection of National Minorities* [Ar-lein]. Ar gael: https://www.coe.int/t/dghl/monitoring/minorities/1_AtGlance/PDF_H%2895%2910_FCN_M_ExplanReport_en.pdf [Cyrchwyd 12.10.15]
- Cyngor Ewrop. 2011. *Living Together—Combining Diversity and Freedom in 21st Century Europe*. Strabourg: Cyngor Ewrop
- De Saussure, F. 1967. *Cours de linguistique générale*. Wiesbaden: Otto Harrassowitz Verlag
- De Varennes, F. 2012. *Migrations et survie des minorités linguistiques: menaces ou sauveurs?* Documentation Capitale / Capital Documentation [Ar-lein]. Ar gael: http://documentationcapitale.ca/index.cfm?Repertoire_No=751102913&voir=centre_detail&Id=5096 [Cyrchwyd 3.4.14]
- Die Presse. 2015. Merkel: *Multikulti bleibt eine Lebenslüge*. [Ar-lein]. Die Presse. Ar gael: http://diepresse.com/home/politik/aussenpolitik/4886864/Merkel_Multikulti-bleibt-eine-Lebensluege [Cyrchwyd 14.12.15]
- El Diario Vasco. 2015. *La concentración de inmigrantes en la escuela pública se acentúa en Euskadi* [Ar-lein]. El Diario Vasco. Ar gael: <http://www.diariovasco.com/sociedad/educacion/201506/21/concentracion-inmigrantes-escuela-publica-201506210759.html> [Cyrchwyd 31.5.16]
- Edwards, C. W. 2013. *Cymunedau Iaith Lleiafrifol, Mewnfudo a Pholisïau iaith mewn addysg: Astudiaeth gymharol ryngwladol*. Traethawd PhD. Prifysgol Aberystwyth
- Estyn 2010. *Adroddiad ar Ansawdd Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Ngwynedd ac Ynys Môn*. Caerdydd: Estyn
- Estyn. 2013. *Adroddiad ar Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd*. Caerdydd: Estyn.
- Eurostat. 2016. *Asylum Statistics*. [Ar-lein] Eurostat:Statistics Explained. Ar gael: http://ec.europa.eu/eurostat/statistics-explained/index.php/Asylum_statistics [Cyrchwyd 3.6.16]
- Evas, J. 1999. *Rhwystrau ar Lwybr Dwyieithrwydd*. Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd
- Extra, G., Spotti, M. a Van Avermaet, P. 2009. *Language Testing, Migration and Citizenship*. *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 36 (5), tt. 753-72
- Faist, Th. 2009. Diversity—a new mode of incorporation? *Ethnic and Racial Studies*. 32 (1), tt. 171-190
- Fishman, J. 1991. *Reversing Language Shift: Theoretical and empirical foundations of assistance to threatened languages*. Clevedon: Multilingual Matters

- Foucault, M. 1984. *L'Histoire de la sexualité II: L'usage des plaisirs*. Paris: Editions Gallimard
- Fraser, N. a Gordon, L. 1994. Civil citizenship against social citizenship? Yn Steenbergen, B. V. gol. *The Condition of Citizenship*. London: Sage Publications
- Gagnon, A. G., a Iacovino, R. 2007. *Federalism, Citizenship and Quebec: Debating multinationalism*. Toronto: University of Toronto Press
- Garcia, O., a Wei, L. 2014. *Translanguaging: Language, Bilingualism and Education*. Basingstoke: Palgrave Pivot
- Georgeault, S. 2006. Langue et diversité: un défi à relever. Yn P. Georgeault a M. Pagé gol. *Le français, langue de la diversité Québécoise: Une réflexion pluridisciplinaire*. Montreal: Québec Amérique, tt. 283-325
- Goldsmith, L. QC. 2008. *Citizenship: our common bond. Citizenship review*. London: Ministry of Justice [Ar-lein] Ar gael: <http://image.guardian.co.uk/sys-files/Politics/documents/2008/03/11/citizenship-report-full.pdf>
- Goodhart, D. 2014 *The British Dream: Successes and Failures of Post-War Immigration*. London: Atlantic Books
- Gouvernement du Québec. 2001. *Le français, une langue pour tout le monde*. Rapport de la commission des états généraux sur la situation et l'avenir de la langue française au Québec. Québec: Gouvernement du Québec
- Gouvernement du Québec. 2011. *Programme-cadre de français pour les personnes immigrantes adultes au Québec*. Québec: Gouvernement du Québec.
- Gruffudd, H. a Morris, S. 2011. *Canolfannau cymraeg a rhwydweithiau cymdeithasol oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg: Ymdrechion i wrthdroi shifft ieithyddol mewn cymunedau cymharol ddi-Gymraeg*. Abertawe: Prifysgol Abertawe
- Hamilton, M a Hillier, Y. 2009. ESOL policy and change. *Language Issues* 20 (1), tt. 4-18
- Haste, H. 2004. Constructing the Citizen. *Political Psychology* 25 (3), tt. 413-439
- Heller, M. 2007. *Bilingualism: A Social Approach*. Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Heller, M. 2013. Language and (Dis)Citizenship in Canada. *Journal of Language, Identity and Education*. 12 (3), tt. 189-192
- Helly, D. a Van Schendel, N. 2001. *Appartenir au Québec. Citoyenneté, nation et société civile. Enquête à Montréal, 1995*, Sainte-Foy: QC : Presses de l'Université Laval
- Herder, J., G. 1967. *Sämtliche Werke* 3. Hildesheim: Olms Weidmann
- Higham, G. 2012. *Bringing Welsh to the Community in 2012*, Big Issue: Cymru, 26 Tachwedd, t. 18

- Higham, G. 2014. Teaching Welsh to ESOL Students: issues of intercultural citizenship. Yn Mallows, D. gol. *British Council Innovation Series: Language and Integration*. London: British Council.
- Higham, G. 2015. *Rapport intermédiaire sur le stage de recherche sur la situation de langues qui, comme le français au Québec, sont exposées à la concurrence d'autres langues*. Adroddiad ymchwil ar gyfer y Conseil supérieur de la langue française
- Hornberger, N. H. 2006. Frameworks and models in language policy and planning. Yn Ricento, T. gol. *An introduction to language policy: Theory and method*. tt. 24-31. Malden, MA: Blackwell
- Hornberger, N. H., a Johnson, D.C. 2007. Slicing the onion ethnographically: Layers and spaces in multilingual language education policy and practice. *TESOL Quarterly* 41 (3), tt. 509-532
- Hussein, A., M a Miller, W. 2006. *Multicultural Nationalism: Islamophobia, Anglophobia, and Devolution*. Oxford: Oxford University Press
- Hymes, D. 1996. *Ethnography, Linguistics, Narrative Inequality: Toward an Understanding of Voice*. Bristol: Taylor and Francis
- Irish Times. 2014. Radio documentary follows foreigners learning Irish [Ar-lein]. Gorffennaf 3 2014. Ar gael: <http://www.irishtimes.com/culture/treibh/radio-documentary-follows-foreigners-learning-irish-1.1853989> [Cyrchwyd 15.6.15]
- Jones, H. 2012. *Darlun ystadegol o sefyllfa'r Gymraeg* [Ar-lein]. Comisiynydd y Gymraeg. Ar gael: <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Darlun%20ystadegol%20Cymraeg.pdf> [Cyrchwyd 10.10.13]
- Jones, H. 2015. Poblgaeth Cymru'n Newid. [Ar-lein]. BBC Cymru Fyw. Ar gael: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/34260651> [Cyrchwyd 15.9.15]
- Jones, R. 2005. *Cenedl Ddwyeithog? Agweddau defnyddwyr at ddysgu'r Gymraeg*. Cyngor Defnyddwyr Cymru.
- Kamberelis, G., a Dimitriadis, G. 2005. Focus Groups : Strategic Articulations of Pedagogy, Politics and Inquiry. Yn Denzin, N.K. a Lincoln, Y.S. gol. *Handbook of Qualitative Research*. Thousand Oakes: Sage Publications
- Kant, Immanuel. 1784. *Beantwortung der Frage: Wast ist Aufklärung?* [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.uni-potsdam.de/u/philosophie/texte/kant/aufklaer.htm> [Cyrchwyd 23.1.14]
- Kearney, R. 1988. *The Wake of Imagination*. Abington: Routledge
- Kearns & Forrest. 2000. Social cohesion and multilevel urban governance. *Urban Studies*, 37 (5/6), tt. 995-1017
- Kiwan, D. 2007. *Becoming a British citizen: A learning journey*. London: Ministry of Justice.

- Kiwan, D. 2011 'National' citizenship in the UK? Education and naturalization policies in the context of internal division. *Ethnicities* 11 (3), tt. 269-280
- Kristeva, J. 1993. *Nations without Nationalism*. New York: Columbia University Press
- Krueger, R., A. 1988. *Focus Groups: A Practical Guide for Applied Research*. Newbury Park. CA: Sage Publications
- Krueger, R., A. 2002. Designing and Conducting Focus Group Interviews. Easter Illinois University [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.eiu.edu/ihec/Krueger-FocusGroupInterviews.pdf> [Cyrchwyd 25.5.16]
- Kymlicka, W. 1995. *Multicultural Citizenship*. Oxford: Oxford University Press
- Kymlicka, W. 2000. Citizenship in Culturally Diverse Societies: Issues, Contexts, Concepts. Yn Kymlicka, W. a Norman, W. 2000. *Citizenship in diverse societies*. Oxford: Oxford University Press, tt.
- Kymlicka, W. a Norman, W. 2000. *Citizenship in diverse societies*. Oxford: Oxford University Press
- Kymlicka, W. 2001. *Politics in the vernacular: Nationalism, multiculturalism, and citizenship*. Oxford: University Press Oxford.
- Kymlicka, W. 2003. Intercultural Citizens in Multicultural States. Yn *Theory and Research in Education* 1(2) , tt. 147-169
- Kymlicka, W. 2007. *Multicultural Odysseys*. Oxford: Oxford University Press.
- Kymlicka, W. 2011a. *Multiculturalism; Success, Fail and Future. Migration Policy* [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.migrationpolicy.org/pubs/multiculturalism.pdf> [Cyrchwyd ar 13.5.13]
- Kymlicka, W. 2011b. *The evolving Canadian experiment with multiculturalism. L'avenir de français dans un Québec interculturel*. Yn Symposium international sur l'interculturalisme: Dialogue Québec—Europe. Montreal. Ar gael: http://www.symposium-interculturalisme.com/pdf/actes/Chap1_4KYMLICKA.pdf [Cyrchwyd ar 15.11.15]
- Kymlicka, W. 2011c. Multicultural citizenship within multination states. *Ethnicities* 11(3), tt. 281-302
- Labelle, M. a Rocher, F. 2001. People who live in a glass house...Citizenship and national identity in Canada and Quebec. Yn MacInnes, J. a McCrone. gol. *Stateless Nations in the 21st Century: Scotland, Catalonia and Quebec*. Edinburgh: Edinburgh University Press, tt. 65-77
- Labelle, M. a Salée, D. 2001. Immigrant and minority representations of citizenship in Quebec. Yn Aleinikoff, T.A., a Klusmeyer, D. gol. *Citizenship Today. Global Perspectives and Practices*. Washington: Carnegie Endowment for International Peace, tt. 278-315
- Lamarre, P. 2012. Catching "Montreal on the Move" and Challenging the Discourse of Unilingualism in Quebec. *Anthropologica* 55 (1), tt. 41-56

Lamarre, P. 2016. Post-101 Quebec and defining Québécois today : Transformations and challenges from within. Yn Kelleher, M. a Kennealy, M. gol. *Ireland and Quebec: Multidisciplinary perspectives on history, culture and society*. Dublin: Four Courts Press

Levine, M. 1991. *The Reconquest of Montreal*. Philadelphia: Temple University Press

Lewis, G., Jones, B. a Baker, C. 2012. Translanguaging: origins and development from school to street and beyond. *Education Research and Evaluation: An International Journal on Theory and Practice* 18 (7), tt. 641-654

Lewis, H. 2009. *Rhyddfrydiaeth ac Adferiad Iaith*. Traethawd Phd, Prifysgol Aberystwyth

Liberal Party. 2015. *Statement by Liberal Party of Canada Leader Justin Trudeau on the anniversary of multiculturalism* [Ar-lein]. Liberal Party. Ar gael: <https://www.liberal.ca/statement-by-liberal-party-of-canada-leader-justin-trudeau-on-the-anniversary-of-multiculturalism/> [Cyrchwyd ar 9.1.16]

Lifelong Learning UK (LLUK). 2007. *New professional standards for teachers, tutors and trainers in the lifelong learning sector in Wales*. London: Lifelong Learning UK

Longpré, T. 2013. *Québec cherche Québécois pour relation à long terme et plus : comprendre les enjeux de l'immigration*. Stanké

Llywodraeth Cymru. 2003. *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. 2008. *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fydeang*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. 2009a. *Cymru'n Cyd-dynnu: Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. 2009b. *ESOL in Wales: learning from the voluntary sector*. Cardiff: Welsh Government

Llywodraeth Cymru. 2010a. *Review of the provision for English for speakers of other languages in Wales*. Cardiff: Welsh Government

Llywodraeth Cymru. 2010b. *Understanding Wales*. Cardiff: Welsh Government.

Llywodraeth Cymru. 2012. *Iaith Byw: Iaith Fyw: Strategaeth y Gymraeg 2012-2017*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. 2013. *Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. 2014a. *Cydlyniant Cymunedol: Cynllun Cyflawni Cenedlaethol 2014-16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. 2014b. *Polisi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. 2014c. *Grant i sefydlu Endid i fod yn gyfrifol am ddatblygiad strategol Cymraeg i Oedolion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. 2015a. *A welcome guide to Wales*. Cardiff: Welsh Government

Llywodraeth Cymru. 2015b. *Undod ac Amrywiaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Mac-Giolla Chríost, D., Carlin, P. J. a Williams, C. 2016. Translating y Cofnod: translation policy and the official status of the Welsh language in Wales. *Translation Studies* 9(2), tt. 212-227

Mac Giolla Chríost, D. Carlin, P., Davies, S., Fitzpatrick, T., Jones, A., Heath-Davies, R., Marshall, J., Morris, S., Price, A., Vanderplank, R., Walter, C. a Wray, A. 2012. *Adnoddau, dulliau ac ymagweddau dysgu ac addysgu ym maes Cymraeg i Oedolion: astudiaeth ymchwil gynhwysfawr ac adolygiad beirniadol o'r ffordd ymlaen*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Mac-Giolla Chríost, D. 2003. *Language, Identity and Conflict: a Comparative Study of Language in Ethnic Conflict in Europe and Eurasia*. Routledge Advances in Sociology. London: Routledge.

Manco, A., a Alen, P. 2012. *Appropriation du français par les migrants: Rôles des actions culturelles*. Paris: L'Harmattan

Mann, R. 2007. Negotiating the politics of language: Civic identity and language learning in Wales, *Ethnicities* 7 (2), tt. 208-224.

May, S. 2012. *Language and Minority Rights*. New York: Routledge

Mccarty, T, L. gol. 2011. *Ethnography and Language Policy*. New York: Routledge

McDermott, R. a Erickson, F. 2000. A life with anthropology and education: Interviews with George and Louise Spindler (1995). Yn Spindler, G. gol. *Fifty years of anthropology and education 1950-2000*, tt. 1-24. Mahwah: Lawrence Erlbaum

McGhee, D. 2008. *The end of Multiculturalism? Terrorism, Integration and Human Rights*. Maidenhead: Open University Press

McGhee, D. 2008. The paths to citizenship: a critical examination of immigration policy in Britain since 2001. *Patterns of Prejudice* 43 (1), tt. 41-64

Migration Observatory. 2014. *Changes to the migrant population of Wales 2001-2011* [Ar-lein] Migration Observatory. Ar gael: <http://www.migrationobservatory.ox.ac.uk/press-releases/changes-migrant-population-wales-2001-2011> [Cyrchwyd ar 19.4.15]

Migration Observatory. 2015. *Long-term international migration flows to and from the UK* [Ar-lein]. Migration Observatory. Ar gael: <http://www.migrationobservatory.ox.ac.uk/briefings/long-term-international-migration-flows-and-uk> [Cyrchwyd ar 19.4.15]

Mill, J. S. 2007. *Utilitarianism, Liberty & Representative Government*. Maryland: Wildside Press LLC.

Miller, D. 2011. Will Kymlicka on Multicultural Citizenship in Multination States: a Response, *Ethnicities* 11, tt. 303-307

Modood, T. 2003. New Forms of Britishness: Post-Immigration Ethnicity and Hybridity in Britain. Yn Sackmann, R., Peters, B., Faist, T. gol. *Identity and Integration: Migrants in Western Europe*. Aldershot: Ashgate

Modood, T. a Meer, N. 2009a. The Multicultural State We're In: Muslims, 'Multiculture' and the 'Civic Re-balancing' of British Multiculturalism. *Political Studies* 57 tt. 473-497

Modood, T. a Meer., N. 2009b. Multicultural Citizenship in Europe: The States We Are In. EMILIE Workshop—Migration and Diversity Challenges in Europe, 24 Medi 2009, Berlin, Yr Almaen. Glasgow: University of Strathclyde Glasgow

Modood, T. a Meer, N. 2012. Interculturalism, Multiculturalism or Both?

Yn *Political Insight Magazine*. [Ar-lein] Ar gael:

<http://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/j.2041-9066.2012.00097.x/full> [Cyrchwyd ar 12.12.13]

Moldoveanu, M. 2007. De la dynamique entre l'offre de formation et les attentes des immigrants adultes en course de francisation au Québec. Yn Archibald, J. a Chiss, J-L. gol. *La langue et l'intégration des immigrants. Sociolinguistique, politiques linguistiques, didactiques*. Paris : L'Harmattan, tt. 117-135

Moore, R. 2010. The Welsh Assembly Government's Social Cohesion Strategy: A World Without Sociology? *Contemporary Wales* 23 (1), tt. 117-141

Morris, S.D. 2005. *Cymhellion a Llwyddiant Oedolion sy'n dysgu Cymraeg:*

Astudiaeth o gyrsiau dwys yn ninas Abertawe. Traethawd MPhil, Prifysgol Abertawe.

Morrow, L., V. 2011. *Nationalism, Ethnicity, and the Welsh Language: A study of minority ethno-linguistic identity in Cardiff*. Traethawd MPhil, Prifysgol Caerdydd.

Mühlhäusler, P. 2000. Language planning and language ecology. *Current Issues in Language Planning* 1(3), tt. 306-367

Newcombe, L. P. 2007. *Social context and fluency in L2 learners: The case of Wales*. Clevedon: Multilingual Matters

O' Rourke, B. & Pujolar. 2015. New Speakers and processes of new speakerness across time and space. *Applied Linguistics Review* 6 (2), tt. 145-150

O' Rourke, B., a Pujolar, J. 2014. [Ar-lein] New Speakers and processes of new speakerness across time and space, *Applied Linguistics Review*, 6(2). Ar gael:

<http://www.degruyter.com/view/j/alr.2015.6.issue-2/applirev-2015-0007/applirev-2015-0007.xml> [Cyrchwyd ar 08.08.15]

Oakes, L. 2004. Le français comme 'langue publique commune' au Québec. Yn *Globe: Revue internationale d'études québécoises* 7 (2), tt. 155-176.

Oakes, L. a Warren, J. 2007. *Language, citizenship and identity in Quebec*. Basingstoke: Palgrave Macmillan

Office for National Statistics. 2016. *Migration Statistics Quarterly Report* [Ar-lein]. ONS. Ar gael: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/internationalmigration/bulletins/migrationstatisticsquarterlyreport/february2016> [Cyrchwyd ar 13.02.16]

Pagé, M. 2006. Propositions pour une approche dynamique de la situation du français dans l'espace linguistique Québécois. Yn Georgeault, P a Pagé, M. gol *Le français, langue de la diversité Québécoise, Une réflexion pluridisciplinaire*. Montreal: Québec Amérique, tt. 27-76

Pagé, M. & Lamarre, P. 2010, L'intégration linguistique des immigrants au Québec, IRPP

Pagé M. 2011. *Politiques d'intégration et cohésion sociale*. Québec: Conseil supérieur de la langue française

Pagé, M. 2012. De la langue à la cohésion sociale autour d'une langue commune au Québec. Yn Conti, Virginie, De Pietro, Jean-François et Matthey, Marinette. gol. 2012. *Langue et cohésion sociale: Enjeux politiques et réponses de terrain*. Neuchâtel: Délégation à la langue française

Paget, A., a Stevenson, N. 2014. On speaking terms: *Making ESOL policy work better for migrants and wider society*. London: Demos. Ar gael: http://www.demos.co.uk/files/On_speaking_termsweb.pdf?1408395571 [Cyrchwyd ar 1.1.16]

Parekh, B. 2000. *Rethinking Multiculturalism*. Basingstoke: Palgrave Macmillan

Patten, A. 2014. *Equal Recognition: The Moral Foundations of Minority Rights*. Princeton: Princeton University Press

Pennycook, A. 2012. *Language and Mobility: Unexpected Places*. Bristol: Multilingual Matters

Piller, I. 2001. Who, if anyone, is a native speaker? *Anglistik. Mitteilungen Des Verbandes Deutscher Anglisten* 12(2), tt. 109-121.

Pinker, S. 1994. *The language instinct: The new science of language and mind*. London: Penguin UK.

Politics Cymru. 2011. *Amlddiwyllyannedd, hunaniaeth ac amrywiaeth* [Ar-lein]. Politics Cymru. Ar gael: <http://www.politicscymru.com/cy/cat6/article8/> [Cyrchwyd ar 20.11.13]

Pujolar, J. 2010. Immigration and language education in Catalonia: Between national and social agendas. *Linguistics and Education* 21, tt. 229-243.

Pujolar, J, a Puigdevall, M. 2015. Linguistic Mudes : How to become a new speaker in Catalonia, *International Journal of the Sociology of Language* 231, tt. 167-187

- Ralalathiana, M.C., Debeurme, G. a Vatz-Laaroussi, M., 2012. Trajectoire langagière et maintien en apprentissage des femmes immigrantes: francisation au Québec. *Appropriation du français par les migrants : Rôles des actions culturelles*. Paris: L'Harmattan. tt. 97-114
- Ralalathiana, M., C. 2015. *Trajectoires langagières de femmes immigrantes au Québec: étude qualitative auprès de femmes inscrites en francisation*. Traethawd PhD, Université de Sherbrooke
- Ramanathan, V. gol. 2013. *Language Policies and (Dis)Citizenship: Rights, Access, Pedagogies*. Bristol: Multilingual Matters
- Reason, P. a Bradbury, H. 2013. *The SAGE Handbook of Action Research Participatory Inquiry and Practice*. London : Sage Publications
- Renan, E. 1997. *Qu'est-ce qu'une nation?* Paris: Éditions Mille et une nuits.
- Rutter, J. 2015. *Moving Up and Getting On: Migration, integration and social cohesion in the UK*. Bristol: Policy Press.
- Scourfield, J. a Davies, A. 2005 Children's accounts of Wales as racialised and inclusive. *Ethnicities* 5 (1), tt. 83-107
- Selleck, C. 2012. *A Comparative Ethnographic Study of Students' Experiences and Perceptions of Language Ideologies in Bilingual Welsh/English Education: Inclusive Policy and Exclusionary Practice*. Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd
- Sen, A. 1993. Capability and well-being. Yn Nussbaum, Martha a Sen, Amartya. gol. *The quality of life*. Oxford: Clarendon Press
- Sen, A. 1999. *Development as Freedom*. Oxford: Oxford University Press
- Seymour, M. 1995. *La Nation en question*. Montreal: l'Hexagone
- Sheperd, M. 2012. A review of the evidence on health inequities and community cohesion with recommendations for strengthening the health assets approach [Ar-lein]. Public Health Wales. Ar gael:
<http://webcache.googleusercontent.com/search?q=cache:tITZ623XUKcJ:www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/HealthServiceQDtdocs.nsf/%28%24All%29/6F07F269BD4E4CC680257AoE003A7554/%24File/Assets%2520report%2520ofinal.doc%3FOpenElement+&cd=5&hl=en&ct=clnk&gl=uk> [Cyrchwyd ar 25.12.15]
- Simpson, J. a Whiteside, A. gol. 2015. *Adult Language Education and Migration: Challenging agendas in policy and practice*. Abington: Routledge
- Smith, A. 1991. *National Identity*. Nevada: University of Nevada Press
- Smith, K. 2015. Learning Welshness: Does the Curriculum Cymreig positively affect Pupils' Orientations to Wales and Welshness? *Education, Citizenship and Social Justice* 10 (3), tt. 199-216

Soler, J. 2012. The Anonymity of Catalan and the Authenticity of Estonian: two paths for the development of medium-sized languages. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 16 (2), tt. 153–163.

Soroka, S., Johnston, R. a Banting, K. 2007. Ties that Bind? Social cohesion and diversity in Canada. *IRPP*. Ar gael: <http://irpp.org/wp-content/uploads/2006/12/soroka.pdf> [Cyrchwyd ar 14.3.14]

Spiegel. 2010. *Integration: Merkel erklärt Multikulti für gescheitert* [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.spiegel.de/politik/deutschland/integration-merkel-erklaert-multikulti-fuer-gescheitert-a-723532.html> [Cyrchwyd ar 14.9.13]

Statiath 2015. *Mudo* [Ar-lein]. Ar gael: <http://statiath.com/blog/demograffeg/mudo/> [Cyrchwyd ar 2.9.15]

Stevenson, A. *ESOL and Citizenship: The End of an Era?* [Ar-lein] NIACE. Ar gael: <http://www.niace.org.uk/our-thinking/blog/esol-and-citizenship-end-era> [Cyrchwyd ar 1.10.15]

Swyddfa Gartref. 2002. *Secure Borders, Save Haven: Integration with Diversity in Modern Britain* [Ar-lein]. London: Swyddfa Gartref. Ar gael: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/250926/cm5387.pdf [Cyrchwyd 15.5.14]

Swyddfa Gartref. 2002. *Nationality, Immigration and Asylum Act 2002*. Swyddfa Gartref. [Ar-lein] London: Swyddfa Gartref. Ar gael: <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/41/contents> [Cyrchwyd 14.2.13]

Swyddfa Gartref. 2015. *Prove your knowledge of English for citizenship and settling*. [Ar-lein] London: Swyddfa Gartref. Ar gael: <https://www.gov.uk/english-language/approved-english-language-qualifications> [Cyrchwyd 14.2.15]

Sze, F. A Powell, D. 2004 gol. *Interculturalism: Exploring Critical Issues*. Oxford: Interdisciplinary Press

Tagesschau. 2008. *Multikulti oder deutsche Leitkultur?* [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.tagesschau.de/inland/meldung196654.html> [Cyrchwyd 8.2.13]

Taylor, C. 1992. The Politics of Recognition. Yn Gutmann, A. gol. *Multiculturalism and the Politics of Recognition*. Princeton: Princeton University Press, tt. 25-73.

Taylor, C. 2001. Cultural nation, political nation. In Venne. gol). *Vive Quebec! New Thinking and New Approaches to the Quebec Nation*. Wedi'i cyfeithu gan Chodos, R. A Blair, L. Toronto: James Lorimer and Company, tt. 19-26

Taylor, C. 2012. Interculturalism or Multiculturalism? *Philosophy Social Criticism* 38, tt. 413-438

Telegraph, 2011. *David Cameron: migration threatens our way of life* [Ar-lein]. Telegraph. Ar gael: <http://www.telegraph.co.uk/news/uknews/immigration/8449324/David-Cameron-migration-threatens-our-way-of-life.html> [Cyrchwyd 15.5.15]

- The Economist. 2007. In praise of multiculturalism [Ar-lein]. The Economist. Ar gael: <http://www.economist.com/node/9337695> [Cyrchwyd 16.12.13]
- Thomas, N. 2013. Yr ethnig, y sifig a'r gymuned ieithyddol wedi datganoli. Yn Brooks, S., a Roberts, G. gol. 2013. *Pa Beth Aethoch Allan I'w Achub? Ysgrifau i gynorthwyo'r gwrthsafiad yn erbyn dadfeiliad y Gymru Gymraeg*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch
- Threadgold, T., Clifford, S., Arwo, A., Powell, V., Harb, Z., Jiang, X. a Jewel, J. 2008. *Immigration and Inclusion in South Wales*. Cardiff: Joseph Rowntree Foundation.
- Triandafyllidou, A., Modood, T., Meer, N. gol. 2013. *European Multiculturalisms: Religious and Ethnic Challenges*. Edinburgh: Edinburgh University Press
- Tonkiss, K., E. 2013. Post-national citizenship without post-national identity? A case study of UK Immigration policy and intra-EU migration. *Journal of Global Ethics*, 9 (1), tt. 35-48
- UK Government. 2015. Extremism: PM speech. Ninestiles School, Birmingham, 20 Gorffennaf 2015. Ar gael: <https://www.gov.uk/government/speeches/extremism-pm-speech> [Cyrchwyd 16.9.15]
- UNESCO. 2001. Universal Declaration on Cultural Diversity [Ar-lein]. UNESCO. Ar gael: https://www.coe.int/t/dghl/monitoring/minorities/1_AtGlance/PDF_H%2895%2910_FCNI_M_ExplnReport_en.pdf [Cyrchwyd 16.12.15]
- Van Parijs, P. 2011. *Linguistic Justice for Europe and the World*. Oxford: Oxford University Press
- Vatz Laaroussi, M. 2009. *Mobilités, réseaux et résilience: le cas des familles immigrantes et réfugiées au Québec*. Québec: Presses de l'Université du Québec.
- Vertovec, S. 2007. Super-diversity and its Implications. *Ethnic and Racial studies* 30 (6), tt.1024-1054
- Vertovec, S. a Wessendorf, S. 2010. *The Multiculturalism Backlash*. London: Routledge
- Waldron, J. 1995. Minority cultures and the cosmopolitan alternative. In W. Kymlicka. gol. *The Rights of Minority Cultures*. Oxford: Oxford University Press, tt. 93-119
- Ward, C., V. 1991. The Limits of "Liberal Republicanism": Why group-based remedies and republican citizens don't mix'. *Columbia Law Review* 91 (3), tt. 581-607
- Wenger, E. 1998. *Communities of Practice: Learning, Meaning and Identity*. New York: Cambridge University Press
- Whistaler, V. 2013. Identity politics in the education system in South Tyrol: balancing between protection and the need to manage diversity. Yn *Studies in Ethnicity and Nationalism* 13, tt. 358-372
- Whistaler, V. a Öst, H. 2014 *Minorities and immigrants—frameworks of exclusion and inclusion in Åland and South Tyrol compared* [Ar-lein]. Åland Islands Peace Institute: Y

Ffindir. Ar gael: http://www.peace.ax/images/stories/pdf/Report_2_2014_online.pdf [Cyrchwyd 10.11.15]

Williams, C. 2005. "Can we live together?": Wales and the Multicultural Question yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*. *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* 11, tt. 216-230

Williams, C. a de Lima, P. 2006. Devolution, Multicultural Citizenship and Race Equality: From laissez-faire to Nationally Responsible Policies. *Critical Social Policy* 26 (3), t. 498-522

Williams, C., Evans, N. & O'Leary, P. (ed.) (2015). *A Tolerant Nation ? Revisiting Ethnic Diversity in a Devolved Wales*, Cardiff: University of Wales Press.

Williams, C., H. 2013. *Minority Language Promotion, Protection and Regulation: The Mask of Piety*. Basingstoke: Palgrave Macmillan

Williams, C. H. 2006. *Linguistic Minorities in Demographic Contexts*. Basingstoke: Palgrave Macmillan

Williams, D. G. 2015. *Wales Unchained: Literature, Politics and Identity in the American Century*. Cardiff: University of Wales Press

Williams, D. G. 2012. Single Nation, double logic: Ed Milliband and the problem with British multiculturalism [Ar-lein]. Open Democracy. Ar gael: <http://www.opendemocracy.net/ourkingdom/daniel-g-williams/single-nation-double-logic-ed-miliband-and-problem-with-british-multicu> [Cyrchwyd 10.11.12]

Williams. R. 1980. *Problems in materialism and culture*. New York: Verso

Wright, S. 2000. *Community and Communication: the role of language in nation-state building and European integration*. Clevedon: Multilingual Matters

Wright, S. 2015. What is language? A response to Philippe van Parijs. *Critical Review of International Social and Political Philosophy* 18 (2), tt. 113-130

Young, M. 1993. Together in difference: transforming the logic of group political conflict, Yn Squires, J. gol. *Principled Positions: Postmodernism and the Rediscovery of Value*, tt. 121-50. London: Lawrence and Wishart

Zapata-Barrero, R. 2013. *The three strands of intercultural policies: a comprehensive view*. Working Series Paper (17). Universitat Pompeu Fabra: GRITIM.

Zapata-Barrero, R. gol. 2015. *Interculturalism in Cities: Concept, Policy and Implementation*. Cheltenham: Elgar

Žižek, S. 1997. Multiculturalism, or the Cultural Logic of Multinational Capitalism. *New Left Review* [Ar-lein]. Ar gael: <http://newleftreview.org//225/slavoj-zizek-multiculturalism-or-the-cultural-logic-of-multinational-capitalism> [Cyrchwyd 2.4.14]

Žižek, S. 2011. Europe must move beyond mere tolerance. [Ar-lein] The Guardian, 27.1.11. Ar gael: <http://www.guardian.co.uk/commentisfree/2011/jan/25/european-union-slovenia> [Cyrchwyd 2.4.14]

ATODIADAU

Atodiad 1: Tabl Cyfweiliadau

	MYFYRWYR ESOL	MYFYWYR CIO	MYFYRWYR ESOL AR GYRSIAU CIO
CEFNDIR	<i>Bywgraffiad yr unigolyn—gwlad, ieithoedd, rhesymau dros symud i Gymru / Taith mudo i Gymru</i>	<i>Bywgraffiad yr unigolyn—gwlad, ieithoedd, rhesymau dros symud i Gymru / Taith mudo i Gymru</i>	<i>Bywgraffiad yr unigolyn—gwlad, ieithoedd, rhesymau dros symud i Gymru / Taith mudo i Gymru</i>
CWESTIWN CEFNDIROL	Argraffiadau cyntaf o Gaerdydd / Gymru a'r Gymraeg	Argraffiadau cyntaf o Gaerdydd / Gymru a'r Gymraeg	Argraffiadau cyntaf o Gaerdydd / Gymru a'r Gymraeg
CWESTIWN 1	I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o'r Gymraeg yng Nghaerdydd?	Pam dysgu Cymraeg?	Pam dysgu Cymraeg?
CWESTIWN 2	Pam dysgu Cymraeg?	Sut mae dysgu Cymraeg yn helpu chi yn eich bywyd cymdeithasol?	I ba raddau y mae'r Gymraeg yn cael ei integreiddio i mewn i gyrsiau ESOL?
CWESTIWN 3	Oes elw i ddysgu Cymraeg?	Sut a ble rydych chi'n defnyddio'r Gymraeg?	Ydy dysgu Cymraeg yn helpu chi i fyw yng Nghaerdydd / ym Mangor?
CWESTIWN 4	I ba raddau ydy'r Gymraeg yn cael ei hintegreiddio i mewn i gyrsiau ESOL?	Ydy dysgu Cymraeg yn cryfhau unrhyw deimlad o 'berthyn' i Gymru?	Ydy'r gwersi Cymraeg yn helpu i chi ddeall mwy am Gymru?
CWESTIWN 5	Fydech chi'n croesawu gwersi Cymraeg ac am ba resymau?	A ddylid cynnig gwersi Cymraeg ar yr un telerau â'r Saesneg?	Ble fyddwch chi'n mynd er mwyn clywed/siarad Cymraeg?
CWESTIWN 6	A ddylid cynnig gwersi Cymraeg ar yr un telerau â'r Saesneg?	Oes perthynas â siaradwyr Cymraeg eraill? Sut ydych chi wedi gwneud y cysylltiadau?	A ddylid cynnig gwersi Cymraeg ar yr un telerau â'r Saesneg?
CWESTIWN 7	Ydy'r Gymraeg yn eich helpu chi i integreiddio yng Nghymru?	Dych chi'n teimlo eu bod nhw yn eich derbyn chi fel aelod o'r gymuned Gymraeg?	Ydy siarad 'Cymraeg' yn eich gwneud yn fwy 'gymreig'?

	TIWTORIAID / SWYDDOGION ESOL	TIWTORIAID / SWYDDOOGION CIO	SWYDDOGION LLYWODRAETH CYMRU / CYNGHORAU LLEOL
CEFNDIR	<i>Bywgraffiad y tiwtor— gwreiddiau—perthynas a'r Gymraeg ac ieithoedd eraill.</i>	<i>Bywgraffiad y tiwtor— gwreiddiau— perthynas a'r Gymraeg ac ieithoedd eraill.</i>	/
CWESTIWN CEFNDIROL	Beth yw rôl y tiwtor ESOL?	Beth yw rôl y tiwtor CiO?	/
CWESTIWN 1	Ai Saesneg yw iaith cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru—yng Nghaerdydd ac ym Mangor?	Ai'r Gymraeg yw iaith cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru—yng Nghaerdydd neu yn y Gogledd?	I ba raddau mae'r polisiau yn hyrwyddo amlieithrwydd?
CWESTIWN 2	I ba raddau y mae'r Gymraeg yn cael ei hintegreiddio i gyrsiau ESOL?	Beth yw'r rhwystrau a chyfleoedd wrth ddysgu Cymraeg i fewnfudwyr a lleiafrifoedd ethnig?	Beth yw safbwynt y Llywodraeth ar fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg?
CWESTIWN 3	Ydy 'taith ieithyddol yr unigolyn' yn rhywbeth mae'r athrawon ESOL yn ei chefnogi neu yn ymwybodol ohoni?	Ydy 'taith ieithyddol yr unigolyn' yn rhywbeth mae'r athrawon CiO yn ei chefnogi neu yn ymwybodol ohoni?	I ba raddau y mae polisiau yn cysylltu'r Gymraeg ac integreiddio 'newydd- ddyfodiaid' i mewn i'r gymdeithas?
CWESTIWN 4	Beth yw eu hagweddau nhw at fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg?	Beth yw eu hagweddau nhw at fewnfudwyr yn dysgu Cymraeg?	A ddylid creu polisiau penodol ar gyfer mewnfudwyr yn dysgu Cymraeg (ac yr un telerau a dysgu Saesneg)?
CWESTIWN 5	Ydy athrawon ESOL yn hybu'r iaith Gymraeg a Chymreictod? Oes unrhyw ofyniad i fonitro cynnydd yn y Gymraeg?	Ydy'r cyrsiau wedi'u haddasu ar gyfer siaradwyr o ieithoedd eraill?	All polisiau ar y Gymraeg + gydlyniant cymdeithasol greu dinasyddion 'rhyngddiwylliannol'?
CWESTIWN 6	/	A ellid dysgu Cymraeg drwy'r Gymraeg yn unig?	/
CWESTIWN 7	A ddylid cynnig gwersi Cymraeg ar yr un telerau â'r Saesneg?	A ddylid cynnig gwersi Cymraeg ar yr un telerau â'r Saesneg?	/

Atodiad 2: Ffurflen Gwerthuso Dysgu Nodiadau ar ôl y wers

Dyddiad:

Lleoliad:

Enw Grŵp:

Uned:

Enw tiwtor y dosbarth:

Nodiadau am y dosbarth

Cwestiwn ymchwil 2

Ydy dysgu Cymraeg i fewnfudwyr yn hwyluso cydlyniant
cymdeithasol?

Themâu Ymchwil

amlddiwylliannedd

rhyngddiwylliannedd

amlieithrwydd

gwerth economaidd

gwerth cymdeithasol

perthyn i gymuned


perthyn i genedl

dinasyddiaeth


defnydd iaith yn y gymuned

cydlyniant cymunedol

1. Beth ddysgodd y myfyrwyr am Gymru a'r Gymraeg?




2. A oedd y myfyrwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gynnwys y gwersi Cymraeg?
Pa gynnwys/deunydd oedd o werth mwyaf i'r myfyrwyr?




3. Beth oedd y cwestiynau / sylwadau a chodir yn sgil cynnwys y wers?



4. Pa gynnydd ieithyddol sydd i'w weld o'r wers ddiwethaf? Sut mae hyn yn effeithio ar gymhellant yn y dosbarth?



5. Pa gamau oedd yn ceisio pontio dysgu Cymraeg gyda byw yn y gymuned?




6. Pa themâu ymchwil eraill a gododd yn sgil y wers?



Nodiadau Adfyfyriol


1. Pa ddeunydd/dulliau oedd fwyaf effeithiol wrth ddysgu Cymraeg i ESOL ?




2. I ba raddau oedd angen teilwra'r cyrsiau i gynudlleidfa aml-ethnig/ieithog?




3. Ydy'n bosib cyflwyno diwylliant yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth?



4. A yw fy mewnbwn i fel aelod o'r gymuned groeso yn codi cwestiynau ynghlwm â'r themâu ymchwil? Sut?




5. I ba raddau y mae'r gwersi iaith yn cynyddu deallwriaeth am Gymru? Sut?



6. Sut ydw i'n ystyried fy rôl wrth i'r myfyrwyr ddatblygu sgiliau iaith ac agweddau tuag at y Gymraeg?



7. Beth fyddaf yn ei newid / ei ddatblygu erbyn y wers nesaf?



8. Nodiadau ychwanegol



Ffurflen Arsyllwadau Cyfranogol

Mae'r adran hon i'w llenwi ar ôl yr arsyllwadau cyfranogol

Dyddiad:

Lleoliad:

Enw Grŵp:

Enw tiwtor dosbarth:

Nodiadau am y dosbarth:

Cwestiwn ymchwil 2

Ydy dysgu Cymraeg i fewnfudwyr yn hwyluso cydlyniant
cymdeithasol

amlddiwylliannedd

rhyngddiwylliannedd

amlieithrwydd

gwerth economaidd

gwerth cymdeithasol

perthyn i gymuned

perthyn i genedl

dinasyddiaeth


defnydd iaith yn y gymuned

cydlyniant cymunedol

1. Beth oedd cynnwys y wers?




2. A oedd yna elfen / cyfeiriad at Gymru/ y Gymraeg yn y deunydd ESOL?



3. Sut oedd myfyrwyr yn ymateb i'r deunydd hynny?



4. Sut oedd y tiwtor yn cyfleu deunydd ESOL o gymharu â'r deunydd Cymraeg?



5. Pa themâu ymchwil a oedd yn dod i'r golwg?

